

Unedau

Dalier sylw: Lluniwyd y cymhwyster hwn ar gyfer dysgwyr yn y Deyrnas Unedig. Dylai canolfannau y tu allan i Loegr nodi bod rhywfaint o'r cynnwys wedi'i seilio ar enghreifftiau sy'n benodol i Loegr, ac adlewyrchir hynny yn y profion ar y cynnwys hwnnw. Ni fydd y profion yn ymdrin ag amrywiadau i'r cynnwys hwn yng Nghymru, Gogledd Iwerddon, yr Alban a gwledydd eraill.

Yn y ddogfen hon ceir cynnwys unedau Tystysgrif, Tystysgrif Estynedig a Diploma Pearson BTEC Cyntaf Lefel 1/Lefel 2 mewn Gwasanaethau Cyhoeddus, wedi'i gyfieithu i'r Gymraeg i gefnogi addysgu ac asesu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Beth sydd ar gael i bob uned yn Gymraeg?

Yn achos pob uned, fe gewch yr wybodaeth angenrheidiol i addysgu'r cymhwyster BTEC hwn trwy gyfrwng y Gymraeg:

- cyflwyniad
- nodau dysgu
- meini prawf asesu
- arweiniad i athrawon.

Ble galla i gael hyd i weddill y fanyleb?

I gael gwybodaeth ac arweiniad ar y cymhwyster cyfan, gan gynnwys:

- strwythur a rhesymeg y cymhwyster a'r unedau
- cyflwyno'r rhaglen a recriwtio iddi
- asesu mewnol ac allanol
- sicrhau ansawdd
- graddio ac ardystio

bydd angen i chi gyfeirio at y fanyleb Saesneg, sydd ar gael ar y wefan ochr yn ochr â'r ddogfen hon (www.btec.co.uk/firsts).

Gweler hefyd www.btec.co.uk/keydocuments am y rheolau asesu diweddaraf.

Pa gefnogaeth sydd ar gael?

Os bydd angen rhagor o gefnogaeth arnoch chi, mae croeso i chi gysylltu â'n timau gwasanaethau addysgu. Cewch hyd i'r holl fanylion cyswllt angenrheidiol yn www.edexcel.com/contactus.

Uned 1: Rôl a Gwaith y Gwasanaethau Cyhoeddus

Lefel: 1 a 2

Math o uned: **Craidd**

Oriau dysgu dan arweiniad: **30**

Dull asesu: **Allanol**

Cyflwyniad i'r uned

Fyddwch chi weithiau'n meddwl sut mae eich sbwriel yn cael ei gasglu bob wythnos, pwy sy'n cynnal ein ffyrdd a'n strydoedd ac yn darparu goleuadau stryd, sut rydych chi'n gallu mynd i'r ysgol bob dydd ac elwa o dderbyn addysg, sut rydych chi'n gallu mynd at y meddyg i gael triniaeth pan fyddwch chi'n sâl, neu sut rydych chi'n cael eich amddiffyn rhag trosedd?

Mae llawer o sefydliadau sector cyhoeddus gwahanol yn y DU sy'n darparu amrywiaeth enfawr o wasanaethau ar ein cyfer. Mae'r gwasanaethau hyn yn cael eu darparu mewn amrywiaeth o ffyrdd a hynny gan sefydliadau unigol gwasanaethau cyhoeddus ac mewn partneriaeth gydag eraill, yn cynnwys sefydliadau o'r sectorau preifat a gwirfoddol/trydydd sector.

Bydd yr uned hon yn eich galluogi i archwilio sut mae'r gwasanaethau cyhoeddus wedi eu grwpio a'u rolau a'u gwaith. Byddwch yn dysgu am y ffyrdd y mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu hariannu, a sut y maen nhw'n cael eu darparu. Byddwch hefyd yn dysgu sut mae cyllido'n effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau a sut mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu dal yn atebol.

Mae sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus yn y DU yn darparu gwasanaethau yn lleol ac yn genedlaethol. Mae darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus yn cynnwys cyfraniadau gan sefydliadau'r sector preifat a gwirfoddol/trydydd sector yn gweithio mewn partneriaeth gyda gwasanaethau cyhoeddus er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cynllunio a'u darparu i gwrdd ag anghenion y cyhoedd.

Trethiant yw prif ffynhonnell ar gyfer cyllido gwasanaethau cyhoeddus y DU o hyd, ond caiff hwn ei gefnogi gan amrywiaeth o ffynonellau eraill megis gwasanaethau cyhoeddus yn codi ar y cyhoedd am y gwasanaethau y maen nhw'n eu darparu a gwneud ceisiadau am gyllid penodol gan gyrrff megis y Loteri Genedlaethol a'r Undeb Ewropeaidd.

Mae newidiadau mewn cyllido'n cael effaith ar y gwasanaethau sy'n gallu cael eu darparu, ac mae gwasanaethau cyhoeddus y DU yn atebol i'r llywodraeth a'r cyhoedd am y gwaith maen nhw'n ei wneud. Rydym i gyd eisiau bod yn siŵr fod yr arian sy'n cael ei godi drwy drethu unigolion a sefydliadau'n cael ei ddefnyddio'n ddoeth.

Nodau dysgu

Yn yr uned hon byddwch yn:

A archwilio'r gwasanaethau cyhoeddus a'u gwaith

B deall sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu.

Beth sydd angen ei ddysgu**Nod dysgu A: Archwilio'r gwasanaethau cyhoeddus a'u gwaith****Testun A.1 Grwpio a phwrpas y gwasanaethau cyhoeddus**

Deall sut mae'r sector gwasanaethau cyhoeddus wedi'i strwythuro, y mathau o wasanaethau cyhoeddus yn y sector a'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu ganddyn nhw:

- gwasanaethau brys (gwasanaethau golau glas) – y prif wasanaethau yw'r heddlu, tân ac achub ac ambiwlans.
- lluoedd arfog – yn cynnwys y Fyddin Brydeinig, y Llynges Frenhinol, y Llu Awyr Brenhinol, wedi'u cefnogi gan y Fyddin Dirioogaethol, Milwyr wrth Gefn y Llynges Frenhinol, Milwyr wrth Gefn y Llu Awyr Brenhinol
- awdurdodau lleol – yn cynnwys cynghorau dinas, cynghorau tref, cynghorau sir, cynghorau unedol
- llywodraeth ganolog – yn cynnwys cyfrifoldeb dros drafnidiaeth, addysg, yr amgylchedd, iechyd, busnes a sgiliau, a pherthynas â gwledydd eraill
- gwasanaethau'r sector gwirfoddol/trydydd sector:
 - gweithredu fel gwasanaethau brys neu ddarparu cefnogaeth ar eu cyfer – yn cynnwys gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub (RNLI), Timau Achub Mynydd, y Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol, y Groes Goch, Ambiwllans Sant Ioan
 - cefnogi gwasanaethau cymdeithasol (Y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC), Shelter)
 - cefnogi iechyd (Sefydliad Prydeinig y Galon, Ymchwil Canser)

Mae pwrpas pob grŵp o wasanaethau cyhoeddus yn cynnwys:

- gwasanaethau brys (gwasanaethau golau glas) –
 - ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i ddigwyddiadau, damweiniau neu achosion brys
 - atal digwyddiadau (troseddu, anhrefn cyhoeddus, tanau, damweiniau ac anafiadau)
- lluoedd arfog –
 - amddiffyn y DU
 - cefnogi dyletswyddau cadw heddwch rhyngwladol
 - cefnogi'r awdurdodau sifil
- awdurdodau lleol –
 - darparu gwasanaethau cyhoeddus i ardaloedd daearyddol penodol yn cynnwys addysg, gwasanaethau cymdeithasol, amddiffyn plant, hamdden, gwasanaethau amgylcheddol, isadeiledd
- llywodraeth ganolog –
 - gweinyddu gwaith adrannau ac asiantaethau'r llywodraeth; adrodd i weinidogion y llywodraeth
- gwasanaethau'r sector gwirfoddol/trydydd sector –
 - gweithio gyda sefydliadau'r sector cyhoeddus; cefnogi gwaith sefydliadau'r sector cyhoeddus (gwasanaethau di-argyfwng, gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cyfiawnder), yn cael eu darparu'n bennaf gan wirfoddolwyr.

parhad

Beth sydd angen ei ddysgu**Testun A.2 Gwaith a chyfrifoldebau'r gwasanaethau cyhoeddus**

Deall sut a pham mae sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus yn darparu gwasanaethau:

- cyfrifoldebau statudol: mae cyfraith yn galw am ddarparu gwasanaethau cyhoeddus
- gwasanaethau anstatudol: darparu gwasanaethau ychwanegol, sut mae gwaith o'r fath yn helpu'r sefydliad i gyflawni ei bwrpas
- gwasanaethau wedi'u contractio allan, yn statudol neu'n anstatudol: wedi'u contractio gyda'r sector preifat/gwirfoddol/trydydd sector ar gyfer darparu gwasanaeth cyhoeddus penodol.

Deall gwahanol waith a phwrpas y gwasanaethau cyhoeddus canlynol:

- gwasanaethau addysg a hyfforddiant, wedi'u goruchwyllo gan yr Adran Addysg (DfE) a'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau (BIS): wedi'u darparu ar gyfer pob oedran a rhan o'r boblogaeth, ysgolion i blant rhwng 5 a 18 oed, colegau i rai yn eu harddegau ac oedolion, prifysgolion i rai dros 18 oed, gwasanaethau hyfforddi i gefnogi cyflogaeth a chyflogwyr.
- y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG), wedi'i oruchwyllo gan yr Adran Iechyd (DH) (*yn Lloegr*) – yn cynnwys ysbytai, clinigau, meddygon teulu, deintyddiaeth, gwasanaethau optegol
- gwasanaethau iechyd cyhoeddus – yn cynnwys gwybodaeth/cyngor/ymgyrchoedd
- amddiffyn, dan oruchwyliaeth y Weinyddiaeth Amddiffyn (MoD): lluoedd arfog i warchod ffiniau
- Y Swyddfa Gartref – yn gyfrifol am Asiantaeth Ffiniau'r DU, sy'n monitro mewnfudo
- Y Trysorlys – yn gyfrifol am Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi, sy'n monitro nwyddau yn dod i mewn ac yn gadael y DU
- gwasanaethau cymdeithasol, dan oruchwyliaeth adrannau llywodraeth leol a chanolog: gyda dyletswyddau statudol i amddiffyn plant ac oedolion hawdd eu niweidio
- gwasanaethau hamdden a threftadaeth wedi'u darparu gan awdurdodau cenedlaethol a lleol, a sefydliadau elusennol: cyfleusterau a gweithgareddau chwaraeon, gweithgareddau diwylliannol, cerddoriaeth, theatr, llyfrgelloedd, amgueddfeydd ac orielau celf
- gwasanaethau amddiffyn y gymuned wedi'u darparu gan yr heddlu, mewn cydweithrediad â gwasanaethau cyhoeddus eraill – yn cynnwys awdurdodau lleol ac iechyd yr amgylchedd. Mae'r heddlu hefyd yn gweithio gyda gwasanaethau gwirfoddol i amddiffyn cymunedau rhag niwed, trosedd, trychinebau, damweiniau a digwyddiadau
- cyfiawnder: delio gyda materion troseddol a sifil, llysoedd, yr heddlu, gwasanaethau erlyn, gwasanaethau cyfreithiol, gwasanaethau sy'n gorfodi penderfyniadau'r llysoedd, carcharau, gwasanaethau prawf, mudiadau gwirfoddol
- gwasanaethau gwarchod yr amgylchedd: yn cael eu darparu gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra), sy'n gweithio i leihau llygredd a gwastraff yn ogystal ag ymateb i argyfyngau megis llifogydd.

parhad

Beth sydd angen ei ddysgu**Testun A.3 Yr angen i'r gwasanaethau cyhoeddus weithio gyda'i gilydd**

Deall yr angen i'r gwasanaethau cyhoeddus weithio gyda'i gilydd, manteision gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd, pam mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd i gwrdd â'u hamcanion, sut mae hyn yn effeithio ar y gwasanaethau y maen nhw'n eu darparu, a chanlyniadau peidio â gweithio gyda'i gilydd.

- Sut mae effeithiolrwydd a'r defnydd gorau o adnoddau ar draws sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu hyrwyddo drwy'r canlynol:
 - cynllunio a chydlynu gweithgareddau
 - gweithio mewn tîm, gwneud y defnydd gorau o arbenigedd pob sefydliad.
- Rhannu gwybodaeth a dealltwriaeth; cydlynu digwyddiadau ar raddfa fach a digwyddiadau mawr, rhai wedi eu cynllunio a rhai heb eu cynllunio posibl, er mwyn mynd i'r afael â materion:
 - dilyniant busnes a bywyd o ddydd i ddydd
 - defnyddio adnoddau yn effeithiol
 - iechyd a diogelwch y cyhoedd
 - atal troseddu a therfysgaeth.
- Sut mae gweithio gyda'i gilydd yn hwyluso rheoli digwyddiadau er mwyn:
 - asesu'r sefyllfa
 - cydlynu gwasanaethau achub
 - darparu gofal meddygol brys
 - sicrhau bod lleoliad y digwyddiad wedi'i warchod
 - cadw'r cyhoedd i ffwrdd o'r lleoliad i sicrhau nad yw'r gwaith achub yn cael ei rwystro
 - lleddfu'r effaith ar y gymuned ehangach.
- Adnabod a sefydlu llwybrau cyfathrebu er mwyn sicrhau bod:
 - gorchmynion a chyfarwyddiadau'n cael eu trosglwyddo'n gyflym ac yn gywir
 - arweinwyr yn cael clywed am unrhyw ddatblygiadau
 - systemau cyfathrebu megis setiau radio yn cydweddu
 - gwybodaeth yn gallu cael ei rhoi i bobl heb fod yn y lleoliad ond sydd â diddordeb (e.e. teuluoedd, y wasg).
- Sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd:
 - i reoli gwariant
 - i gwrdd ag amcanion y sefydliad gwasanaethau cyhoeddus ei hun
 - i gwrdd â mesurau perfformio sy'n cael eu gosod gan y llywodraeth
 - i wario arian cyhoeddus yn ddoeth.
- Effeithiau negyddol yn deillio o fethiant gwasanaethau cyhoeddus i weithio gyda'i gilydd:
 - perfformiad aneffeithiol
 - diffyg cydlyniad
 - defnydd aneffeithiol o gyllido
 - diffyg atebolrwydd.

Beth sydd angen ei ddysgu**Nod dysgu B: Deall sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu****Testun B.1 Sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu**

Deall sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu a manteision ac anfanteision y modelau darparu canlynol:

- darpariaeth sector cyhoeddus gan wasanaeth cyhoeddus penodol: mae'r gwasanaeth cyhoeddus yn cymryd cyfrifoldeb dros y gwasanaeth y mae'n ei ddarparu
- darpariaeth gan y sector preifat/sector gwirfoddol/trydydd sector: gwasanaeth cyhoeddus cyfrifol yn contractio gyda chwmni preifat, cymryd rhan mewn tendro, ceisiadau cystadleuol/tendro gwasanaethau
- darpariaeth mewn partneriaeth: partneriaethau preifat, cyhoeddus, gwirfoddol/trydydd sector
- manteision modelau darpariaeth mewn partneriaeth: rhannu arbenigedd, rhannu costau, gwell effeithiolrwydd, rhannu gwybodaeth
- anfanteision modelau darpariaeth mewn partneriaeth:
 - cost sefydlu partneriaethau
 - cyfathrebu gwael
 - cydlynu'r sefydliadau sy'n aelodau
 - y gwasanaeth cyhoeddus sy'n cadw atebolrwydd os yw'r bartneriaeth yn aflwyddiannus
 - blaenoriaethau'n gwrthdaro gyda sefydliadau sector cyhoeddus a phreifat.

Testun B.2 Sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu cyllido

Deall yr amrywiaeth o ffyrdd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu cyllido a manteision ac anfanteision y dulliau hynny i sefydliadau:

- gwasanaethau brys (golau glas) wedi'u cyllido gan lywodraeth ganolog, awdurdodau lleol, drwy gyfraniadau preifat
- lluoedd arfog: wedi'u cyllido'n uniongyrchol gan lywodraeth ganolog
- llywodraeth ganolog: trethu unigolion a sefydliadau, treth ar nwyddau a gwasanaethau (Treth Ar Werth)
- awdurdodau lleol: codi Treth y Cyngor ar gartrefi, trethi busnes yn cael eu codi ar fusnesau yn yr ardal, ffioedd a thaliadau am ddefnyddio gwasanaethau ac adeiladau
- partneriaethau cyhoeddus-preifat: y sector cyhoeddus a'r sector preifat yn cyllido cyfleusterau a gwasanaethau
- gwasanaethau wedi'u contractio allan: mae'r gwasanaeth cyhoeddus yn cyllido sefydliad sector preifat neu wirfoddol/trydydd sector i ddarparu gwasanaethau, mae'r gwasanaeth cyhoeddus yn dal i fod yn atebol am ddarparu'r gwasanaeth
- codi tâl uniongyrchol am ddefnyddio gwasanaethau: talu ffioedd am barcio ceir, rhent tai, defnyddio cyfleusterau hamdden, talu am bresgripsiwn GIG (*yn Lloegr*), talu am wasanaethau deintydd ac optegydd, talu am addysg bellach ac addysg uwch
- sector gwirfoddol/trydydd sector: cyfraniadau a nawdd gan unigolion a sefydliadau, digwyddiadau codi arian, cymynroddion, ewyllysiau.

parhad

Beth sydd angen ei ddysgu

Testun B.3 Effaith cyllido ar ddarpariaeth gwasanaethau

Deall effaith cyllido ar ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus:

- sut mae cyllido'n pennu lefel, graddau ac ansawdd y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu
- newidiadau cyllido'n arwain at newidiadau yn y ddarpariaeth o wasanaethau statudol ac anstatudol
- yr angen am godi tâl am wasanaethau sy'n cael eu darparu gan sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus
- pam mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu clustnodi i unigolion mewn gwahanol ffyrdd, yn cynnwys mynediad cyffredinol, profion modd, codi tâl.

Testun B.4 Atebolrwydd mewn darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus

Deall sut a pham mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn atebol am eu darpariaeth, ac i bwy:

- ystyr a phwrpas atebolrwydd, cyfrifoldeb dros weithredoedd a phenderfyniadau, rhwymedigaeth i esbonio gweithredoedd, bod yn agored i graffu cyhoeddus a hyrwyddo hyder cyhoeddus, sicrhau tryloywder
- atebolrwydd dros arian a chyllidebau, darparu gwasanaethau, cydymffurfio cyfreithiol
- atebolrwydd i lywodraeth, y senedd, rheolyddion, y cyhoedd.

Arweiniad i athrawon

Adnoddau

Nid oes angen unrhyw adnoddau arbennig ar gyfer yr uned hon.

Canllaw asesu

Bydd yr asesiad allanol ar gael o fis Mehefin 2015.

Bydd yr asesiad allanol yn cael ei osod a'i farcio gan Pearson. Bydd yr asesiad yn cynnwys amrywiaeth o brofion gwrthrychol, cwestiynau atebion byr a chwestiynau ysgrifennu estynedig. Mae pob cwestiwn yn orfodol.

Bydd yr asesiad yn werth cyfanswm o 50 marc a bydd yn para am 1 awr.

Uned 2: Sgiliau Gwaith yn y Sector Gwasanaethau Cyhoeddus

Lefel: 1 a 2

Math o uned: **Craidd**

Oriau dysgu dan arweiniad: **30**

Dull asesu: **Mewnol**

Cyflwyniad i'r uned

Dychmygwch eich bod yn y fyddin yn gweithio dramor a'ch bod yn rhan o waith cadw heddwch. Sut fyddech chi'n goresgyn y problemau iaith a'r gwahaniaethau diwylliannol? Tasech chi'n weithiwr cyngor, sut fyddech chi'n cefnogi cwsmer yn eich swyddfa fyddai angen llenwi gwaith papur?

Mae gwahanol wasanaethau cyhoeddus yn delio gyda'u cwsmeriaid mewn ffyrdd gwahanol, gan fod gwaith pob gwasanaeth cyhoeddus yn wahanol. Fodd bynnag, yr hyn sydd ganddyn nhw i gyd yn gyffredin yw'r defnydd o sgiliau i gwrdd ag anghenion cwsmeriaid unigol wrth weithio gyda chwsmeriaid o wahanol gefndiroedd.

Cefnogi'r cyhoedd yw prif nod y gwasanaethau cyhoeddus, felly yr allwedd yw eich rôl a sut y byddwch yn ei gwblhau. Yn y gwasanaethau cyhoeddus gallech fod yn gweithio mewn swyddi lle mae angen i chi weithredu'n gyflym i achub bywyd, neu i helpu rhywun mewn angen. Efallai y byddai rhaid i chi weithio gyda chydweithwyr nad ydych yn eu hadnabod er mwyn datrys gwrthdaro cyn i bethau fynd allan o reolaeth.

Bwriad yr uned hon yw rhoi dealltwriaeth i chi o gwsmeriaid gwasanaethau cyhoeddus a'r sgiliau gwaith y mae personél gwasanaethau cyhoeddus yn eu defnyddio i gwrdd ag anghenion eu cwsmeriaid. Bydd hefyd yn rhoi'r cyfle i chi archwilio pwysigrwydd cael sgiliau gwaith effeithiol. Bydd yr uned hon yn rhoi'r offer sydd eu hangen arnoch chi i ddelio gydag amrywiaeth o sefyllfaoedd yn effeithiol ac yn hyderus. Gorau arf arfer medd y ddihareb, felly fe gewch gyfle i ddatblygu eich sgiliau gwaith mewn amrywiaeth o wahanol weithgareddau.

Nodau dysgu

Yn yr uned hon byddwch yn:

- A archwilio sgiliau gwaith sy'n cael eu defnyddio yn y sector gwasanaethau cyhoeddus
- B arddangos sgiliau gwaith sy'n cael eu defnyddio yn y sector gwasanaethau cyhoeddus

Nodau dysgu a chynnwys yr uned

Beth sydd angen ei ddysgu
<p>Nod dysgu A: Archwilio sgiliau gwaith sy'n cael eu defnyddio yn y sector gwasanaethau cyhoeddus</p> <p>Testun A.1 Cwrdd ag anghenion cwsmeriaid gwasanaethau cyhoeddus</p> <p>Mae angen addasu sgiliau gwaith i gwrdd ag anghenion cwsmeriaid unigol wrth ddelio gyda gwahanol fathau o gwsmeriaid. Mae'r gwahanol fathau o gwsmeriaid yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cwsmeriaid mewnol allweddol i wasanaethau cyhoeddus lleol a chenedlaethol – <ul style="list-style-type: none"> ○ cyd-weithwyr ○ goruchwylwyr ac uwch reolwyr ○ staff mewn sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus eraill • cwsmeriaid allanol allweddol i wasanaethau cyhoeddus lleol a chenedlaethol – <ul style="list-style-type: none"> ○ defnyddwyr gwasanaethau presennol neu rai newydd ○ gwahanol grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaethau, e.e. unigolion, teuluoedd, busnesau, categorïau oed, diwylliant/ethnigrwydd, rhai ag anghenion ychwanegol. <p>Testun A.2 Sgiliau gwaith o fewn grwpiau sector gwasanaethau cyhoeddus</p> <p>Rhaid i'r gwasanaethau cyhoeddus ddelio'n effeithiol gyda chwsmeriaid mewn gwahanol fathau o grwpiau gwasanaethau cyhoeddus, gyda gofynion ac anghenion cwsmeriaid amrywiol. Y grwpiau hyn yw gwasanaethau brys (gwasanaethau golau glas), lluoedd arfog, llywodraeth leol, llywodraeth ganolog, sector gwirfoddol/trydydd sector.</p> <p>Defnyddio sgiliau cyfathrebu priodol gyda chwsmeriaid gwasanaethau cyhoeddus, yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • siarad, e.e. defnyddio iaith briodol, tŷn, traw, cyflymder, osgoi defnyddio jargon wrth weithio gyda chwsmeriaid adran o'r llywodraeth neu gyda'r cyhoedd ar weithgareddau cadw heddwch • sgiliau gwrando, e.e. gofyn cwestiynau priodol i gwsmeriaid, talu sylw, adrodd gwybodaeth bwysig yn ôl i gwsmeriaid, megis meddyg mewn ysbyty neu'r heddlu yn ystod ymchwiliad • iaith y corff, e.e. osgo, mynegiant wyneb, ystumiau dwylo, cyswllt llygad priodol megis yr un gaiff ei ddefnyddio pan mae iaith yn gallu bod yn rhwystr • arddulliau cyfathrebu, e.e. wyneb yn wyneb, ar y ffôn, yn ysgrifenedig (llythyr, e-bost, ffacs), mater brys, mater nad yw'n frys, anodd, arferol, yn cael ei ddefnyddio'n briodol gan wasanaethau i gyfathrebu gwybodaeth i gwsmeriaid • sgiliau ysgrifennu'n cael eu defnyddio'n briodol gan y gwasanaethau, e.e. cynnal cofnodion sy'n cael eu cadw gan ymwelwyr iechyd i blant dan bump oed • dehongli gwybodaeth ysgrifenedig, e.e. dehongli canlyniadau ymchwil ar gyfer holiaduron sy'n cael eu cynnal gan y cyngor lleol ar gyfer y gymuned leol • priodoldeb arddull cyfathrebu i'r sefyllfa, e.e. taflenni'r heddlu am drosedd diweddar yn yr ardal. <p>Mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn defnyddio gwaith tîm yn eu gwaith o ddydd i ddydd ac yn gweithio'n gydweithredol gyda gwasanaethau cyhoeddus eraill. Nodweddion timau ac aelodau tîm effeithiol yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> • bod â rôl wedi'i diffinio'n glir o fewn y tîm • parchu, deall a bod yn ymwybodol o wahaniaethau o fewn tîm, e.e. diwylliannol, anghenion arbennig <p style="text-align: right;"><i>parhad</i></p>

Beth sydd angen ei ddysgu

- dangos tegwch ac ystyriaeth i bobl eraill
- delio gyda newid a'i reoli
- bod â mesurau wrth gefn yn eu lle rhag ofn i bethau beidio mynd yn ôl y disgwyl
- cytuno ar, gosod a monitro cyflawniad safonau gofynnol, e.e. sgiliau cyfathrebu i'w defnyddio, ymddygiad sy'n ddisgwyliedig tuag at bobl eraill, ansawdd trefnau gwaith, cysondeb gwasanaeth cwsmeriaid, safonau iechyd a diogelwch, prydlondeb, safonau ymddangosiad personol
- gweithio tuag at nod cyffredin y cytunwyd arno, hyd yn oed mewn timau o bobl sydd â safbwyntiau gwahanol.

Ymysg y sgiliau gwaith eraill sy'n cael eu defnyddio gan y gwasanaethau cyhoeddus mae:

- sgiliau galwedigaethol sy'n perthyn i rôl y gwaith a'r gwasanaeth cyhoeddus penodol, e.e. delio gyda gwrthdaro, delio gyda'r cyhoedd
- sgiliau personol, e.e. tact, doethineb, cyfrinachedd, ymddygiad priodol, amynedd, gonestrwydd, cyfeillgarwch
- sgiliau rhyngpersonol, e.e. agwedd gadarnhaol, ymddygiad priodol, iaith y corff.

Nod dysgu B: Arddangos sgiliau gwaith sy'n cael eu defnyddio yn y sector gwasanaethau cyhoeddus**Testun B.1 Defnyddio sgiliau tîm a sgiliau gwaith yn y sector gwasanaethau cyhoeddus**

- Defnyddio sgiliau gwaith yn y sector gwasanaethau cyhoeddus drwy waith tîm:
 - cymryd rhan mewn ymarferion adeiladu tîm, e.e. taith gerdded ddall, hedfan balwnau
- Defnyddio sgiliau gwaith yng nghyd-destun sefyllfaoedd allai godi yn y gwasanaethau cyhoeddus gan ddefnyddio efelychiadau yn y grwpiau gwasanaeth canlynol:
 - gwasanaethau brys, e.e. damweiniau ffordd
 - lluoedd arfog, e.e. terfysgoedd cyhoeddus
 - awdurdod lleol, e.e. cwsmer yn cwyno am newid mewn budd-daliadau
 - llywodraeth ganolog, e.e. datblygu deddfwriaeth yn y senedd
 - gwasanaethau gwirfoddol, e.e. stiwardio mewn gŵyl awyr agored.

Testun B.2 Adolygu perfformiad defnyddio sgiliau gwaith drwy waith tîm

- Adnabod cryfderau a meysydd ar gyfer gwella, e.e. sgiliau a ddefnyddiwyd sy'n benodol i'r gweithgaredd, a sgiliau heb fod yn benodol, yn cynnwys sgiliau personol, rhyngpersonol a chyfathrebu.
- Cynnal hunan-ddadansoddiad, e.e. llenwi rhestr wirio arsylwi, dadansoddiad SWOT, adolygu fideo i gefnogi cwblhau'r gwaith papur.

Meini prawf asesu

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
Nod dysgu A: Archwilio sgiliau gwaith sy'n cael eu defnyddio yn y sector gwasanaethau cyhoeddus			
1A.1 Adnabod cwsmeriaid mewnol ac allanol dau wasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol.	2A.LI1 Disgrifio cwsmeriaid mewnol ac allanol dau wasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol.	2A.T1 Esbonio sut mae anghenion cwsmeriaid yn cael eu cwrdd mewn dau wasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol.	2A.Rh1 Asesu sut mae sgiliau gwaith yn cael eu defnyddio gan ddau wasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol i gwrdd ag anghenion cwsmeriaid. #
1A.2 Disgrifio sgiliau gwaith sy'n cael eu defnyddio gyda chwsmeriaid gan ddau wasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol. #	2A.LI2 Esbonio sgiliau gwaith sy'n cael eu defnyddio gyda chwsmeriaid gan ddau wasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol. #	2A.T2 Cymharu sgiliau gwaith sy'n cael eu defnyddio gyda chwsmeriaid gan ddau wasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol. #	
Nod dysgu B: Arddangos sgiliau gwaith sy'n cael eu defnyddio yn y sector gwasanaethau cyhoeddus			
1B.3 Arddangos eu sgiliau gwaith eu hunain drwy waith tîm mewn sefyllfa gwasanaeth cyhoeddus gydag arweiniad.	2B.LI3 Arddangos eu sgiliau gwaith eu hunain drwy waith tîm mewn dau wasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol.	2B.T3 Cymharu eu perfformiad fel aelod o dîm mewn dwy sefyllfa gwasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol o ran cryfderau a meysydd i'w gwella.	2B.Rh2 Cymharu eu perfformiad fel aelod o dîm mewn dwy sefyllfa gwasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol a datblygu cynllun gweithredu ar gyfer gwella. #
1B.4 Amlinellu eu perfformiad eu hunain o sgiliau gwaith drwy waith tîm mewn sefyllfa gwasanaeth cyhoeddus.	2B.LI4 Disgrifio eu perfformiad fel aelod o dîm mewn dwy sefyllfa gwasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol.		

*Cyfle i asesu sgiliau mathemategol

#Cyfle i asesu sgiliau Cymraeg

Arweiniad i athrawon

Adnoddau

Nid oes angen unrhyw adnoddau arbennig ar gyfer yr uned hon.

Canllaw asesu

Caiff yr uned hon ei hasesu'n fewnol gan y ganolfan a'i dilysu'n allanol gan Pearson. Darllenwch y canllaw hwn ochr yn ochr ag *Adran 8: Asesu mewnol*.

Rhaid i offerynnau asesu a ddyluniwyd gynhyrchu tystiolaeth sy'n ddilys ac yn unigol. Rhaid i'r offerynnau hyn fod yn addas i'r pwrpas fel teclyn i fesur dysgu yn erbyn y cynnwys a ddiffiniwyd a'r meini prawf asesu. Lle mae gwaith grŵp wedi digwydd, rhaid nodi cyfraniad yr unigolyn yn cynnwys nodiadau i ddangos gwaith paratoi unigol a gwaith i gwrdd â'r meini prawf asesu.

Wrth gyfeirio at y sector gwasanaethau cyhoeddus, mae hyn yn cynnwys yr holl sefydliadau o fewn gwasanaethau cyhoeddus, ond yn benodol i'r rhai a nodwyd yn *Uned 1: Rôl a Gwaith y Gwasanaethau Cyhoeddus*.

Wrth ddarparu tystiolaeth ar gyfer yr uned hon, rhaid i ddysgwyr ddangos fod ganddyn nhw ddealltwriaeth o gwsmeriaid yn y sector gwasanaethau cyhoeddus ac felly o'r sgiliau gwaith sydd eu hangen i weithio'n effeithiol yn y sector hwn. Rhaid i ddysgwyr hefyd arddangos sgiliau gwaith drwy sefyllfaoedd efelychol a gweithgareddau adeiladu tîm.

Nod dysgu A

Ar gyfer **2A.LI1**: mae angen i ddysgwyr ddisgrifio'r gwahanol fathau o gwsmeriaid mewnol ac allanol mewn dau wasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol. Mae angen i ddysgwyr arddangos gwybodaeth am amrywiaeth o gwsmeriaid. Gallai dysgwyr gyfweled amrywiaeth o bersonél gwasanaethau cyhoeddus a fyddai'n gallu dweud wrthyn nhw am y cwsmeriaid y maen nhw'n delio â nhw o ddydd i ddydd. Byddai disgwyl i ddysgwyr drafod o leiaf ddau gwsmer mewnol a dau gwsmer allanol ar gyfer pob un o'r gwasanaethau cyhoeddus sy'n destun ymchwil iddyn nhw.

Ar gyfer **2A.LI2**: mae angen i ddysgwyr esbonio sgiliau gwaith sy'n cael eu defnyddio gan ddau wasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol wrth ddelio gyda chwsmeriaid. Gall siaradwyr gwadd o amrywiaeth o gyflogwyr o fewn y sector gwasanaethau cyhoeddus ddweud wrth ddysgwyr am yr amrywiaeth o sgiliau gwaith y maen nhw'n eu defnyddio o ddydd i ddydd, a pham maen nhw'n bwysig. Byddai disgwyl i ddysgwyr drafod o leiaf ddau o'r sgiliau gwaith canlynol – sgiliau cyfathrebu, sgiliau tîm, sgiliau galwedigaethol, sgiliau personol a sgiliau rhyngbersonol – ar gyfer pob un o'r gwasanaethau cyhoeddus a nodwyd, gan gymharu sut mae'r ddau wasanaeth cyhoeddus yn defnyddio'r sgiliau hyn gyda'u cwsmeriaid.

Ar gyfer **2A.T1**: rhaid i ddysgwyr esbonio sut mae anghenion cwsmeriaid yn cael eu cwrdd mewn dau wasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol. Bydd angen i ddysgwyr archwilio beth mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn ei wneud i gwrdd ag anghenion penodol eu cwsmeriaid, megis unigolion ag anabledd, yr henoed, neu lle mae rhwystr o ran iaith.

Ar gyfer **2A.T2**: gall dysgwyr gyflawni hyn drwy gymharu sut mae dau wasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol yn defnyddio sgiliau gwaith wrth ddelio gyda chwsmeriaid, a pham mae hyn yn gwahaniaethu rhwng y ddau wasanaeth dan sylw. Gallai dysgwyr edrych ar astudiaethau achos er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r gwahanol sgiliau gwaith sydd eu hangen ar gyflogion y sector gwasanaethau cyhoeddus, gan roi esboniad manwl o'r defnydd o'r sgiliau yn y ddau wasanaeth cyhoeddus.

Ar gyfer **2A.Rh1**: rhaid i ddysgwyr asesu sut mae sgiliau gwaith yn cael eu defnyddio gan ddau wasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol i gwrdd ag anghenion cwsmeriaid. Efallai y byddan nhw am ystyried pa sgiliau gwaith y mae pob gwasanaeth yn eu defnyddio ar gyfer mathau penodol o gwsmer. Dylai dysgwyr hefyd ystyried yr effeithiau os nad yw sgiliau gwaith yn cael eu defnyddio'n effeithiol, beth allai ddigwydd i uniondeb y gwasanaethau cyhoeddus a sut y gallai hyn gael effaith ar eu henw da.

Ar gyfer **1A.1**: mae angen i ddysgwyr adnabod cwsmeriaid mewnol ac allanol dau wasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol yn y sector gwasanaethau cyhoeddus. Gallai hyn gael ei wneud drwy gynhyrchu taflen.

Ar gyfer **1A.2**: mae angen i ddysgwyr ddisgrifio sgiliau gwaith sy'n cael eu defnyddio gyda chwsmeriaid gan ddau wasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol. Mae angen iddyn nhw ddisgrifio amrywiaeth o sgiliau gwaith sy'n cael eu defnyddio gan y gwasanaethau cyhoeddus dan sylw a disgrifio o leiaf ddau sgil gwaith ar gyfer pob gwasanaeth a nodwyd.

Nod dysgu B

Ar gyfer **2B.LI3**: mae angen i ddysgwyr arddangos eu sgiliau gwaith eu hunain drwy waith tîm gan gymryd rhan mewn dwy sefyllfa gwasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol. Gallai'r rhain fod yn weithgareddau adeiladu tîm ac yn sefyllfaoedd gwasanaeth cyhoeddus. Bydd angen i ganolfannau sefydlu rhai sefyllfaoedd gwasanaethau cyhoeddus efelychol lle gall dysgwyr ddefnyddio a datblygu eu sgiliau gwaith drwy waith tîm. Bydd angen i ddysgwyr gymryd rhan mewn o leiaf ddwy sefyllfa gwasanaeth cyhoeddus gwahanol. Dylai cyfranogiad unigol ddangos sut y cynlluniodd unigolion gan sicrhau bod sgiliau gwaith priodol yn cael eu defnyddio drwy waith tîm yn y ddau wasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol. Bydd tystiolaeth yn cael ei darparu drwy gofnodi sut y cafodd y sgiliau hyn eu cymhwyso (drwy chwarae rôl, gwaith rhan amser neu leoliad gwaith). Rhaid i ganolfannau sicrhau bod dysgwyr yn creu datganiad personol yn crynhoi tystiolaeth o sut y maen nhw wedi arddangos y sgiliau hyn. Mae hi hefyd yn hanfodol cael cofnod arsylwi ysgrifenedig manwl o berfformiad pob dysgwr, wedi'i lofnodi gyda dyddiad gan naill ai'r athro neu oruchwyliwr y gwaith. Dylai dysgwyr gynnwys unrhyw nodiadau ymchwil, gwaith papur cefnogi a nodiadau paratoi sydd ganddyn nhw.

Ar gyfer **2B.LI4**: mae angen i ddysgwyr ddisgrifio eu perfformiad eu hunain fel aelod o dîm mewn o leiaf ddwy sefyllfa gwasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol. Rhaid i'r disgrifiad hwn gynnwys beth wnaethon nhw a sut yr oedden nhw'n effeithiol fel aelod o dîm.

Ar gyfer **2B.T3**: mae angen i ddysgwyr gymharu eu perfformiad eu hunain fel aelod o dîm mewn dau wasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol o ran eu cryfderau a'r meysydd ar gyfer gwella. Dylai dysgwyr ddefnyddio adborth a gafwyd gan yr athro a/neu gydweithwyr y dysgwr ac aelodau eraill o'r tîm, os yw hynny'n berthnasol ac yn briodol. Gall dysgwyr ddefnyddio tystiolaeth ar ffurf cofnodion arsylwi a thystiolaeth tystion i gefnogi eu cymhariaeth.

Ar gyfer **2B.Rh2**: mae angen i ddysgwyr asesu eu perfformiad fel aelod o dîm mewn dwy sefyllfa gwasanaethau cyhoeddus gwrthgyferbyniol a datblygu cynllun gweithredu ar gyfer gwella. Mae angen i'r asesiad lunio barn ar eu perfformiad eu hunain, ei effeithiolrwydd, a beth y gallen nhw fod wedi'i wneud er mwyn gwneud eu perfformiad yn fwy effeithiol. Gall dysgwyr ddefnyddio tystiolaeth ar ffurf cofnodion arsylwi a thystiolaeth tystion er mwyn cefnogi eu cymhariaeth. Gallai arsylwadau cymheiriaid gan ddysgwyr eraill a'r athro, os yw'n berthnasol a phriodol, gael eu defnyddio i gefnogi dysgwyr gyda'u perfformiad, a gallen nhw gael eu defnyddio i ffurfio sail eu cyfiawnhad.

Ar gyfer **1B.3**: mae angen i ddysgwyr gymryd rhan mewn un sefyllfa berthnasol i wasanaeth cyhoeddus er mwyn cyflawni'r maen prawf hwn. Bydd tystiolaeth yn cael ei darparu drwy gofnodi sut y cafodd y sgiliau hyn eu cymhwyso (drwy chwarae rôl, gwaith rhan amser neu leoliad gwaith). Rhaid i ganolfannau sicrhau fod dysgwyr yn creu datganiad personol yn crynhoi tystiolaeth i ddangos sut y maen nhw wedi arddangos y sgiliau hyn, yn cynnwys nodiadau ymchwil, dogfennaeth gefnogol a nodiadau paratoi. Mae hi hefyd yn hanfodol cael cofnod arsylwi ysgrifenedig manwl o berfformiad pob dysgwr, wedi'i lofnodi gyda dyddiad gan yr aseswr neu dystiolaeth tyst wedi'i lofnodi gan athro neu oruchwyliwr y gwaith.

Ar gyfer **1B.4**: mae angen i ddysgwyr amlinellu eu perfformiad eu hunain a rhoi sylwadau ar eu rôl yn y sefyllfa gwasanaethau cyhoeddus. Dylai'r amlinelliad hwn gynnwys beth wnaethon nhw, sut yr oedden nhw'n effeithiol, a beth maen nhw'n teimlo y gallen nhw fod wedi ei wneud yn well.

Awgrymiadau ar gyfer amlinelliadau tasgau asesu

Mae'r tabl isod yn dangos rhaglen o amlinelliadau tasgau asesu posibl sy'n cwmpasu'r meini prawf asesu. Arweiniad yw hwn, ac awgrymir bod canolfannau naill ai'n ysgrifennu eu haseiniadau eu hunain neu'n addasu unrhyw aseiniadau y byddwn ni'n eu darparu i gwrdd ag anghenion ac adnoddau lleol.

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Tasg/Senario	Tystiolaeth asesu
1A.1, 1A.2, 2A.L11, 2A.L12, 2A.T1, 2A.T2, 2A.Rh1	<p>Rydych yn gweithio i gyflogwr mawr yn y sector gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r cyflogwr yn cynllunio sut i wella'r ffordd y mae'n gweithio gyda chwsmeriaid. Mae'r cyflogwr eisiau gwybod sut mae gwasanaethau eraill yn gweithio gyda chwsmeriaid er mwyn iddo allu defnyddio arfer gorau. Rydych chi wedi cael y dasg o archwilio gwasanaeth cwsmeriaid mewnol ac allanol mewn dau wasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol. Unwaith y bydd hyn wedi cael ei wneud, bydd gennych y dasg o edrych ar y sgiliau gwaith sy'n cael eu defnyddio gan y ddau wasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol.</p> <p>Byddwch yn crynhoi'r wybodaeth hon mewn adroddiad ar gyfer y tîm rheoli i gefnogi eu proses gwneud penderfyniadau. Bydd yr adroddiad hwn yn ystyried y gwahanol fathau o gwsmeriaid a'r sgiliau gwaith sy'n cael eu defnyddio gan y gwasanaethau cyhoeddus i gwrdd ag anghenion cwsmeriaid.</p>	<p>Adroddiad ar gyfer y tîm rheoli.</p> <p>Dylai'r adroddiad gynnwys asesiad o sut mae anghenion cwsmeriaid yn cael eu cwrdd o fewn dau wasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol, a sut mae sgiliau gwaith yn cael eu defnyddio i gyflawni hyn.</p> <p>Nodiadau ymchwil a pharatoi gafodd eu defnyddio i baratoi'r adroddiad.</p>

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Tasg/Senario	Tystiolaeth asesu
<p>1B.3, 1B.4, 2B.LI3, 2B.LI4, 2B.T3, 2B.Rh2</p>	<p>Er mwyn dangos eich bod yn gallu gweithio mewn tîm byddwch yn cymryd rhan mewn dau senario/efelychiad gwasanaeth cyhoeddus:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. damwain ffordd lle bu gwrthdaro rhwng tryc a thri char, gyda phobl wedi eu hanafu 2. ymgyrch atal troseddu, wedi ei noddi gan yr heddlu, i atal achosion o fwrgleriaeth yn y gymuned leol. <p>Byddwch yn dewis gwahanol rolau i'w chwarae ym mhob sefyllfa, ac yn gwneud gwaith ymchwil ac yn paratoi ar gyfer eich rôl.</p> <p>Bydd angen i chi arddangos sgiliau gwaith perthnasol a phriodol ar gyfer y rôl honno, a gweithio mewn tîm i reoli'r ddwy sefyllfa.</p> <p>Cyn chwarae'r rolau, bydd angen i chi wneud ymchwil i rôl y swydd a roddwyd i chi ac i'r sgiliau gwaith fyddai'n ddisgwyliedig ar gyfer y rôl honno.</p> <p>Yn ystod y gweithgareddau chwarae rôl, bydd angen i chi ddangos nodweddion aelod tîm effeithiol, gan ddefnyddio sgiliau cyfathrebu, personol a rhyngpersonol priodol. Bydd eich perfformiad yn cael ei arsylwi a bydd angen i chi fod â thystiolaeth arall o'ch perfformiad. Gall hyn gynnwys adolygiadau gan eich cymheiriaid, logiau gweithredu, recordiadau a gwaith papur ysgrifenedig.</p> <p>Byddwch wedyn yn mynd ymlaen i adolygu eich perfformiad eich hun ac awgrymu gwelliannau. Rhaid i chi gwblhau asesiad o ba mor dda rydych chi'n credu eich bod wedi perfformio fel aelod tîm wrth chwarae rôl a hynny yn erbyn y safonau gofynnol gan adnabod cryfderau a meysydd ar gyfer gwella. Rhaid i chi ddefnyddio'r asesiad hwn i ddatblygu cynllun gweithredu i ddangos sut y gallwch wella eich sgiliau gwaith.</p>	<p>Nodiadau ymchwil a pharatoi ar gyfer y rôl a roddwyd i chi ym mhob senario, yn cynnwys y sgiliau gwaith fyddai disgwyl eu cael ar gyfer y rolau hynny, a sut y gallai'r sgiliau hynny gael eu cymhwyso o fewn y sefyllfa a roddwyd.</p> <p>Cofnodion arsylwi wedi eu llofnodi gan aseswr a thystiolaeth tyst gan eich athro, yn amlinellu eich perfformiad o fewn y gweithgareddau.</p> <p>Bydd tystiolaeth cymheiriaid hefyd yn darparu tystiolaeth o weithio'n effeithiol fel tîm.</p> <p>Logiau gweithredu a recordiadau, megis fideos.</p> <p>Gwerthusiad ysgrifenedig o effeithiolrwydd eich sgiliau cyfathrebu a gwaith eich hun, a sut y cafodd y rhain eu defnyddio wrth chwarae rôl.</p> <p>Cynllun gweithredu sy'n amlinellu meysydd ar gyfer gwella'r sgiliau gwaith perthnasol, fel yr amlygwyd gan eich gwerthusiad.</p>

Uned 3: Cyflogaeth yn y Gwasanaethau Cyhoeddus

Lefel: **1 a 2**

Math o uned: **Dewisol arbenigol**

Oriau dysgu dan arweiniad: **30**

Dull asesu: **Mewnol**

Cyflwyniad i'r uned

Ydych chi'n meddwl am weithio yn y gwasanaethau cyhoeddus? Ydych chi wedi edrych y tu hwnt i'r cyhoeddusrwydd cychwynnol am y swyddi sydd ar gael? Nod yr uned hon yw rhoi peth gwybodaeth fanwl i chi am swyddi sydd ar gael yn y gwasanaethau cyhoeddus.

Mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd gwaith. Mae rhai gwasanaethau'n gwisgo lifrau ond mae llawer mwy yn wasanaethau heb lifrau. Mae gan y rhan fwyaf o swyddi sydd ar gael yn y sector preifat rôl gyfatebol yn y gwasanaethau cyhoeddus.

Mae'r uned hon yn caniatáu i chi ymchwilio i'r prif waith y mae gwasanaethau cyhoeddus yn ei wneud. Fe gewch chi'r cyfle i edrych ar wasanaethau lifrau a rhai heb lifrau, a beth maen nhw'n ei wneud fel rhan o ddiwrnod gwaith nodweddiadol.

Bydd eich astudiaethau wedyn yn symud i edrych ar y cyfleoedd am waith ac amodau gwasanaeth. Mae hyn yn fwy nag astudio dim ond beth maen nhw'n ei wneud. Er enghraifft, ydych chi'n gwybod faint o wyliau y byddech chi'n disgwyl eu cael mewn blwyddyn? Ydych chi'n gwybod faint byddech chi'n cael eich talu? Bydd yr uned hon yn helpu i roi gwybod i chi am bethau fel hyn.

Byddwch hefyd yn archwilio'r gwahanol brosesau gwneud cais a phenodi sydd gan y gwahanol wasanaethau cyhoeddus. Byddwch yn dysgu am y gwahanol ofynion mynediad y bydd rhaid i chi eu bodloni yn ogystal â sut i wneud cais am swyddi yn y sector gwasanaethau cyhoeddus.

Byddwch hefyd yn dysgu am y gofynion y bydd angen i chi eu bodloni i gael eich penodi. Ar ôl i chi gwblhau'r uned hon yn llwyddiannus, byddwch mewn lle da i wneud penderfyniad gwybodus hysbys am ba swyddi y gallech fod am fynd i weithio ynddyn nhw, y gofynion y bydd angen i chi eu bodloni i wneud cais a chael eich penodi, a beth fyddwch chi'n ei wneud yn y swydd os byddwch yn llwyddo i gael y swydd honno.

Nodau dysgu

Yn yr uned hon byddwch yn:

A deall rheolau cyflogaeth ac amodau gwasanaeth yn y gwasanaethau cyhoeddus

B archwilio cyflogaeth yn y gwasanaethau cyhoeddus.

Nodau dysgu a chynnwys yr uned

Beth sydd angen ei ddysgu
<p>Nod dysgu A: Deall rheolau cyflogaeth ac amodau gwasanaeth yn y gwasanaethau cyhoeddus</p> <p>Testun A.1 Y gwaith sy'n cael ei wneud gan y gwasanaethau cyhoeddus</p> <p>Mae modd rhannu'r sector gwasanaethau cyhoeddus yn wahanol fathau o grwpiau gwasanaethau cyhoeddus:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gwasanaethau brys (gwasanaethau golau glas) • lluoedd arfog • awdurdodau lleol • llywodraeth ganolog • gwasanaethau'r sector gwirfoddol (trydydd sector). <p>Y prif waith y mae'r grwpiau hyn yn ei wneud yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gwasanaethau brys (gwasanaethau golau glas) <ul style="list-style-type: none"> ○ gwaith arferol, e.e. patrôl ar droed, atal ac ymchwilio i droseddau, tawelu meddwl y gymuned ○ gwaith heb fod yn arferol, e.e. delio gyda digwyddiadau terfysgol potensial, dyletswyddau arbennig, diogelwch ar gyfer digwyddiadau mawr megis Gemau Olympaidd Llundain 2012 ○ rolau mewn digwyddiadau mawr, e.e. cynnal y safle, casglu tystiolaeth, cadwyni cadw allan (security cordons), rheoli gwybodaeth, delio gyda thanau a damweiniau, chwilio ac achub, achud bywydau, darparu gofal meddygol ○ gwaith cymunedol ○ gwaith gweinyddol ○ gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus eraill • lluoedd arfog <ul style="list-style-type: none"> ○ gwaith arferol, e.e. gwasanaeth gweithredol mewn sefyllfaoedd o wrthdaro, ymgyrchoedd cadw heddwch (peacekeeping missions), ymarferion milwrol, patrolau diogelwch, cynnal offer, dyletswyddau seremonïol megis newid y gwarchodlu ○ gwaith heb fod yn arferol, e.e. dyletswyddau seremonïol arbennig megis angladdau gwladol neu achlysuron gwladol ○ gwaith dyngarol ○ cymorth milwrol i'r gymuned sifil, e.e. llifogydd Boscastle, llifogydd Hull, darpariaeth amgen pan fydd y gwasanaeth tân ar streic, mewn digwyddiadau mawr ○ gwaith gweinyddol ○ gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus eraill • awdurdodau lleol <ul style="list-style-type: none"> ○ arferol, e.e. gweithio gyda'r cyhoedd, dyrannu tai, cefnogi addysg, casglu ac ailgylchu gwastraff ○ gwaith heb fod yn arferol, e.e. digwyddiadau arbennig megis achlysuron chwaraeon mawr, delio gyda digwyddiadau megis llifogydd neu ddifrod amgylcheddol ○ gwaith gweinyddol ○ gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus eraill <p style="text-align: right;"><i>parhad</i></p>

Beth sydd angen ei ddysgu

- llywodraeth ganolog
 - gwaith arferol, e.e. gweinyddu adrannau ac asiantaethau'r llywodraeth, adrodd i weinidogion, ystyried strategaethau
 - gwaith heb fod yn arferol, e.e. ymateb i fygythiadau i ddiogelwch gwladol, amodau tywydd difrifol a digwyddiadau mawr eraill sy'n effeithio ar ardaloedd mwy
 - gwaith gweinyddol
 - cysylltu gyda gwasanaethau cyhoeddus eraill
- gwirfoddol (trydydd sector)
 - gwaith arferol, e.e. cynnig cyngor a darparu cefnogaeth neu ofal i bobl dan anfantais, codi arian, defnyddio arbenigedd i gefnogi'r cyhoedd, megis mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, cynnig gwasanaethau proffesiynol gwirfoddol
 - gwaith gweinyddol
 - gall weithio i gefnogi'r gwasanaethau cyhoeddus.

Agweddau cadarnhaol a negyddol o weithio yn y gwasanaethau, e.e.:

- cadarnhaol – balchder, parch, cyfleoedd i deithio, datblygiad personol/proffesiynol
- negyddol – risg i'r hunan, potensial am ganfyddiad negyddol gan y cyhoedd, patrymau shifft gwrth-gymdeithasol, gweithio i ffwrdd oddi wrth deulu a ffrindiau (yn cynnwys dramor), straen, delio gyda sefyllfaoedd anodd (yn cynnwys marwolaethau a rhai wedi'u hanafu'n ddifrifol).

Testun A.2 Cyfleoedd gwaith yn y gwasanaethau cyhoeddus

Mae'r cyfleoedd gwaith sydd ar gael yn y gwasanaethau cyhoeddus yn cynnwys:

- swyddi yn y lluoedd arfog
 - gweithredol, e.e. morwr, môr-filwr brenhinol, rheoli trafndiaeth awyr (air traffic control), troedfilwyr, pobl sy'n trin arfau
 - anweithredol e.e. gweinyddol, meddygol, technegol
 - cefnogaeth sifiliaid, e.e. arlwyyo, glanhau
 - gwirfoddol, e.e. Y Fyddin Diriogaethol, Y Llynges Frenhinol neu'r Llu Awyr Brenhinol Wrth Gefn
- swyddi gwasanaethau brys (gwasanaethau golau glas)
 - gweithredol, e.e. cwnstabl yr heddlu, diffoddwr tân, parafeddyg, gwyliwr y glannau
 - anweithredol e.e. addysg gymunedol, technegydd ambiwlans
 - cefnogaeth sifiliaid, e.e. gweithredwyr ystafell reoli, rheolwyr digwyddiadau, swyddogion safle trosedd, swyddogion cefnogi cymunedol
 - cefnogaeth wirfoddol, e.e. cwnstabiailid arbennig, diffoddwyr tân wrth gefn, Ambiwylans Sant Ioan
- swyddi awdurdodau lleol
 - e.e. swyddog lles addysg, rheoli priffyrdd a thrafnidiaeth, cynnal a chadw a thai, cynorthwyydd hamdden, gwaredu gwastraff
 - Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, e.e. swyddog prawf, rolau cefnogi ysgrifenyddol a thechnegol
- swyddi llywodraeth ganolog
 - gwasanaeth sifil, e.e. rolau rheoli a thechnegol, rolau adrannol megis logisteg y Weinyddiaeth Amddiffyn
 - gwasanaethau llysoedd, e.e. swyddog gweinyddu llysoedd, clerc i'r llys.

parhad

Beth sydd angen ei ddysgu**Testun A.3 Gwybod yr amodau gwasanaeth mewn gwahanol wasanaethau cyhoeddus**

Mae amodau gwaith yn gwahaniaethu o swydd i swydd o fewn y gwahanol wasanaethau cyhoeddus gyda gwahanol fanteision ac anfanteision. Mae amodau gwasanaeth yn cynnwys:

- strwythur cyflog mewn perthynas â'r rolau sy'n cael eu gwneud
- hawl i wyliau
- manteision (e.e. defnydd o gampfa, llety, yswiriant meddygol preifat)
- oedran ymddeol
- trefniadau pensiwn
- tâl salwch
- darpariaeth mamolaeth/tadolaeth
- patrymau shiftt
- mynediad i hyfforddiant a/neu addysg.

Nod dysgu B: Archwilio cyflogaeth yn y gwasanaethau cyhoeddus**Testun B.1 Prosesau gwneud cais a phenodi ar gyfer cyflogaeth yn y gwasanaethau cyhoeddus**

Pwrpas y broses gwneud cais a phenodi yw:

- bod pob gwasanaeth yn cyfeirio ei broses gwneud cais i recriwtio unigolion sy'n cwrdd ag anghenion rôl y swydd
- bod pob gwasanaeth wedi datblygu ei broses benodi i brofi'r sgiliau sydd eu hangen i weithredu'n llwyddiannus o fewn y gwasanaeth.

Er mwyn dilyn y broses gwneud cais bydd rhaid i unigolion gynnwys y canlynol:

- gofynion ymgeisio, e.e. addysgiadol, corfforol, meddygol, arall
- cwblhau ffurflenni cais – mathau o ffurflenni, yn cynnwys ceisiadau ar-lein
- darparu llythyrau cais, datganiadau personol a gwybodaeth gefnogol
- darparu CV – gwahanol fformatau, gwybodaeth hanfodol, arfer da ac arfer drwg.

Mae prosesau penodi'n cynnwys:

- profion:
 - mathau a phwrpas profion seicometrig
 - mathau eraill o brofion dethol yn cynnwys cwestiynau cymhwysedd, profion sgiliau sylfaenol, efelychiadau a chyflwyniadau
 - profion ffitrwydd corfforol
- cyfle cyfartal – sicrhau amrywiaeth mewn recriwtio
- gwahanol fathau o gyfweiliadau
- cod gwisg gofynnol
- paratoi ar gyfer cyfweiliad, e.e. trefniadau, cwestiynau potensial, ymchwil, sgiliau mewn cyfweiliad.

parhad

Beth sydd angen ei ddysgu**Testun B.2 Technegau chwilio am swydd**

- Gwahanol lwybrau gyrfa sydd ar gael i ddysgwyr gwasanaethau cyhoeddus, e.e. o fewn gwasanaethau brys (gwasanaethau golau glas), llywodraeth leol a chanolog, gwasanaethau gwirfoddol, lluoedd arfog.
- Defnyddio meini prawf ar gyfer chwilio am swyddi, e.e. mathau o swydd sydd o ddiddordeb personol.
- Archwiliad o'u sgiliau eu hunain: cryfderau a phrofiadau, meysydd ar gyfer gwella, sut i ddangos datblygiad sgiliau gofynnol.
- Paru eu sgiliau a'u diddordebau eu hunain mewn meysydd gwasanaethau cyhoeddus gyda swyddi penodol.
- Adnabod cyfleoedd addas, yn cynnwys y rhai lle gallai sgiliau gofynnol gael eu datblygu wrth weithio yn y swydd.
- Mannau i chwilio am swyddi gwag, e.e. gwefannau'r diwydiant, cronfeydd data swyddi, papurau newydd lleol a chenedlaethol, gwefannau chwilio am swyddi a phrofiad perthnasol i waith, asiantaethau recriwtio, cyfnodolion masnach, canolfannau gwaith, hysbysfyrdau'r gymuned leol, clywed gan eraill.

Testun B.3 CVs a ffurflenni cais

Dylai dysgwyr gynhyrchu ceisiadau ar gyfer y cyfle gwaith o'u dewis. Dylid ystyried y canlynol:

- Dylai strwythur a gosodiad y cais ddefnyddio iaith a thôn priodol.
- Cysylltu gwybodaeth bersonol, sgiliau a phrofiad a enillwyd gyda'r sgiliau sydd eu hangen yn y cyfle gwaith a ddewiswyd.
- Adnabod gwybodaeth a galluoedd technegol penodol, addysg, hyfforddiant, profiad gwaith perthnasol, hobiau a diddordebau perthnasol.
- Gosod sgiliau o fewn cyd-destun clir sy'n berthnasol i'r cyfle gwaith a ddewiswyd.
- Crynhoi sgiliau perthnasol.
- Mynegiant o ddiddordeb/symbyliad ar gyfer cyfleoedd gwaith a ddewiswyd.

Meini prawf asesu

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
Nod dysgu A: Deall rheolau cyflogaeth ac amodau gwasanaeth yn y gwasanaethau cyhoeddus			
1A.1 Amlinellu'r amrywiaeth o waith sy'n cael ei wneud gan ddau wasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol. #	2A.LI1 Disgrifio, gan ddefnyddio enghreifftiau perthnasol, yr amrywiaeth o waith sy'n cael ei wneud gan dri gwasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol. #	2A.T1 Cymharu'r amrywiaeth o waith sy'n cael ei wneud gan dri gwasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol.	2A.Rh1 Gwerthuso manteision ac anfanteision cyflogaeth mewn tri gwasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol.
1A.2 Adnabod swyddi sydd ar gael mewn dau wasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol. #	2A.LI2 Esbonio'r gofynion ar gyfer swyddi sydd ar gael mewn tri gwasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol. #	2A.T2 Cymharu'r gofynion ar gyfer swyddi sydd ar gael mewn tri gwasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol.	

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
Nod dysgu B: Archwilio cyflogaeth yn y gwasanaethau cyhoeddus			
1B.3 Adnabod y broses gwneud cais a phenodi ar gyfer swydd yn y gwasanaethau cyhoeddus.	2B.LI3 Disgrifio'r broses gwneud cais a phenodi ar gyfer dwy swydd yn y gwasanaethau cyhoeddus o blith dau wasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol.	2B.T3 Cymharu'r broses gwneud cais a phenodi ar gyfer dwy swydd yn y gwasanaethau cyhoeddus o blith dau wasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol.	2B.Rh2 Dadansoddi'r broses gwneud cais a phenodi ar gyfer dwy swydd yn y gwasanaethau cyhoeddus o blith dau wasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol.
1B.4 Defnyddio technegau chwilio am swydd i ddod o hyd i ddau gyfle swydd addas yn y sector gwasanaethau cyhoeddus gan ddefnyddio ffynonellau gwybodaeth a roddwyd, gyda chefnogaeth. #	2B.LI4 Defnyddio technegau chwilio am swydd i ddod o hyd i ddau gyfle swydd addas yn y sector gwasanaethau cyhoeddus gan ddefnyddio ffynonellau gwybodaeth a ymchwiliwyd. #	2B.T4 Cymharu addasrwydd ar gyfer dau gyfle gwaith a ddewiswyd yn y gwasanaethau cyhoeddus, gan adnabod meysydd ar gyfer gwella eu sgiliau eu hunain. #	2B.Rh3 Gwerthuso eu haddasrwydd eu hunain ar gyfer dau gyfle gwaith a ddewiswyd yn y gwasanaethau cyhoeddus, gan argymhell yr opsiwn mwyaf addas. #
1B.5 Cwblhau cais ysgrifenedig ar gyfer swydd wag o'u dewis gan ddefnyddio iaith a thôn briodol, gydag arweiniad. #	2B.LI5 Cynhyrchu cais ysgrifenedig wedi'i strwythuro ar gyfer swydd wag o'u dewis gan ddefnyddio iaith a thôn briodol. #	2B.T5 Cynhyrchu cais ysgrifenedig manwl wedi'i strwythuro, gan ddefnyddio iaith a thôn briodol, sy'n cwrdd â gofynion swydd wag addas. #	2B.Rh4 Cynhyrchu cyflwyniad trefnus o gais ysgrifenedig, sy'n addas at y pwrpas ac yn cwrdd yn llawn â gofynion y swydd wag a ddewiswyd. #

*Cyfle i asesu sgiliau mathemategol

#Cyfle i asesu sgiliau Cymraeg

Arweiniad i athrawon

Adnoddau

Nid oes angen unrhyw adnoddau arbennig ar gyfer yr uned hon.

Canllaw asesu

Caiff yr uned hon ei hasesu'n fewnol gan y ganolfan a'i dilysu'n allanol gan Pearson. Darllenwch y canllaw hwn ochr yn ochr ag *Adran 8: Asesu mewnol*.

Gallai senario swyddfa gyrfaedd neu arddangosfa gyrfaedd fod yn addas ar gyfer asesu'r uned hon.

Nod dysgu A

Bwriad y nod dysgu hwn yw datblygu gwybodaeth am y cyfleoedd gwaith sy'n bodoli ar draws yr amrediad o wasanaethau cyhoeddus. Mae'n bwysig bod dysgwyr yn cael eu hannog i wneud ymchwil i amrediad mor eang â phosibl i'w galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus yn y dyfodol. Mae'r gair 'gwrthgyferbyniol' yn dangos y dylai tystiolaeth gael ei chynhyrchu gan edrych ar yr ystod o wasanaethau cyhoeddus, yn cynnwys gwasanaethau cyhoeddus, gwasanaethau brys (gwasanaethau golau glas), awdurdodau lleol a llywodraeth ganolog.

Ar gyfer **2A.LI1**: rhaid i ddysgwyr wneud ymchwil i'r gwaith sy'n cael ei wneud gan dri gwasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol. Dylent sicrhau bod y disgrifiad y maent yn ei ddarparu wedi'i ysgrifennu yn eu geiriau eu hunain, ac wedi ei gefnogi gan enghreifftiau perthnasol yn dangos gwaith arferol a heb fod yn arferol sy'n cael ei wneud gan bob un o'r gwasanaethau a ddewiswyd. Rhaid i'r gwasanaethau cyhoeddus sy'n cael eu dewis ddod o wahanol grwpiau o wasanaethau cyhoeddus. Dylai tystiolaeth ddangos trosolwg eang o'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y gwasanaethau yn gyffredinol, yn hytrach na'r swyddi penodol o fewn y gwasanaethau. Gall tystiolaeth ar gyfer y maen prawf hwn ddod o ddadansoddi astudiaeth achos, neu yn dilyn ymweliad gan siaradwr gwadd neu ymweliad â gwasanaeth cyhoeddus.

Ar gyfer **2A.LI2**: rhaid i ddysgwyr esbonio'r gofynion ar gyfer swyddi sydd ar gael mewn tri gwasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol. Rhaid i ddysgwyr gasglu gwybodaeth sy'n berthnasol i'r swyddi sydd ar gael mewn tri gwasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol. Rhaid i'r gwasanaethau cyhoeddus gael eu dewis o wahanol grwpiau o wasanaethau cyhoeddus. Dylai tystiolaeth ddangos trosolwg eang o'r gwaith sy'n cael ei wneud gan swyddi penodol o fewn y gwasanaethau, yn hytrach nag o'r gwasanaethau yn gyffredinol. Rhaid i ddysgwyr hefyd ystyried yr amodau gwasanaeth ar gyfer pob swydd, megis y budd a'r pwysigrwydd ychwanegol o aelodaeth campfa ar gyfer y lluoedd arfog yn wyneb natur gorfforol y swydd. Gall tystiolaeth ar gyfer hyn fod yn gyflwyniad amlgyfryngol neu'n gyflwyniad ar ffurf ffair gyrfaedd. Gallai'r dysgwyr wedyn gynhyrchu taflen sy'n casglu'r wybodaeth at ei gilydd ac yn ei chyflwyno mewn ffordd sy'n hwylus i'r defnyddiwr.

Ar gyfer **2A.T1**: rhaid i ddysgwyr wneud cymariaethau rhwng y gwaith mae'r tri gwasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol yn ei wneud. Gall hyn fod ar ffurf cyflwyniad amlgyfryngol neu adroddiad ysgrifenedig. Dylai'r dysgwr ddarparu tystiolaeth sy'n esbonio'r tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhwng y gwaith sy'n cael ei wneud gan y gwasanaethau a ddewiswyd.

Ar gyfer **2A.T2**: rhaid i ddysgwyr gymharu'r gofynion ar gyfer swyddi sydd ar gael mewn tri gwasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol. Gallai hyn fod yn asesiad ymarferol lle mae'r dysgwr yn cymryd rhan mewn ffair gyrfaedd, yn cyflwyno

gwybodaeth i ddysgwyr iau ac yn esbonio'r cyfleoedd gwaith yn y gwasanaethau cyhoeddus. Byddai hyn yn rhoi'r cyfle i'r dysgwyr ddangos dyfnder eu gwybodaeth yn ogystal â'u gallu i gyflwyno tystiolaeth lafar i gefnogi eu canfyddiadau. Os caiff yr arddull asesu hwn ei ddefnyddio, dylai tystiolaeth fideo a/neu dystion a chofnodion arsylwi gael eu defnyddio i gefnogi dyfarnu'r maen prawf.

Ar gyfer **2A.Rh1**: rhaid i ddysgwyr werthuso manteision ac anfanteision y gofynion cyflogaeth mewn tri gwasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol. Dylid dewis o leiaf ddwy swydd wahanol ar gyfer pob un o'r gwasanaethau cyhoeddus gafodd eu dewis. Gall tystiolaeth ar gyfer hyn fod ar ffurf adroddiad ysgrifenedig yn dilyn y ffair gyrfaoedd.

Ar gyfer **1A.1**: rhaid i ddysgwyr amlinellu'r amrediad o waith sy'n cael ei wneud gan wasanaethau cyhoeddus. Rhaid i'r dysgwr fod wedi dewis o leiaf ddau wasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol i gyflawni'r maen prawf hwn. Rhaid i'r gwasanaethau cyhoeddus sy'n cael eu dewis ddod o wahanol grwpiau o wasanaethau cyhoeddus.

Ar gyfer **1A.2**: rhaid i ddysgwyr adnabod y swyddi sydd ar gael mewn dau wasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol. Dylid dewis o leiaf ddwy swydd wahanol ar gyfer y gwasanaethau cyhoeddus a ddewiswyd a rhaid ystyried amodau gwasanaeth. Rhaid i'r swyddi gwasanaethau cyhoeddus gael eu dewis o wahanol grwpiau o wasanaethau cyhoeddus.

Nod dysgu B

Mae'n bwysig bod dysgwyr yn cael y cyfle i wneud ymchwil i ofynion mynediad gwahanol swyddi gwasanaethau cyhoeddus. Bydd hyn yn eu galluogi i wneud penderfyniadau am eu dewis yrfa ac adnabod sut i baratoi cais. Gellir gwahodd swyddogion gyrfaoedd o'r gwasanaethau unigol i'r ganolfan i siarad gyda dysgwyr am eu gofynion mynediad a'r sgiliau angenrheidiol. Fodd bynnag, dylid dweud wrth y siaradwyr gwadd nad cyfle i recriwtio yw hyn ond mai'r pwrpas yw helpu dysgwyr i baratoi ar gyfer gwneud cais i'r gwasanaethau.

Mae modd cael gafael ar wybodaeth a phecynnau recriwtio gan lawer o'r gwasanaethau cyhoeddus (wedi eu hargraffu ac ar-lein), felly mae'n bosibl fod gan athrawon yr wybodaeth sydd ei hangen ar ddysgwyr i gwblhau eu cais.

Ar gyfer **2B.LI3**: rhaid i ddysgwyr ddisgrifio'r broses gwneud cais a phenodi ar gyfer dwy swydd yn y gwasanaethau cyhoeddus. Dylai'r dystiolaeth gwmpasu dau wasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol, yn trafod amrywiaeth o gategoriâu sydd wedi eu nodi yng nghynnwys yr uned. Dylai'r dysgwyr sicrhau eu bod yn adnabod y camau gwahanol, a hefyd eu bod yn eu disgrifio yn nhermau beth maen nhw'n ei brofi mewn perthynas â'r gwaith sy'n cael ei wneud yn y rôl. Gallai tystiolaeth ar gyfer y maen prawf asesu hwn fod ar ffurf taflenni neu bosteri ysgrifenedig neu gyflwyniadau llafar.

Ar gyfer **2B.LI4**: rhaid i ddysgwyr ddefnyddio technegau chwilio am swydd i ddod o hyd i ddau gyfle swydd addas yn y sector gwasanaethau cyhoeddus gan ddefnyddio ffynonellau gwybodaeth a ymchwiliwyd. Mae angen i ddysgwyr wneud ymchwil yn annibynnol. Ni ddylent ddibynnu ar swyddi gwag sy'n cael eu darparu gan athrawon a byddant yn gwneud eu gwaith yn annibynnol, gan ddefnyddio deunydd ffynhonnell priodol, megis cyfleoedd sy'n cael eu hysbysebu, neu drwy fynd at sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus i ganfod cymaint â phosibl am gyfleoedd cyflogaeth.

Ar gyfer **2B.LI5**: rhaid i ddysgwyr gynhyrchu cais ysgrifenedig wedi'i strwythuro ar gyfer swydd wag o'u dewis gan ddefnyddio iaith a thôn briodol. Dylai dysgwyr sicrhau fod yr wybodaeth y maent yn ei darparu wedi'i strwythuro i gyfathrebu'r wybodaeth yn glir. Rhaid iddynt ymateb yn briodol yn ôl gofynion y swydd wag, e.e. CV neu lythyr cais.

Ar gyfer **2B.T3**: rhaid i ddysgwyr gymharu'r broses gwneud cais a phenodi ar gyfer dwy swydd yn y gwasanaethau cyhoeddus o ddau wasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol. Rhaid i'r swyddi a ddewisir fod o wahanol grwpiau o wasanaethau cyhoeddus.

Ar gyfer **2B.T4**: rhaid i ddysgwyr gymharu eu haddasrwydd ar gyfer dau gyfle gwaith a ddewiswyd yn y gwasanaethau cyhoeddus. Rhaid i ddysgwyr asesu eu hunain am eu cryfderau, gan baru eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u gallu i ofynion y swydd er mwyn nodi meysydd ar gyfer gwella.

Ar gyfer **2B.T5**: rhaid i ddysgwyr gynhyrchu cais ysgrifenedig manwl, wedi'i strwythuro, sy'n cwrdd â gofynion y swydd wag a ddewiswyd. Rhaid i'r wybodaeth yn y cais ymateb yn uniongyrchol i ofynion y swydd wag gan roi'r manylion priodol.

Ar gyfer **2B.Rh2**: rhaid i ddysgwyr ddadansoddi'r broses gwneud cais a phenodi ar gyfer dwy swydd gwasanaethau cyhoeddus, pob un o wahanol grŵp o wasanaethau cyhoeddus. Gall hyn ddangos effeithiolrwydd y broses gwneud cais a phenodi ar gyfer y gwasanaethau cyhoeddus.

Ar gyfer **2B.Rh3**: rhaid i ddysgwyr werthuso eu haddasrwydd ar gyfer dau gyfle swydd yn y gwasanaethau cyhoeddus. Dylent gynnal archwiliad o'u sgiliau personol eu hunain, gan ffocysu ar gryfderau a phrofiad, gan baru'r rhain gyda gofynion y cyfleoedd gwaith gafodd eu dewis. Dylai dysgwyr ddarparu argymhelliad o'r opsiwn mwyaf addas ar eu cyfer eu hunain, gan gyfiawnhau'r dewis.

Ar gyfer **2B.Rh4**: rhaid i ddysgwyr gynhyrchu cyflwyniad trefnus o gais ysgrifenedig, sy'n addas at y pwrpas ac sy'n cwrdd yn llawn â gofynion y swydd wag a ddewiswyd. Rhaid i'r cais fod wedi'i drefnu mewn modd sy'n hawdd ei ddarllen ac yn rhoi gwybod i gyflogwyr gyda manylion priodol am sut y mae'r dysgwr yn cwrdd â gofynion y swydd wag, ac am ei addasrwydd ar gyfer y gwaith.

Ar gyfer **1B.3**: rhaid i ddysgwyr adnabod y broses gwneud cais a phenodi ar gyfer swydd yn y gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r cynnwys yn darparu arweiniad ar yr ymdriniaeth a ddisgwylir.

Ar gyfer **1B.4**: rhaid i ddysgwyr ddefnyddio technegau chwilio am swydd i ddod o hyd i ddau gyfle swydd addas yn y sector gwasanaethau cyhoeddus gan ddefnyddio ffynonellau gwybodaeth a roddwyd. Gall dysgwyr dderbyn rhestr o ffynonellau gwybodaeth addas, lle gallant ddod o hyd i gyfleoedd cyflogaeth addas o fewn gwasanaethau cyhoeddus.

Ar gyfer **1B.5**: rhaid i ddysgwyr gwblhau cais ysgrifenedig ar gyfer swydd wag o'u dewis gan ddefnyddio iaith a thôn briodol. Gellir darparu enghreifftiau o CVau neu lythyrau cais ar gyfer y dysgwyr.

Awgrymiadau ar gyfer amlinelliadau tasgau asesu

Mae'r tabl isod yn dangos rhaglen o amlinelliadau tasgau asesu posibl sy'n cwmpasu'r meini prawf asesu. Arweiniad yw hwn, ac awgrymir bod canolfannau naill ai'n ysgrifennu eu haseiniadau eu hunain neu'n addasu unrhyw aseiniadau y byddwn ni'n eu darparu i gwrdd ag anghenion ac adnoddau lleol.

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Tasg/Senario	Tystiolaeth asesu
1A.1, 1A.2, 2A.Ll1, 2A.Ll2, 2A.T1, 2A.T2, 2A.Rh1	<p>Rydych yn cynnal arddangosfa ar gyfer rhai sy'n gadael yr ysgol/ coleg sydd â diddordeb mewn gweithio yn y gwasanaethau cyhoeddus er mwyn iddynt allu dysgu am y gyrfâu sydd ar gael.</p> <p>Cyn cynnal yr arddangosfa, bydd angen i chi benderfynu pa dri gwasanaeth cyhoeddus fydd yn cael eu cynnwys. Dylech baratoi atebion i gwestiynau am weithio yn y gwasanaethau cyhoeddus hynny, megis:</p> <ul style="list-style-type: none"> • y math o waith sydd ar gael yn eich ardal • y gofynion ar gyfer y swyddi yn y gwasanaethau hyn, yn cynnwys amodau gwasanaeth megis cyflog, hawliau gwyliau a buddion • manteision ac anfanteision cyflogaeth yn y gwasanaethau hyn. <p>Bydd angen i chi hefyd baratoi gwybodaeth glir a hygyrch am adnoddau ar gyfer ymchwil bellach ar gyfer y rhai sy'n mynychu.</p>	<p>Gweithgaredd ymarferol: (ffair gyrfâu), gyda chefnogaeth tystiolaeth ffotograffig a chofnod arsylwi.</p> <p>Rhaid i chi gynnal arddangosfa ar gyfer rhai sy'n gadael yr ysgol/ coleg lle byddwch yn darparu gwybodaeth am weithio yn y gwasanaethau cyhoeddus.</p> <p>Llafar: rhaid i chi baratoi eich atebion i gwestiynau, gyda chefnogaeth tystiolaeth gan dystion.</p> <p>Tystiolaeth ysgrifenedig: rhaid i chi gyflwyno:</p> <ul style="list-style-type: none"> • taflen wybodaeth sy'n cynnwys tri gwasanaeth cyhoeddus a'r gwaith y maent yn ei wneud • enghraifft o dair swydd wrthgyferbyniol a'r gofynion cysylltiedig a'r amodau gwasanaeth • manteision ac anfanteision cyflogaeth ym mhob un o'r tri gwasanaeth cyhoeddus a ddewiswyd.

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Tasg/Senario	Tystiolaeth asesu
<p>1B.3, 1B.4, 1.B5, 2B.LI3, 2B.LI4, 2B.LI5, 2B.T3, 2B.T4, 2B.Rh2, 2B.Rh3</p>	<p>Byddwch yn gwneud ymchwil i'r trefnau gwneud cais a phenodi sy'n cael eu defnyddio ar gyfer swyddi yn y sector gwasanaethau cyhoeddus ac yn gweld beth yw'r gofynion.</p> <p>Penderfynwch pa fath o gyflogaeth y mae gennych ddiddordeb ynddi a defnyddiwch dechnegau chwilio am swydd i wneud ymchwil i ddau gyfle gwaith o'ch dewis. Gwerthuswch eich addasrwydd ar gyfer y rolau gan argymhell yr opsiwn mwyaf addas.</p> <p>Ar gyfer y dewis swydd, cwblhewch broses gwneud cais ysgrifenedig. Rhaid i hwn ddangos eich bod yn cwrdd â gofynion y swydd wag.</p> <p>Byddwch yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • rhestru'r ffynonellau gwybodaeth a ddefnyddiwyd i ymchwilio i gyflogaeth yn y gwasanaethau cyhoeddus • cynhyrchu crynodeb o'r dystiolaeth rydych wedi ei chanfod, yn cynnwys cymhariaeth o swyddi ac asesiad personol i ddewis un sy'n addas i chi'ch hun • cwblhau ffurflen gais ar gyfer un rôl mewn gwasanaeth cyhoeddus, gan ddangos sut rydych yn cwrdd yn llawn â gofynion y swydd wag a ddewiswyd. 	<p>Nodyn ar yr ymchwil gafodd ei gwneud ar gyfer dau gyfle swydd, ac amlinelliad o'r technegau a ddefnyddiwyd ar gyfer chwilio am swydd.</p> <p>Archwiliad sgiliau, yn amlinellu eich cryfderau a'ch profiad eich hun, a sut y mae'r rhain yn berthnasol i ddau gyfle swydd a ddewiswyd.</p> <p>Adroddiad ysgrifenedig, yn argymhell yr opsiwn swydd mwyaf addas a meysydd ar gyfer gwella.</p> <p>Cais am swydd wedi'i gwblhau sy'n:</p> <ul style="list-style-type: none"> • strwythuredig • addas at y diben • cwrdd â gofynion y swydd.

Uned 4: Gwasanaethau Cyhoeddus a Gwarchod y Gymuned

Lefel: 1 a 2

Math o uned: **Dewisol arbenigol**

Oriau dysgu dan arweiniad: **30**

Dull asesu: **Mewnol**

Cyflwyniad i'r uned

Yn yr uned hon fe gewch y cyfle i archwilio rhai o'r sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus sy'n helpu i warchod ein cymunedau, ac edrych yn union beth maen nhw'n ei wneud. Efallai y bydd peth o hyn yn syndod i chi. Oeddech chi'n gwybod, er enghraifft, fod yr RNLI yn gweithio i'ch cadw'n ddiogel pan fydd trychineb fel llifogydd yn digwydd, neu fod Byddin yr Iachawdwriaeth yn helpu gyda bwyd a blancedi?

Mae'r DU yn gymdeithas aml-ethnig, aml-ddiwyllynnol sy'n cynnwys cymunedau ar wahân a rhai cyd-gysylltiedig. Bydd yr uned hon yn ystyried sut mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn gweithredu i warchod buddiannau cymunedau penodol yn ogystal â'r wlad gyfan.

Byddwch hefyd yn gwneud ymchwil i sut mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd i reoli peryglon a risgiau. Byddwch yn edrych yn fanylach ar y math o berygl neu risg y maen nhw'n ein gwarchod ni rhagddyn nhw, a sut y gall aelodau o'r cyhoedd helpu i leihau'r risgiau sy'n wynebu ein cymunedau. Byddwch yn archwilio rhai o'r sefydliadau sy'n helpu i'n gwarchod ni a'r ffordd y maen nhw'n gwneud hynny.

Byddwch ym meddwl am lawer o faterion, yn cynnwys pwy sy'n gweithredu mewn achosion o lifogydd, sut y byddwn yn mynd i'r afael â materion amgylcheddol, cemegion a gwaredu gwastraff yn ddiogel, a pha sefydliadau sy'n gweithio gyda'i gilydd i amddiffyn yr henoed a phobl ag anableddau.

Meddyliwch am y peth – mae tua chwarter yr holl bobl sy'n gweithio yn y DU yn gweithio yn y gwasanaethau cyhoeddus. Mae siawns dda y byddwch chithau'n gwneud hynny, pa waith bynnag y byddwch yn mynd i'w wneud. Un diwrnod, efallai y byddwch chi'n rhan o hyn i gyd, ond hyd yn oed os nad ydych chi'n rhan ohono, heb os byddwch yn falch fod y gwasanaethau cyhoeddus ar gael.

Nodau dysgu

Yn yr uned hon byddwch yn:

A archwilio sefydliadau allweddol sy'n gweithio i warchod cymunedau

B deall sut mae peryglon a risgiau i unigolion a chymunedau'n cael eu rheoli gan y gwasanaethau cyhoeddus

Nodau dysgu a chynnwys yr uned

Beth sydd angen ei ddysgu
<p>Nod dysgu A: Archwilio sefydliadau allweddol sy'n gweithio i warchod cymunedau</p> <p>Testun A.1 Mathau o gymunedau</p> <p>Caiff cymunedau eu diffinio mewn gwahanol ffyrdd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cymunedau daearyddol – y rhai sydd wedi eu cyfyngu i ardal benodol, e.e. awdurdod lleol • cymunedau rhithwir – cwrdd â'i gilydd yn y seibrofod, e.e. cyfryngau cymdeithasol • cymunedau diwylliannol a chrefyddol – yn cynnwys rhai sy'n rhannu diwylliant neu grefydd cyffredin, e.e. Islam • cymunedau ethnig – yn cynnwys pobl o'r un cefndir ethnig, neu gefndir tebyg • cymunedau seiliedig ar oedran – grwpiau y gellir eu hadnabod yn ôl oedran, e.e. rhai yn eu harddegau, yr henoed. <p>Mae angen gwarchod gwahanol gymunedau mewn ffyrdd gwahanol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • mae angen gwarchod cymunedau daearyddol rhag salwch, troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol • mae angen gwarchod cymunedau rhithwir rhag materion megis y posibilrwydd o gam-drin plant a thwyll/trosedd hunaniaeth • mae angen gwarchod cymunedau crefyddol rhag anoddefgarwch a chyfyngiadau ar ryddid i addoli • mae angen gwarchod cymunedau ethnig rhag camdriniaeth ethnig a rhagfarn • mae angen gwarchod cymunedau seiliedig ar oedran rhag materion megis cam-drin plant, camddefnyddio cyffuriau ac effeithiau oedran/gwendid. <p>Testun A.2 Sut mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn gwasanaethu anghenion cymunedau penodol.</p> <p>Mae modd rhannu'r sector gwasanaethau cyhoeddus yn wahanol fathau o grwpiau gwasanaethau cyhoeddus:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gwasanaethau brys (gwasanaethau golau glas) • lluoedd arfog • awdurdodau lleol • llywodraeth ganolog • gwasanaethau'r sector gwirfoddol (trydydd sector). <p>Mae'r grwpiau hyn yn gweithio i warchod pob cymuned a byddant yn ffocysu eu gwaith yn benodol ar anghenion cymunedau unigol lle mae angen hynny.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwasanaethau brys <ul style="list-style-type: none"> ○ yr heddlu – cyflwynodd yr heddlu blismona cymunedol i roi mwy o lais i bobl leol ynghylch swyddogion unigol a'r ffordd y mae eu hardal yn cael ei phlisma; mae cwnstabiliaid arbennig a Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSOau) yn cael eu clustnodi i ardaloedd arbennig ○ gwasanaeth tân ac achub – yn darparu gwasanaethau atal tân, e.e. darparu cyfleusterau hyfforddi a hamdden ar gyfer pobl ifanc dan anfantais, darparu larymau tân am ddim a'u gosod i'r henoed ○ gwasanaeth ambiwlans – yn darparu cludiant wedi'i drefnu ymlaen llaw i gleifion, e.e. o'r cartref i'r ysbyty.

parhad

Beth sydd angen ei ddysgu

- Lluoedd arfog
 - Y Fyddin Brydeinig – yn darparu cefnogaeth pan fydd argyfyngau lleol yn digwydd, e.e. helpu'r gymuned leol yn ystod llifogydd Swydd Efrog yn 2012
 - Y Llynges Frenhinol – yn gweithio gyda chymunedau lleol i ddarparu canolfannau cymunedol a gweithgareddau cysylltiedig
 - Y Llu Awyr Brenhinol – yn gweithio gyda gwirfoddolwyr ac weithiau gydag asiantaethau preifat, e.e. i ddarparu gwasanaethau achub mynydd i sifiliaid o ddringwyr sy'n mynd i drafferth.
- Gwasanaethau llywodraeth leol a chanolog – yn targedu gwasanaethau ar gyfer cymunedau cenedlaethol a lleol drwy:
 - gynllunio argyfwng, e.e. drwy weithio gyda mudiadau'r sector gwirfoddol (trydydd sector) i baratoi ar gyfer digwyddiadau mawr megis damweiniau trên ac ymosodiadau terfysgol
 - addysg, e.e. awdurdodau lleol yn sicrhau bod darpariaeth yn cael ei gwneud i blant sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol
 - iechyd, e.e. ymysg llawer o faterion perthnasol eraill, rhaid i weithwyr gofal iechyd ystyried anghenion diwylliannol a chrefyddol unigolion ynghylch gwyleidd-dra (modesty) a derbyn, neu fel arall, triniaeth gan rywun o'r rhyw arall.
 - gwasanaethau hamdden, e.e. rhaid i ddarparwyr gwasanaethau hamdden sicrhau nad yw unigolion ag anableddau a'r henoed dan anfantais yn sgil diffyg mynediad i gyfleusterau hamdden/chwaraeon
 - gwasanaethau gwirfoddol (trydydd sector) gan gynnwys: Shelter (cefnogaeth i'r digartref), RNL (yn gweithio i achub bywydau ar y môr ac mewn dyfroedd eraill), Byddin yr Iachawdwriaeth (yn darparu amrywiaeth o wasanaethau i helpu gwarchod pobl sy'n agored i niwed neu bobl yr ymylon).

Nod dysgu B: Deall sut mae peryglon a risgiau i unigolion a chymunedau'n cael eu rheoli gan y gwasanaethau cyhoeddus**Testun B.1 Peryglon a risgiau**

Mathau o beryglon neu risgiau:

- trychinebau naturiol, e.e. llifogydd a chlefydau
- peryglon sy'n cael eu hachosi gan weithgareddau pobl, e.e. troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol
- lles cymdeithasol, e.e. gwarchod rhag creulondeb, diogelu plant, gwarchod yr henoed a'r anabl
- methiannau gyda thechnoleg neu gamsyniadau gan bobl, e.e. damweiniau trên, car ac awyren
- peryglon amgylcheddol, e.e. materion ynghylch gwaredu gwastraff y cartref a gwastraff cemegol
- terfysgaeth
- osgoi peryglon
 - cynllunio wrth gefn (mewn argyfwng), e.e. cloddio ffosydd a gosod bagiau tywod cyn unrhyw lifogydd y mae disgwyl iddynt ddigwydd
 - osgoi peryglon yn y gwaith (iechyd a diogelwch, asesu risgiau), e.e. asesiad iechyd a diogelwch mewn maes, e.e. mewn ffatrioedd a sefydliadau cynhyrchu i osgoi damweiniau potensial a chreu cynlluniau gweithredu ar gyfer adegau pan fydd damweiniau'n digwydd.

parhad

Beth sydd angen ei ddysgu**Testun B.2 Cyfranogiad unigol mewn gwarchod cymunedol**

- Gall pobl ifanc ymuno ag Ambiwlans Sant Ioan, neu eu llu heddlu/gwasanaeth tân ac achub lleol fel cadetiaid.
- Gwarchod y Gymdogaeth, Gwyllo Cyflymder, Gwarchod Ffermydd, grwpiau gweithredu.
- Amddiffyn plant, e.e. wrth weithio gydag elusen fel Achub y Plant.
- Heddlu Arbennig.
- Timau troseddau ieuenctid.
- Ynadon.
- Ailgylchu gwastraff i warchod yr amgylchedd.

Testun B.3 Mathau o weithio amlasiantaethol

Yn aml bydd nifer o sefydliadau sector cyhoeddus yn dod ynghyd i ddarparu amddiffyniad ar gyfer cymunedau. Mae angen i ddysgwyr ddeall sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn mabwysiadu dulliau amlasiantaethol i'r rhan fwyaf o beryglon a risgiau:

- bydd trychinebau naturiol, e.e. llifogydd, yn cynnwys yr heddlu, gwasanaethau tân ac achub, awdurdodau lleol, adrannau llywodraeth ganolog megis Defra, elusennau achub 4 x 4, RNLI
- bydd materion iechyd, e.e. ymgyrchoedd gwrth ysmegu, yn cynnwys Yr Adran Iechyd, awdurdodau lleol, ysgolion, y GIG, elusennau megis Ash (Action on Smoking and Health)
- diogelwch y ffordd – gall gynnwys yr heddlu, gwasanaethau tân ac achub, yr Adran Drafnidiaeth, awdurdodau lleol, ysgolion, elusennau megis Brake a'r Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau (ROSPA), pobl leol
- diogelu plant – menter wedi'i dylunio i ddod â phob sefydliad sy'n delio â phobl ifanc at ei gilydd, megis yr heddlu, addysg, gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau iechyd, er mwyn gwneud yn siŵr fod y bobl ifanc yn cael eu gwarchod rhag niwed a bod ganddynt y cyfle gorau o lwyddo
- gweithredu gan y gymuned leol yn erbyn troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol – yn aml y gymuned ei hun sy'n ffurfio craidd mentrau lleol, e.e. Gwarchod y Gymdogaeth, Gwyllo Cyflymder, a rhaglenni gwirfoddoli eraill megis Gwirfoddolwyr Gwella'r Gymuned a chwnstabiliaid arbennig, partneriaethau diogelwch y gymuned, cynghorau lleol, a sefydliadau sector gwirfoddol megis grwpiau ffydd ac elusennau megis Stonewall sy'n cefnogi pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol i gymryd rhan mewn gwaith gwella'r gymuned leol.

Meini prawf asesu

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
Nod dysgu A: Archwilio sefydliadau allweddol sy'n gweithio i warchod cymunedau			
1A.1 Adnabod anghenion dau wahanol fath o gymuned.	2A.LI1 Disgrifio anghenion dau wahanol fath o gymuned.	2A.T1 Cymharu, gan ddefnyddio enghreifftiau, y ffyrdd y mae dau wasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol yn gweithio i warchod eu cymuned.	2A.Rh1 Dadansoddi'r manteision i'r gymuned leol o gael dau wasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol yn gweithio i warchod eu cymuned.
1A.2 Amlinellu'r ffyrdd y mae dau wasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol yn gweithio i warchod eu cymunedau.	2A.LI2 Esbonio sut mae dau wasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol yn gweithio i warchod gwahanol fathau o gymunedau.		

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
Nod dysgu B: Deall sut mae peryglon a risgiau i unigolion a chymunedau'n cael eu rheoli gan y gwasanaethau cyhoeddus			
1B.3 Amlinellu'r gwahanol fathau o beryglon a risgiau potensial mewn cymunedau.	2B.LI3 Disgrifio sut mae cymunedau'n rheoli peryglon a risgiau.	2B.T2 Esbonio manteision potensial cynllunio wrth gefn ar gyfer peryglon a risgiau mewn cymunedau, gan ddefnyddio enghreifftiau.	
1B.4 Adnabod ffyrdd y gall unigolion gefnogi gwasanaethau cyhoeddus i reoli risgiau o fewn y gymuned.	2B.LI4 Disgrifio ffyrdd y gall unigolion gefnogi gwasanaethau cyhoeddus i reoli risgiau o fewn y gymuned.	2B.T3 Esbonio manteision o gael unigolion yn cefnogi'r gwasanaethau cyhoeddus i reoli risgiau o fewn y gymuned.	2B.Rh2 Dadansoddi, gan ddefnyddio enghreifftiau penodol, y manteision o gael unigolion yn cefnogi'r gwasanaethau cyhoeddus i reoli risgiau o fewn y gymuned.
1B.5 Adnabod sut mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd i warchod y gymuned rhag un perygl neu risg.	2B.LI5 Esbonio sut mae un math o weithio amlasiantaethol yn gwarchod y gymuned rhag risgiau a pheryglon.	2B.T4 Asesu un ffordd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd i warchod y gymuned rhag risgiau a pheryglon.	2B.Rh3 Gwerthuso ffyrdd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd i warchod y gymuned rhag risgiau a pheryglon.

*Cyfle i asesu sgiliau mathemategol

#Cyfle i asesu sgiliau Cymraeg

Arweiniad i athrawon

Adnoddau

Nid oes angen unrhyw adnoddau arbennig ar gyfer yr uned hon.

Canllaw asesu

Caiff yr uned hon ei hasesu'n fewnol gan y ganolfan a'i dilysu'n allanol gan Pearson. Darllenwch y canllaw hwn ochr yn ochr ag *Adran 8: Asesu mewnol*.

Yn *Uned 1: Rôl a Gwaith y Gwasanaethau Cyhoeddus*, rhoddwyd y cyfle i ddysgwyr astudio'r gwahanol grwpiau o sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus, megis y lluoedd arfog a gwasanaethau llywodraeth ganolog a lleol, ac i adnabod sefydliadau o fewn y grwpiau hynny. Yn yr uned hon, yn nod dysgu A, byddant yn archwilio'r gwahanol sefydliadau yn fanylach ac yn ystyried eu rolau a'u dyletswyddau o ddydd i ddydd. Mae'r sefydliadau fydd yn cael eu hastudio, er enghraifft y fyddin, llywodraeth leol a'r RNLI, wedi eu nodi yng nghynnwys yr uned. Fodd bynnag, nid yw hi'n bosibl nac yn ddymunol i restru holl amrediad y gweithgareddau y mae'r gwasanaethau hyn yn eu cyflawni wrth warchod cymunedau. Penderfyniad yr athro yw hi felly i benderfynu ar ba weithgareddau i ffocysu gan fod hyn yn rhoi cyfle i'r athro edrych ar faterion a mentrau lleol yn ogystal ag ar rai cenedlaethol.

Yn Nod Dysgu B, bydd dysgwyr yn ystyried y sefydliadau hyn yng nghyd-destun gwarchod unigolion a chymunedau. Mae'r rhestr o fgythiadau a pheryglon potensial sy'n gallu wynebu cymunedau yn hir iawn wrth gwrs. Roedd llifogydd 2012 a'r bomiau terfysgol yn Llundain yn faterion mawr ddaeth i wynebu'r cymunedau dan sylw a'r wlad gyfan. Mae llawer o faterion, fodd bynnag, yn llawer mwy lleol a phenodol. Bydd Pwnc B, yn archwilio'r risgiau hynny yn ogystal ag ystyried rhai gweithgareddau lleihau ac atal risgiau.

Nod dysgu A

Ar gyfer **2A.LI1**: rhaid i ddysgwyr ddisgrifio anghenion dau wahanol fath o gymuned. Mae angen iddynt allu adnabod fod gwahanol gymunedau'n bodoli a beth yw eu hanghenion.

For **2A.LI2**: rhaid i ddysgwyr esbonio sut mae dau wasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol yn gweithio i warchod gwahanol fathau o gymunedau. Er enghraifft, gall yr awdurdod lleol fod yn cynnig cartrefi gofal i blant mewn angen, a gall y gwasanaeth tân ac achub gynnig cyngor diogelwch tân a larymau tân am ddim i bobl hŷn. Er mwyn galluogi dysgwyr i ddarparu ymatebion mor eang â phosibl, mae'n hanfodol eu bod yn dewis gwasanaethau gwrthgyferbyniol. e.e. un o'r awdurdod lleol ac un o'r gwasanaethau brys. Fyddai dau wasanaeth brys (gwasanaethau golau glas), er enghraifft yr heddlu a thân ac achub, ddim yn cael eu hystyried yn rhai gwrthgyferbyniol, felly argymhellir bod canolfannau'n dewis eu henghreffitiau o wahanol grwpiau gwasanaethau cyhoeddus.

Ar gyfer **2A.T1**: dylai dysgwyr gymharu'r ffyrdd y mae'r ddau wasanaeth y maent wedi eu dewis yn gweithio i warchod cymunedau. Er enghraifft, mae darparu cartrefi gofal yn wasanaeth sy'n seiliedig yn bennaf ar angen y plentyn unigol, lle gall cyngor ar ddiogelwch tân fod ar gael yn rhwydd i bawb. Mae'n eithriadol o bwysig bod dysgwyr yn dewis sefydliadau gwrthgyferbyniol i sicrhau eu bod yn gallu gwneud cymariaethau diddorol ac ystyrlon.

Ar gyfer **2A.Rh1**: dylai dysgwyr ddadansoddi'r manteision i'r gymuned leol o gael dau wasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol yn gweithio i warchod eu cymuned. Er enghraifft, ystyried y manteision y mae'r cymunedau hyn yn eu profi yn sgil y gwasanaeth sy'n cael ei gynnig, y ffordd mae'n cael ei ddarparu, a'r canlyniadau pe na byddai'r sefydliadau hyn yn cyflawni'r swyddogaethau hyn yn effeithiol.

Ar gyfer **1A.1**: rhaid i ddysgwyr adnabod a chyflwyno tystiolaeth am anghenion dau wahanol fath o gymuned. Gallent gyflwyno'r wybodaeth hon, er enghraifft, ar ffurf poster.

Ar gyfer **1A.2**: dylai dysgwyr gyflwyno amlinelliad o'r prif ffyrdd y mae dau wasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol, sydd wedi eu henwi, yn gwarchod cymunedau.

Nod dysgu B

Ar gyfer **2B.LI3**: mae'r maen prawf hwn yn gofyn i ddysgwyr sut mae cymunedau'n rheoli peryglon a risgiau. Dylai'r ystyriaeth gynnwys y defnydd o gynllunio wrth gefn ac asesiadau osgoi risgiau.

Ar gyfer **2B.LI4**: rhaid i ddysgwyr ddisgrifio ffyrdd y gall unigolion gefnogi gwasanaethau cyhoeddus yn rheoli risgiau o fewn y gymuned. Er enghraifft, gallai dysgwyr ystyried y gwahanol fathau o grwpiau y gall unigolion weithio gyda nhw, megis Gwarchod y Gymdogaeth, sy'n anelu i warchod trigolion rhag troseddau.

Ar gyfer **2B.LI5**: rhaid i ddysgwyr esbonio sut mae un math o weithio amlasiantaethol yn gwarchod y gymuned rhag risgiau a pheryglon. Rhaid i ddysgwyr archwilio ffyrdd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn mabwysiadu dull amlasiantaethol i warchod cymunedau. Nid yw athrawon wedi eu cyfyngu i'r enghreifftiau a roddir yn y fanyleb; gallant edrych ar enghreifftiau eraill, rhai mwy lleol a pherthnasol i'w dysgwyr efallai.

Ar gyfer **2B.T2**: rhaid i ddysgwyr esbonio manteision posibl cynllunio wrth gefn ar gyfer peryglon a risgiau mewn cymunedau, gan ddefnyddio enghreifftiau. Dylai dysgwyr ystyried sut mae cymunedau'n cynllunio lliniaru/osgoi peryglon a risgiau, e.e. driliau'r gwasanaeth tân/cynlluniau rhag gollyngiadau cemegion, drwy gynllunio cymunedol lleol.

Ar gyfer **2B.T3**: dylai dysgwyr esbonio manteision unigolion yn cefnogi gwasanaethau cyhoeddus i reoli risgiau o fewn eu cymuned lleol. Er enghraifft, mae cymryd rhan mewn Gwyllo Cyflymder yn golygu fod traffig ar ffordd neu ardal benodol yn cael ei arafu, gan achub bywydau a rhwystro anafiadau, ac ar yr un pryd yn rhyddhau swyddogion yr heddlu ar gyfer dyletswyddau mwy cymhleth.

Ar gyfer **2B.T4**: dylai dysgwyr allu asesu un ffordd y mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn gweithredu gyda'i gilydd i ddelio gyda risgiau a pheryglon. Mae timau troseddau ieuencid (YOTau), er enghraifft, yn dimau amlasiantaethol sy'n cael eu goruchwylio gan awdurdodau lleol. Eu prif swyddogaeth yw delio gyda throseddwr ifanc a'u hatal rhag aildroseddu neu gael eu traddodi eto i ddedfrydau cosb.

Ar gyfer **2B.Rh2**: rhaid i ddysgwyr ddadansoddi, gan ddefnyddio enghreifftiau penodol, y manteision o gael unigolion yn cefnogi'r gwasanaethau cyhoeddus i reoli risgiau o fewn y gymuned. Mae angen i ddysgwyr edrych yn feirniadol ar gyfranogiad unigolion tuag at warchod y gymuned, i ddadansoddi, gan ddefnyddio enghreifftiau priodol, i ba raddau y maent yn teimlo y gall cyfraniad unigolyn fod yn effeithiol ac yn llesol. Er enghraifft, 'Ydy Gwarchod y Gymuned yn lleihau troseddu?'

Ar gyfer **2B.Rh3**: rhaid i ddysgwyr werthuso effeithiolrwydd ymdrechion ar y cyd gan wasanaethau cyhoeddus i ddelio gyda risgiau a pheryglon penodol. Gall dysgwyr ystyried agweddau megis 'Ydy ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth o gyffuriau lle ceir dulliau amlasiantaethol yn gweithio?' Ydy YOTau'n atal pobl ifanc rhag troseddu?

Ar gyfer **1B.3**: dylai dysgwyr allu amlinellu o leiaf dri risg neu berygl sy'n wynebu cymunedau lleol.

Ar gyfer **1B.4**: dylai dysgwyr adnabod ffyrdd y gall unigolion gefnogi gwasanaethau cyhoeddus i reoli risgiau o fewn y gymuned. Dylent fedru adnabod ffyrdd y mae unigolion yn gweithio yn y gymuned ac yn gwarchod y gymuned rhag peryglon a risgiau drwy gefnogi'r gwasanaethau cyhoeddus. Gallai dysgwyr gyflwyno eu tystiolaeth ar ffurf poster neu daflen.

Ar gyfer **1B.5**: dylai dysgwyr adnabod sut mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd i warchod y gymuned rhag un perygl neu risg, a rhoi syniadau ar sut y mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn gwarchod y gymuned drwy gydweithio gyda'i gilydd.

Awgrymiadau ar gyfer amlinelliadau tasgau asesu

Mae'r tabl isod yn dangos rhaglen o amlinelliadau tasgau asesu posibl sy'n cwmpasu'r meini prawf asesu. Arweiniad yw hwn, ac awgrymir bod canolfannau naill ai'n ysgrifennu eu haseiniadau eu hunain neu'n addasu unrhyw aseiniadau y byddwn ni'n eu darparu i gwrdd ag anghenion ac adnoddau lleol.

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Tasg/Senario	Tystiolaeth asesu
1A.1, 1A.2, 2A.LI1, 2A.LI2, 2A.T1, 2A.Rh1	<p>Mae'r cylchgrawn cymunedol lleol am gyhoeddi erthygl i gyflwyno dysgwyr i'r rôl hanfodol y mae gwasanaethau cyhoeddus yn ei chwarae i warchod y gymuned.</p> <p>Rydych chi wedi cael gwahoddiad i ysgrifennu'r erthygl.</p> <p>Byddwch yn gwneud ymchwil i'r 'cymunedau' a ddewiswyd a beth yw eu hanghenion unigol.</p> <p>Defnyddiwch eich ymchwil i gefnogi eich erthygl. Bydd rhaid i'r erthygl gynnig dadansoddiad o sut mae dau wasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol wedi gweithio i warchod y cymunedau a nodwyd gennych. Rhaid i chi ystyried y manteision sy'n deillio o gael gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd.</p>	<p>Bydd y mathau o dystiolaeth y byddwch yn ei chynhyrchu yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • erthygl gylchgrawn sy'n mynd i'r afael â'r ffordd y mae dau wasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol yn gweithio i amddiffyn y gymuned, a manteision ac anfanteision gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd. • nodiadau paratoi unigol i gefnogi eich erthygl, yn cynnwys nodiadau ymchwil, cyfweiliadau, holiaduron ac ati. • darluniau, lle mae hynny'n berthnasol, i gefnogi'r erthygl.

Meini prawf gafodd eu cynnwys	Tasg/Senario	Tystiolaeth asesu
<p>1B.3, 1B.4, 1B.5, 2B.LI3, 2B.LI4, 2B.LI5, 2B.T2, 2B.T3, 2B.T4 2B.Rh2, 2B.Rh3</p>	<p>Rydych wedi cael eich cyflwyno i'r gwahanol ffyrdd y mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn gwarchod y gymuned. O ganlyniad rydych wedi penderfynu y byddech yn hoffi cymryd mwy o ran mewn gwarchod y gymuned.</p> <p>Dydych chi ddim wedi penderfynu eto beth yr hoffech chi ei wneud fel gyrfa, ond rydych yn teimlo'n sicr y byddech yn hoffi cymryd rhan mewn rhyw rôl wirfoddol pan fyddwch yn gallu gwneud hynny.</p> <p>Mae swyddfa gyrfaedd yr ysgol/coleg yn paratoi llyfryn gwybodaeth am y gwahanol swyddi gwasanaethau cyhoeddus sy'n cymryd rhan mewn gwarchod y gymuned. Mae angen peth ymchwil gefndir ar y swyddfa fyddai'n cefnogi'r staff sy'n paratoi'r llyfryn ar sut mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn gwarchod y gymuned.</p> <p>Rydych chi wedi cael cais i gynnal yr ymchwil ac ysgrifennu adroddiad sy'n mynd i'r afael â'r manteision potensial o gynllunio wrth gefn a sut mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn defnyddio'r cynllunio hwn. Bydd angen i chi hefyd fynd i'r afael â'r manteision sy'n dod yn sgil cefnogaeth unigolion i wasanaethau cyhoeddus i reoli risgiau yn y gymuned, a sut mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd i warchod y gymuned.</p>	<p>Bydd y mathau o dystiolaeth y byddwch yn eu cynhyrchu'n cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • yr adroddiad yn mynd i'r afael â manteision cynllunio wrth gefn, manteision unigolion yn gweithio i gefnogi'r gwasanaethau cyhoeddus a sut mae'r gwahanol wasanaethau cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd • nodiadau paratoi ac ymchwil a ddefnyddiwyd i gefnogi'r adroddiad, yn cynnwys unrhyw ddadansoddi a gwerthuso i ddod i gasgliadau ar gyfer yr adroddiad.

Uned 5: Iechyd, Ffitrwydd a Ffordd o Fyw ar gyfer y Gwasanaethau Cyhoeddus

Lefel: **1 a 2**

Math o uned: **Dewisol arbenigol**

Oriau dysgu dan arweiniad: **30**

Dull asesu: **Mewnol**

Cyflwyniad i'r uned

Ydych chi erioed wedi meddwl sut mae deiet a ffordd o fyw'n gallu cael cymaint o effaith ar eich ffitrwydd? Pam mae rhai pobl yn gallu bwyta faint fynnan nhw ac aros yn denau? Oes rhaid iddyn nhw wneud llawer o ymarfer corff? Ydych chi erioed wedi meddwl pa fath o iechyd a ffitrwydd fyddai angen arnoch chi i weithio mewn rhai gwasanaethau cyhoeddus? Neu'r mathau o brofion ffitrwydd y gallai'r gwahanol wasanaethau cyhoeddus eu defnyddio?

Yn yr uned hon byddwch yn edrych ar effeithiau deiet, maethiad a ffordd o fyw ar ffitrwydd person, ac o ganlyniad byddwch yn ystyried eich ffitrwydd eich hun. Byddwch yn datblygu dealltwriaeth o'r hyn sydd ei angen ar gyfer deiet cytbwys a'r effeithiau y gall maethiad da neu wael ei gael. Byddwch hefyd yn edrych ar wahanol agweddau o ffordd o fyw ac yn archwilio a ydyn nhw'n llesol neu'n niweidiol i'ch iechyd a'ch ffitrwydd. Bydd y ffactorau ffordd o fyw gwahanol y byddwch yn edrych arnyn nhw'n cynnwys effeithiau ysmegu, alcohol, cyffuriau a deiet. Drwy hyn byddwch yn gweld nad hyfforddiant ffitrwydd yw'r unig ffordd i reoli iechyd a ffitrwydd.

Byddwch hefyd yn datblygu eich gwybodaeth am ofynion iechyd a ffitrwydd ar gyfer amrywiaeth o wasanaethau cyhoeddus. Oes yna nodau penodol y mae'n rhaid i chi eu cyrraedd i gael mynediad i'r gwasanaeth hwnnw a pha mor aml allai'ch ffitrwydd gael ei wirio unwaith y byddwch yn y swydd? I ateb y cwestiynau hyn, byddwch yn gwneud ymchwil i ofynion gwahanol wasanaethau, rhai mewn lifrau ac eraill, ac yn ystyried sut y byddech chi'n cynnal y lefel honno o iechyd a ffitrwydd.

Bydd yr uned hon yn rhoi'r cyfle i chi wneud ymchwil i rai o'r gwahanol brofion ffitrwydd a phrofion blynyddol sy'n cael eu cynnal o fewn y gwasanaethau cyhoeddus. Drwy drefnu, cwblhau neu fonitro profion tebyg, byddwch yn datblygu dealltwriaeth o'r rhesymau pam mae profion fel hyn yn cael eu cynnal a'u perthnasedd i'r gwaith sy'n rhan o'r rôl.

Nodau dysgu

Yn yr uned hon byddwch yn:

- A deall effaith ffactorau maethiad a ffordd o fyw sylfaenol ar iechyd a ffitrwydd
- B archwilio gofynion iechyd a ffitrwydd gwahanol wasanaethau cyhoeddus
- C cymryd rhan mewn profion ffitrwydd gwasanaethau cyhoeddus.

Nodau dysgu a chynnwys yr uned

Beth sydd angen ei ddysgu
<p>Nod dysgu A: Deall effaith ffactorau maethiad a ffordd o fyw sylfaenol ar iechyd a ffitrwydd</p> <p>Testun A.1 Deiet a maethiad ar gyfer ffordd o fyw iach a ffit</p> <p>Mae deiet iach yn cynnwys amrywiaeth o faetholion sylfaenol y mae eu hangen ar y corff ar gyfer egni, i dyfu ac i aros yn iach. Y maetholion sylfaenol yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> • carbohydradau • proteinau • brasterau • fitaminau • mwynau • dŵr. <p>Rhaid i ddeiet iach hefyd gynnwys ffibr ar gyfer system dreuliol iach.</p> <p>Argymhelliad y llywodraeth am bump grŵp bwyd a'u dognau ar gyfer 'plât bwyta'n iach' (<i>eatwell plate</i>) i gefnogi deiet iach:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ffrwythau a llysiau • bara, reis, grawnfwydydd, pasta • llaeth, cynnyrch llaeth • cig, pysgod a phethau amgen • bwyd sy'n cynnwys braster a bwyd sy'n cynnwys siwgr. <p>Gellir effeithio ar ddeiet yn amgylchedd y cartref gan y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • yr arian sydd ar gael i brynu bwyd • yr amser y gellir ei neilltuo ar gyfer prydau bwyd. <p>Gall dewisiadau unigol ar gyfer maethiad effeithio ar ddeiet unigolion a'r dewis o fwyd, yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • chwaeth a chredoau unigol • mathau o ddeiet a ddewiswyd, e.e. fegan, halal • dewis cael deiet iach, e.e. pump y dydd (ffrwythau a llysiau), cymeriant beunyddiol argymelledig • dewis cael deiet cytbwys • bwyta ar gyfer ffordd o fyw actif. <p>Gall hanes teuluol o salwch neu glefyd fod yn ddangosydd risgiau iechyd personol y gellir mynd i'r afael â nhw mewn rhai achosion, drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gwell deiet • gwell maethiad. <p>Gellir monitro effaith maethiad da a drwg ar iechyd personol drwy wirio am amrediad o gyflyrau drwy sgrinio iechyd effeithiol, yn cynnwys profion am:</p> <ul style="list-style-type: none"> • hypoglycaemia • diabetes • gordewdra <p style="text-align: right;"><i>parhad</i></p>

Beth sydd angen ei ddysgu

- colesterol
- pwysedd gwaed
- clefyd y galon.

Effeithiau deiet a maethiad gwael ar iechyd a ffitrwydd:

- cysgadurwydd
- gordewdra
- rhagduddiad i salwch neu anafiadau
- diffyg canolbwytio.

Testun A.2 Ffactorau ffordd o fyw sy'n effeithio ar iechyd a ffitrwydd

Mae ffordd o fyw actif sy'n cynnwys ymarfer corff rheolaidd neu gymryd rhan reolaidd mewn chwaraeon yn effeithio'n gadarnhaol ar unigolyn:

- pan fydd wedi'i gyfuno â deiet iach
- pan mae gofynion cwsg yn cael eu bodloni
- pan mae gofynion am lendid personol da yn cael eu bodloni.

Mae ymarfer corff yn achlysurol yn cael effeithiau da a drwg, a gall:

- gynyddu metabolaeth, gwella ffyrfder cyhyrau, gwella capasiti resbiradol, rhyddhau endorffinau
- achosi anafiadau, megis ysgiadau a thynnu cyhyrau, os nad yw'r corff wedi arfer ag ymarfer.

Gall ysmegu, yfed a defnyddio cyffuriau amrywio o ddefnydd achlysurol i fod yn gaeth, a gall effeithio ar:

- iechyd corfforol a iechyd meddwl
- glendid personol.

Mae iechyd rhywiol yn effeithio ar iechyd a ffitrwydd cyffredinol, yn cynnwys:

- patrymau a threfn cwsg
- clefydau (cysylltiad rhywiol)
- effaith emosïynol.

Beth sydd angen ei ddysgu**Nod dysgu B: Archwilio gofynion iechyd a ffitrwydd gwahanol wasanaethau cyhoeddus****Testun B.1 Gofynion swyddi gwasanaethau cyhoeddus o ran iechyd a/neu ffitrwydd**

Mae modd rhannu'r sector gwasanaethau cyhoeddus yn wahanol fathau o grwpiau gwasanaethau cyhoeddus:

- gwasanaethau brys (gwasanaethau golau glas)
- lluoedd arfog
- awdurdodau lleol
- llywodraeth ganolog
- gwasanaethau'r sector gwirfoddol (trydydd sector).

Mae gan swyddi penodol o fewn gwasanaethau cyhoeddus unigol ofynion iechyd a/neu ffitrwydd i bennu addasrwydd unigolyn ar gyfer y swyddi:

- gwasanaethau brys, e.e. swyddogion heddlu, diffoddwyr tân
- lluoedd arfog, e.e. peilot, milwr
- awdurdodau lleol, e.e. gweithiwr cymdeithasol
- llywodraeth ganolog, e.e. gwas sifil
- gwasanaethau gwirfoddol, e.e. Y Groes Goch Brydeinig, Ambiwlans Sant Ioan.

Rhesymau dros y gwahaniaethau mewn gofynion rhwng gwasanaethau, yn cynnwys:

- y gwahaniaethau yn natur y gwaith sy'n cael ei wneud gan weithwyr ym mhob gwasanaeth
- gwahanol alwadau corfforol pob un.

Mae gan rai swyddi ofynion ffitrwydd parhaus y mae angen eu bodloni a'u cynnal.

Y rhesymau dros ofynion ffitrwydd parhaus yw:

- effeithlonrwydd yn y gwaith – mae pobl yn fwy cynhyrchiol os ydynt yn ffit ac yn iach
- costau i gyflogwyr – mae gweithwyr mewn rhai swyddi yn dal i gael eu talu pan fyddant ar absenoldeb salwch
- lefelau staffio – gyda rhai gwasanaethau cyhoeddus gall fod problemau difrifol os yw lefelau staffio'n gostwng, gan achosi risg i weithwyr eraill ac i'r cyhoedd.
- natur egniol neu gorfforol peth gwaith – mae angen i weithwyr aros yn ffit ac yn iach i berfformio eu dyletswyddau'n ddiogel.

Beth sydd angen ei ddysgu**Nod dysgu C: Cymryd rhan mewn profion ffitrwydd gwasanaethau cyhoeddus****Testun C.1 Profion ffitrwydd**

Mae amrediad eang o brofion ar gael y gellir eu defnyddio gan wahanol wasanaethau cyhoeddus i sefydlu ffitrwydd ar gyfer mynediad i'r swydd neu ffitrwydd tra yn y swydd:

- profion ffitrwydd gwasanaethau cyhoeddus
 - hyblygrwydd, e.e. eistedd ac estyn
 - cryfder, e.e. profion cryfder mwyafswm ailadrodd sengl (1RM), dynamometr gafael
 - dygnwch aerobig, e.e. prawf ffitrwydd amlran, prawf camu
 - cyflymder, e.e. profion gwibio
 - pŵer, e.e. naid fertigol
 - dygnwch cyhyrol, e.e. byrfreichiau munud, plygu bongorff ('sit-ups') munud
 - iechyd (BMI, cyfansoddiad y corff)
- protocolau mewn perthynas â phob prawf
- gofynion gwasanaethau cyhoeddus mewn perthynas â chanlyniadau profion.

Meini prawf asesu

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
Nod dysgu A: Deall effaith ffactorau maethiad a ffordd o fyw sylfaenol ar iechyd a ffitrwydd			
1A.1 Adnabod effeithiau maethiad ar iechyd a ffitrwydd.	2A.LI1 Disgrifio effeithiau maethiad ar iechyd a ffitrwydd.	2A.T1 Esbonio sut mae maethiad a ffactorau ffordd o fyw'n effeithio ar iechyd a ffitrwydd.	2A.Rh1 Dadansoddi effaith potensial maethiad a ffactorau ffordd o fyw ar unigolion er mwyn argymhell gwelliannau.
1A.2 Adnabod effeithiau ffactorau ffordd o fyw ar iechyd a ffitrwydd.	2A.Rh2 Disgrifio effeithiau ffactorau ffordd o fyw ar iechyd a ffitrwydd.		
Nod dysgu B: Archwilio gofynion iechyd a ffitrwydd gwahanol wasanaethau cyhoeddus			
1B.3 Rhestru'r gofynion iechyd a ffitrwydd ar gyfer swyddi mewn tri gwahanol wasanaeth cyhoeddus.	2B.LI3 Disgrifio'r gofynion iechyd a ffitrwydd ar gyfer swyddi mewn tri gwahanol wasanaeth cyhoeddus.	2B.T2 Cymharwch y rhesymau dros y gofynion iechyd a ffitrwydd mewn tri gwasanaeth cyhoeddus.	2B.Rh2 Gwerthuso gofynion iechyd a ffitrwydd o fewn gwasanaethau cyhoeddus gan gyfeirio at ofynion swydd.
1B.4 Amlinellwch resymau dros y gofynion iechyd a ffitrwydd mewn tri gwasanaeth cyhoeddus.	2B.LI4 Esboniwch pam mae gan dri gwasanaeth cyhoeddus ofynion iechyd a ffitrwydd.		

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
Nod dysgu C: Cymryd rhan mewn profion ffitrwydd gwasanaethau cyhoeddus			
1C.5 Cymryd rhan mewn profion ffitrwydd ar gyfer dau wasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol gan gadw log canlyniadau i adnabod canlyniadau.	2C.LI5 Cymryd rhan mewn profion ffitrwydd ar gyfer dau wasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol gan gadw log canlyniadau i ddisgrifio canlyniadau.	2C.T3 Dadansoddi canlyniadau'r profion ffitrwydd gafodd eu cymryd ar gyfer dau wasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol. *	2C.Rh3 Asesu canlyniadau'r profion ffitrwydd gafodd eu cymryd ar gyfer dau wasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol i argymhell gwelliannau. *
1C.6 Adnabod canlyniadau'r profion ffitrwydd gafodd eu cymryd ar gyfer dau wasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol. *	2C.LI6 Esbonio canlyniadau'r profion ffitrwydd gafodd eu cymryd ar gyfer dau wasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol. *		

*Cyfle i asesu sgiliau mathemategol

#Cyfle i asesu sgiliau Cymraeg

Arweiniad i athrawon

Adnoddau

Yr adnoddau arbennig sydd eu hangen ar gyfer yr uned hon yw defnydd o neuadd chwaraeon ac offer hyfforddi a phrofi ffitrwydd. Rhaid i staff fod wedi cymhwyso i'r lefel berthnasol i arwain sesiynau ymarferol. Dylai adnoddau llyfrgell digonol fod ar gael i alluogi dysgwyr i gyrraedd y lefel o wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer yr uned hon.

Byddai gallu mynd at swyddogion recriwtio sydd â gwybodaeth am y profion ffitrwydd ar gyfer y gwasanaethau priodol yn llesol. Gellid gwahodd tîm gweledd y Môr-Filwyr Prydeinig (The Royal Marines visibility team) i ymweld, drwy gysylltu â swyddfa leol gyfaedd y lluoedd arfog, a gallent ddarparu cymorth gyda'r uned hon. Mae gan y Llynges Frenhinol hefyd dimau arddangos hyfforddiant corfforol a thimau arddangos Ffit i Fyw (Fit for Life) sy'n cyfuno i ddarparu arweiniad ar ffordd o fyw iach a ffitrwydd a byddent yn gyfranwyr delfrydol ar gyfer yr uned hon.

Canllaw asesu

Caiff yr uned hon ei hasesu'n fewnol gan y ganolfan a'i dilysu'n allanol gan Pearson. Darllenwch y canllaw hwn ochr yn ochr ag *Adran 8: Asesu mewnol*.

Nod dysgu A

Dylai dysgwyr baratoi gwybodaeth ar ddeiet, maethiad a ffactorau ffordd o fyw. Byddai'r nod dysgu yn benthyg ei hun i ddarn o waith ysgrifenedig neu i gyflwyniad

Ar gyfer **2A.LI1**: dylai dysgwyr gyflwyno gwybodaeth ar y prif grwpiau bwyd, sut mae'r rhain yn ffurfio rhan o ddeiet cytbwys a'r effaith y gall hyn ei chael ar iechyd a ffitrwydd. Gallai dysgwyr ystyried yr argymhellion am gymeriant dyddiol, 'pump y dydd' a'r 'plât bwyta'n iach' a'r effaith y gall y rhain ei chael ar iechyd a ffitrwydd o gymharu â deiet afiach a'r risgiau iechyd allai fod yn gysylltiedig â deiet afiach.

Ar gyfer **2A.LI2**: dylai dysgwyr gyflwyno gwybodaeth ar ffactorau ffordd o fyw a'r effaith y gall y rhain ei chael ar iechyd a ffitrwydd. Dylai dysgwyr ystyried effaith ysmegu, yfed, cyffuriau ac iechyd rhywiol ar iechyd a ffitrwydd a'r salwch a'r clefydau allai ddigwydd o ganlyniad i hynny. Gallai hyn gael ei drafod mewn perthynas â manteision ymarfer corff rheolaidd, trefnau cwsg a glendid personol.

Ar gyfer **2A.T1**: dylai dysgwyr ystyried effeithiau maethiad a ffactorau ffordd o fyw ar iechyd a ffitrwydd unigol. Dylai dysgwyr esbonio effeithiau corfforol ac emosiynol maethiad da a gwael, yn ogystal â'r ffactorau ffordd o fyw cadarnhaol a negyddol. Gallai dysgwyr hefyd ystyried effaith amgylchedd y cartref, amgylchedd cymdeithasol a chefnidir y teulu ar iechyd a ffitrwydd.

Ar gyfer **2A.Rh1**: dylai dysgwyr ddadansoddi'r pwyntiau cadarnhaol a negyddol mewn perthynas ag effeithiau ffactorau maethiad a ffordd o fyw. Dylai dysgwyr ystyried salwch a chlefydau sy'n gallu digwydd o ganlyniad i ddewisiadau gwael yn ogystal â manteision tymor hir dewisiadau cadarnhaol. Rhaid iddynt wneud argymhellion o ran gwneud gwelliannau i faethiad a ffordd o fyw er mwyn ennill y manteision.

Ar gyfer **1A.1**: rhaid i ddysgwyr adnabod effeithiau maethiad ar iechyd a ffitrwydd. Rhaid iddynt adnabod y prif grwpiau bwyd a beth allai fod yn ddeiet cytbwys, a sut y gall hynny helpu i gefnogi iechyd yn ogystal â ffitrwydd.

Ar gyfer **1A.2**: fel gofyniad sylfaenol, rhaid i ddysgwyr adnabod effeithiau ffactorau ffordd o fyw ar iechyd a ffitrwydd. Dylent wneud rhyw gysylltiad rhwng ffordd o fyw a ffitrwydd. Dylai dysgwyr allu cysylltu ffactorau megis alcohol, ysmegu a chyffuriau gyda'r effeithiau ar iechyd a ffitrwydd.

Nod dysgu B

Dylai dysgwyr baratoi gwybodaeth ar y gofynion iechyd a ffitrwydd ar gyfer gwahanol wasanaethau cyhoeddus. Byddai'r nod dysgu yn benthyg ei hun i ddarn o waith ysgrifenedig neu i gyflwyniad.

Ar gyfer **2B.LI3**: dylai dysgwyr wneud ymchwil i dair swydd, un bob un o dri grŵp o wasanaeth cyhoeddus gwahanol, i ganfod gwybodaeth ar ofynion iechyd a ffitrwydd ar gyfer mynediad ac ar gyfer lefelau ffitrwydd tra yn y swydd. Er enghraifft, mae gan swyddi yn y gwasanaethau brys a'r lluoedd arfog ofynion mynediad sy'n ymwneud â ffitrwydd, a gall swyddi o fewn gwasanaethau cyhoeddus megis awdurdodau lleol, llywodraeth ganolog a gwasanaethau gwirfoddol fod â gofynion iechyd. Dylai dysgwyr ystyried profion ffitrwydd a sgrinio iechyd, yn ogystal â'r amrediad o gyflyrau all gael eu targedu gan y profion hyn, yn cynnwys pethau megis gofynion golwg a chanlyniadau murmur y galon ar gyfer ymgeiswyr i'r gwasanaethau cyhoeddus.

Ar **gyfer 2B.LI4**: dylai dysgwyr ystyried y rhesymau dros fodolaeth y gofynion iechyd a ffitrwydd. Bydd angen i ddysgwyr ystyried gofynion corfforol a meddyliol y swyddi y maent yn eu trafod a pherthnasu'r rhain i'r angen am iechyd a ffitrwydd. Gellid trafod effeithlonrwydd a chostau i gyflogwyr fan hyn. Dylai dysgwyr hefyd roi crynodeb o'r addasiadau y mae gofyn i gyflogwr eu gwneud mewn ymateb i'r ddeddfwriaeth a pha mor bell y gellir disgwyl i hyn fynd mewn perthynas â gwasanaethau cyhoeddus, gan ystyried a oes unrhyw eithriadau y mae'n rhaid eu gwneud.

Ar gyfer **2B.T2**: bydd dysgwyr yn cymharu'r rhesymau dros ofynion iechyd a ffitrwydd o fewn tri gwasanaeth cyhoeddus. Rhaid i ddysgwyr fynd i fwy o fanylion am y rhesymau dros y gofynion iechyd a ffitrwydd y maen nhw wedi eu trafod. Gallant wneud hyn drwy berthnasu'r gofynion i'r gwaith sy'n cael ei wneud yn y gwasanaeth penodol hwnnw neu drwy ystyried yr addasiadau y gallai fod angen eu gwneud gan y cyflogwr os yw mynediad, golwg neu glyw, er enghraifft, yn rhwystr. Gall dysgwyr hefyd roi sylwadau ar effeithiau salwch tymor hir ar rôl y swydd. Mae diogelwch cydweithwyr a diogelwch y cyhoedd yn fater y gallai dysgwyr ei drafod yma wrth iddynt ddatblygu'r ateb o'r gwaith ar gyfer **2B.LI4** uchod.

Ar gyfer **2B.Rh2**: Bydd dysgwyr yn gwerthuso'r gofynion iechyd a ffitrwydd o fewn y gwasanaethau cyhoeddus gan gyfeirio at swydd. Bydd dysgwyr yn ystyried cryfderau a gwendidau, neu fanteision ac anfanteision, y gofynion iechyd a ffitrwydd sy'n bodoli, gydag awgrymiadau amgen posibl. Gallai dysgwyr hefyd ystyried y gwahanol ofynion ar wahanol wasanaethau, gan roi pwyslais ar y gwahaniaethau mewn gofynion ar gyfer rolau mwy egniol (e.e. milwr) a rolau mwy eisteddol (e.e. gwas sifil). Lle mae dysgwyr yn teimlo nad yw'r gofynion yn dderbyniol gallent wneud argymhellion ynghylch beth, yn eu barn nhw, ddylai fod yn bodoli yn eu lle.

Ar gyfer **1B.3**: Dylai dysgwyr ddarparu rhestr o ofynion iechyd a ffitrwydd ar gyfer tair swydd, un bob un o dri gwahanol grŵp o wasanaethau cyhoeddus. Dylai hyn gwmpasu'r gofynion cyffredinol ar gyfer pob swydd sy'n cael ei thrafod. Dylai o leiaf un gael ei dewis o bob grŵp o wasanaethau cyhoeddus.

Ar gyfer **1B.4**: dylai dysgwyr amlinellu rhesymau dros gael y gofynion hyn, mewn perthynas â gofynion y swydd a'r gwaith sy'n cael ei wneud o fewn y rôl honno.

Nod dysgu C

Dylai dysgwyr wneud ymchwil i wybodaeth ar brofion ffitrwydd yn y gwasanaethau cyhoeddus ac yna dylent gael y cyfle i gymryd rhan yn y profion hyn mewn rhyw ffordd. Mae'r cynnwys yma'n benthgyl ei hun i drafodaeth mewn grwpiau bach gyda gweithgareddau ymarferol i ddilyn. Gallai hyn gael ei ddilyn gan waith ysgrifenedig sy'n defnyddio canlyniadau'r dysgwyr. Dylai'r profion ffitrwydd sy'n cael eu cynnal fod yn seiliedig ar y rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau cyhoeddus a dylent gwmpasu dau wasanaeth gwahanol. Gall cymryd rhan yn y profion ffitrwydd fod drwy drefnu'r profion, eu cwblhau, eu sgorio neu eu monitro.

Ar gyfer **2C.LI5**: Rhaid i ddysgwyr gymryd rhan mewn profion ffitrwydd ar gyfer dau wasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol gan gadw log canlyniadau i ddisgrifio canlyniadau. Rhaid i ddysgwyr gael y cyfle i gymryd rhan mewn amrediad o brofion ffitrwydd, a dylent gofnodi'r perfformiad a disgrifio'r canlyniadau. Rhaid iddynt ddangos eu bod yn gallu darllen a dangos dealltwriaeth o'r canlyniadau, gan ddefnyddio cyfrifiadau'n gywir, lle mae hynny'n briodol. Gall cymryd rhan olygu trefnu'r profion, eu cwblhau, eu sgorio neu eu monitro, er mwyn iddynt gael dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'r gofynion sy'n bodoli. Yn ddefnyddol, dylai bod amrediad o brofion o wasanaethau cyhoeddus gwrthgyferbyniol. Fodd bynnag, bydd hyn yn dibynnu ar y cyfleusterau sydd ar gael. Gall hyn fod yn faes y gall timau recriwtio ac arddangos milwrol fod o gymorth.

Ar gyfer **2C.LI6**: Rhaid i ddysgwyr ddefnyddio canlyniadau'r profion ffitrwydd gafodd eu cymryd ar gyfer dau wasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol. Dylent ddefnyddio'r log canlyniadau i gyfrifo'r canlyniadau terfynol a disgrifio deilliannau'r prawf.

Ar gyfer **2C.T3**: Rhaid i ddysgwyr ddadansoddi canlyniadau'r profion ffitrwydd gafodd eu cymryd ar gyfer dau wasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol. Dylai dysgwyr allu rhoi manylion clir am sut mae profion ffitrwydd yn cael eu cynnal, yn cynnwys y protocolau allai fod yn eu lle. Dylai hyn fod yn berthnasol i bob agwedd o'r prawf, yn cynnwys unrhyw ofynion ymgynhesu ac ymoeri, yn ogystal â'r mesurau diogelwch ddylai fod yn eu lle. Bydd hefyd yn cynnwys y terfyn amser, y pellter, nifer yr ailadroddiadau ac ati sy'n berthnasol i i bob prawf, mewn perthynas â gwasanaeth penodol. Bydd dysgwyr hefyd yn gallu trafod amcanion y profion mewn perthynas â lefel ofynnol y perfformiad neu'r canlyniadau ar gyfer y gwasanaeth cyhoeddus.

Ar gyfer **2C.T5**: dylai dysgwyr ystyried canlyniadau'r profion a rhoi manylion am y perfformiad gafodd ei ddangos. Dylent roi rhesymau clir dros y canlyniadau. Gallai hyn gynnwys trafod iechyd a ffitrwydd cyffredinol y person y mae'i ganlyniadau'n cael eu hystyried, yn ogystal ag unrhyw ffactorau perthnasol eraill a effeithiodd ar y canlyniadau ar y dydd.

For **2C.Rh3**: rhaid i ddysgwyr asesu canlyniadau'r profion ffitrwydd gafodd eu cymryd ar gyfer dau wasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol. Dylai dysgwyr roi sylwadau ar y canlyniadau hyn, gan nodi'r meysydd perfformiad da a'r rhai sydd angen eu gwella er mwyn mynd i mewn i wasanaeth cyhoeddus. Gallai dysgwyr hefyd ehangu ar y rhesymau dros y canlyniadau, gan roi sylwadau ar sut y cafodd y prawf ei gynnal a ph'un a gafodd hyn unrhyw effaith ar y canlyniadau. Dylai dysgwyr awgrymu'r gwelliannau unigol sydd eu hangen i gwrdd â gofynion ffitrwydd gwasanaethau cyhoeddus.

Ar gyfer **1C.5**: rhaid i ddysgwyr gymryd rhan mewn profion ffitrwydd ar gyfer dau wasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol gan gadw log canlyniadau i adnabod canlyniadau. Efallai y bydd angen cefnogaeth ar ddysgwyr i gwblhau log canlyniadau. Rhaid i ddysgwyr ddefnyddio'r log canlyniadau i adnabod y canlyniadau terfynol, allai fod yn ganlyniadau iddyn nhw neu'n ganlyniadau dysgwyr eraill.

Ar gyfer **1C.6**: rhaid i ddysgwyr adnabod canlyniadau'r profion ffitrwydd gafodd eu cymryd ar gyfer dau wasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol. Dylent ddefnyddio'r log canlyniadau i gyfrifo'r canlyniadau terfynol.

Awgrymiadau ar gyfer amlinelliadau tasgau asesu

Mae'r tabl isod yn dangos rhaglen o amlinelliadau tasgau asesu posibl sy'n cwmpasu'r meini prawf asesu. Arweiniad yw hwn, ac awgrymir bod canolfannau naill ai'n ysgrifennu eu haseiniadau eu hunain neu'n addasu unrhyw aseiniadau y byddwn ni'n eu darparu i gwrdd ag anghenion ac adnoddau lleol.

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Tasg/Senario	Tystiolaeth asesu
1A.1, 1A.2 2A.LI1, 2A.LI2 2A.T1, 2A.Rh1	<p>Mae canolfan hamdden leol yn cynnal wythnos hybu iechyd ac wedi gofyn i chi ddylunio cyflwyniad i'w ddangos yn ystod y digwyddiad.</p> <p>Dylai'r cyflwyniad ystyried effeithiau cadarnhaol a negyddol potensial ffactorau maethiad a ffordd o fyw ar iechyd a ffitrwydd.</p> <p>Dylai'ch cyflwyniad ddarparu amlinelliad o wahanol fathau o ffactorau ffordd o fyw a dangos sut mae ffactorau maethiad a ffordd o fyw'n effeithio ar iechyd a ffitrwydd. Dylech wneud argymhellion ar gyfer gwella a dweud wrth bobl ble i ddod o hyd i ragor o wybodaeth.</p> <p>Dylai'r cyflwyniad ddefnyddio enghreifftiau go iawn o unigolion. Dylai'r unigolion gael eu hasesu a'u dadansoddi i bennu pa ffactorau maethiad a ffordd o fwy sydd wedi effeithio ar eu hiechyd.</p> <p>Dylai argymhellion gael eu darparu ar sut y gallent wella eu iechyd a'u ffitrwydd drwy newidiadau maethiad a ffordd o fyw.</p>	<p>Sleidiau neu bosteri yn cyflwyno gwybodaeth berthnasol yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • nodiadau paratoadol, yn cynnwys dadansoddiad o'r ymchwil gafodd ei chynnal • nodiadau ymchwil, yn cynnwys asesiadau gwirioneddol o unigolion a gwybodaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi'r cyflwyniad • adroddiadau arsylwi/tystiolaeth tystion o ymatebion llafar yn ystod y cyflwyniad, yn cynnwys taflenni neu sgript cefnogi.

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Tasg/Senario	Tystiolaeth asesu
<p>1B.3, 1B.4 2B.LI3, 2B.LI4 2B.T2, 2B.Rh2</p>	<p>Rydych wedi cael cais i ysgrifennu adroddiad ar ofynion iechyd a ffitrwydd o leiaf dri gwasanaeth cyhoeddus gwahanol, a'r rhesymau dros y gofynion hyn. Dylai hyn gynnwys yr elfennau sy'n debyg a'r rhai sy'n wahanol yn y gofynion hyn.</p> <p>Bydd angen i chi ystyried pam mae gan y gwasanaethau cyhoeddus a ddewiswyd y gofynion hyn. Dylech esbonio'n glir y gofynion ar gyfer amrywiaeth o wasanaethau, yn ogystal â rhoi rhesymau manwl dros gael y gofynion hynny.</p> <p>Bydd angen i chi hefyd ystyried cryfderau a gwendidau'r gofynion iechyd a ffitrwydd, gan wneud argymhellion ar gyfer newidiadau a rhoi eich sylwadau eich hun.</p> <p>Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei ddarllen gan rai sy'n gadael yr ysgol/ coleg sy'n bwriadu gweithio yn y gwasanaethau cyhoeddus. Rhaid i'ch gwybodaeth iddyn nhw fod yn glir ac yn briodol.</p>	<p>Nodiadau paratoadol ac ymchwil y gwnaethoch chi eu defnyddio ar gyfer eich adroddiad.</p> <p>Rhaid i'ch adroddiad gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> ● rhestr o ofynion iechyd a ffitrwydd ar gyfer tri gwasanaeth cyhoeddus gwahanol ● rhestr o resymau pam mae'r gofynion hynny'n bodoli ● gwerthusiad o gryfderau a gwendidau y gofynion iechyd a ffitrwydd hynny ● rhestr o'ch argymhellion eich hun.

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Tasg/Senario	Tystiolaeth asesu
<p>1C.5, 1C.6 2C.LI5, 2C.LI6 2C.T3, 2C.Rh3</p>	<p>Ar gyfer wythnos gyrfaoedd yn yr ysgol, mae'ch dosbarth wedi cael cais i arddangos sut y gall iechyd a ffitrwydd fod yn berthnasol i yrfa yn y gwasanaethau cyhoeddus drwy greu cyfres o fideos a darparu gwybodaeth.</p> <p>Bydd angen i'ch dosbarth baratoi drwy ymchwilio i'r profion ffitrwydd mewn dau wasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol.</p> <p>Ar gyfer pob prawf ffitrwydd, dylech bennu beth yw'r safon/gofynion sydd angen eu cyrraedd, fel sy'n cael eu nodi gan y gwasanaeth cyhoeddus. Byddwch yn cymryd rhan mewn trafodaeth lle byddwch chi'n esbonio'n glir sut mae gwahanol brofion ffitrwydd yn cael eu cynnal a byddwch yn paratoi adroddiad unigol am eich canfyddiadau.</p> <p>Byddwch wedyn yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o brofion ffitrwydd o ddau wasanaeth cyhoeddus gwahanol gan gadw log o'r canlyniadau. Byddwch wedyn yn cynhyrchu adroddiad yn esbonio'r canlyniadau, gan ddod i gasgliadau. Drwy ddadansoddi ac asesu'r canlyniadau, byddwch yn dangos sut y bu i chi berfformio yn y profion ffitrwydd ac yn rhoi sylwadau ar y ffactorau allai fod wedi effeithio ar y canlyniadau hynny.</p> <p>Bydd angen i chi argymhell gwelliannau i ffitrwydd personol unigol i gwrdd â safonau a gofynion y gwasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol fydd yn cael eu cyflawni drwy brofion ffitrwydd.</p>	<p>Nodiadau trafodaethau. Cofnodion arsylwadau. Log profion ffitrwydd. Adroddiad ysgrifenedig.</p>

Uned 6: Dinasyddiaeth, Cymdeithas a'r Gwasanaethau Cyhoeddus

Lefel: 1 a 2

Math o uned: **Gorfodol**

Oriau dysgu dan arweiniad: **30**

Dull asesu: **Allanol**

Cyflwyniad i'r uned

Er mwyn deall yn glir pam mae gwasanaethau cyhoeddus yn bwysig, mae angen i chi wybod am y berthynas rhyngoch chi fel dinesydd a'r gymdeithas lle rydych chi'n byw. Bydd bod yn ddinesydd da yn dod â buddion i chi ac i gymdeithas yn gyffredinol. Mae gwasanaethau cyhoeddus yn cefnogi pobl i fod yn ddinasyddion da.

Bydd yr uned hon yn eich galluogi i ddeall beth yw ystyr y gair 'cymdeithas' a'r ffyrdd y bydd yn effeithio arnoch chi fel dinesydd. Byddwch yn gallu datblygu sut rydych chi'n meddwl am ddinasyddiaeth, hawliau a chyfrifoldebau. Byddwch yn edrych ar y nodweddion sy'n cael eu hystyried yn hanfodol i ddinasyddiaeth dda a'r ffyrdd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn ymateb i hyn.

Mae'r hawliau sydd gan unigolion wedi eu gwarchod gan deddfwriaeth ac mae'r uned hon yn ystyried y ffyrdd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn ymateb i'r hawliau hyn. Yn ogystal â'r hawliau sydd gan unigolion, mae ganddynt hefyd gyfrifoldebau. Byddwch yn gallu deall y cydbwysedd rhwng hawliau a chyfrifoldebau wrth ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus.

Mae'r rhan nesaf o'r uned yn edrych ar gysyniad cydraddoldeb a'r syniad o gyfle cyfartal. Byddwch yn deall sut mae deddfwriaeth yn cadarnhau ac yn amddiffyn cydraddoldeb a chyfle cyfartal, yn enwedig Deddf Cydraddoldeb 2010.

Byddwch yn datblygu eich dealltwriaeth drwy edrych ar sut mae cyfle cyfartal yn cael effaith ar y gwasanaethau cyhoeddus ac ystyried y ffyrdd y mae deddfwriaeth cyfle cyfartal wedi cael effaith ar y gwasanaethau tân ac achub a'r lluoedd arfog.

Mae rhan olaf yr uned yn edrych ar newidiadau cymdeithasol a'r effaith y mae hyn wedi'i chael ar y gwasanaethau cyhoeddus, yn enwedig y gwasanaethau hynny sydd ag amddiffyn a gwarchod unigolion yn brif nod iddynt. Er mwyn cefnogi eich dysgu, bydd angen i chi wybod am faterion cyfoes sy'n ymwneud â dinasyddiaeth a'r ffyrdd y mae eich cymdeithas yn newid.

Bydd yr uned yn eich paratoi i fod yn gyflogai gwasanaeth cyhoeddus sy'n gallu arddangos dinasyddiaeth dda, yn enwedig yn ystod eich gwaith neu'ch dyletswydd. Dylech ddod yn ymwybodol o sut y gallwch chi wneud gwahaniaeth i'ch cymuned a gwella eich dealltwriaeth o gymdeithas.

Nodau dysgu

Yn yr uned hon byddwch yn:

- A gwybod am y berthynas rhwng y dinesydd a chymdeithas
- B deall sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn cefnogi hawliau a chyfrifoldebau dinasyddion
- C deall effaith gwasanaethau cyhoeddus ar gymdeithas ac ar unigolion
- D deall y ffyrdd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu heffeithio gan newidiadau o fewn cymdeithas.

Nodau dysgu a chynnwys yr uned

Beth sydd angen ei ddysgu
Nod dysgu A: Gwybod am y berthynas rhwng y dinesydd a chymdeithas
<p>Testun A.1 Pam mae dinasyddiaeth yn bwysig o fewn cymdeithas</p> <p>Deall agweddau allweddol cymdeithas.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Termau allweddol: cymdeithas, cenedl, gwladwriaeth, cymuned. • Nodweddion cymdeithas: y ffyrdd y mae grwpiau o bobl wedi eu trefnu, amlddiwylliannaeth, democratiaeth, darparu amddiffyniad, dilyniant, diogelwch a hunaniaeth genedlaethol. <p>Deall y ffyrdd y mae pobl yn dod yn ddinasyddion o fewn cymdeithas.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sut mae pobl yn dod yn ddinasyddion o fewn cymdeithas: <ul style="list-style-type: none"> ○ drwy fod yn aelod o gymuned, gwladwriaeth neu genedl ○ drwy eu man geni, bod yn aelod o deulu, preswyllo, dysgu, gweithio, talu trethi, pleidleisio. • Sut mae proses dinasyddiaeth yn cael ei phennu: <ul style="list-style-type: none"> ○ yn ffurfiol, drwy statws cyfreithiol a gwleidyddol, hawliau cyfreithiol a chyfrifoldebau ○ yn anffurfiol, drwy fywyd a materion cyhoeddus, cyfrifoldeb tuag at eraill, rheolaeth bersonol, bod yn gymydog. • Mae nodweddion dinasyddiaeth dda'n cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> ○ hyrwyddo gwerthoedd a safonau ar eich cyfer eich hun ac eraill drwy ddefnyddio iaith addas, dangos tegwch, parch, disgyblaeth a chydymdeimlad tuag at eraill, cymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol, gwirfoddoli, herio anghyfiawnder, gwarchod yr amgylchedd, bod yn aelod o sefydliadau. <p>Testun A.2 Hawliau dinasyddion o fewn cymdeithas</p> <p>Deall pam a sut mae hawliau'n allweddol i fod yn ddinesydd ac i arddangos dinasyddiaeth.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Hawliau: y pethau hynny y mae gan unigolion o fewn cymdeithas yr hawl iddynt, wedi eu pennu gan ddeddfau/ddeddfwriaeth, hawliau sifil yn cynnwys yr hawl i bleidleisio neu i gael gwaith cyflog, waeth beth yw eu hoed, anabledd, hil, crefydd a chred, tueddfryd rhywiol neu i hawliau cyfartal o ran oedran, anabledd, rhyw, hil, crefydd a chred, tueddfryd rhywiol i dderbyn addysg, gofal iechyd, amddiffyniad rhag trosedd • Hawliau dynol: mae egwyddorion allweddol Deddf Iawnderau Dynol 1998 mewn perthynas â gwasanaethau cyhoeddus yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> ○ amddiffyniad rhag camwahaniaethu mewn perthynas â: <ul style="list-style-type: none"> – meddyliau, cred a chrefydd ○ hawliau a rhyddid: <ul style="list-style-type: none"> – rhyddid rhag triniaeth annynol neu ddiraddiol – yr hawl i ryddid a diogelwch – yr hawl i dreial teg – dim cosb heb ddeddfau – parch tuag at eich bywyd preifat a theuluol, eich cartref a'ch gohebiaeth – yr hawl i fwynhau eich eiddo yn ddirwystr – yr hawl i addysg. <p style="text-align: right;"><i>parhad</i></p>

Beth sydd angen ei ddysgu

Testun A.3 Dinasyddiaeth a chydraddoldeb

Deall sut a pham y dylai unigolion gael eu trin yn gyfartal o fewn cymdeithas.

- Cydraddoldeb: lle mae gan bob unigolyn yr un hawliau dan y gyfraith, lle mae unigolion yn rhydd o effeithiau gwahaniaethu a rhagfarn, lle nad yw mynediad i wasanaethau'n cael ei effeithio gan ffactorau cymdeithasol megis incwm, dosbarth, oedran, anabledd, rhyw, hil, crefydd a chred, tueddfryd rhywiol.
- Sut mae deddfwriaeth yn atgyfnerthu cydraddoldeb.
 - Deddf Cydraddoldeb 2010: atal gwahaniaethu yn erbyn dinasyddion unigol ar sail oedran, anabledd, rhyw, hil, crefydd a chred, tueddfryd rhywiol o fewn addysg, cyflogaeth, gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, y sector cyfiawnder troseddol
 - effaith y mathau hyn o anghydraddoldeb ar ddinasyddion
 - deall buddion cydraddoldeb i gymdeithas.
- Sut mae cydraddoldeb yn atgyfnerthu dinasyddiaeth dda: hyrwyddo gwerth dinasyddiaeth, hyrwyddo ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cymuned, hyrwyddo cyfranogiad.
- Sut mae addysg yn hyrwyddo cydraddoldeb o fewn cymdeithas.

Beth sydd angen ei ddysgu**Nod dysgu B: Deall sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn cefnogi hawliau a chyfrifoldebau dinasyddion****Testun B.1 Hawliau dinasyddion mewn perthynas â gwasanaethau cyhoeddus**

Deall pam mae gwasanaethau cyhoeddus yn bodoli:

- i gwrdd ag anghenion cymdeithas amrywiol
- i gefnogi ac atgyfnerthu hawliau dinasyddion
- i amddiffyn a chynorthwyo pobl agored i niwed
- i wella ansawdd bywydau unigolion
- i warchod yr amgylchedd.

Sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn cwrdd ag anghenion cymdeithas/unigolion:

- drwy ddarparu gwasanaethau: addysg, iechyd, cyfiawnder troseddol, gwasanaethau amgylcheddol, gwasanaethau hamdden, gwasanaethau lles cymdeithasol, yr heddlu, gwasanaethau tân ac achub ac ambiwlans, y gwasanaethau arfog.

Hawliau unigol defnyddwyr gwasanaethau cyhoeddus a pham maen nhw'n bwysig:

- mynediad i wasanaethau o ansawdd da
- amddiffyniad lle mae unigolion mewn perygl
- cael eu trin heb wahaniaethu
- cyfrinachedd wrth ddatgelu gwybodaeth bersonol a phreifat
- cydsyniad wrth dderbyn triniaeth
- urddas wrth ddefnyddio gwasanaethau
- dewis yr unigolyn mewn perthynas â gwasanaethau cyhoeddus.

Hawliau o fewn y system cyfiawnder troseddol a sifil a pham maen nhw'n bwysig:

- sail resymol dros arestio
- triniaeth drugarog wrth gael eu cadw/yn y ddalfa
- cynrychiolaeth gyfreithiol
- cymorth cyfreithiol
- treial teg
- triniaeth addas yn y carchar os cânt eu dedfrydu.

Deall sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn hyrwyddo dinasyddiaeth dda.

- Golwg gwasanaethau cyhoeddus o ddinasyddiaeth: dymuniad i wella cymdeithas, yr angen i amddiffyn unigolion, yn enwedig y rhai sy'n agored i niwed.
- Sut y gall pobl sy'n gweithio o fewn gwasanaethau cyhoeddus arddangos dinasyddiaeth.
- Cyfyngiadau darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus wrth hyrwyddo dinasyddiaeth dda.

parhad

Beth sydd angen ei ddysgu**Testun B.2 Cyfrifoldebau dinasyddion mewn perthynas â gwasanaethau cyhoeddus**

Deall y mathau o gyfrifoldebau sydd gan ddinasyddion wrth ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus neu weithio ynddynt.

- Mathau o gyfrifoldebau: cyfreithiol, proffesiynol a diwylliannol.
- Cyfrifoldebau defnyddwyr gwasanaethau cyhoeddus:
 - darparu gwybodaeth ddylai fod yn gywir ac yn bosibl ei gwirio
 - peidio â cheisio twyllo darparwyr gwasanaethau cyhoeddus
 - parodrwydd i gymryd rhan mewn adolygiad o hawliau i ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus
 - peidio â gwahaniaethu yn erbyn y rhai sy'n gweithio i'r gwasanaethau cyhoeddus
 - parchu hawliau dynol y rhai sy'n rhan o ddarparu gwasanaethau
 - peidio â defnyddio unrhyw ffurf ar drais yn erbyn defnyddwyr gwasanaethau eraill neu'r rhai sydd ynghlwm wrth ddarparu gwasanaethau.
- Cyfrifoldebau cyflogeion gwasanaethau cyhoeddus
 - ufuddhau i'r gyfraith
 - cynnal safonau proffesiynol a dilyn codau ymarfer
 - hyrwyddo amrywiaeth
 - dilyn polisiau gwrth-wahaniaethu
 - dilyn gweithdrefnau ar gyfer cwynion
 - dilyn polisiau bwlio ac aflonyddu
- Cyfrifoldebau cyflogwyr gwasanaethau cyhoeddus:
 - darparu amgylcheddau gwaith diogel i gyflogeion
 - darparu hyfforddiant
 - galluogi gwneud iawn am gamweddau
 - galluogi chwythu'r chwiban.

Beth sydd angen ei ddysgu**Nod dysgu C: Deall effaith gwasanaethau cyhoeddus ar gymdeithas ac ar unigolion****Testun C.1 Effaith cyfle cyfartal o fewn gwasanaethau cyhoeddus**

Deall y ffyrdd y mae'r angen am gyfle cyfartal wedi effeithio ar wasanaethau cyhoeddus.

- Agweddau tuag at gydraddoldeb o fewn gwasanaethau cyhoeddus.
- Cynrychiolaeth gwahanol grwpiau o fewn gwasanaethau cyhoeddus.
- Ymagweddau gwrth-wahaniaethu o fewn gwasanaethau cyhoeddus: hyfforddiant ymwybyddiaeth, amrywiaeth cyflogegion, cynhwysiant, cyflog cyfartal, gwahaniaethu cadarnhaol, gweithdrefnau gwrth-aflonyddu, chwythu'r chwiban, gweithdrefnau cwyno.
- Costau gweithredu mesurau cyfle cyfartal.

Testun C.2 Effaith deddfwriaeth cyfle cyfartal ar wasanaethau cyhoeddus

Deall effaith deddfwriaeth cydraddoldeb ar wasanaethau cyhoeddus.

- Y ffyrdd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu ar gyfer grwpiau gwahanol o fewn cymdeithas: amrywiaeth yn y gweithlu, gwybodaeth mewn ieithoedd gwahanol, y defnydd o swyddogion cyswllt, parch tuag at wahaniaethau diwylliannol.
- Canlyniadau a goblygiadau deddfwriaeth cydraddoldeb ar recriwtio a hyfforddi gwasanaeth cyhoeddus, ac ar gyflogegion gwasanaethau cyhoeddus.
- Ystyriaethau a chanlyniadau gweithredu deddfwriaeth cydraddoldeb i'r gwasanaethau cyhoeddus gwisg unffurf.
- Sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn gwella'r ffyrdd y maen nhw'n hybu cydraddoldeb: codau ymarfer, gwerthoedd a safonau.

Testun C.3 Mesur effaith gwasanaethau cyhoeddus ar gymdeithas

Deall y graddau y mae gwasanaethau cyhoeddus yn effeithio ar gymdeithas a sut y gellir mesur hyn.

- Gwelliannau i fywydau unigolion: cynnydd mewn disgwyliad oes, lleihad mewn cyfraddau marwolaeth babanod, lleihad mewn cyfraddau morbidrwydd, lleihad mewn lefelau troseddu, canlyniadau arholiadau.
- Cyfyngiadau darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus wrth wella ansawdd bywyd unigolion, dinasyddion a chymdeithas.
- Nifer y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau cyhoeddus, cost gwasanaethau cyhoeddus, data gan sefydliadau anllywodraethol yn cynnwys elusennau ac undebau llafur.
- Mesuriadau anghydraddoldeb: wedi'u heffeithio gan dlodi, oedran, anabled, rhyw, hil.

Beth sydd angen ei ddysgu**Nod dysgu D: Deall y ffyrdd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu heffeithio gan newidiadau o fewn cymdeithas****Testun D.1 Effaith newid mewn cymdeithas**

Deall y rhesymau pam mae newidiadau'n digwydd o fewn cymdeithas.

- Agweddau cadarnhaol a negyddol newidiadau demograffig:
 - cynnydd mewn poblogaeth sy'n heneiddio
 - patrymau iechyd/salwch
 - strwythur y teulu
 - mewnfudo
 - anghydraddoldeb cymdeithasol.
- Agweddau cadarnhaol a negyddol polisi'r llywodraeth ar fywydau unigolion:
 - addysg – y gofyniad i aros o fewn addysg hyd at 18 oed, mynediad i addysg uwch
 - gwaith – isafswm cyflog
 - hawl i les cymdeithasol.
- Agweddau cadarnhaol a negyddol twf technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar fywydau unigolion:
 - cyfryngau cymdeithasol
 - y rhyngwyd
 - mynediad i wybodaeth.

Testun D.2 Y ffyrdd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu heffeithio gan newidiadau o fewn cymdeithas

Deall effaith newidiadau cymdeithasol ar y gwasanaethau cyhoeddus.

- Lefelau'r defnydd o wasanaethau cyhoeddus, agweddau sy'n newid ynghylch y ffyrdd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu a'u cyflwyno, disgwyliadau newidiol yr unigolyn.
- Cwrdd â disgwyliadau o fewn cyfyngiadau ariannol.
- Effaith anghydraddoldeb cymdeithasol ar y gwasanaethau cyhoeddus.
- Y defnydd o dechnoleg i gaffael gwybodaeth am y gwasanaethau cyhoeddus a'r ymatebion mae hyn yn eu cynhyrchu.

Testun D.3 Newidiadau i'r ffyrdd y mae unigolion a chymdeithas yn cael eu hamddiffyn a'u gwarchod

Deall newidiadau sy'n effeithio ar y ffyrdd y mae unigolion a'r gymdeithas yn cael eu hamddiffyn a'u gwarchod rhag niwed.

- Rôl gwasanaethau cyhoeddus gwisg unffurf wrth gynnal goruchwyliaeth.
- Rôl technoleg o fewn goruchwyliaeth.
- Rôl y gwasanaethau diogelwch.

Arweiniad i athrawon

Adnoddau

Nid oes angen unrhyw adnoddau arbennig ar gyfer yr uned hon.

Canllaw asesu

Bydd yr asesiad allanol ar gael o fis Mehefin 2015.

Bydd yr asesiad allanol yn cael ei osod a'i farcio gan Pearson. Bydd yr asesiad yn cynnwys amrywiaeth o brofion gwrthrychol, cwestiynau ateb byr a chwestiynau ysgrifennu estynedig.

Mae pob cwestiwn yn orfodol.

Bydd yr asesiad yn werth cyfanswm o 50 marc a bydd yn para am 1 awr.

Uned 7: Troseddu a'i Effeithiau ar Gymdeithas ac ar Unigolion

Lefel: 1 a 2

Math o uned: **Gorfodol/Dewisol arbenigol**

Oriau dysgu dan arweiniad: **60**

Dull asesu: **Mewnol**

Cyflwyniad i'r uned

Ydych chi'n adnabod rhywun sydd wedi bod yn ddiodefwr trosedd? Gall ymddangos fod troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol o'n cwmpas ym mhobman.

Beth yw'ch barn chi? Holwch gwestiynau i'ch hun.

- Beth sy'n digwydd i bobl sydd wedi cael eu heffeithio gan ymddygiad troseddol? Os oes rhywun newydd gael ei fygio, ydy'r person yn anghofio am y peth? Ydy'r person yn gallu anghofio?
- Faint o wahanol ffyrdd sydd ar gael i adrodd am drosedd? Pe byddech chi'n dyst i drosedd beth fyddech CHI'n ei wneud?
- Beth sy'n digwydd i bobl sy'n cael eu canfod yn euog am droseddau? Carchar, gwasanaeth cymunedol - beth arall?

Yn yr uned hon byddwch yn cael cyfle i edrych ar y materion hyn dros och eich hun a dysgu am droseddu a'r effaith y mae'n ei chael ar bobl. Byddwch yn dysgu beth yw canlyniadau troseddu i'r bobl sydd wedi cael eu heffeithio gan ymddygiad troseddol, a beth yw'r canlyniadau i gymdeithas yn gyffredinol. Byddwch yn edrych ar sut mae pobl yn ceisio lleihau troseddu yn genedlaethol ac yn eich ardal leol chi. Byddwch hefyd yn dysgu am faint o ffyrdd y gallwch adrodd am drosedd a sut y mae'r adroddiadau hyn yn cael eu cofnodi, er mwyn i ni allu gweld beth sy'n digwydd i'r nifer o droseddau yn eich ardal leol ac yn genedlaethol. Yn olaf, byddwch yn cael cyfle i edrych ar y ffyrdd gwahanol y mae gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio i leihau troseddu.

Nodau dysgu

Yn yr uned hon byddwch yn:

A deall effaith ymddygiad troseddol

B deall dulliau adrodd a chofnodi troseddu a'r defnydd o hyn

C deall sut mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn cefnogi lleihau troseddu.

Nodau dysgu a chynnwys yr uned

Beth sydd angen ei ddysgu

Nod dysgu A: Deall effaith ymddygiad troseddol

Testun A.1 Beth yw trosedd?

Mae trosedd yn cael ei diffinio fel gweithred neu anwaith sy'n droseddol ac y gellir ei gosbi yn unol â'r gyfraith. Mae troseddu yn weithred y gellir ei chosbi drwy'r gyfraith.

Testun A.2 Mathau o grwpiau sy'n agored i niwed gan droseddau

Mae pobl agored i niwed allai ddod yn ddiodefwr trosedd yn cynnwys:

- plant/oedolion ifanc – gallent fod yn agored i gamdriniaeth megis bwlio, troseddwyd rhyw, yn gorfforol a thros y rhyngwyd
- pobl ag anabledau – troseddu casineb anabled
- pobl hŷn – yn agored i drosedd eiddo ac i gamdriniaeth gorfforol, gwahaniaethu ar sail oedran
- grwpiau ethnig neu grefyddol – yn agored i ragfarn, all fod ar ffurf gwahaniaethu neu gamdriniaeth eiriol a chorfforol
- rhyw – mae menywod yn agored i wahaniaethu ar sail rhyw – maent hefyd yn agored i ymosodiad corfforol a rhywiol
- unigolion sydd wedi cael ailbennu rhywedd neu oherwydd tueddfryd rhywiol – pobl agored i ragfarn, all fod ar ffurf gwahaniaethu neu gamdriniaeth eiriol a chorfforol.

Testun A.3 Effaith ar unigolion

Mae trosedd, a'r ofn o fod yn ddiodefwr trosedd, yn cael effeithiau tymor byr a thymor hir ar unigolion.

- Ofn trosedd – i lawer o bobl mae'r ofn o fod yn ddiodefwr trosedd yn cael mwy o effaith ar eu bywydau na'r drosedd ei hun.
- Gall yr ofn o fod yn ddiodefwr trosedd arwain at ansawdd bywyd gwaeth oherwydd pryderon cynyddol am ddiogelwch corfforol a phryderon dros fygythiadau ymddangosiadol.
- Mae ofn troseddau'n aml yn anghymesur â realiti bod yn ddiodefwr.
- Gall trosedd gael effaith ariannol.
- Gall unigolion ddiodefwr colled ariannol o ganlyniad i droseddau yn sgil dwyn eiddo ac arian heb ei yswirio. Gall seiberdroseddu a dwyn hunaniaeth hefyd arwain at golled ariannol.
- Mae ardaloedd lle mae lefelau trosedd yn uchel arwain at daliadau yswiriant uwch a gall premiymau yswiriant unigol godi yn dilyn hawliad.
- Efallai y bydd unigolion yn methu gweithio o ganlyniad i anafiadau corfforol sy'n ganlyniad i drosedd.
- Rhaid i unigolion dalu costau yswiriant a chyfarpar atal troseddu megis cloeon diogel ar ddrysau a ffenestri a systemau larwm.
- Mae gan droseddu effeithiau corfforol a seicolegol.
- Gall anafiadau personol fod yn ganlyniad i ymosodiad, yn ogystal ag ymddygiad troseddol arall yn cynnwys yfed a gyrru.
- Gall anafiadau emosiynol megis pryder, ansicrwydd neu straen fod yn ganlyniad i fod yn dyst neu'n ddiodefwr trosedd.
- Gall ymddangosiadau llys a'r angen i roi tystiolaeth arwain at straen.

parhad

Beth sydd angen ei ddysgu

- Efallai na fydd rhai pobl yn adrodd am droseddau oherwydd eu bod ofni'r ôl-ffeithiau a/neu oherwydd yr effaith seicolegol a achoswyd gan y drosedd.

Testun A.4 Effaith ar gymdeithas

Mae delio gyda throseddau a'i heffeithiau yn gosod amryw o gostau ar gymdeithas gyfan, a llawer o'r rhain yn uchel iawn. Mae'r costau hyn yn cynnwys costau ariannol, effaith ar adnoddau ac effaith gymdeithasol. Mae rhai amcangyfrifon yn rhoi'r costau yn fwy na £60 biliwn y flwyddyn. Daw'r costau o'r canlynol:

- gweithgareddau atal troseddau a gweithgareddau'r heddlu, addysg a gwasanaethau cymdeithasol, sy'n cael eu gwneud yn y gobaith o leihau troseddau
- costau llys, yr heddlu, carcharau ac elfennau eraill y system cyfiawnder troseddol sy'n gysylltiedig â chanfod, euogfarnu a rheoli troseddwyr
- yr allbwn sy'n cael ei golli gan y wlad wrth i ddiodefwrwr a thystion fethu gweithio o ganlyniad i droseddau, e.e. fandaliaeth neu ddifrod i eiddo, anafiadau, effaith seicolegol
- costau'r gwasanaeth iechyd
- costau gwyliadwriaeth diogelwch
- costau ehangach sy'n cael eu gosod ar gymdeithas, er enghraifft oherwydd dirywiad mewn amodau cymdeithasol mewn ardaloedd lle mae lefelau troseddau'n uchel, all yn eu tro arwain at weithgaredd troseddol pellach
- effaith gymdeithasol ar y gymdeithas.

Nod dysgu B: Deall dulliau adrodd a chofnodi troseddau a'r defnydd o hyn**Testun B.1 Adrodd am droseddau**

Mae modd adrodd am droseddau mewn nifer o wahanol ffyrdd gan ddibynnu ar amgylchiadau'r digwyddiad a natur y drosedd:

- ffonio 999 – caiff y dull hwn ei ddefnyddio pan fydd y drosedd neu'r digwyddiad yn digwydd ar yr eiliad honno neu lle mae rhywun mewn perygl dybryd. Mae galwadau sy'n cael eu derbyn fel hyn yn cael y flaenoriaeth uchaf gan yr heddlu
- ffonio 101 – mae modd gwneud galwadau nad ydynt yn rhai brys gan ddefnyddio'r rhif hwn, sydd fel arfer wedi'i gysylltu'n uniongyrchol gydag ystafell reoli'r heddlu. Gall troseddau sy'n bwysig ond heb fod yn fygythiad i fywyd, fel dwyn car, gael eu hadrodd fel hyn.
- wyneb yn wyneb – gall troseddau lle nad oes angen ymateb ar frys gael eu hadrodd wyneb yn wyneb naill ai mewn swyddfa heddlu leol neu yn uniongyrchol wrth swyddog o'r heddlu.

Dan amgylchiadau eraill, er enghraifft os nad yw'r person am gael ei adnabod gan fod y drosedd yn un sensitif/benodol neu'n drosedd fach, mae modd adrodd am ddigwyddiadau drwy:

- Crimestoppers – elusen genedlaethol yw hon sy'n bodoli er mwyn ceisio helpu i leihau troseddau. Mae galwadau'n ddiennw a gallant hyd yn oed arwain at wobwr i'r person sy'n ffonio. Mae modd adrodd am unrhyw droseddau, hyd yn oed rhai difrifol, i Crimestoppers, yn enwedig pan nad yw'r person sy'n ffonio am ddatgelu ei enw

parhad

Beth sydd angen ei ddysgu

- mannau cyswllt arbenigol lle mae'r drosedd yn un o natur benodol, e.e. cefnogi plant agored i niwed drwy gyfrwng Childline, adnabod twyll budd-daliadau posibl drwy wefan yr Adran Waith a Phensiynau (DWP), adrodd am smyglo neu fewnfudo anghyfreithlon ar Linell Frys y Tollau, cefnogaeth i ddiodefwrwr treisio mewn Canolfannau Cyfeirio Ymosodiadau Rhywiol
- mae cyfeiriadau e-bost lluoedd heddlu unigol i'w cael ar eu gwefannau sy'n caniatáu cyswllt haws gyda'r heddlu ynghylch troseddau, yn cynnwys enw/rhif cyswllt. Dim ond troseddau llai, heb fod yn rhai brys, ddylai gael eu hadrodd fel hyn.

Testun B.2 Cofnodi troseddau

Mae yna nifer o fanteision ac anfanteision yn gysylltiedig â'r holl wahanol ffyrdd o gofnodi data troseddau. Mae gan y llywodraeth a'r cyhoedd ddi-ddordeb yn nifer y troseddau sy'n cael eu cyflawni yn y DU am nifer o resymau. Mae ystadegau troseddau'n adlewyrchu effeithiolrwydd gweithgareddau a mentrau atal troseddau. Mae modd eu defnyddio i fesur effeithiolrwydd y gwasanaeth heddlu ac asiantaethau eraill ac i geisio lleihau pryder y cyhoedd a'r ofnau sy'n gysylltiedig â throseddau.

Mae modd casglu ystadegau ymchwil ynghylch troseddau o ddata o:

- troseddau sy'n cael eu hadrodd i'r heddlu: nid yw'r data hyn ond yn cynnwys troseddau sydd wedi cael eu hadrodd i'r heddlu
- Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr, sy'n dangos troseddau na chawsant o anghenraid eu hadrodd i'r heddlu. Arolwg wyneb yn wyneb ydyw, sy'n gofyn i bobl am eu profiadau o droseddau dros y 12 mis blaenorol. Mae hefyd yn gofyn am agweddau tuag at amryw o faterion cyfiawnder troseddol yn cynnwys ofni troseddau
- Arolwg Troseddau Gogledd Iwerddon (NICS), sy'n dangos arolwg cynrychioliadol, parhaus o gyfweiliadau personol ar brofiadau a chanfyddiadau troseddau ymhlith tua 4,000 o oedolion sy'n byw mewn cartrefi preifat ledled Gogledd Iwerddon.

Testun B.3 Defnydd gwasanaethau cyhoeddus o ystadegau ymchwil

Gall y gwasanaethau cyhoeddus ddefnyddio ystadegau ymchwil ar gyfer:

- gwneud penderfyniadau
- cymharu ystadegau troseddau dros amser
- adnabod tueddiadau
- prosesau adolygu
- rheoli eu hadnoddau.

Beth sydd angen ei ddysgu**Nod dysgu C: Deall sut mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn cefnogi lleihau troseddu****Testun C.1 Rôl y gwasanaethau cyhoeddus yn lleihau troseddu**

Mae nifer o wasanaethau cyhoeddus sy'n rhan o gefnogi lleihau troseddu, yn cynnwys:

- y gwasanaeth heddlu, e.e. achub, atal troseddu, ymchwilio i droseddau, canfod troseddau
- trydydd sector, e.e. Cymorth i Ddiodefwr, Shelter (i deuluoedd sy'n cael eu cam-drin), Help the Aged, Argyfwng Trais
- gwasanaethau tystion, e.e. i gefnogi tystion
- gwasanaethau prawf
- gwasanaethau heddlu
- awdurdodau lleol yn cynnwys ymgyrchoedd a mentrau i leihau troseddu, e.e. fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998, partneriaethau diogelwch y gymuned, mentrau i leihau troseddu megis byrgleriaeth, dwyn beiciau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mae grwpiau sifiliaid hefyd yn cefnogi lleihau troseddu, e.e. Gwarchod y Gymdogaeth.

Mae Gwasanaeth Eryl y Goron yn cefnogi lleihau troseddu drwy reoli troseddu cyn iddo gyrraedd y llys drwy ddefnyddio rhybuddion ar gyfer oedolion yn ogystal ag ar gyfer troseddwr ifanc.

Meini prawf asesu

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
Nod dysgu A: Deall effaith ymddygiad troseddol			
1A.1 Amlinellu sut y gall dau grŵp gwahanol o bobl fod yn agored i niwed yn sgil troseddu ac ymddygiad troseddol.	2A.LI1 Esbonio sut y gall dau grŵp gwahanol o bobl fod yn agored i niwed yn sgil troseddu ac ymddygiad troseddol. #	2A.T1 Cymharu sut y gall troseddu penodol effeithio ar ddau grŵp gwahanol o bobl a chymdeithas. #	2A.Rh1 Asesu sut y gall mathau penodol o droseddu effeithio ar ddau grŵp gwahanol o bobl a chymdeithas.
1A.2 Adnabod sut y gallai troseddu penodol effeithio ar unigolyn.	2A.LI2 Disgrifio sut y gallai troseddu penodol effeithio ar unigolyn.		
Nod dysgu B: Deall dulliau adrodd a chofnodi troseddu a’r defnydd o hyn			
1B.3 Adnabod tair ffordd o adrodd am drosedd benodol.	2B.LI3 Disgrifio sut y gall trosedd benodol gael ei hadrodd, gan ddefnyddio enghreifftiau.	2B.T2 Esbonio sut y gall ystadegau ymchwil gael eu defnyddio gan ddau wasanaeth cyhoeddus gwahanol. #*	2B.Rh2 Asesu, gan ddefnyddio enghreifftiau, sut mae dau wasanaeth cyhoeddus yn elwa o ddefnyddio ystadegau ymchwil. *
1B.4 Rhestru manteision ac anfanteision y gwahanol ffyrdd o gofnodi troseddau.	2B.LL4 Disgrifio manteision ac anfanteision y gwahanol ffyrdd o gofnodi troseddau.		
1B.5 Adnabod y mathau o ystadegau ymchwil y gall dau wasanaeth cyhoeddus gwahanol eu cywain o ddata troseddau a gasglwyd. *	2B.LL5 Esbonio’r mathau o ystadegau ymchwil y gall dau wasanaeth cyhoeddus gwahanol eu cywain o ddata troseddau a gasglwyd. #*		

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
Nod dysgu C: Deall sut mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn cefnogi lleihau troseddu			
1C.6 Amlinellu sut mae dau wasanaeth cyhoeddus gwahanol yn cefnogi lleihau troseddu yn y gymuned leol.	2C.L16 Esbonio sut mae dau wasanaeth cyhoeddus gwahanol yn cefnogi lleihau troseddu yn y gymuned leol. #	2C.T3 Cymharu, gan ddefnyddio enghreifftiau, sut mae dau wasanaeth cyhoeddus gwahanol yn cefnogi lleihau troseddu yn y gymuned leol. #	2C.Rh3 Dadansoddi'r manteision i'r gymuned leol o ddau wasanaeth cyhoeddus yn gweithio i leihau troseddu.

*Cyfle i asesu sgiliau mathemategol

#Cyfle i asesu sgiliau Cymraeg

Arweiniad i athrawon

Adnoddau

Nid oes angen unrhyw adnoddau arbennig ar gyfer yr uned hon.

Canllaw asesu

Mae'r uned hon yn cael ei hasesu'n fewnol gan y ganolfan a'i dilysu'n allanol gan Pearson. Darllenwch y canllaw hwn ochr yn ochr ag *Adran 8: Asesu mewnlol*.

Bwriad yr uned hon yw galluogi dysgwyr i ymchwilio i'r gwasanaethau cyhoeddus sy'n gweithredu o fewn y system cyfiawnder troseddol i reoli ymddygiad troseddol. Byddant yn archwilio sut mae'r system llysoedd yn delio gyda throseddwyr, yn oedolion ac yn ieuentid, a'r mentrau sydd ar waith yn eu hardal leol i geisio lleihau troseddu. Mae'r uned hon hefyd yn rhoi cyfle i ddysgwyr feddwl am droseddu o safbwynt ei effeithiau ar y dioddefwyr, neu ar y rhai sy'n dystion i'r troseddu a'r effaith ar gymdeithas yn gyffredinol. Yn olaf, bydd dysgwyr yn ymchwilio i sut mae adrodd am droseddau; gwybodaeth all fod yn werthfawr iddynt rywbryd yn ystod eu bywyd y tu allan i'r ysgol/coleg.

Byddai cyflwyno'r uned hon yn cael ei gyfoethogi'n fawr gan y defnydd o siaradwyr ac ymweliadau allanol. Mae ynadon lleol a llysoedd ynadon yn aml yn barod i siarad gyda grwpiau o ddysgwyr sy'n dangos diddordeb. Gall sefydliadau megis Cymorth i Ddioddefwyr neu'r heddlu lleol ddarparu cyfoeth o wybodaeth sy'n berthnasol i'r uned.

Nod dysgu A

Ar gyfer **2A.LI1**: rhaid i ddysgwyr esbonio sut y gall dau grŵp gwahanol o bobl fod yn agored i niwed yn sgil troseddol ac ymddygiad troseddol. Dylai dysgwyr allu adnabod dau grŵp gwahanol o bobl ac ystyried y ffyrdd y gallai pob grŵp fod yn arbennig o agored i niwed yn sgil troseddol ac ymddygiad troseddol.

Ar gyfer **2A.LI2**: rhaid i ddysgwyr ddisgrifio sut y gallai troseddol effeithio ar unigolyn. Mae'r nod dysgu hwn yn cyflwyno dysgwyr i ganlyniadau gweithgaredd troseddol ac yn caniatáu iddynt archwilio'r effeithiau hyn y tu hwnt i beth sy'n amlwg ar unwaith, megis niwed corfforol a cholli eiddo. Gall y mathau o droseddau y gall dysgwyr eu hystyried gynnwys, er enghraifft, byrgleriaeth, trais, twyll. Dylent ddangos dealltwriaeth o sut y gallai pob un effeithio ar unigolyn.

Ar gyfer **2A.T1**: rhaid i ddysgwyr gymharu sut y gall troseddol effeithio ar ddau grŵp gwahanol o bobl a chymdeithas. I gwrdd â'r maen prawf hwn, dylai dysgwyr gymharu'r ffyrdd y mae gweithgaredd troseddol penodol yn effeithio'n wahanol ar ddau grŵp gwahanol o bobl o fewn cymdeithas. Gall y mathau o droseddau y gall dysgwyr eu hystyried gynnwys, er enghraifft, byrgleriaeth, trais, twyll.

Ar gyfer **2A.Rh1**: rhaid i ddysgwyr asesu sut y gall mathau penodol o droseddol effeithio ar ddau grŵp gwahanol o bobl a chymdeithas. Gall y mathau o droseddau y gall dysgwyr eu hystyried gynnwys, er enghraifft, byrgleriaeth, trais, twyll. Dylai dysgwyr ystyried y graddau y mae pob grŵp o bobl yn cael ei effeithio gan drosedd benodol, efallai drwy ystyried yr effaith uniongyrchol y mae'r drosedd yn ei chael arnyn nhw neu drwy feddwl am ei heffeithiau yn y tymor hir. Dylai dysgwyr hefyd ystyried pam mae'r drosedd yn cael yr effeithiau hyn ar y bobl hynny a pham mae'n effeithio ar gymdeithas yn gyffredinol.

Ar gyfer **1A.1**: rhaid i ddysgwyr amlinellu sut y gall dau grŵp gwahanol o bobl fod yn agored i niwed yn sgil troseddu ac ymddygiad troseddol. Dylai dysgwyr adnabod dau grŵp gwahanol o bobl o fewn cymdeithas oddi ar y rhestr a roddwyd a dylent amlinellu'r ffyrdd y gallai pob un o'r grwpiau hynny fod yn agored i fod yn ddiodefswyr troseddu.

Ar gyfer **1A.2**: rhaid i ddysgwyr adnabod sut y gallai troseddu penodol effeithio ar unigolyn. Dylai dysgwyr allu dangos eu bod yn gyfarwydd â'r ffyrdd y gall troseddu effeithio ar yr unigolyn. Gall y mathau o droseddau y gall dysgwyr eu hystyried gynnwys, er enghraifft, byrgleriaeth, trais, twyll.

Nod dysgu B

Ar gyfer **2B.LI3**: rhaid i ddysgwyr ddisgrifio sut y gall trosedd benodol gael ei hadrodd, gan ddefnyddio enghreifftiau. Dylai dysgwyr ddisgrifio sut mae tri dull o adrodd am drosedd, er enghraifft ffonio 999, yn cael eu defnyddio a rhoi enghreifftiau priodol o ba bryd y dylen nhw gael eu defnyddio.

Ar gyfer **2B.LI4**: rhaid i ddysgwyr ddisgrifio manteision ac anfanteision y gwahanol ffyrdd o gofnodi troseddau. Dylai dysgwyr sicrhau eu bod yn cwmpasu'r dulliau sy'n cael eu nodi yn yr adran 'Beth mae'n rhaid i chi ddysgu'.

Ar gyfer **2B.LI5**: rhaid i ddysgwyr esbonio'r mathau o ystadegau ymchwil y gall dau wasanaeth cyhoeddus gwahanol eu cywain o ddata troseddau a gasglwyd. Dylid ystyried o leiaf ddau fath ar gyfer pob gwasanaeth cyhoeddus.

Ar gyfer **2B.T2**: rhaid i ddysgwyr esbonio sut y gall ystadegau ymchwil gael eu defnyddio gan ddau wasanaeth cyhoeddus gwahanol. Gall dysgwyr ddefnyddio enghreifftiau i gefnogi eu hesboniad.

Ar gyfer **2B.Rh2**: rhaid i ddysgwyr asesu, gan ddefnyddio enghreifftiau, sut mae dau wasanaeth cyhoeddus yn elwa o ddefnyddio ystadegau ymchwil. I gwrdd â'r maen prawf hwn, dylai dysgwyr gynnig barn am rinweddau cymharol y gwahanol ystadegau ymchwil a sut y mae pob gwasanaeth cyhoeddus yn elwa ohonynt.

Ar gyfer **1B.3**: rhaid i ddysgwyr adnabod tair ffordd o adrodd am drosedd benodol. Dylai dysgwyr ddangos eu bod yn gyfarwydd â gwahanol fathau o adrodd am droseddau.

Ar gyfer **1B.4**: rhaid i ddysgwyr restru manteision ac anfanteision y gwahanol ffyrdd o gofnodi troseddau. Dylai dysgwyr sicrhau eu bod yn cwmpasu'r dulliau sy'n cael eu nodi yn yr adran 'Beth mae'n rhaid i chi ddysgu'.

Ar gyfer **1B.5**: rhaid i ddysgwyr adnabod y mathau o ystadegau ymchwil y gall dau wasanaeth cyhoeddus gwahanol eu cywain o ddata troseddau a gasglwyd. Dylai dysgwyr allu datgan y mathau o ystadegau ymchwil. Dylid ystyried o leiaf ddau fath ar gyfer pob gwasanaeth cyhoeddus.

Nod dysgu C

Ar gyfer **2C.LI6**: rhaid i ddysgwyr esbonio sut mae dau wasanaeth cyhoeddus gwahanol yn cefnogi lleihau troseddu yn y gymuned leol. Dylai dysgwyr ddangos eu bod yn gyfarwydd â'r ffyrdd y mae dau wasanaeth cyhoeddus gwahanol, er enghraifft yr awdurdod lleol a'r gwasanaethau tân ac achub, yn gweithio i leihau troseddu yn y gymuned.

Ar gyfer **2C.T3**: rhaid i ddysgwyr gymharu, gan ddefnyddio enghreifftiau, sut mae dau wasanaeth cyhoeddus gwahanol yn cefnogi lleihau troseddu yn y gymuned leol. I gwrdd â'r maen prawf hwn, dylai dysgwyr allu cymharu sut mae'r gwasanaethau cyhoeddus gwahanol yn gweithio i leihau troseddu. Gallent, er enghraifft, feddwl am

sut mae'r gwasanaeth addysg yn gweithio i addysgu pobl ifanc am y materion sy'n ymwneud â throsteddu, tra gallai'r gwasanaeth tân ac achub dargedu eu gweithgareddau ar droseddau penodol.

Ar gyfer **2C.Rh3**: rhaid i ddysgwyr ddadansoddi'r manteision i'r gymuned leol o ddau wasanaeth cyhoeddus yn gweithio i leihau trosteddu. Dylai dysgwyr allu disgrifio a dadansoddi'r ffyrdd y mae'r gymuned yn elwa o'r ffordd y mae'r ddau wasanaeth cyhoeddus gwahanol yn gweithredu i leihau gweithgareddau troseiddol.

Ar gyfer **1C.6**: rhaid i ddysgwyr amlinellu sut mae dau wasanaeth cyhoeddus gwahanol yn cefnogi lleihau trosteddu yn y gymuned leol. Dylai dysgwyr adnabod dau wasanaeth cyhoeddus penodol ac amlinellu'r ffordd y mae'r gwasanaethau hynny'n gweithredu i leihau gweithgaredd troseiddol.

Awgrymiadau ar gyfer aseiniadau

Mae'r tabl isod yn dangos rhaglen o amlinelliadau aseiniadau posibl sy'n cwmpasu'r meini prawf asesu. Arweiniad yw hwn, ac awgrymir bod canolfannau naill ai'n ysgrifennu eu haseiniadau eu hunain neu'n addasu unrhyw aseiniadau y byddwn ni'n eu darparu i gwrdd ag anghenion ac adnoddau lleol.

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Senario	Tystiolaeth asesu
1A.1, 1A.2, 2A.LI1, 2A.LI2, 2A.T1, 2A.Rh1	<p>Mae'ch ysgol yn mynd i gynnal ymgyrch arbennig i dynnu sylw pawb at y materion ynghlwm wrth droseddu yn gyffredinol a throseddu ieuencid yn benodol. Maen nhw wedi ei galw'n 'Wythnos Ymwybyddiaeth Trosedd ac Anhrefn'.</p> <p>Fel rhan o'r ymgyrch, mae'ch cylchgrawn ysgol wedi penderfynu cynhyrchu rhifyn arbennig er mwyn tynnu sylw dysgwyr at effeithiau troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ar bobl eraill.</p> <p>Rydych wedi cael cais i gasglu gwybodaeth ar droseddu a'i effaith ar bobl yn y gymdeithas. Byddwch yn defnyddio'r wybodaeth hon i ysgrifennu'r brif erthygl ar gyfer y cylchgrawn.</p> <p>Dylai'ch erthygl ystyried, yn fanwl, y ffyrdd y gall troseddau penodol effeithio ar unigolion ac ar gymdeithas a dylai wedyn fynd ati i gymharu'r effaith ar wahanol grwpiau yn y gymdeithas gan asesu canlyniadau'r drosedd honno.</p>	<p>Yr erthygl ysgrifenedig ar gyfer y cylchgrawn, sy'n cwmpasu dwy agwedd y dasg.</p> <p>Rhaid i'ch erthygl esbonio'n glir sut mae troseddu'n effeithio ar bobl fel unigolion ac fel cymdeithas yn gyffredinol.</p> <p>Dylech hefyd gymharu effaith trosedd benodol ar ddau grŵp gwahanol o fewn cymdeithas ac asesu'r effaith honno.</p> <p>Gallai delweddau neu rai ystadegau syml helpu i ddarlunio eich pwyntiau.</p>
1B.3, 1B.4, 1B.5, 2B.LI3, 2B.LI4, 2B.LI5, 2B.T2, 2B.Rh2	<p>Rydych chi'n mynd i gynhyrchu taflen ddylai gynnwys y ddwy agwedd o'r nod dysgu hwn.</p> <ol style="list-style-type: none"> Dylech ddisgrifio'r tair ffordd wahanol o adrodd am droseddu a'i gofnodi a sut y maent yn cael eu defnyddio. Rhaid i chi hefyd ystyried manteision ac anfanteision y gwahanol ffyrdd sy'n cael eu defnyddio i gofnodi troseddau. Dylech esbonio'r ddwy ffordd wahanol y mae ystadegau ymchwil a gasglwyd o ddata a adroddwyd ac a gofnodwyd yn cael eu defnyddio gan ddau wasanaeth cyhoeddus gwahanol. Rhaid i chi asesu sut mae pob gwasanaeth cyhoeddus yn elwa o'r ystadegau ymchwil. 	<p>Taflen sy'n mynd i'r afael â'r materion sy'n cael eu disgrifio.</p> <p>Rhaid i chi roi enghreifftiau drwy gydol eich taflen, sy'n darlunio'r pwyntiau rydych yn eu gwneud.</p>

Meini prawf sy’n cael eu cwmpasu	Senario	Tystiolaeth asesu
<p>1C.6, 2C.LI6, 2C.T3, 2C.RH3</p>	<p>Yn eich tasg olaf fel rhan o Wythnos Ymwybyddiaeth Trosedd ac Anhrefn eich ysgol rydych yn mynd i gyflwyno anerchiad i’ch dosbarth, yn esbonio iddynt sut mae’r gwasanaethau cyhoeddus, yn cynnwys y system gyfreithiol, yn ceisio cefnogi lleihau troseddu.</p> <p>Yn eich anerchiad dylech:</p> <ul style="list-style-type: none"> ● esbonio sut mae dau wasanaeth cyhoeddus gwahanol yn gweithio i gefnogi lleihau troseddu yn y gymuned ● gwneud yn siŵr eich bod yn defnyddio enghreifftiau yn eich anerchiad a chynnig cymhariaeth o’r dulliau sy’n cael eu defnyddio gan eich dau wasanaeth cyhoeddus gwahanol ● meddwl sut mae’r gymuned yn elwa wrth i’r gwasanaethau cyhoeddus weithredu yn y ffordd yma. 	<p>Anerchiad o ryw 10 munud yn mynd i’r afael â’r materion a ddisgrifiwyd. Dylech gyflwyno eich nodiadau siaradwr ar gyfer yr anerchiad i’ch athro.</p> <p>Bydd eich athro hefyd yn darparu tystiolaeth ychwanegol i gefnogi eich anerchiad, all fod ar ffurf:</p> <ul style="list-style-type: none"> ● cofnod arsylwi dysgwyr ● fideo.

Uned 8: Hyrwyddo Darpariaeth Gwasanaethau Cyhoeddus

Lefel: **1 a 2**

Math o uned: **Dewisol arbenigol**

Oriau dysgu dan arweiniad: **30**

Dull asesu: **Mewnol**

Cyflwyniad i'r uned

Ydych chi wedi sylwi pa mor aml rydych chi'n gweld hysbysebion sy'n ymwneud â gwasanaethau cyhoeddus ar y teledu, y rhyngwrwyd ac mewn papurau newydd? Y rheswm am hyn yw bod y gwasanaethau cyhoeddus yn sylweddoli bod hyn yn ffordd effeithiol dros ben o ddylanwadu a hyrwyddo gwasanaethau cyhoeddus i gynulleidfa ehangach. Drwy ddefnyddio ymgyrchoedd a mentrau, mae'n bosibl i ddinasyddion a chymunedau unigol ddylanwadu ar ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus. Ochr yn ochr â hyn, mae'r defnydd o ymgyrchoedd a mentrau'n caniatáu i'r llywodraeth a'r gwasanaethau cyhoeddus dargedu eu hadnoddau at feysydd y maen nhw am eu datblygu neu eu gwella. Drwy ddefnyddio'r dulliau sydd ar gael iddyn nhw mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn gallu ceisio cyrraedd y cynulleidfaoedd o dan sylw, sy'n gallu helpu i gefnogi'r gymuned yn ogystal â darparu ymateb mwy effeithiol i'r cyhoedd. Mae'r defnydd effeithiol o ymgyrchoedd a mentrau'n sicrhau eu bod yn dod â manteision i unigolion ac i'r gymuned ehangach.

Mae'r uned hon yn anelu at ddatblygu eich dealltwriaeth o sut y gall ymgyrchoedd a mentrau unigol a grŵp ddylanwadu ar gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus. Byddwch yn datblygu eich dealltwriaeth o sut mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn hyrwyddo ymgyrchoedd a mentrau a sut mae'r ymgyrchoedd a'r mentrau hynny'n fanteisiol i unigolion a'r gymuned.

Nodau dysgu

Yn yr uned hon byddwch yn:

- A deall sut mae ymgyrchoedd a mentrau gwasanaethau cyhoeddus o fudd i unigolion ac i'r gymuned
- B deall sut mae mentrau ac ymgyrchoedd yn cael eu hyrwyddo a'u monitro gan y gwasanaethau cyhoeddus.

Nodau dysgu a chynnwys yr uned

Beth sydd angen ei ddysgu
Nod dysgu A: Deall sut mae ymgyrchoedd a mentrau gwasanaethau cyhoeddus o fudd i unigolion ac i'r gymuned
<p>Testun A.1 Pam mae gwasanaethau cyhoeddus yn defnyddio ymgyrchoedd a mentrau</p> <p>Mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn defnyddio amrywiaeth o ymgyrchoedd a mentrau i weithio gyda'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Mae'r rhesymau'n cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • codi ymwybyddiaeth o faterion, e.e. bwyta'n iach, camddefnyddio sylweddau, ymddygiad gwrthgymdeithasol a'i effeithiau • diogelwch cyhoeddus, e.e. lleihau troseddu, lleihau'r risg o dân, defnydd diogel o'r rhynggrwyd • diogelwch cenedlaethol, e.e. annog y cyhoedd i hysbysu'r awdurdodau os ydynt yn gweld ymddygiad amheus er mwyn atal terfysgaeth. <p>Testun A.2 Manteision ymgyrchoedd a mentrau gwasanaethau cyhoeddus</p> <p>Y rheswm y mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn hyrwyddo ymgyrchoedd a mentrau yw er mwyn gwella darpariaeth y gwasanaeth, neu i leihau'r risg o ddigwyddiadau o fathau arbennig. O ganlyniad i hyn, mae'n bwysig bod y buddion i unigolion ac i'r gymuned yn cael eu hadnabod.</p> <p>Mae buddion i'r unigolyn yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cefnogaeth, arweiniad neu wybodaeth sy'n effeithio ar fywydau unigolion drwy ymgyrchoedd lleol neu genedlaethol • rhwystro clefydau rhag lledu, e.e. twymyn y moch • lleihau'r risg o ddamweiniau, e.e. ymgyrch diogelwch y ffyrdd 'Pwyllwch!' • gwella lefelau iechyd a lles drwy ymgyrchoedd, e.e. yr ymgyrch 'pump y dydd' i hybu bwyta ffrwythau a llysiau. <p>Mae buddion i'r gymuned yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gwneud pobl yn ymwybodol o wasanaethau a darpariaeth, e.e. datblygu sgiliau rhieni drwy fentrau, gwella nifer y rhai mewn addysg bellach neu uwch ymhlith rhai cymunedau, lleihau'r risg o danau drwy gynnal asesiadau risg tân • cefnogi mentrau lleihau troseddu sy'n lleihau'r nifer o droseddau sy'n cael eu cofnodi a'u hadrodd a hefyd lleihau'r ofn o droseddu ei hun • at bwrpas gwybodaeth, e.e. darparu pobl gydag ymwybyddiaeth o newidiadau i'r gyfraith a'i effaith arnynt, atgoffa pobl i gwrdd â therfynau amser, e.e. llythrau atgoffa gan y cyngor lleol i gofrestru plant ar gyfer yr ysgol erbyn dyddiad penodol.

Beth sydd angen ei ddysgu**Nod dysgu B: Deall sut mae mentrau ac ymgyrchoedd yn cael eu hyrwyddo a'u monitro gan y gwasanaethau cyhoeddus****Testun B.1 Dulliau sy'n cael eu defnyddio gan y gwasanaethau cyhoeddus i hyrwyddo gwahanol fathau o fentrau ac ymgyrchoedd**

Mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i hyrwyddo mentrau ac ymgyrchoedd. Drwy ddefnyddio amrywiaeth mor eang, maent yn sicrhau eu bod yn cyrraedd cymaint o aelodau o'r gymuned leol neu genedlaethol â phosibl, gan sicrhau fod pobl yn ymwybodol o'r ymgyrch neu'r fenter.

Gall rhai dulliau ffocysu ar grwpiau targed, e.e. grwpiau sy'n cael eu canfod fel rhai agored i niwed neu ardaloedd daearyddol sydd angen y gwasanaeth cyhoeddus sy'n cael ei gynllunio. Gall eraill fod yn targedu meini prawf llwyddiant megis cyfraddau cyfranogiad, e.e. ymgyrchoedd byw yn iach tebyg i'r ymgyrch rhoi'r gorau i ysmegu, Stoptober.

Mae mathau o ymgyrchoedd a mentrau'n cynnwys:

- ymgyrchoedd/mentrau cenedlaethol, e.e.:
 - ymgyrchoedd hybu iechyd
 - ymgyrchoedd diogelwch y ffyrdd
 - Crimestoppers
 - menter bwyta'n iach Newid am Oes
- ymgyrchoedd/mentrau lleol, e.e.:
 - cymryd rhan mewn ymgyrchoedd ymarfer corff
 - ymgyrchoedd diogelwch tân
 - menter cadetiaid yr heddlu lleol i ymgysylltu â phobl Ifanc Lleol
 - menter 'Prison! Me! No way'.

Mae dulliau sy'n cael eu defnyddio gan wasanaethau cyhoeddus i gyfathrebu gyda chymunedau, unigolion a gwasanaethau cyhoeddus eraill yn cynnwys:

- hysbysebion teledu
- hysbysebion mewn papurau newydd a chylchgronau
- mentrau ar y we
- byrddau hysbysebu a thafenni drwy'r post.

Testun B.2 Dulliau a chyfryngau sy'n cael eu defnyddio i fonitro a gwerthuso mentrau ac ymgyrchoedd gwasanaethau cyhoeddus

Mae'n bwysig bod y gwasanaethau cyhoeddus yn monitro a gwerthuso'r mentrau a'r ymgyrchoedd y maent yn eu defnyddio i sicrhau eu bod yn cwrdd â'u hamcanion.

Mae amrywiaeth o ddulliau all gael eu defnyddio i wneud hyn, yn cynnwys:

- y defnydd o TGCh a'r we i gael adborth drwy arolygon a holiaduron
- cymunedau rhithwir a gwefannau rhwydweithio cymdeithasol i gael adborth
- deddfwriaeth
- adroddiadau'r wasg a'r cyfryngau ar ymgyrchoedd a mentrau
- grwpiau ffocws
- cael adborth gan grwpiau targed.

parhad

Beth sydd angen ei ddysgu

Mae yna amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth a data sydd ar gael i'r gwasanaethau cyhoeddus i'w helpu wrth fonitro ymgyrchoedd a mentrau, yn cynnwys:

- gwybodaeth ar bapur a gwybodaeth electronig
- data lleol a chenedlaethol i ganiatáu iddynt wneud cymariaethau
- data wedi'u cynhyrchu gan wasanaethau cyhoeddus, e.e. adroddiadau data tân
- gwybodaeth wedi ei chynhyrchu gan sefydliadau sector cyhoeddus, e.e. y Ganolfan Ymchwil Gymdeithasol neu'r uned gwybodaeth llywodraeth leol
- data sy'n adlewyrchu anghenion gwahanol boblogaethau
- data eilaidd, e.e. adroddiadau'r Comisiwn Archwilio.

Gall ymgyrchoedd a mentrau lleol a chenedlaethol gael eu gwerthuso drwy ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau, yn cynnwys:

- asesu'r effaith drwy fesur llwyddiant yn erbyn y meini prawf targed, e.e. cynnydd mewn cyfranogiad yn y fenter, cyfradd is o ddigwyddiadau o ganlyniad i'r ymgyrch
- monitro gwelliant yn yr agwedd sydd wedi'i thargedu, e.e. lleihad yng nghost darpariaeth gofal iechyd o ganlyniad i hyrwyddo bwyta'n iach.

Meini prawf asesu

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
Nod dysgu A: Deall sut mae ymgyrchoedd a mentrau gwasanaethau cyhoeddus o fudd i unigolion ac i'r gymuned			
1A.1 Amlinellu'r defnydd o ymgyrchoedd a mentrau i gwrdd ag amcanion y gymuned leol.	2A.LI1 Esbonio'r defnydd o ymgyrchoedd a mentrau i gwrdd ag amcanion y gymuned leol. #	2A.T1 Dadansoddi sut gall dwy ymgyrch a/neu fenter gwasanaethau cyhoeddus fod o fudd i unigolion a chymunedau i gwrdd â'u hamcanion. #	2A.Rh1 Gwerthuso sut gall dwy ymgyrch a/neu fenter gwasanaethau cyhoeddus fod o fudd i unigolion a chymunedau i gwrdd â'u hamcanion. #
1A.2 Amlinellu sut mae dwy ymgyrch a/neu fenter gwasanaethau cyhoeddus o fudd i unigolion.	2A.LI2 Esbonio sut mae dwy ymgyrch a/neu fenter gwasanaethau cyhoeddus o fudd i unigolion. #		
1A.3 Amlinellu sut mae dwy ymgyrch a/neu fenter gwasanaethau cyhoeddus o fudd i gymunedau.	2A.LI3 Esbonio sut mae dwy ymgyrch a/neu fenter gwasanaethau cyhoeddus o fudd i gymunedau. #		

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
Nod dysgu B: Deall sut mae mentrau ac ymgyrchoedd yn cael eu hyrwyddo a'u monitro gan y gwasanaethau cyhoeddus			
1B.4 Adnabod y mathau o ddulliau a ddefnyddiwyd i hyrwyddo dwy ymgyrch neu fenter wahanol.	2B.LI4 Disgrifio'r mathau o ddulliau a ddefnyddiwyd i hyrwyddo dwy ymgyrch neu fenter wahanol.	2B.T2 Cymharu'r mathau o ddulliau a ddefnyddiwyd i hyrwyddo dwy ymgyrch neu fenter wahanol.	2B.Rh2 Gwerthuso effeithiolrwydd y dulliau a'r cyfryngau a ddefnyddiwyd gan y gwasanaethau cyhoeddus i hyrwyddo a monitro ymgyrchoedd a mentrau. #
1B.5 Amlinellu'r amrywiaeth o wybodaeth sydd ar gael i fonitro ymgyrchoedd a mentrau gwasanaethau cyhoeddus.	2B.LI5 Disgrifio'r amrywiaeth o wybodaeth sydd ar gael i fonitro ymgyrchoedd a mentrau gwasanaethau cyhoeddus.	2B.T3 Cymharu'r gwahanol ffyrdd o fonitro ymgyrchoedd a mentrau gwasanaethau cyhoeddus gan ddefnyddio'r wybodaeth sydd ar gael.	
1B.6 Amlinellu sut mae ymgyrchoedd a mentrau'n cael eu gwerthuso.	2B.LI6 Esbonio sut mae ymgyrchoedd a mentrau'n cael eu gwerthuso. #		

*Cyfle i asesu sgiliau mathemategol

#Cyfle i asesu sgiliau Cymraeg

Arweiniad i athrawon

Adnoddau

Nid oes angen unrhyw adnoddau arbennig ar gyfer yr uned hon.

Canllaw asesu

Mae'r uned hon yn cael ei hasesu'n fewnol gan y ganolfan a'i dilysu'n allanol gan Pearson. Darllenwch y canllaw hwn ochr yn ochr ag *Adran 8: Asesu mewnl*.

Rhaid i offerynnau asesu a ddyluniwyd gynhyrchu tystiolaeth sy'n ddilys ac yn unigol. Rhaid i'r offerynnau hyn fod yn addas i'r pwrpas fel teclyn i fesur dysgu yn erbyn y cynnwys a ddiffiniwyd a'r meini prawf asesu. Lle mae gwaith grŵp wedi digwydd, rhaid nodi cyfraniadau'r unigolyn yn cynnwys nodiadau i ddangos gwaith paratoi unigol a gwaith i gwrdd â'r meini prawf asesu.

Wrth gyfeirio at y sector gwasanaethau cyhoeddus, mae hyn yn cynnwys yr holl sefydliadau o fewn gwasanaethau cyhoeddus, ond yn benodol i'r rhai a nodwyd yn *Uned 1: Rôl a Gwaith y Gwasanaethau Cyhoeddus*.

Nod dysgu A

Ar gyfer **2A.LI1**: rhaid i ddysgwyr esbonio'r defnydd o ymgyrchoedd a mentrau i gwrdd ag amcanion y gymuned leol. Rhaid i ddysgwyr esbonio'r rhesymau dros ddewis yr ymgyrchoedd a'r mentrau a pham maen nhw'n cael eu hystyried yn fwyaf addas. Dylai dysgwyr ddefnyddio eu cymuned leol i fynd i'r afael â'r maen prawf hwn. Dylent amlinellu'r mathau o amcanion fyddai'n cael eu cwrdd drwy ymgyrchoedd a mentrau.

Ar gyfer **2A.LI2**: dylai dysgwyr esbonio sut mae dwy fenter a/neu ymgyrch gwasanaethau cyhoeddus yn rhoi budd i unigolion. Dylent roi adroddiad clir o'u canfyddiadau yn eu geiriau eu hunain. Mae gan ddysgwyr y dewis i archwilio ymgyrchoedd a/neu fentrau, neu'r ddau.

Ar gyfer **2A.LI3**: rhaid i ddysgwyr esbonio sut mae ymgyrchoedd a/neu fentrau gwasanaethau cyhoeddus o fudd i gymunedau drwy ymchwilio i amrywiaeth o ymgyrchoedd/mentrau. Mae gan ddysgwyr y dewis i archwilio ymgyrchoedd a/neu fentrau, neu'r ddau. Eto, dylai dysgwyr roi adroddiad clir o'u hymchwiliadau mewn perthynas â'r buddion y mae'r ymgyrchoedd a/neu'r mentrau wedi eu rhoi i'r cymunedau dan sylw. Mae'n bwysig bod y dystiolaeth yn dangos sut roedd yr ymgyrch yn berthnasol i'r union gymuned yr oedd yn ei thargedu, er enghraifft lleihad yn nifer y tanau mewn tai o ganlyniad i gynnal asesiadau risg tân mewn tai.

Ar gyfer 2A.T1: rhaid i ddysgwyr ddadansoddi sut gall dwy ymgyrch a/neu fenter gwasanaethau cyhoeddus fod o fudd i unigolion a chymunedau drwy gwrdd â'u hamcanion, a darparu dadansoddiad mwy manwl o'r ymgyrch neu'r fenter, yn cynnwys pa mor dda y mae'n cwrdd â'i hamcanion. Dylai dysgwyr gyflwyno eu canfyddiadau yn dilyn archwiliad manwl o'r wybodaeth a'r data i astudio'r prif fuddion i unigolion ac i gymunedau. Mae'n bwysig bod dysgwyr yn dadansoddi'r buddion i unigolion ac i gymunedau er mwyn cwrdd â'r maen prawf hwn.

Ar gyfer **2A.Rh1**: dylai dysgwyr werthuso sut mae dwy fenter a/neu ymgyrch gwasanaethau cyhoeddus yn rhoi budd i unigolion a chymunedau drwy gwrdd â'u hamcanion. Dylai'r dystiolaeth ddefnyddio amrywiaeth o wybodaeth a data i gefnogi barn y dysgwyr ynghylch buddion yr ymgyrch i'r gymuned ac i'r unigolyn. Dylai dysgwyr ystyried cryfderau a gwendidau'r ymgyrch a/neu'r fenter, gan

arwain at farn wedi'i chefnogi gan enghreifftiau a chasgliad o'u canfyddiadau. Er enghraifft, gallai dysgwyr ystyried y buddion i unigolion o ddilyn addysg bellach ac uwch mewn perthynas â

rhagolygon cyflogaeth a photensial enillion, ond hefyd i'r gymuned drwy weithlu â sgiliau gwell a buddion economaidd. Gall dysgwyr ddefnyddio data o fewn y gymuned leol megis holiaduron i drigolion lleol.

Ar gyfer **1A.1**: rhaid i ddysgwyr amlinellu'r defnydd o ymgyrchoedd a mentrau i gwrdd ag amcanion cymunedau lleol. Rhaid iddynt amlinellu'r gwahanol resymau pam mae ymgyrchoedd a mentrau'n cael eu dewis i gwrdd ag amcanion y gymuned leol. Dylent allu adnabod y mathau o amcanion fyddai'n cael eu cwrdd drwy ymgyrchoedd a mentrau.

Ar gyfer **1A.2**: rhaid i ddysgwyr amlinellu sut mae ymgyrchoedd a/neu fentrau gwasanaethau cyhoeddus o fudd i unigolion. Gall y dystiolaeth fod yn gryno.

Ar gyfer **1A.3**: rhaid i ddysgwyr amlinellu sut mae ymgyrchoedd a/neu fentrau gwasanaethau cyhoeddus o fudd i gymunedau. Gall y dystiolaeth fod yn gryno.

Nod dysgu B

Ar gyfer **2B.LI4**: dylai dysgwyr ddisgrifio, ar gyfer pob ymgyrch neu fenter, y gwahanol fathau o ddulliau a ddefnyddiwyd i hyrwyddo'r ymgyrchoedd neu'r mentrau. Dylai'r ymgyrchoedd neu'r mentrau sy'n cael eu dewis ffocysu ar wahanol themâu, er enghraifft iechyd a throseddu.

Ar gyfer **2B.LI5**: dylai dysgwyr ddisgrifio'r amrywiaeth o wybodaeth sydd ar gael i fonitro ymgyrchoedd a mentrau gwasanaethau cyhoeddus. Dylent gyfeirio at enghreifftiau o holiaduron ac offer TGCh gafodd eu defnyddio, yn ogystal â darparu enghreifftiau o sut mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn gynyddol er mwyn casglu adborth wrth fonitro ymgyrchoedd a mentrau.

Ar gyfer **2B.LI6**: bydd dysgwyr yn esbonio sut mae'r ymgyrchoedd a'r mentrau'n cael eu gwerthuso, gan ddefnyddio enghreifftiau perthnasol. Dylai'r dystiolaeth yma gysylltu gyda'r hyn a gynhyrchwyd ar gyfer 2B.LI4 a 2B.LI5, gan sylwi ar fanylion y dulliau monitro gafodd eu defnyddio, gan ei gymhwyso i sut mae gwerthusiad crynodol yn digwydd unwaith y mae'r ymgyrchoedd a'r mentrau wedi eu cwblhau. Er enghraifft, gallai'r dystiolaeth gysylltu â mesur llwyddiant yn erbyn y meini prawf canlyniad y cytunwyd arnynt ar gyfer yr ymgyrch.

Ar gyfer **2B.T2**: dylai dysgwyr gymharu'r gwahanol fathau o ddulliau a ddefnyddiwyd i hyrwyddo pob ymgyrch neu fenter. Dylai'r ymgyrchoedd neu'r mentrau gafodd eu dewis ffocysu ar wahanol themâu, er enghraifft iechyd a throseddu. Dylai dysgwyr ystyried y dulliau gafodd eu defnyddio a manteision ac anfanteision pob un, ar gyfer pob ymgyrch neu fenter.

Ar gyfer **2B.T3**: dylai dysgwyr gymharu'r gwahanol ffyrdd o fonitro ymgyrchoedd a mentrau gwasanaethau cyhoeddus gan ddefnyddio'r wybodaeth sydd ar gael. Dylai'r cymariaethau gynnwys sut mae'r ymgyrch neu'r fenter yn cael ei monitro yn erbyn meini prawf llwyddiant y cytunwyd arnynt a'r defnydd o dargedau ar gyfer ymgyrchoedd a mentrau. Dylai'r dystiolaeth yma gysylltu gyda'r hyn a gynhyrchwyd ar gyfer 2B.LI5, a'i ddatblygu.

Ar gyfer **2B.Rh2**: rhaid i ddysgwyr werthuso effeithiolrwydd y gwahanol ddulliau a'r cyfryngau y mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn eu defnyddio i hyrwyddo ac i fonitro ymgyrchoedd a mentrau. Dylai dysgwyr roi rhesymau i gefnogi eu barn am y maen prawf hwn. Rhaid i ddysgwyr gefnogi eu barn wrth drafod a oedd y dulliau a'r cyfryngau a ddefnyddiwyd gan y gwasanaethau cyhoeddus yn rhesymol.

Ar gyfer **1B.4**: dylai dysgwyr adnabod, ar gyfer pob ymgyrch neu fenter, y gwahanol fathau o ddulliau a ddefnyddiwyd i hyrwyddo'r ymgyrchoedd neu'r mentrau. Dylai'r dewis o ymgyrchoedd neu fentrau ffocysu ar wahanol themâu, er enghraifft iechyd a throseddu.

Ar gyfer **1B.5**: dylai dysgwyr amlinellu'r amrywiaeth o wybodaeth sydd ar gael i fonitro ymgyrchoedd a mentrau. Rhaid i'r dystiolaeth drafod mwy na thri math o wybodaeth i hyn gael ei ddyfarnu, a rhaid i ddysgwyr gysylltu'r dystiolaeth â'r ymgyrch neu'r fenter yn hytrach na bod yn generig.

Ar gyfer **1B.6**: dylai dysgwyr amlinellu sut mae ymgyrchoedd a mentrau gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu monitro, gan roi enghreifftiau o ymgyrchoedd neu fentrau penodol, lle mae hynny'n berthnasol.

Awgrymiadau ar gyfer aseiniadau

Mae'r tabl isod yn dangos rhaglen o amlinelliadau aseiniadau posibl sy'n cwmpasu'r meini prawf asesu. Arweiniad yw hwn, ac awgrymir bod canolfannau naill ai'n ysgrifennu eu haseiniadau eu hunain neu'n addasu unrhyw aseiniadau y byddwn ni'n eu darparu i gwrdd ag anghenion ac adnoddau lleol.

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Senario	Tystiolaeth asesu
<p>1A.1, 1A.2, 1A.3, 2A.LI1, 2A.LI2, 2A.LI3 2A.T1, 2A.Rh1</p>	<p>Rydych chi'n gweithio o fewn gwasanaeth cyhoeddus sy'n ystyried datblygu ymgyrch newydd i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o fater sy'n ymwneud â mynediad i wasanaethau cyhoeddus i bob aelod o'r gymuned. Er mwyn gwneud hyn, rydych wedi cael eich gwahodd i archwilio'r ymgyrchoedd a'r mentrau rydych wedi gwneud ymchwil iddynt, a disgrifio buddion amrywiaeth o ymgyrchoedd a mentrau i unigolion a chymunedau.</p> <p>Rhaid i chi baratoi dogfen ysgrifenedig sy'n dangos eich bod wedi ymchwilio i amrywiaeth o ymgyrchoedd a mentrau, ac wedi disgrifio buddion i unigolion a chymunedau ar gyfer pob un ohonynt.</p> <p>Dylech wedyn ddewis un ymgyrch ac un fenter a dadansoddi'r buddion y maent wedi eu rhoi i'r unigolion neu'r cymunedau targed. Unwaith y byddwch wedi dadansoddi hyn dylech werthuso'r buddion, gan gloi'r ddogfen gyda chasgliad cytbwys sy'n crynhoi eich canfyddiadau mewn perthynas â'r buddion i unigolion ac i'r gymuned o gynnal yr ymgyrch a'r fenter.</p>	<p>Dogfen ysgrifenedig sy'n cynnwys yr adrannau canlynol:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. disgrifiad o sut mae amrywiaeth o ymgyrchoedd wedi bod o fudd i unigolion a chymunedau 2. dadansoddiad a gwerthusiad o un ymgyrch ac un fenter, sy'n cynnwys manylion ac enghreifftiau i gefnogi'r gwaith, yn ogystal â gwerthusiad o'r buddion.

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Senario	Tystiolaeth asesu
<p>1B.4, 1B.5, 1B.6, 2B.LL4, 2B.LI5, 2B.LI6, 2B.T2, 2B.T3, 2B.Rh2</p>	<p>Yn dilyn eich ymchwil i sut y gellir dylanwadu ar ymgyrchoedd a mentrau, mae'ch rheolwr llinell wedi gofyn i chi ymchwilio i sut mae'r cyfryngau'n cael eu defnyddio gan y gwasanaethau cyhoeddus mewn ymgyrchoedd a mentrau gwasanaethau cyhoeddus.</p> <p>Er mwyn gwneud hyn rhaid i chi wneud ymchwil i nifer o ymgyrchoedd a mentrau, ac yna darparu cyflwyniad sioe sleidiau o'ch canfyddiadau.</p> <p>Yn gyntaf dylech wneud ymchwil i'r dulliau a'r cyfryngau gafodd eu defnyddio, a llunio cyfres o nodiadau er mwyn cymryd rhan mewn gweithgaredd trafod gyda'ch rheolwr llinell (chwarae rôl gyda'ch athro). Dylech ddangos eich bod yn deall sut mae'r cyfryngau wedi cael eu defnyddio, ac esbonio eu heffaith mewn perthynas â'r ymgyrch. Bydd angen i chi hefyd werthuso effeithiolrwydd y dulliau gafodd eu defnyddio i hyrwyddo'r ymgyrchoedd a'r mentrau.</p> <p>Unwaith y byddwch wedi cwblhau hyn bydd angen i chi baratoi taflen sy'n esbonio'r amrywiaeth o wybodaeth a data sydd ar gael i wasanaethau cyhoeddus i fonitro'r ymgyrchoedd a'r mentrau tra'u bod yn cael eu cynnal. Yn eich taflen dylech ddangos eich dealltwriaeth o'r dulliau drwy ddefnyddio enghreifftiau i gefnogi eich canfyddiadau, a hefyd asesu'r ffynonellau sydd ar gael, gan ddod i gasgliadau i gefnogi eich canfyddiadau.</p> <p>Nesaf, dylech esbonio sut mae'r ymgyrchoedd neu'r mentrau yn cael eu monitro, ac effeithiolrwydd y dulliau a'r cyfryngau a ddefnyddir i fonitro'r ymgyrchoedd a'r mentrau. Er mwyn gwneud hyn, rydych wedi cael cais i baratoi cyflwyniad sioe sleidiau i gyflwyno eich gwybodaeth. Dylech gloi'r cyflwyniad gyda chyfiawnhad o'r dulliau a'r cyfryngau gafodd eu defnyddio i hyrwyddo a gwerthuso'r ymgyrchoedd a'r mentrau, gan ddwyn ynghyd ganfyddiadau'r dasg hon, a dangos i'ch rheolwr llinell gryfderau a gwendidau'r gwahanol ddulliau a chyfryngau, gan ddod i gasgliad ar ddiwedd eich cyflwyniad.</p>	<p>Nodiadau trafodaethau.</p> <p>Cofnodion arsylwi wedi'u llofnodi gan aseswr a datganiadau tystion gan eich athro, yn amlinellu eich perfformiad o fewn y gweithgareddau trafod.</p> <p>Taflen yn esbonio ac yn asesu'r ffynonellau gwybodaeth a data sydd ar gael.</p> <p>Cyflwyniad sioe sleidiau gyda nodiadau i gyd-fynd sy'n esbonio ac yn asesu sut mae ymgyrchoedd a mentrau'n cael eu gwerthuso. Dylai bod cyfiawnhad o'r dulliau gafodd eu defnyddio i werthuso'r ymgyrchoedd a'r mentrau.</p>

Uned 9: Ymwybddiaeth Gymunedol a Diwylliannol

Lefel: **1 a 2**

Math o uned: **Dewisol arbenigol**

Oriau dysgu dan arweiniad: **30**

Dull asesu: **Mewnol**

Cyflwyniad i'r uned

Ydych chi erioed wedi meddwl faint o grwpiau gwahanol sydd yn eich cymuned? Pam mae hi mor bwysig bod pobl sy'n gweithio yn y gwasanaethau cyhoeddus yn ymwybodol o'r diwylliannau amrywiol y maen nhw'n gweithio gyda nhw?

Yn yr uned hon byddwch yn datblygu eich gwybodaeth o gysyniadau cymuned ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol, yn cynnwys materion cenedlaethol a'r rhai sy'n effeithio ar y gymuned leol. Byddwch hefyd yn ymchwilio i'r materion diwylliannol y mae gwasanaethau cyhoeddus yn eu rheoli ar lefel genedlaethol ac ar lefel leol.

Byddwch yn archwilio popeth sy'n gwneud cymuned - ei diwylliannau, sut y gall effeithio ar eich bywyd bob dydd a sut mae cymunedau lleol a chenedlaethol yn cyfrannu tuag at eich dealltwriaeth a'ch ymwybyddiaeth o'ch cymuned ehangach, a hefyd sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn defnyddio hyn i gynllunio eu darpariaeth gwasanaethau.

I sicrhau bod anghenion gwahanol gymunedau'n cael eu cwrdd, mae angen i wasanaethau cyhoeddus fod â dealltwriaeth glir o'u cymuned leol a'r amrywiaeth diwylliannol all fod yn eu hwynebu. Byddwch yn ystyried sut mae angen i wasanaethau cyhoeddus addasu eu darpariaeth gwasanaethau er mwyn parchu gwahaniaethau diwylliannol. Mae amrywiaeth yn y gymuned bellach yn gyfrannwr mawr i'r ffordd rydyn ni'n byw ein bywydau.

Byddwch yn ymchwilio i amrywiaeth leol a chenedlaethol a'i effaith ar wasanaethau cyhoeddus. Bydd hyn yn cynnwys meysydd megis ethnigrwydd, crefydd, cyfoethogiad, tueddiadau a ffyrdd o fyw a diwylliannau rhithwir. Byddwch hefyd yn archwilio agweddau cadarnhaol a negyddol amrywiaeth ddiwylliannol. Bydd problemau, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol, yn cael eu hystyried o safbwyntiau lleol a chenedlaethol. Wedi ymchwilio i amrywiaeth, byddwch yn ennill amrywiaeth eang o wybodaeth fydd yn eich arwain i edrych ar ystyriaethau cymdeithasol a diwylliannol ar draws y gymuned leol a chenedlaethol. Er enghraifft, lle mae rhwystrau ieithyddol, rhaid i'r gwasanaethau cyhoeddus allu darparu gwasanaethau cefnogi priodol, er enghraifft cyfieithwyr. Gallai enghraifft arall gynnwys lle mae gan unigolion yn y gymuned anghenion penodol megis nam ar y golwg; mae angen i wasanaethau cyhoeddus sicrhau bod modd i'r unigolion hyn allu eu defnyddio, er enghraifft drwy ddarparu gwybodaeth mewn Braille.

Nodau dysgu

Yn yr uned hon byddwch yn:

- A deall sut mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn defnyddio ymwybyddiaeth gymunedol a diwylliannol i ddarparu gwasanaethau priodol i gymunedau
- B deall yr agweddau cymdeithasol a diwylliannol sy'n cael eu rheoli gan y gwasanaethau cyhoeddus mewn cymunedau.

Nodau dysgu a chynnwys yr uned

Beth sydd angen ei ddysgu
<p>Nod dysgu A: Deall sut mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn defnyddio ymwybyddiaeth gymunedol a diwylliannol i ddarparu gwasanaethau priodol i gymunedau</p> <p>Mae llawer o wahanol fathau o gymuned yn y DU ac mae'n bwysig fod y gwasanaethau cyhoeddus yn cynnal ymwybyddiaeth o'r cymunedau hyn a'u diwylliannau er mwyn cwrdd â'u hanghenion amrywiol drwy ddarparu gwasanaethau priodol.</p> <p>Testun A.1 Diffiniadau o wahanol fathau o grwpiau cymunedol</p> <p>Mae nifer o wahanol fathau o grwpiau cymunedol yn y DU, yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cymunedau daearyddol, e.e. cymunedau lleol a chenedlaethol megis stadau tai, trefi a phentrefi, rhanbarthau, gwledydd • cymunedau lleol, e.e. cymunedau trefol a gwledig, grwpiau gwirfoddol, cymdeithasau tenantiaid a thrigolion, clybiau ieuencid, mudiadau ieuencid - Sgowtiaid, Geidiaid, Yr Urdd, cadetiaid • cymunedau rhithwyr • cymunedau crefyddol • cymunedau seiliedig ar ethnigrwydd. <p>Testun A.2 Mathau o amrywiaeth diwylliannol</p> <p>Gallai'r ffyrdd y mae grwpiau cymunedol yn gwahaniaethu gynnwys cyfuniad o ffactorau gwahanol, yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • poblogaeth ethnig a/neu a ydynt yn rhan o grŵp lleiafrifol • cyfoethogi diwylliannol drwy bethau fel celf, bwyd a cherddoriaeth • tueddiadau a ffyrdd o fyw unigolion a grwpiau, e.e. ffyrdd o fyw a chrefyddau amgen • diwylliant rhithwir (cymuned seiber). <p>Testun A.3 Ymwybyddiaeth o ddiwylliannau gwahanol a'u natur amrywiol</p> <p>Mae gan bob cymuned ddiwylliannau y mae aelodau'r gymuned yn cysylltu â nhw, yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gwerthoedd a normau, e.e. cod gwisg, bwyd a diod • is-ddiwylliannau, e.e. grwpiau ieuencid, amrywiaeth grefyddol megis canghennau crefyddau • rolau allweddol o fewn diwylliannau gwahanol, e.e. arweinydd cymunedol, arweinydd crefyddol. <p>Mae cymunedau'n defnyddio dulliau gwahanol i gynnal eu hunaniaeth a'u cyflwyno eu hunain i eraill, yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ymddangosiad, e.e. cod gwisg, ymddangosiad corfforol • iaith, e.e. siarad iaith wreiddiol, acen leol, iaith lafar (slang). <p style="text-align: right;"><i>parhad</i></p>

Beth sydd angen ei ddysgu**Testun A.4 Sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn defnyddio'r wybodaeth hon**

Gall gwasanaethau cyhoeddus ddefnyddio ymwybyddiaeth o'r gwahanol gymunedau a diwylliannau y maent yn eu gwasanaethu mewn amryw o ffyrdd, yn cynnwys:

- darparu gwasanaethau i gwrdd ag anghenion penodol y gymuned, e.e. gall yr heddlu ddarparu cyngor penodol ar atal troseddau ar gyfer gwahanol grwpiau megis pobl ifanc neu grwpiau henoed
- hyrwyddo goddefgarwch a derbyn gwahanol grwpiau o fewn y cymunedau y mae gwasanaethau cyhoeddus yn gyfrifol amdanynt
- annog cydlynid cymunedol, e.e. drwy weithredu clybiau a chymdeithasau megis clybiau ieuencid sy'n cael eu hwyluso gan awdurdodau lleol neu grwpiau Ymddiriedolaeth y Tywysog yn cael eu trefnu gan y gwasanaeth tân ac achub
- hyfforddi cyflogeion newydd mewn ymwybyddiaeth o amrywiaeth er mwyn sicrhau eu bod yn defnyddio'r ymddygiad cywir a phriodol wrth weithio yn y gymuned, e.e. yn ystod yr hyfforddiant sylfaenol
- sicrhau bod cyflogeion gwasanaethau cyhoeddus yn arddangos ymwybyddiaeth ddiwylliannol wrth weithio yn y gymuned. e.e. defnyddio terminoleg briodol ac ystyried amrywiaeth wrth ddelio â'r cyhoedd.

Nod dysgu B: Deall yr agweddau cymdeithasol a diwylliannol sy'n cael eu rheoli gan y gwasanaethau cyhoeddus mewn cymunedau

Mae gwasanaethau cyhoeddus ynghlwm wrth reoli amryw o agweddau o'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu. Gan gadw hyn mewn cof, mae'n bwysig eu bod yn ymwybodol o'r materion cymdeithasol a diwylliannol potensial all godi yn y cymunedau lleol y maent yn eu gwasanaethu, yn ogystal â'r rhai all fodoli'n genedlaethol.

Testun B.1 Materion cymdeithasol potensial sy'n cael eu rheoli gan wasanaethau cyhoeddus

Mae materion cymdeithasol potensial yn cynnwys:

- tlodi a'i effeithiau ar unigolion a chymdeithas yn gyfan
- diweithdra ac effeithiau incwm isel a thai gwael ar grwpiau penodol
- hiliaeth ac anghydraddoldeb a'r ffyrdd y mae'r rhain yn cael eu parhau
- salwch meddwl a'r problemau i'r rhai sy'n rhan o hynny, yn cynnwys y bobl sydd wedi eu heffeithio a'r rhai sy'n darparu gofal
- camdriniaeth ddomestig
- cam-drin sylweddau yn cynnwys cyffuriau ar bresgripsiwn ac eraill, alcohol
- bwlio yn cynnwys bwlio corfforol a bwlio seiber
- materion o ddydd i ddydd, e.e. gweithio gyda chymunedau i orchfygu rhwystrau iaith, cynnwys gwahanol gymunedau mewn digwyddiadau cymunedol, sicrhau bod darpariaeth gyfartal ar gyfer y rhai ag anghenion penodol megis problemau symudedd
- paratoi i gwrdd ag anghenion poblogaeth sy'n heneiddio.

Beth sydd angen ei ddysgu

Testun B.2 Materion diwylliannol potensial sy'n cael eu rheoli gan wasanaethau cyhoeddus

Mae materion diwylliannol potensial yn cynnwys:

- unigolion a grwpiau o wahanol ddiwylliannau sy'n cael trafferth byw ochr yn ochr â diwylliannau prif ffrwd
- problemau diwylliannol ar lefel genedlaethol megis cynnal hunaniaeth genedlaethol gydlynol
- problemau hunaniaeth ddiwylliannol ar gyfer y rhai sydd â mwy nag un dylanwad diwylliannol
- dieithrio diwylliannol
- arferion a thraddodiadau
- barn gwahanol grwpiau oedran
- gwerthoedd, hunaniaeth ddiwylliannol a grŵp
- yr angen i bob deunydd fod ar gael mewn amryw o ieithoedd a fformatau
- yr angen am gyfieithwyr i ddatrys rhwystrau iaith.

Testun B.3 Rôl gwasanaethau cyhoeddus wrth ddelio â materion cymdeithasol a diwylliannol

Mae'r rôl hon yn cynnwys:

- categoreiddio problemau cymdeithasol i gefnogi darparu gwasanaethau
- adnabod graddfa materion cymdeithasol a diwylliannol o fewn cymunedau lleol a chenedlaethol i gefnogi darparu gwasanaethau
- darparu cyfleoedd i wahanol gymunedau weithio gyda'i gilydd, e.e. ffair gymunedol, dyddiau addysgu cymunedol
- datblygu a darparu rhaglenni addysg cymunedol i ennyn diddordeb grwpiau gwahanol, e.e. cynnal rhaglenni cadet.

Meini prawf asesu

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
Nod dysgu A: Deall sut mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn defnyddio ymwybyddiaeth gymunedol a diwylliannol i ddarparu gwasanaethau priodol i gymunedau			
1A.1 Rhestru'r gwahanol fathau o grwpiau cymunedol yn eich cymuned leol.	2A.LI1 Amlinellu'r gwahanol fathau o grwpiau cymunedol yn eich cymuned leol.	2A.T1 Esbonio sut mae gwahanol wasanaethau cyhoeddus yn defnyddio ymwybyddiaeth gymunedol a diwylliannol i gynllunio eu darpariaeth ar gyfer y gymuned leol a chenedlaethol. #	2A.Rh Dadansoddi sut mae gwahanol wasanaethau cyhoeddus yn defnyddio ymwybyddiaeth gymunedol a diwylliannol i fod o fudd i gymunedau lleol a chenedlaethol. #
1A.2 Adnabod natur amrywiol dau wahanol fath o grwpiau cymunedol.	2A.LI2 Disgrifio natur amrywiol dau wahanol fath o grwpiau cymunedol.		
1A.3 Adnabod sut mae dau wasanaeth cyhoeddus yn defnyddio ymwybyddiaeth gymunedol a diwylliannol ar gyfer cymunedau gwahanol.	2A.LI3 Crynhoi sut mae dau wasanaeth cyhoeddus yn defnyddio ymwybyddiaeth gymunedol a diwylliannol ar gyfer dwy gymuned wahanol.		

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
Nod dysgu B: Deall yr agweddau cymdeithasol a diwylliannol sy'n cael eu rheoli gan y gwasanaethau cyhoeddus mewn cymunedau			
1B.4 Amlinellu'r materion cymdeithasol y mae gwasanaethau cyhoeddus yn delio â nhw o fewn cymuned.	2B.LI4 Esbonio'r materion cymdeithasol y mae gwasanaethau cyhoeddus yn delio â nhw o fewn cymuned. #	2B.T2 Asesu effaith materion cymdeithasol a diwylliannol mewn cymuned ar y gwasanaethau cyhoeddus.	2B.Rh2 Gwerthuso sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn rheoli materion cymdeithasol a diwylliannol o fewn cymuned.
1B.5 Amlinellu'r mathau o faterion diwylliannol yn y gymuned y mae gwasanaethau cyhoeddus yn eu rheoli.	2B.LI5 Disgrifio'r mathau o faterion diwylliannol yn y gymuned y mae gwasanaethau cyhoeddus yn eu rheoli.		

*Cyfle i asesu sgiliau mathemategol

#Cyfle i asesu sgiliau Cymraeg

Arweiniad i athrawon

Adnoddau

Nid oes angen unrhyw adnoddau arbennig ar gyfer yr uned hon.

Canllaw asesu

Mae'r uned hon yn cael ei hasesu'n fewnol gan y ganolfan a'i dilysu'n allanol gan Pearson. Darllenwch y canllaw hwn ochr yn ochr ag *Adran 8: Asesu mewnl*.

Rhaid i offerynnau asesu wedi eu dylunio yn y ganolfan gynhyrchu tystiolaeth sy'n ddilys ac yn unigol. Rhaid i'r offerynnau hyn fod yn addas i'r pwrpas fel teclyn i fesur dysgu yn erbyn y cynnwys a ddiffiniwyd a'r meini prawf asesu. Lle mae gwaith grŵp wedi digwydd, rhaid nodi cyfraniadau'r unigolyn yn cynnwys nodiadau i ddangos gwaith paratoi unigol a gwaith i gwrdd â'r meini prawf asesu.

Wrth gyfeirio at y sector gwasanaethau cyhoeddus, mae hyn yn cynnwys yr holl sefydliadau o fewn gwasanaethau cyhoeddus, ond yn benodol y rhai a nodwyd yn *Uned 1: Rôl a Gwaith y Gwasanaethau Cyhoeddus*.

Wrth ddarparu tystiolaeth ar gyfer yr uned hon, rhaid i ddysgwyr ddangos fod ganddynt ddealltwriaeth o sut y gall ymwybyddiaeth o gymunedau ac amrywiaeth ddiwylliannol gyfrannu tuag at y ffyrdd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu i gymunedau lleol a rhai cenedlaethol.

Nod dysgu A

Ar gyfer **2A.LI1**: rhaid i ddysgwyr amlinellu'r gwahanol fathau o grwpiau cymunedol yn y gymuned leol. Wrth ddarparu tystiolaeth ar gyfer 2A.LI1, mae angen i ddysgwyr ymchwilio i'r mathau o grwpiau cymunedol. Gall tystiolaeth ar gyfer hyn fod ar ffurf poster, sy'n gofyn i ddysgwyr gyflwyno'r wybodaeth mewn dull gweledol gyda disgrifiadau testun priodol i ddangos eu dealltwriaeth. Mae'n bwysig bod y dystiolaeth yn cynnwys gwahanol fathau o grwpiau cymunedol.

Ar gyfer **2A.LI2**: rhaid i ddysgwyr ddisgrifio natur amrywiol dau wahanol fath o grwpiau cymunedol. Gallai tystiolaeth ar gyfer hyn fod drwy gyflwyniad, gan ddefnyddio'r poster ar gyfer 2A.LI1, i ddangos sut y mae'r gwasanaethau cyhoeddus wedi defnyddio ymwybyddiaeth o'r gymuned a'r diwylliannau o'i mewn wrth weithio gyda'r dewis gymunedau. Mae'n bwysig unwaith eto fod y dystiolaeth yn cynnwys dau grŵp cymunedol gwahanol.

Ar gyfer **2A.LI3**: mae angen i ddysgwyr grynhoi sut mae dau wasanaeth cyhoeddus yn defnyddio ymwybyddiaeth ddiwylliannol ar gyfer cymunedau gwahanol. Gall dysgwyr gynhyrchu papur ysgrifenedig sy'n dangos sut mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn defnyddio'r ymwybyddiaeth hon i ddarparu gwasanaethau i bob grŵp yn y gymuned.

Ar gyfer **2A.T1**: dylai dysgwyr esbonio sut mae gwahanol wasanaethau cyhoeddus yn defnyddio ymwybyddiaeth gymunedol a diwylliannol i gynllunio eu darpariaeth ar gyfer y gymuned leol a chenedlaethol. Gallai dysgwyr ddangos sut mae'r defnydd o'r wybodaeth hon o fewn cymunedau lleol yn cael ei adlewyrchu mewn cymunedau cenedlaethol, a hefyd sut mae ffyrdd eraill o ddefnyddio hyn yn gwahaniaethu naill ai i gymunedau lleol neu genedlaethol.

Ar gyfer **2A.Rh1**: dylai dysgwyr ddadansoddi sut mae gwahanol wasanaethau cyhoeddus yn defnyddio ymwybyddiaeth gymunedol a diwylliannol i fod o fudd i gymunedau lleol a chenedlaethol. Dylai dysgwyr gynhyrchu tystiolaeth sy'n cael ei

chefnogi gydag enghreifftiau o sut mae hyn wedi cael ei ddefnyddio'n effeithiol, a hefyd dod i gasgliadau yn sgil eu canfyddiadau. Mae enghreifftiau'n cynnwys sicrhau bod gwasanaethau priodol ar gyfer y gymuned leol gan ddibynnu ar anghenion y gymuned leol, er enghraifft sicrhau bod digon o lefydd ar gael mewn ysgolion i'r boblogaeth blant.

Ar gyfer **1A.1**: dylai dysgwyr restru'r gwahanol fathau o grwpiau cymunedol yn eu cymuned leol. Dylai dysgwyr allu cymhwyso eu dysgu am grwpiau cymunedol ac adnabod pa rai sy'n bodoli o fewn eu cymunedau eu hunain.

Ar gyfer **1A.2**: mae angen i ddysgwyr adnabod natur amrywiol dau wahanol fath o grŵp cymunedol. Dylai dysgwyr ddewis dau wahanol grŵp cymunedol sy'n bresennol yn y gymuned leol.

Ar gyfer **1A.3**: nid oes angen i ddysgwyr ond adnabod sut mae dau wasanaeth cyhoeddus yn defnyddio ymwybyddiaeth gymunedol a diwylliannol ar gyfer cymunedau gwahanol. Dylai'r dystiolaeth ystyried sut mae pob gwasanaeth cyhoeddus yn defnyddio ymwybyddiaeth gymunedol a diwylliannol yn y ffordd y maent yn gweithio gyda chymunedau ar lefel leol a chenedlaethol.

Nod dysgu B

Gall tystiolaeth ar gyfer nod dysgu B fod ar ffurf asesiad seiliedig ar astudiaeth achos, sy'n galw ar ddysgwyr i wneud ymchwil i astudiaeth achos penodol, gan ganiatáu iddynt gymhwyso eu gwybodaeth.

Ar gyfer **2B.LI4**: mae angen i ddysgwyr esbonio'r materion cymdeithasol y mae gwasanaethau cyhoeddus yn delio â nhw mewn cymuned. Gallai'r dystiolaeth gysylltu gydag astudiaeth achos penodol, a dylai gynnwys sut mae o leiaf ddau wasanaeth cyhoeddus yn rhan o ddelio â'r mater. Dylai'r astudiaeth achos fod yn ddigon manwl i ganiatáu i ddysgwyr dynnu'r dystiolaeth ohono, ac i gymhwyso'r wybodaeth y maent wedi ei hennill drwy astudio'r nod dysgu.

Ar gyfer **2B.LI5**: dylai dysgwyr ddisgrifio'r mathau o faterion diwylliannol y mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn eu rheoli yn y gymuned. Unwaith eto, mae'n bwysig bod dysgwyr yn trafod mwy nag un gwasanaeth a'u bod yn dangos eu gwybodaeth drwy ddefnyddio enghreifftiau perthnasol.

Ar gyfer **2B.T2**: rhaid i ddysgwyr asesu effaith materion cymdeithasol a diwylliannol mewn cymuned ar wasanaeth cyhoeddus. Dylai dysgwyr dynnu allan o'r asesiad effaith y materion cymdeithasol a diwylliannol, gan ddefnyddio enghreifftiau perthnasol a chymhwyso hyn i , er enghraifft, astudiaeth achos penodol. Asesiad o'r effaith a'i chymhwysiad yw'r ffactor pwysig wrth ddyfarnu'r maen prawf hwn.

Ar gyfer **2B.Rh2**: mae angen i ddysgwyr werthuso sut mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn rheoli'r materion cymdeithasol a diwylliannol yn y gymuned. Gall tystiolaeth ar gyfer hyn fod drwy ddysgwyr yn cymhwyso eu gwybodaeth gan ddefnyddio astudiaeth achos, ac ymchwiliad i'r gwahanol ffyrdd y mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn rheoli'r materion hyn , gan esbonio eu gwaith gydag enghreifftiau perthnasol a dod â'r dystiolaeth at ei gilydd gyda chasgliad cytbwys a rhesymegol.

Os bydd y ganolfan yn dewis asesu hyn drwy weithgaredd trafod, bydd angen i'r aswr roi cofnod arsylwi manwl o'r drafodaeth i bob dysgwyr i roi tystiolaeth o'u cyfraniad unigol. Dylai dysgwyr gael eu hannog i gynnal trafodaeth grŵp bach i ddisgrifio cost a buddion byw mewn cymuned, gan esbonio'r agweddau cadarnhaol a negyddol o amrywiaeth diwylliannol o fewn cymuned. Dylai dysgwyr ymestyn y drafodaeth (neu ei dilyn gydag adroddiad) i ddadansoddi a gwerthuso manteision ac anfanteision byw mewn cymuned sy'n ddiwylliannol amrywiol.

Ar gyfer **1B.4**: dylai dysgwyr amlinellu'r materion cymdeithasol y mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn delio â nhw mewn cymuned. Bydd yr amlinelliad yn gryno, gan ddefnyddio enghreifftiau o'r gymuned.

Ar gyfer **1B.5**: Dylai dysgwyr amlinellu'r mathau o faterion diwylliannol y mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn eu rheoli. Mae angen amlinelliad byr.

Awgrymiadau ar gyfer aseiniadau

Mae'r tabl isod yn dangos rhaglen o amlinelliadau aseiniadau posibl sy'n cwmpasu'r meini prawf asesu. Arweiniad yw hwn, ac awgrymir bod canolfannau naill ai'n ysgrifennu eu haseiniadau eu hunain neu'n addasu unrhyw aseiniadau y byddwn ni'n darparu i gwrdd ag anghenion ac adnoddau lleol.

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Senario	Tystiolaeth asesu
<p>2A.LI1, 2A.LI2, 2A.LI3, 2A.T1, 2A.Rh1, 1A.1, 1A.2, 1A.3</p>	<p>Rydych wedi cael cais i wneud cyflwyniad i grŵp o ddysgwyr Cyfnod Allweddol 2 yn disgrifio'r gwahanol fathau o grwpiau cymunedol sydd yn eich cymuned leol a natur amrywiol dau o'r grwpiau hynny.</p> <p>Bydd angen i chi hefyd roi crynodeb o sut mae dau wasanaeth cyhoeddus yn defnyddio eu gwybodaeth am y grwpiau hyn i weithio yn y gymuned, gan esbonio sut mae'r gwasanaethau'n defnyddio'r wybodaeth i gynllunio eu darpariaeth a dadansoddi sut maent yn defnyddio eu gwybodaeth er budd cymunedau.</p>	<p>Poster i gyflwyno'r pwnc.</p> <p>Cyflwyniad sioe sleidiau gyda nodiadau i gyd-fynd yn dangos sut mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn defnyddio ymwybyddiaeth gymunedol a diwylliannol wrth weithio mewn cymunedau.</p> <p>Cofnod arsylwi wedi'i lofnodi a'i ddyddio gan yr aseswr, sy'n rhoi sylwadau ar gynnwys y cyflwyniad.</p> <p>Llyfryn gwybodaeth yn dadansoddi sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn defnyddio ymwybyddiaeth o gymunedau a diwylliannau i gynllunio eu darpariaeth er budd cymunedau lleol a chenedlaethol.</p>
<p>2B.LI4, 2B.LI5, 2B.T2, 2B.Rh2, 1B.4, 1B.5</p>	<p>Rydych wedi cael y dasg o ymchwilio i agweddau cymdeithasol a diwylliannol sy'n cael eu rheoli gan y gwasanaethau cyhoeddus mewn cymuned.</p> <p>Byddwch yn cael astudiaeth achos i'w ymchwilio ac wedyn byddwch yn cael y cyfle i gymhwyso eich gwybodaeth.</p> <p>Byddwch yn cymryd rhan mewn trafodaethau grŵp bach, a rhaid i chi wneud yn siŵr eich bod yn cymryd rhan ac yn dangos eich gwybodaeth.</p>	<p>Nodiadau trafod yn dangos:</p> <ul style="list-style-type: none"> • esboniad o'r materion cymdeithasol y mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn delio â nhw mewn cymuned • esboniad o'r mathau o faterion diwylliannol yn y gymuned y mae gwasanaethau cyhoeddus yn eu rheoli • asesiad o effaith materion cymdeithasol a diwylliannol mewn cymuned ar wasanaethau cyhoeddus • gwerthusiad o sut mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn rheoli materion cymdeithasol a diwylliannol mewn cymuned • cofnod arsylwi wedi'i gwblhau gan yr aseswr

Uned 10: Gweithgareddau Anturus yn y Gwasanaethau Cyhoeddus

(Mae hwn yn gyfuniad sydd wedi'i wahardd gydag *Uned 14: Profiad Alldaith Aml-ddydd*.)

Lefel: **1 a 2**

Math o uned: **Dewisol arbenigol**

Oriau dysgu dan arweiniad: **30**

Dull asesu: **Mewnol**

Cyflwyniad i'r uned

Pwrpas yr uned hon yw eich galluogi i ddeall pam mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn rhoi gwerth mawr ar weithgareddau anturus. Byddwch yn adnabod y sgiliau a'r buddion i'r gwasanaethau cyhoeddus all ddeillio o gymryd rhan mewn gweithgareddau o'r fath.

Gall cymryd rhan mewn gweithgareddau anturus ddatblygu llawer o sgiliau trosglwyddadwy megis dewrder, cymhelliant, unplygrwydd, cyfathrebu, arweinyddiaeth, disgyblaeth, ymddiriedaeth a hyder; sgiliau fyddai'n ddefnyddiol mewn sawl maes cyflogaeth, nid dim ond o fewn gwaith gwasanaethau cyhoeddus. Byddwch hefyd yn elwa wrth eich herio eich hun, adeiladu hyder drwy ddysgu sut i dderbyn, ac yn ei dro, rheoli ofnau.

Mae angen i'r gwasanaethau cyhoeddus ymateb yn gyflym ac yn hyderus i unrhyw sefyllfa. Er mwyn gwneud hyn, rhaid i gyflogeion gwasanaethau cyhoeddus fod yn dîm effeithiol, yn dibynnu ar y naill a'r llall er mwyn cwrdd ag anghenion y cwsmer neu'r defnyddiwr gwasanaethau. Gall hyn gynnwys gorfod gorchfygu eich ofnau eich hun, er mwyn i chi allu gwneud y penderfyniad cywir mewn sefyllfa heriol.

Drwy gael y cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau anturus, byddwch yn gallu datblygu gwaith tîm, arweinyddiaeth, sgiliau cyfathrebu, hunan-gymhelliant a hyder drwy eich herio eich hun i gyflawni pethau nad oeddech yn credu y byddech yn gallu eu gwneud.

Nodau dysgu

Yn yr uned hon byddwch yn:

- A deall pwrpas gwahanol fathau o weithgareddau anturus ar gyfer y gwasanaethau cyhoeddus
- B archwilio'r cynllunio, y cyfranogiad a'r gwerthusiad o'ch perfformiad mewn gweithgareddau anturus.

Nodau dysgu a chynnwys yr uned

Beth sydd angen ei ddysgu
Nod dysgu A: Deall pwrpas gwahanol fathau o weithgareddau anturus ar gyfer y gwasanaethau cyhoeddus
<p>Testun A.1 Sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn defnyddio gweithgareddau anturus</p> <p>Mae gwasanaethau cyhoeddus yn gwerthfawrogi buddion gweithgareddau anturus a chyfleoedd hyfforddi dros y byd i gyd. Mewn llawer o wasanaethau cyhoeddus iwnifform mae hyfforddiant gweithgareddau anturus yn orfodol.</p> <p>Mae mathau allweddol o weithgareddau hyfforddi sy'n cael eu defnyddio gan y gwasanaethau cyhoeddus, a'u pwrpas, yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • digwyddiadau adeiladu tîm – cyflogeion yn gweithio gyda'i gilydd i wella gwaith tîm a chynhyrchedd • cyfeiriannu • hyfforddiant Arctig – gweithio mewn oerfel eithafol, gwelededd gwael, amodau dinodwedd (e.e. Norwy) • hyfforddiant jyngl – gweithio mewn amodau heriol, lleithder, deiliant trwchus, pryfed (e.e. Belize) • hyfforddiant anialwch – gweithio mewn amodau eithriadol boeth a dinodwedd (e.e. Nevada, UDA). <p>Testun A.2 Mathau o weithgareddau sy'n cael eu defnyddio i gefnogi datblygiad personol</p> <p>Mae yna amrywiaeth eang o weithgareddau anturus sy'n darparu nifer o fuddion, yn cynnwys gwella sgiliau, nodweddion a thechnegau ar gyfer datblygiad personol, i'r rhai all fod yn gweithio i'r gwasanaethau cyhoeddus. Gall y gweithgareddau hyn fod ar gael dan do neu yn yr awyr agored i gwrdd ag anghenion gwahanol gwsmeriaid a gwahanol amodau tywydd. Mae'r mathau o weithgareddau sydd ar gael i unigolion a'r gwasanaethau cyhoeddus yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cyrsiau rhaff uchel/isel • canolfannau dringo creigiau • digwyddiadau adeiladu tîm • tasgau gorchymyn • arfordiro • ogofa • ogofa ceudyllau • abseilio • parasiwtio • mynydda. <p>Mae yna nifer o wahanol sefydliadau sy'n darparu cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau anturus ac mae'r prif sefydliadau'n cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • darparwyr Gwobr Dug Caeredin • Sgowtiaid Antur

Beth sydd angen ei ddysgu**Testun A.3 Pwysigrwydd gweithgareddau anturus i'r gwasanaethau cyhoeddus**

Mae effaith gweithgareddau anturus ar gynhyrchedd staff a buddion eraill i'r gwasanaethau yn cynnwys:

- gwell cynhyrchedd
 - llai o salwch ac absenoldeb ymysg staff
 - gwell iechyd a ffitrwydd
 - gwell lles seicolegol
- cydlyniad tîm
 - gweithgareddau anturus tîm a'r effaith y maent yn ei chael ar y tîm cyfan, adeiladu ymddiriedaeth tîm a dibynnu ar y naill a'r llall
- gwell morâl ymysg y staff
 - mae cyflogwyr yn cael eu cymhell gan yr ymagwedd iach tuag at waith a gan fuddsoddiad eu cyflogwr ynddynt fel unigolion.

Testun A.4 Sgiliau a nodweddion gafodd eu hennill drwy weithgareddau anturus

- Gwaith tîm
- Arweinyddiaeth
- Datrys problemau
- Hyder wrth wynebu heriau
- Hyblygrwydd
- Cymryd rhan/cyfranogiad
- Agwedd gadarnhaol
- Gwerthoedd a safonau ymddygiad
- Unplygrwydd, e.e. gonestrwydd
- Hunan-ddisgyblaeth
- Parch
- Dewrder
- Ymrwymiad anhunanol, e.e. diogelwch pobl eraill
- Effeithiolrwydd, e.e. gwella fel unigolyn neu dîm
- Bod yn gystadleuol

Nod dysgu B: Archwilio'r cynllunio, y cyfranogiad a'r gwerthusiad o'ch perfformiad mewn gweithgareddau anturus

Rydych yn cael eich annog i gymryd rhan mewn gweithgareddau anturus, yn unigol ac mewn tîm; bydd hyn yn darparu elfennau o her a mwynhad. Ar gyfer yr uned hon rhaid i chi gymryd rhan mewn o leiaf ddau weithgaredd anturus sy'n cael eu goruchwylio gan bobl gymwys. Byddwch wedyn yn adolygu eich cyfranogiad drwy adnabod y buddion personol gafodd eu hennill a'r sgiliau a'r technegau gafodd eu dysgu neu eu datblygu.

Testun B.1 Cynllunio cyfranogiad mewn gweithgareddau anturus

- Nodau ac amcanion, e.e. cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol, synhwyrol (targedau CAMPUS) Ystyriaethau cyfranogwyr, e.e. gallu, hyder, profiad
- Dewis lleoliadau addas

parhad

Beth sydd angen ei ddysgu

Mae ystyriaethau allweddol wrth gynllunio ar gyfer cymryd rhan yn cynnwys:

- tywydd
- tirwedd
- camau diogelwch, e.e. dillad, ffurflenni caniatâd, yswiriant, cymwysterau staff, cynllun wrth gefn rhag ofn tywydd gwael, bwyd a diod, cludiant, gallu unigolion, ymddygiad, moeseg, cyfraddau staffio, amddiffyn plant
- offer priodol i'r rhai sy'n cymryd rhan, e.e. dillad diddos, dillad cynnes, dillad sbâr mewn bagiau sych, top llewys hir os yn defnyddio rhaffau, bwyd a diod, offer ymolchi, tywel, sach gysgu, tortsh, mat rholyn, pecyn cymorth cyntaf. offer gwarchod personol (PPE), e.e. helmed, padiau penelin/pen-glin, esgidiau addas ar gyfer y gweithgaredd hwn, eli haul, offer grŵp, e.e. rhaffau, pebyll, offer coginio
- lleoliad ac amodau amgylcheddol, gwirio cynnal a chadw, gosod yn gywir
- paratoi yn gymwys: bod â'r sgiliau a/neu'r wybodaeth angenrheidiol i baratoi'n ddigonol i gymryd rhan yn effeithiol ac yn ddiogel mewn gweithgareddau anturus a ddewiswyd.

Testun B.2 Cymryd rhan mewn gweithgareddau anturus

- Arddangos sgiliau, e.e. symbyliad, cyfathrebu, hyblygrwydd.
- Arddangos technegau penodol i weithgaredd anturus, e.e. gosod offer diogelwch yn gywir, llywio gydag adnoddau cyfyngedig, defnydd priodol o raffau a chlymau,
- Creu sefyllfa gystadleuol, e.e. cytuno ymlaen llaw pa sgiliau, technegau a galluoedd sydd i'w rhoi ar brawf i gwrdd ag amcan megis gwell perfformiad personol a/neu well perfformiad dros unigolion eraill.
- Ystyried ymddygiad, e.e. agwedd gadarnhaol, parch amgylcheddol, ymddygiad diogel.

Testun B.3 Adolygu perfformiad mewn gweithgareddau anturus

- Cadw log adlewyrchol o gynllunio a chyfranogi, e.e. dyddiadur ysgrifenedig, dyddiadur fideo.
- Casglu adborth gan eraill, e.e. cyfranogwyr ac arolygwr.

Cynnal dadansoddiad SWOT – cryfderau, gwendidau, cyfleoedd ar gyfer gwella a bygythiadau.

Meini prawf asesu

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
Nod dysgu A: Deall pwrpas gwahanol fathau o weithgareddau anturus ar gyfer y gwasanaethau cyhoeddus			
1A.1 Adnabod y sgiliau y mae unigolion yn eu hennill drwy gymryd rhan mewn dau weithgaredd anturus.	2A.LI1 Disgrifio'r sgiliau y mae unigolion yn eu hennill drwy gymryd rhan mewn dau weithgaredd anturus.	2A.T1 Asesu'r buddion y mae disgwyl eu hennill o ddau weithgaredd anturus gan ddau wasanaeth cyhoeddus gwahanol.	2A.Rh1 Gwerthuso, gan ddefnyddio enghreifftiau, effaith cymryd rhan mewn dau weithgaredd anturus ar ddau wasanaeth cyhoeddus gwahanol.
1A.2 Amlinellu'r gwahanol weithgareddau anturus y mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn cymryd rhan ynddynt.	2A.LI2 Esbonio pwrpas y gwahanol weithgareddau anturus y mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn cymryd rhan ynddynt. #		

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
Nod dysgu B: Archwilio'r cynllunio, y cyfranogiad a'r gwerthusiad o'ch perfformiad mewn gweithgareddau anturus			
1B.3 Amlinellu cynllun ar gyfer cymryd rhan mewn dau weithgaredd anturus.	2B.LI3 Cynllunio'n fanwl ar gyfer cymryd rhan mewn dau weithgaredd anturus gwahanol.	2B.T2 Esbonio ystyriaethau allweddol wrth gynllunio ar gyfer cymryd rhan mewn dau weithgaredd anturus gwahanol.	2B.Rh2 Cyfiawnhau ystyriaethau allweddol wrth gynllunio ar gyfer cymryd rhan mewn dau weithgaredd anturus gwahanol. #
1B.4 Cymryd rhan mewn dau weithgaredd anturus, gan ddefnyddio sgiliau a thechnegau priodol i gwrdd ag amcanion a osodwyd.	2B.LI4 Cymryd rhan mewn dau weithgaredd anturus gwahanol, gan ddefnyddio sgiliau a thechnegau priodol i gwrdd ag amcanion a osodwyd mewn sefyllfa gystadleuol.	2B.T3 Dadansoddi eich effaith eich hun ar bobl eraill, gan ddefnyddio hunanasesiad ac adborth gan eraill, mewn dau weithgaredd anturus. #	2B.Rh3 Gwerthuso eich perfformiad eich hun mewn dau weithgaredd anturus, gwerthuso'r sgiliau gafodd eu hennill ac argymell meysydd ar gyfer datblygu pellach. #
1B.5 Amlinellu eich perfformiad eich hun mewn dau weithgaredd anturus, gan adnabod y sgiliau gafodd eu hennill.	2B.LI5 Disgrifio eich perfformiad eich hun mewn dau weithgaredd anturus, gan ddefnyddio hunanasesiad ac adborth gan eraill. #		

*Cyfle i asesu sgiliau mathemategol

#Cyfle i asesu sgiliau Cymraeg

Arweiniad i athrawon

Adnoddau

Mae'r adnoddau arbennig angenrheidiol ar gyfer yr uned hon yn benodol i'r gweithgareddau gafodd eu dewis. Bydd llawer yn cael eu darparu gan y darparwyr gwasanaethau penodol, er enghraifft canolfannau dringo creigiau.

Argymhellir bod holl staff y canolfannau'n ymgyswngwr ag argymhellion y Corff Llywodraethu Cenedlaethol ynghylch adnoddau cyn gwneud unrhyw weithgaredd.

Canllaw asesu

Gall yr uned hon hefyd gyd-fynd yn esmwyth gydag *Uned 12: Llywio Tir gyda Map a Chwmpawd*.

Rhaid i ganolfannau sy'n darparu unedau 10 ac 11 sicrhau fod dysgwyr yn cwblhau gweithgareddau asesu ar wahân ar gyfer y ddwy uned. Er enghraifft, gweithgaredd addas ar gyfer *Uned 10: Gweithgareddau Anturus yn y Gwasanaethau Cyhoeddus* yw dringo creigiau, a gweithgaredd chwaraeon ar gyfer *Uned 11: Chwaraeon a Hamdden yn y Gwasanaethau Cyhoeddus* yw pêl-droed.

Mae'r uned hon yn cael ei hasesu'n fewnol gan y ganolfan a'i dilysu'n allanol gan Pearson. Darllenwch y canllaw hwn ochr yn ochr ag *Adran 8: Asesu mewnlol*.

Mae gan yr uned hon bwysiad tuag at gyfranogiad ymarferol mewn gweithgareddau anturus. Fodd bynnag, mae'n hanfodol ei bod yn cael ei dilyn gyda ffocws ar bwysigrwydd gweithgareddau anturus i'r gwasanaethau cyhoeddus ac ar wybodaeth am hyn. Dylai dysgwyr ennill y ddealltwriaeth hon drwy gyswllt uniongyrchol gyda'r gwasanaethau cyhoeddus lle mae hynny'n bosibl, gan fynd ar ymweliadau a gwrando ar siaradwyr gwadd o amryw o wasanaethau. Bydd y cyd-destun ymarferol hwn yn rhoi golwg i ddysgwyr ar y gwahaniaeth y mae cyfranogiad yn ei wneud i'r gwasanaethau cyhoeddus a'i fod yn cael ei gymryd o ddifri (yn wir, mewn llawer o wasanaethau cyhoeddus mae disgwyl ymrwymiad blynyddol gorfodol). Gall y profiad o weithgareddau amrywio mewn amgylcheddau gwahanol. Fodd bynnag, nid dim ond y sector gwasanaethau iwnifform sy'n defnyddio gweithgareddau anturus, mae llawer o wasanaethau heb iwnifform yn defnyddio gweithgareddau anturus i wella gwaith tîm a chynhyrchedd.

Nod dysgu A

Ar gyfer **2A.LI1**: rhaid i ddysgwyr ddisgrifio'r sgiliau angenrheidiol i gymryd rhan mewn dau weithgaredd anturus. Dylai dysgwyr gynnwys cyfranogiad, gwaith tîm, hyder, ymddygiad ac agwedd gadarnhaol.

Ar gyfer **2A.LI2**: rhaid i ddysgwyr esbonio pwrpas y gwahanol weithgareddau anturus y mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn cymryd rhan ynddynt. Dylent roi ystyriaeth ddyledus i hyfforddiant a datblygiad personol.

Ar gyfer **2A.T1**: rhaid i ddysgwyr asesu'r buddion disgwylidig a geir yn sgil dau weithgaredd anturus gan ddau wasanaeth cyhoeddus gwahanol. Gall y mathau o weithgareddau gynnwys tasgau a heriau megis cystadlaethau unigol a thîm, digwyddiadau gyda chyfyngiad amser, sefyllfaoedd amgylcheddol megis tywydd tymherus, gwlyb, poeth neu oer. Gall buddion gynnwys datrys problemau, gonestrwydd, hyblygrwydd, arweinyddiaeth, hyder, ffitrwydd a hunan-ddisgyblaeth.

Ar gyfer **2A.Rh1**: rhaid i ddysgwyr werthuso'r effaith o gymryd rhan mewn dau weithgaredd anturus ar ddau wasanaeth cyhoeddus. Rhaid i'r dewis o wasanaethau cyhoeddus ddod o wahanol fathau o wasanaethau. Rhaid i ddysgwyr ystyried y buddion i'r gwasanaethau cyhoeddus a phwysigrwydd gweithgareddau anturus i'r gwasanaethau cyhoeddus.

Ar gyfer **1A.1**: rhaid i ddysgwyr adnabod y sgiliau y mae unigolion yn eu hennill drwy gymryd rhan mewn dau weithgaredd anturus megis gwaith tîm, hyder, agwedd gadarnhaol ac ymddygiad priodol.

Ar gyfer **1A.2**: rhaid i ddysgwyr amlinellu'r gwahanol weithgareddau anturus y mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn cymryd rhan ynddynt. Rhaid trafod o leiaf dri gwasanaethau cyhoeddus gwahanol o blith gwasanaethau iwnifform ac eraill.

Nod dysgu B

Bwriad y nod dysgu hwn yw sicrhau bod dysgwyr yn cymryd rhan mewn o leiaf ddau weithgaredd anturus mewn ffordd ddiogel ac ystyriol. Dylai'r gweithgareddau hyn fod wedi eu cynllunio a rhaid iddynt gynnwys gweithgaredd unigol a rhai pâr/grŵp. Gallai hyn gynnwys dringo creigiau (dringwr a belai) fel gweithgaredd pâr ac arfordiro fel gweithgaredd unigol.

Ar gyfer **2B.LI3**: rhaid i ddysgwyr gynllunio, gyda manylder, i gymryd rhan mewn dau weithgaredd anturus gwahanol. Rhaid i ddysgwyr gymhwyso'r dysgu y maent wedi ei ennill yn yr uned i gynllunio ar gyfer cymryd rhan mewn gweithgareddau anturus dethol.

Ar gyfer **2B.LI4**: rhaid i ddysgwyr gymryd rhan mewn dau weithgaredd anturus, gan ddefnyddio sgiliau a thechnegau priodol i osod amcanion mewn sefyllfa gystadleuol. Rhaid i ddysgwyr gadw dyddiadur personol o'u cyfranogiad mewn gweithgareddau anturus. Dylai'r dyddiadur gynnwys dyddiadau a llofnodion gan aelod o staff neu hyfforddwr allanol ar gyfer y gweithgaredd hwnnw. Rhaid i'r dyddiadur gynnwys ardal i'r aelod o staff neu hyfforddwr gofnodi'r wybodaeth y mae'r dysgwr wedi ei dangos ynghylch canllawiau diogelwch perthnasol i'r gweithgaredd dan sylw.

Ar gyfer **2B.LI5**: rhaid i ddysgwyr ddisgrifio eu perfformiad eu hunain mewn dau weithgaredd anturus, gan ddefnyddio hunanasesiad ac adborth gan eraill. Rhaid i ddysgwyr esbonio'r sgiliau a enillwyd drwy eu cyfranogiad mewn dau weithgaredd anturus, er enghraifft datblygu hunan-barch a hyder. Gallai'r dystiolaeth ar gyfer hyn gael ei chyflwyno mewn log gwybodaeth neu ddyddiadur personol ar gyfer pob gweithgaredd. Lle mae gweithgareddau gwaith tîm yn cael eu defnyddio mae'n bwysig sicrhau bod tystiolaeth o gyfraniadau unigol a bod dysgwyr unigol yn gallu dangos eu bod wedi cyflawni'r maen prawf.

Ar gyfer **2B.T2**: rhaid i ddysgwyr esbonio ystyriaethau allweddol wrth gynllunio ar gyfer cymryd rhan mewn dau weithgaredd anturus gwahanol. Dylai dysgwyr ffocysu eu dadansoddiad o'r prif ystyriaethau ar weithgareddau anturus penodol, wedi eu dethol.

Ar gyfer **2B.T3**: rhaid i ddysgwyr ddadansoddi eu heffaith eu hunain ar eraill, gan ddefnyddio hunanasesiad ac adborth gan eraill, mewn dau weithgaredd anturus. Gall dyddiaduron personol a holiaduron helpu i gefnogi dysgwyr i ddadansoddi eu heffaith ar eraill. Bydd adroddiadau arsylwi a datganiadau tystion o'r gweithgareddau sy'n cael eu gwneud gan y dysgwyr hefyd yn arfau defnyddiol i gefnogi asesiad dysgwyr o'u heffaith eu hunain.

Ar gyfer **2B.Rh2**: rhaid i ddysgwyr gyfiawnhau ystyriaethau allweddol wrth gynllunio ar gyfer cymryd rhan mewn dau weithgaredd anturus gwahanol. Dylai dysgwyr ffocysu ar eu cyfiawnhad o'r ystyriaethau allweddol ar weithgaredd anturus penodol, wedi eu dethol.

Ar gyfer **2B.Rh3**: rhaid i ddysgwyr werthuso eu perfformiad eu hunain mewn dau weithgaredd anturus, gwerthuso'r sgiliau gafodd eu hennill ac argymell meysydd ar gyfer datblygu yn y dyfodol. Gellir gwneud hyn drwy ffocysu ar beth wnaethon nhw'n dda a'r meysydd allai gael eu gwella. Dylai dysgwyr gynnal dadansoddiad SWOT, gan ffocysu ar gryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau i gefnogi eu gwerthusiad.

Ar gyfer **1B.3**: rhaid i ddysgwyr amlinellu cynllun ar gyfer cymryd rhan mewn dau weithgaredd anturus. Dylai dysgwyr allu datblygu cynllun sylfaenol yn adnabod yr adnoddau a'r gofynion allweddol y mae angen iddynt eu cynnwys.

Ar gyfer **1B.4**: rhaid i ddysgwyr gadw dyddiadur personol o'u cyfranogiad mewn o leiaf ddau weithgaredd anturus. Dylai'r dyddiadur gynnwys dyddiadau a llofnodion gan aelod o staff neu hyfforddwr allanol ar gyfer y gweithgaredd hwnnw. Rhaid i'r dyddiadur gynnwys ardal i'r aelod o staff neu'r hyfforddwr ddatgan a fu i'r dysgwr arddangos gwybodaeth, sgiliau a thechnegau'r canllawiau diogelwch perthnasol i'r gweithgaredd dan sylw.

Ar gyfer **1B.5**: rhaid i ddysgwyr amlinellu eu perfformiad eu hunain drwy eu cyfranogiad mewn dau weithgaredd anturus, gan adnabod y sgiliau gafodd eu hennill, er enghraifft datblygu hunan-barch a hyder. Gallai'r dystiolaeth ar gyfer hyn gael ei chyflwyno mewn log gwybodaeth neu ddyddiadur personol ar gyfer pob gweithgaredd.

Awgrymiadau ar gyfer aseiniadau

Mae'r tabl isod yn dangos rhaglen o amlinelliadau aseiniadau posibl sy'n cwmpasu'r meini prawf asesu. Arweiniad yw hwn, ac awgrymir bod canolfannau naill ai'n ysgrifennu eu haseiniadau eu hunain neu'n addasu unrhyw aseiniadau y byddwn ni'n eu darparu i gwrdd ag anghenion ac adnoddau lleol.

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Senario	Tystiolaeth asesu
<p>1A.1, 1A.2, 2A.LI1, 2A.LI2, 2A.T1 a 2A.Rh1</p>	<p>Rydych wedi cael cais i gynhyrchu llyfryn, yn briodol ar gyfer cyflogeion potensial, i gyfiawnhau cymryd rhan mewn gweithgareddau anturus a'r buddion a ddaw o hynny.</p> <p>Dylai cyfiawnhad cyffredinol dros y defnydd o ddau weithgaredd anturus gan wasanaethau cyhoeddus a ddewiswyd gael ei wneud drwy ddadansoddiad o'r buddion i wasanaethau cyhoeddus iwniform a rhai heb iwniform.</p> <p>Bydd cyfiawnhad hefyd yn cael ei wneud drwy gynnwys tabl sy'n disgrifio amrywiaeth o weithgareddau anturus y mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn cymryd rhan ynddynt. Rhaid i un adran gynnwys disgrifiad o dri gweithgaredd anturus sydd i'w cael yn eich ardal leol.</p> <p>Dylai diagramau gael eu cynnwys sy'n disgrifio'r sgiliau sydd eu hangen er mwyn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau anturus.</p>	<p>Llyfryn.</p>

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Senario	Tystiolaeth asesu
1B.3, 1B.4, 1B.5, 2B.LI3, 2B.LI4, 2B.LI5, 2B.T2, 2B.T3, 2B.Rh2, 2B.Rh3	<p>Byddwch yn creu cynlluniau i gymryd rhan mewn dau weithgaredd anturus. Rhaid i chi gyflwyno'r cynlluniau i'ch athro, gan gyfiawnhau'r hyn rydych wedi'i gynnwys yn eich cynlluniau.</p> <p>Creu dyddiadur personol lle gallwch gofnodi eich cyfranogiad mewn o leiaf ddau weithgaredd anturus. Gall hyn gynnwys gweithgaredd unigol a gweithgaredd pâr/grŵp. Rhaid i'ch dyddiadur gynnwys tystiolaeth o'ch cyfranogiad (ffotograffau, datganiadau tystion) a'ch disgrifiad o'r buddion i chi o gymryd rhan ym mhob gweithgaredd.</p> <p>Dylai'ch dyddiadur gael ei gwblhau gydag adolygiad o'ch perfformiad mewn o leiaf ddau weithgaredd, gan adnabod sgiliau gafodd eu hennill, disgrifio eich cryfderau a'ch gwendidau, dadansoddi gan ddefnyddio dadansoddiad SWOT a gwneud argymhellion ar gyfer hyfforddiant a datblygiad yn y dyfodol.</p>	<p>Cynlluniau.</p> <p>Nodiadau/sleidiau cyflwyniad.</p> <p>Datganiad tyst.</p> <p>Cofnod arsylwi.</p> <p>Recordiad fideo.</p> <p>Dyddiadur personol gyda datganiadau tystion.</p> <p>Hunan-asesiad.</p> <p>Casglu adborth.</p> <p>Adroddiad.</p> <p>Adran werthuso mewn dyddiadur personol.</p>

Uned 11: Chwaraeon a Hamdden yn y Gwasanaethau Cyhoeddus

Lefel: 1 a 2

Math o uned: **Dewisol arbenigol**

Oriau dysgu dan arweiniad: **30**

Dull asesu: **Mewnol**

Cyflwyniad i'r uned

Pam mae chwaraeon a hamdden mor bwysig i'r gwasanaethau cyhoeddus? Yn yr uned hon byddwch yn ystyried pwysigrwydd chwaraeon a hamdden i'r gwasanaethau cyhoeddus, a'r effaith y maen nhw'n ei chael ar ddatblygu tîm a chynhyrchedd. Mae tystiolaeth bod y mathau hyn o weithgareddau'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i ba mor dda mae cyflogeion yn gweithio gyda'i gilydd ac yn ymdopi dan bwysau. Mae'r gwasanaeth tân ac achub a'r lluoedd arfog yn ystyried bod cymryd rhan mewn chwaraeon a chystadleuaeth yn rhan hanfodol o'u rolau. Yn y gwasanaethau hyn credir bod chwaraeon a hamdden yn hybu iechyd a ffitrwydd, yn datblygu brawdoliaeth, sy'n angenrheidiol yn y swydd, ac yn darparu dihangfa rhag straen sydd hefyd yn gallu bod yn hanfodol wrth weithredu mewn amodau peryglus. Mae gwasanaethau cyhoeddus heb iwniform hefyd yn cydnabod bod gweithgareddau chwaraeon a hamdden yn gwella lles cyflogeion ac yn hybu adeiladu tîm.

Wrth i gyllidebau gael eu torri a gwasanaethau gael eu lleihau ar draws y gwasanaethau cyhoeddus, mae arian yn dal i gael ei glustnodi i gefnogi cyflogeion sy'n cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau chwaraeon a hamdden.

Er mwyn gwerthfawrogi'n llawn y sgiliau all gael eu datblygu yn ystod gweithgareddau chwaraeon a hamdden, mae'n bwysig eich bod, fel rhan o'r uned hon, yn cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o chwaraeon tîm, chwaraeon unigol a gweithgareddau hamdden.

Nodau dysgu

Yn yr uned hon byddwch yn:

A deall pwysigrwydd chwaraeon a hamdden i'r gwasanaethau cyhoeddus

B archwilio cyfranogiad personol mewn gweithgareddau chwaraeon.

Nodau dysgu a chynnwys yr uned

Beth sydd angen ei ddysgu
Nod dysgu A: Deall pwysigrwydd chwaraeon a hamdden i'r gwasanaethau cyhoeddus
<p>Testun A.1 Pwysigrwydd chwaraeon a hamdden i'r gwasanaethau cyhoeddus</p> <p>Mae effaith gweithgareddau chwaraeon a hamdden ar gynhyrchedd staff a buddion gwasanaeth eraill yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> ● gwell cynhyrchedd: <ul style="list-style-type: none"> ○ llai o salwch ac absenoldeb ymysg staff ○ gwell iechyd a ffitrwydd ○ gwell lles seicolegol ● cydlyniant tîm: <ul style="list-style-type: none"> ○ chwaraeon tîm a'r effaith y maent yn eu cael ar y tîm cyfan, adeiladu ymddiriedaeth tîm a dibynnu ar y naill a'r llall ● gwell ffyddlondeb a morâl ymysg y staff: <ul style="list-style-type: none"> ○ drwy fuddion cyflogeion ○ mae cyflogeion yn cael eu cymell gan yr ymagwedd iach tuag at waith a gan fuddsoddiad eu cyflogwr ynddynt fel unigolion. <p>Testun A.2 Sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn cefnogi'r defnydd o weithgareddau chwaraeon a hamdden</p> <ul style="list-style-type: none"> ● Buddsoddiad ariannol wedi'i wneud gan y lluoedd arfog, yr heddlu, y gwasanaeth tân ac achub mewn cyfleusterau, amser cyflogeion, costau teithio cyflogeion a ffioedd cystadlu. ● Buddsoddiad gan wasanaethau cyhoeddus heb iwnifform mewn ffioedd aelodaeth gorfforaethol, nawdd, cyfleusterau ac amser cyflogeion i gymryd rhan. ● Cystadlaethau a digwyddiadau rhwng gwasanaethau, e.e. digwyddiadau ar bob lefel hyd at gefnogi cymryd rhan mewn digwyddiadau rhyngwladol/cenedlaethol megis y Gemau Olympaidd – mae llawer o aelodau'r tîm o'r gwasanaethau cyhoeddus. <p>Testun A.3 Mathau o chwaraeon a hamdden sy'n bwysig i'r gwasanaethau cyhoeddus</p> <p>Ymchwilio i'r gwahanol weithgareddau chwaraeon a hamdden ac amcanion a rheolau cyffredinol pob un. Ystyried sut y byddai pob gweithgaredd chwaraeon a hamdden yn cefnogi'r rhai sydd â diddordeb mewn gweithio i'r gwasanaethau cyhoeddus.</p> <ul style="list-style-type: none"> ● Chwaraeon tîm: <ul style="list-style-type: none"> ○ pêl-droed, hoci, pêl-rwyd, pêl-fasged, rygbi, criced, pêl-foeli – mae'r chwaraeon hyn yn datblygu cyd-ddibyniaeth, ymddiriedaeth ac amcanion, ymddiriedaeth ac ysbryd tîm ● Chwaraeon unigol: <ul style="list-style-type: none"> ○ rhedeg, beicio, nofio, tenis, badminton, triathlon – mae'r chwaraeon hyn yn datblygu gwydnwch, penderfyniad, lles a sgiliau trefnu ● Gweithgareddau hamdden: <ul style="list-style-type: none"> ○ sinema, theatr, y celfyddydau – mae'r gweithgareddau hyn yn datblygu hunan-barch, datblygiad personol.

Beth sydd angen ei ddysgu**Nod dysgu B: Archwilio cyfranogiad personol mewn gweithgareddau chwaraeon****Testun B.1 Cynllunio cyfranogiad mewn gweithgareddau chwaraeon**

- Gwella ffitrwydd personol ar gyfer cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon, e.e:
 - defnyddio prawf ffitrwydd i adnabod meysydd ar gyfer gwella
 - cynllunio gwelliant personol ar gyfer cymryd rhan.
- Offer diogelwch personol, e.e. helmedau, padiau crimog, tariannau ceg.
- Gofalu amdanynt eu hunain, gwarchod rhag anaf personol.
- Deall y defnydd o'r system sgorio a'r rheolau ar gyfer cymryd rhan mewn chwaraeon tîm.
- Deall y defnydd o'r system sgorio a'r rheolau ar gyfer cymryd rhan mewn chwaraeon unigol.
- Cynllunio caffael sgiliau a thechnegau i wella hunan-ddatblygiad.

Testun B.2 Cyfranogiad mewn gweithgareddau chwaraeon

- Chwarae cystadleuol mewn amgylchedd reoledig.
- Arddangos sgiliau, e.e. symbyliad, cyfathrebu, hyblygrwydd.
- Arddangos technegau penodol i'r gweithgaredd chwaraeon a hamdden.
- Sefyllfa gystadleuol, e.e. cytuno ymlaen llaw pa sgiliau, technegau a galluoedd sy'n cael eu profi i gwrdd ag amcan megis gwell perfformiad personol a/neu well perfformiad dros unigolion eraill.
- Ymddygiad, e.e. agwedd gadarnhaol, chwaraewr tîm mewn campau tîm, ymddygiad diogel.

Testun B.3 Adolygiad o berfformiad mewn gweithgareddau chwaraeon

- Cadw log adlewyrchol o gynllunio a chymryd rhan, e.e. dyddiadur ysgrifenedig, dyddiadur fideo.
- Casglu adborth gan eraill, e.e. cyfranogwyr ac arolygwr.
- SWOT – cryfderau, gwendidau, cyfleoedd i wella a bygythiadau.

Meini prawf asesu

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
Nod dysgu A: Deall pwysigrwydd chwaraeon a hamdden i'r gwasanaethau cyhoeddus			
1A.1 Adnabod pam mae gweithgareddau chwaraeon a hamdden yn bwysig i'r gwasanaethau cyhoeddus.	2A.LI1 Disgrifio pwysigrwydd gweithgareddau chwaraeon a hamdden i wasanaethau cyhoeddus.	2A.T1 Esbonio pam mae gweithgareddau chwaraeon a hamdden yn cael eu hystyried yn bwysig i ddau wasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol. #	2A.Rh1 Dadansoddi effaith botensial gweithgareddau chwaraeon a hamdden ar berfformiad gweithredol dau wasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol. #
1A.2 Rhestru'r gwahanol weithgareddau chwaraeon a hamdden y mae dau wasanaeth cyhoeddus yn cymryd rhan ynddynt.	2A.LI2 Disgrifio'r gwahanol weithgareddau chwaraeon a hamdden y mae dau wasanaeth cyhoeddus yn cymryd rhan ynddynt.		

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
Nod dysgu B: Archwilio cyfranogiad personol mewn gweithgareddau chwaraeon			
1B.3 Amlinellu cynllun ar gyfer cymryd rhan mewn gweithgaredd chwaraeon.	2B.LI3 Cynllunio'n fanwl ar gyfer cymryd rhan mewn dau weithgaredd chwaraeon gwahanol.	2B.T2 Esbonio ystyriaethau allweddol wrth gynllunio ar gyfer cymryd rhan mewn dau weithgaredd chwaraeon gwahanol. #	2B.Rh2 Cyfiawnhau ystyriaethau allweddol wrth gynllunio ar gyfer cymryd rhan mewn dau weithgaredd chwaraeon gwahanol. #
1B.4 Arddangos ffitrwydd personol ar gyfer gweithgaredd chwaraeon gan ddefnyddio profion ffitrwydd.	2B.LI4 Asesu ffitrwydd personol ar gyfer pob gweithgaredd chwaraeon, gan ddefnyddio profion ffitrwydd. *	2B.T3 Dadansoddi eich effaith eich hun ar eraill, gan ddefnyddio hunanasesiad ac adborth gan bobl eraill, mewn dau weithgaredd chwaraeon. #	2B.Rh3 Gwerthuso eich perfformiad eich hun mewn dau weithgaredd chwaraeon, gwerthuso'r sgiliau gafodd eu hennill ac argymell meysydd ar gyfer datblygu pellach. #
1B.5 Cymryd rhan mewn dau weithgaredd chwaraeon, gan ddefnyddio sgiliau a thechnegau priodol i gwrdd ag amcanion a osodwyd.	2B.LI5 Cymryd rhan mewn dau weithgaredd chwaraeon gwahanol, gan ddefnyddio sgiliau a thechnegau priodol i gwrdd ag amcanion a osodwyd mewn sefyllfa gystadleuol.		
1B.6 Amlinellu eich perfformiad eich hun mewn dau weithgaredd chwaraeon.	2B.LI6 Disgrifio eich perfformiad eich hun, gan ddefnyddio hunanasesiad ac adborth gan eraill, mewn dau weithgaredd chwaraeon. #		

*Cyfle i asesu sgiliau mathemategol

#Cyfle i asesu sgiliau Cymraeg

Arweiniad i athrawon

Adnoddau

Yr adnoddau arbennig angenrheidiol ar gyfer yr uned hon yw offer chwaraeon priodol a chyfleuster lle mae modd chwarae amrywiaeth o chwaraeon tîm a rhai unigol. Mae angen hefyd fynediad i weithgareddau hamdden megis y sinema, y theatr a cherddoriaeth.

Canllaw asesu

Rhaid i ganolfannau sy'n darparu unedau 10 ac 11 sicrhau fod dysgwyr yn cwblhau gweithgareddau asesu ar wahân ar gyfer y ddwy uned. Er enghraifft, gweithgaredd addas ar gyfer *Uned 10: Gweithgareddau Anturus yn y Gwasanaethau Cyhoeddus* yw dringo creigiau, a gweithgaredd chwaraeon addas ar gyfer *Uned 11: Chwaraeon a Hamdden yn y Gwasanaethau Cyhoeddus* yw pêl-droed.

Mae'r uned hon yn cael ei hasesu'n fewnol gan y ganolfan a'i dilysu'n allanol gan Pearson. Darllenwch y canllaw hwn ochr yn ochr ag *Adran 8: Asesu mewnol*.

Mae gan yr uned hon ogwydd mawr tuag at bwysigrwydd chwaraeon a hamdden i'r gwasanaethau cyhoeddus Fodd bynnag, mae'n hanfodol ei bod yn cael ei dilyn gyda ffocws ar bwysigrwydd gweithgareddau anturus i'r gwasanaethau cyhoeddus ac ar wybodaeth am hyn. Dylai dysgwyr ennill y ddealltwriaeth hon drwy gyswllt uniongyrchol gyda'r gwasanaethau cyhoeddus lle mae hynny'n bosibl, gan fynd ar ymweliadau a gwrando ar siaradwyr gwadd o amryw o wasanaethau. Bydd yr wybodaeth ymarferol hon a'i chyd-destun yn rhoi dealltwriaeth i ddysgwyr o'r gwahaniaeth y mae cymryd rhan yn ei wneud i'r gwasanaethau cyhoeddus ac nad yw'n cael ei ddarparu'n ddifeddwl. Dylai cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau ganiatáu i ddysgwyr fwynhau chwaraeon a hamdden, yn ogystal â chodi eu hymwybyddiaeth o fuddion y gweithgareddau hyn.

Nod dysgu A

Mae'r nod dysgu hwn yn ymwneud ag annog y dysgwr i ymchwilio i'r effaith y gall cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau chwaraeon a hamdden ei chael ar y gwasanaeth ac ar gyflogaion unigol. Dylai hyn gynnwys gwasanaethau iwniform a rhai heb iwniform, gan ystyried y gwahanol ymagweddau a'r gwahanol lefelau o fuddsoddiadau, yn ariannol ac mewn amser, wrth hwyluso cyfranogiad a chystadleuaeth.

Ar gyfer **2A.LI1**: rhaid i ddysgwyr ddisgrifio pwysigrwydd gweithgareddau chwaraeon a hamdden i'r gwasanaethau cyhoeddus. Rhaid i'r disgrifiad dynnu ar enghreifftiau. Rhaid ystyried o leiaf ddau wasanaeth cyhoeddus iwniform a dau wasanaeth cyhoeddus heb iwniform.

Ar gyfer **2A.LI2**: dylai dysgwyr ddisgrifio'r gwahanol weithgareddau chwaraeon a hamdden y mae dau wasanaeth cyhoeddus yn cymryd rhan ynddynt. Gall yr wybodaeth hon gael ei chywain o ymweliadau â gwasanaethau neu gan siaradwyr gwadd, ynghyd ag ymchwil bersonol. Rhaid i ddysgwyr esbonio wedyn y gwahanol weithgareddau chwaraeon a hamdden. Gallai'r dystiolaeth ar gyfer y maen prawf hwn fod yn daflen, yn adroddiad neu'n gyflwyniad. Os bydd cyflwyniad yn cael ei ddefnyddio, rhaid ei gefnogi gyda dogfen arsylwi a chopi o sleidiau'r cyflwyniad; rhaid eu hanodi gyda nodiadau'r dysgwr a ffynonellau'r dystiolaeth.

Ar gyfer **2A.T1**: rhaid i ddysgwyr ymestyn eu disgrifiad i esbonio'n llawn pam mae gweithgareddau chwaraeon a hamdden yn cael eu hystyried yn bwysig i ddau wasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol. Dylai'r enghreifftiau a roddir fod yn enghreifftiau gwirioneddol o wasanaethau; dylai'r wybodaeth hon gael ei chasglu drwy ymchwil neu ar ymweliadau neu gan siaradwyr gwadd, a'i chefnogi gan eu hymchwil eu hunain. Mae'r gair 'gwrthgyferbyniol' yn dangos y dylai tystiolaeth gael ei chynhyrchu gan edrych ar yr ystod o wasanaethau cyhoeddus, yn cynnwys y lluoedd arfog, gwasanaethau brys, awdurdodau lleol a llywodraeth ganolog.

Ar gyfer **2A.Rh1**: rhaid i ddysgwyr ddadansoddi effaith botensial gweithgareddau chwaraeon a hamdden ar berfformiad gweithredol dau wasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol. Rhaid i ddysgwyr ddangos sut mae'r ffactorau a amlinellwyd yn 2A.LI1 a 2A.T1 yn cyberthyn a sut mae pob un yn cyfrannu tuag at effaith gyffredinol gweithgareddau chwaraeon a hamdden ar berfformiad mewn dau wasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol. Dylai dysgwyr ystyried buddion y gweithgareddau hyn. Dylai dysgwyr wedyn ddod i gasgliad am hyn yn eu hadroddiad terfynol.

Ar gyfer **1A.1**: rhaid i ddysgwyr adnabod pam mae gweithgareddau chwaraeon a hamdden yn bwysig i'r gwasanaethau cyhoeddus. Mae angen amlinelliad sylfaenol.

Ar gyfer **1A.2**: rhaid i ddysgwyr restru'r gwahanol weithgareddau chwaraeon a hamdden y mae dau wasanaeth cyhoeddus yn cymryd rhan ynddynt. Nid oes angen i ddysgwyr wneud unrhyw beth mwy na rhestr ond rhaid iddynt ddangos beth sy'n berthnasol i bob gwasanaeth cyhoeddus a ddewiswyd.

Nod dysgu B

Bwriad y nod dysgu hwn yw sicrhau bod dysgwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon a hamdden mewn ffordd ddiogel ac ystyriol. Dylai'r dewis o weithgareddau fod wedi'i gynllunio a rhaid cynnwys chwaraeon tîm a gweithgareddau chwaraeon unigol.

Ar gyfer **2B.LI3**: rhaid i ddysgwyr ddangos tystiolaeth o gynllunio manwl i baratoi ar gyfer cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon. Gall hyn gynnwys tystiolaeth megis taflen cynllunio adnoddau, asesiad risg neu drafodaeth wedi'i harsylwi gyda chyfoedion ynghylch pa baratoadau sydd eu hangen a pham.

Ar gyfer **2B.LI4**: rhaid i ddysgwyr asesu eu ffitrwydd personol ar gyfer pob gweithgaredd chwaraeon gan ddefnyddio profion ffitrwydd. Dylent gymryd rhan mewn o leiaf dri phrawf ffitrwydd a chofnodi eu canlyniadau. Rhaid i'r canlyniadau wedyn gael eu hasesu i ddangos fod gan bob dysgwr ddealltwriaeth o'i ffitrwydd personol ei hun. Gallai'r dystiolaeth ar gyfer hyn gael ei chyflwyno mewn llyfryn neu ddyddiadur personol ar gyfer pob prawf.

Ar gyfer **2B.LI5**: rhaid i ddysgwyr gymryd rhan mewn dau weithgaredd chwaraeon, gan ddefnyddio sgiliau a thechnegau priodol i gwrdd ag amcanion a osodwyd. Dylai dysgwyr gadw dyddiadur personol o gyfranogiad mewn dau weithgaredd chwaraeon gwahanol, y gallai'r gwasanaethau cyhoeddus eu defnyddio mewn sefyllfa gystadleuol. Bydd gan ddysgwyr fynediad i'r rhai sy'n cael eu defnyddio gan wasanaethau cyhoeddus heb iwniform. Dylai cofnodion arsylwi ac adroddiadau tystion gael eu defnyddio i gofnodi cyflawniad unigol o'r maen prawf. Dylai dysgwyr gadw dyddiadur o bob gweithgaredd. Dylai'r dyddiadur gynnwys dyddiadau a llofnodion gan aelod o staff neu hyfforddwr allanol ar gyfer y gweithgaredd hwnnw. Rhaid i ddysgwyr gynnwys o leiaf un gamp tîm ac un gamp unigol.

Ar gyfer **2B.LI6**: rhaid i ddysgwyr ddisgrifio eu perfformiad eu hunain, gan ddefnyddio hunanasesiad ac adborth gan bobl eraill, mewn dau weithgaredd chwaraeon. Dylai dysgwyr gasglu adborth gan eraill (er enghraifft cyfoedion,

athro, hyfforddwr neu wylwyr) am eu perfformiad a chwblhau hunan-asesiad. Gyda'r wybodaeth hon rhaid i ddysgwyr esbonio eu perfformiad. Bydd cofnodion arsylwi a datganiadau tystion o'r gweithgareddau sy'n cael eu gwneud gan y dysgwyr hefyd yn arfau defnyddiol i gefnogi hunanasesiad y dysgwyr o'u heffaith eu hunain.

Ar gyfer **2B.T2**: rhaid i ddysgwyr esbonio ystyriaethau allweddol wrth gynllunio ar gyfer cymryd rhan mewn dau weithgaredd chwaraeon gwahanol. Mae angen i ddysgwyr sicrhau eu bod yn adnabod ystyriaethau sy'n benodol i'r gweithgareddau a ddewiswyd ac nid yn rhai generig yn unig.

Ar gyfer **2B.T3**: rhaid i ddysgwyr ddadansoddi eu heffaith eu hunain ar eraill, gan ddefnyddio hunanasesiad ac adborth gan eraill, mewn dau weithgaredd chwaraeon. Sut mae perfformiad y dysgwr ei hun wedi effeithio ar berfformiad pobl eraill yn y tîm?

Ar gyfer **2B.Rh2**: rhaid i ddysgwyr gyfiawnhau ystyriaethau allweddol wrth gynllunio ar gyfer cymryd rhan mewn dau weithgaredd chwaraeon gwahanol, drwy roi rhesymau. Dylai dysgwyr gynnwys o leiaf dri maes allweddol y maent wedi eu hystyried yn eu cynllunio a gallai'r dystiolaeth am hyn fod yn daflen gynllunio neu'n nodiadau trafodaeth gyda'r athro.

Ar gyfer **2B.Rh3**: rhaid i ddysgwyr werthuso eu perfformiad eu hunain mewn dau weithgaredd chwaraeon, gwerthuso'r sgiliau gafodd eu hennill ac argymell meysydd ar gyfer datblygu yn y dyfodol. Dylai dysgwyr ddefnyddio adborth a gafwyd gan eraill ar eu perfformiad yn eu gwerthusiad.

Ar gyfer **1B.3**: rhaid i ddysgwyr amlinellu cynllun ar gyfer cymryd rhan mewn gweithgaredd chwaraeon. Dylai dysgwyr adnabod nodau ac amcanion a gofynion allweddol eu cynllun, yn cynnwys unrhyw gerrig milltir allweddol.

Ar gyfer **1B.4**: rhaid i ddysgwyr arddangos ffitrwydd personol ar gyfer gweithgaredd chwaraeon gan ddefnyddio profion ffitrwydd. Dylai dysgwyr ddangos eu bod yn gallu gwneud profion ffitrwydd i gwrdd â'r gofynion ar gyfer y gweithgaredd chwaraeon.

Ar gyfer **1B.5**: rhaid i ddysgwyr gymryd rhan mewn dau weithgaredd chwaraeon, gan ddefnyddio sgiliau a thechnegau i gwrdd ag amcanion a osodwyd. Dylai cofnodion arsylwi a thystiolaeth tystion gael eu defnyddio i gofnodi cyflawniad unigol o'r maen prawf. Dylai dysgwyr hefyd gadw dyddiaduron. Dylai'r dyddiaduron gynnwys dyddiadau a llofnodion gan aelod o staff neu hyfforddwr allanol ar gyfer y gweithgaredd hwnnw. Rhaid i ddysgwyr gynnwys o leiaf un gamp tîm ac un gamp unigol.

Ar gyfer **1B.6**: rhaid i ddysgwyr amlinellu eu perfformiad eu hunain mewn dau weithgaredd chwaraeon. Dylai dysgwyr gasglu adborth gan eraill (er enghraifft cyfoedion, athro, hyfforddwr neu wylwyr) am eu perfformiad a chwblhau hunanasesiad. Gyda'r wybodaeth hon rhaid i ddysgwyr amlinellu eu perfformiad. Bydd cofnodion arsylwi a datganiadau tystion o'r gweithgareddau sy'n cael eu gwneud gan y dysgwyr hefyd yn arfau defnyddiol i gefnogi hunanasesiad y dysgwyr o'u heffaith eu hunain.

Awgrymiadau ar gyfer aseiniadau

Mae'r tabl isod yn dangos rhaglen o amlinelliadau aseiniadau posibl sy'n cwmpasu'r meini prawf asesu. Canllaw yw hwn, ac awgrymir bod canolfannau naill ai'n ysgrifennu eu haseiniadau eu hunain neu'n addasu unrhyw aseiniadau y byddwn ni'n eu darparu i gwrdd ag anghenion ac adnoddau lleol.

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Senario	Tystiolaeth asesu
1A.1, 1A.2, 2A.Ll1, 2A.Ll2, 2A.T1, 2A.Rh1	<p>Er mwyn dysgu mwy am pam mae gwasanaethau cyhoeddus yn rhoi pwys ar weithgareddau chwaraeon a hamdden, rydych wedi penderfynu cwblhau darn o ymchwil a thrafod hyn gyda'ch athro. Mae'ch athro'n teimlo bod hyn yn faes ddylai gael ei rannu gyda'ch dosbarth cyfan ac mae felly wedi gwahodd cynrychiolydd o wasanaeth cyhoeddus i ymweld. Mae'ch athro wedi gofyn i chi gynhyrchu taflen yn dilyn yr ymweliad.</p> <p>Rhaid i'r daflen gynnwys disgrifiad o pam mae gwasanaethau cyhoeddus yn cefnogi gweithgareddau chwaraeon a hamdden ac yn ystyried eu bod yn bwysig. Dylai'r daflen hefyd gynnwys disgrifiad o'r gweithgareddau y byddai cyflogeion o ddau wasanaeth cyhoeddus gwahanol yn cymryd rhan ynddynt.</p> <p>O ganlyniad i'ch diddordeb a'ch brwdfrydedd dros yr ymchwil hon rydych wedi cael gwahoddiad i gyflwyno eich taflen i gyflogeion potensial gwasanaethau cyhoeddus ac ateb unrhyw gwestiynau ganddynt ar weithgareddau chwaraeon a hamdden mewn dau wasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol. Er mwyn paratoi ar gyfer y cyflwyniad hwn rhaid i chi gynhyrchu dogfen (sleidiau PowerPoint® gyda nodiadau neu adroddiad), fydd yn cael ei roi i bawb sy'n mynychu'r cyfarfod. Rhaid i'r ddogfen hon esbonio pam mae gweithgareddau chwaraeon a hamdden yn bwysig i berfformiad y ddau wasanaeth gwrthgyferbyniol.</p>	<p>Taflen.</p> <p>Cyflwyniad PowerPoint® gyda thudalennau nodiadau a datganiad tyst.</p> <p>neu</p> <p>adroddiad ysgrifenedig ffurfiol.</p>

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Senario	Tystiolaeth asesu
<p>1B.3, 1B.4, 1B.5, 1B.6, 2B.LI3, 2B.LI4, 2B.LI5, 2B.LI6, 2B.T2, 2B.T3, 2B.Rh2, 2B.Rh3</p>	<p>Mae disgwyl i chi allu cynllunio'n effeithiol ar gyfer cymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau chwaraeon a hamdden a chysylltu sut mae'r ffactorau hyn yn bwysig i'r gwasanaethau cyhoeddus.</p> <p>Mae angen i chi asesu eich ffitrwydd personol eich hun cyn cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon. Er mwyn gwneud hyn mae angen i chi gwblhau o leiaf dri phrawf ffitrwydd a chofnodi ac asesu'r canlyniadau.</p> <p>Bydd angen i chi wedyn greu dyddiadur personol lle gallwch gofnodi eich cyfranogiad yn y gweithgareddau. Rhaid i hyn gynnwys chwaraeon tîm a chwaraeon unigol. Rhaid i'ch dyddiadur gynnwys tystiolaeth o'ch cyfranogiad (ffotograffau, datganiadau tystion) a'ch gwerthusiad o'ch cyfranogiad ym mhob gweithgaredd, gydag argymhellion am feysydd i'w gwella.</p> <p>Dylai'ch dyddiadur gael ei gwblhau gyda chymhariaeth o'r rhesymau a roddwyd gan bersonél gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon a hamdden a gwerthusiad o fuddion penodol y cyfranogiad hwn i un gwasanaeth cyhoeddus a ddewiswyd.</p>	<p>Cofnod arsylwi.</p> <p>Tystiolaeth tyst,</p> <p>Dyddiadur personol gyda datganiadau tystion.</p> <p>Adran werthuso mewn dyddiadur personol.</p>

Uned 12: Llywio Tir gyda Map a Chwmpawd

Lefel: **1 a 2**

Math o uned: **Dewisol arbenigol**

Oriau dysgu dan arweiniad: **60**

Dull asesu: **Mewnol**

Cyflwyniad i'r uned

Oeddech chi'n gwybod y gallai'r gallu i ddarllen map neu ddefnyddio chwmpawd yn gywir achub eich bywyd? Mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn aml yn gweithredu yn yr awyr agored ac weithiau mae'r tywydd yn golygu nad oes modd i chi wybod ble rydych chi ond drwy edrych o'ch chwmpas. Gall technoleg fodern fod yn wirioneddol dda o ran eich helpu i lywio ond os nad yw eich GPS yn gweithio am eich bod mewn dyffryn, mewn tywydd gwael neu os yw'r batri'n fflat, gall fod yn hanfodol i chi wybod sut i ddarllen map a defnyddio chwmpawd.

Mae defnyddio map yn golygu deall yr arwyddion a'r symbolau sy'n cael eu defnyddio ar y map a hefyd deall beth yw llinellau grid a sut y gallwch eu defnyddio. Byddwch hefyd wedi dysgu sut i gyfeiriadu'r map i ble rydych chi ar y tir, oherwydd os yw'r map â'i ben i lawr byddwch yn mynd i'r cyfeiriad anghywir. Pan fyddwch yn gwybod sut i ddefnyddio map yn iawn gallwch ei ddefnyddio i gynllunio a llywio taith o'ch dewis chi yn ogystal â'i ddefnyddio i ganfod ble rydych chi.

Bydd gallu defnyddio chwmpawd yn ychwanegu at eich sgiliau llywio gan ei fod yn eich helpu i ddod o hyd i gyfeiriad a lleoliad heb ddefnyddio tirnodau. Beth yw ystyr y llinell goch yna? Pam mae'r bys yn troi wrth i chi symud y chwmpawd? Bydd dysgu hyn a gallu deall yr holl farciau ar eich chwmpawd yn golygu eich bod yn dod yn hyderus ac yn fedrus wrth ei ddefnyddio.

Gallai gwasanaethau cyhoeddus gynnal ymarferion neu achub pobl mewn mannau diarffordd ac felly mae angen iddynt allu cynllunio llwybr effeithiol fydd nid yn unig yn eu cael i'r fan lle maen nhw am fod, ond hefyd yn gwneud hyn mewn modd diogel ac amserol. Er mwyn gwneud hyn mae'n rhaid iddynt nid yn unig gynllunio'r trywydd, ond hefyd ystyried eu hoffer a'r problemau posibl y gallent eu hwynebu, ac edrych ar sut y byddant yn delio gydag unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â'r gweithgaredd.

Bydd yr uned hon yn eich helpu i ddechrau datblygu rhai o'r sgiliau hyn, fel y gallwch adeiladu arnynt a'u defnyddio yn ddiweddarach mewn gyrfa o fewn y gwasanaethau cyhoeddus.

Nodau dysgu

Yn yr uned hon byddwch yn:

- A archwilio mapiau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer llywio tir
- B archwilio sut i ddefnyddio chwmpawd
- C gallu ymgymryd â thrywydd.

Nodau dysgu a chynnwys yr uned

Beth sydd angen ei ddysgu

Nod dysgu A: Archwilio mapiau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer llywio tir

Testun A.1 Nodweddion cyffredin map

Mae mapiau ar gael o nifer o ffynonellau gwahanol a bydd yr un a ddewiswch yn dibynnu ar y defnydd sydd gennych ar ei gyfer:

- mapiau Arolwg Ordnans – yn cael eu defnyddio ar gyfer cywirdeb a manylder
- mapiau stryd – yn cael eu defnyddio i ganfod ffordd i leoliad penodol ar lefel manylion stryd
- mapiau ffordd – yn cael eu defnyddio i ganfod ffordd i leoliad penodol ar lefel manylion tref
- mapiau cyfeiriannu – yn cael eu defnyddio ar gyfer trywyddau a gweithgareddau penodol
- mapiau topograffigol – yn cael eu defnyddio ar gyfer cynllunio alldeithiau manwl gyda manylion tirwedd a chyfuchliniau
- mapiau hinsawdd – yn cael eu defnyddio i wirio tywydd ar gyfer ardal benodol.

Mae mapiau'n cynnwys nifer o nodweddion sy'n golygu'r un peth pryd bynnag y byddwch yn defnyddio map o'r math penodol hwnnw:

- arwyddion confensiynol – mae'r rhain yn eich galluogi chi i ddehongli'r tir drwy ddefnyddio'r allwedd i adnabod ffactorau ar y map megis dosbarth y ffordd, ardaloedd coediog, dyfrffyrdd, rheilffyrdd yn ogystal â nodweddion naturiol a gwneud eraill
- cyfuchliniau – yn dynodi uchder a graddiant neu sut mae'r tir yn gorwedd
- cyfeiriadau grid - o gridiau syml gyda rhifau a llythrennau i gridiau mwy cymhleth yn cynnwys dwyreiniadau a gogleddiadau i ddarparu cyfeiriadau grid chwe ffigur.

Testun A.2 Sgiliau darllen map

Mae gallu defnyddio map yn golygu datblygu nifer o sgiliau, yn cynnwys:

- cyfeiriannu map yn ôl y tir
- perthnasu'r tir i'r map
- deall graddfa'r map
- cyfrifo pellter ac amser gan ddefnyddio'r map, gan gymryd i ystyriaeth Reol Naismith, sy'n ymwneud â chyfrifo pellter gan gymryd i ystyriaeth y graddiant ar fap
- defnyddio map i gynllunio trywydd.

Testun A.3 Creu map

Bydd creu map yn cynnwys:

- ymchwilio i'r ardal sydd i'w fapio
- adnabod nodweddion i'w cynnwys drwy bennu beth fydd defnydd y map gorffenedig
- casglu eu delweddau a'u mesuriadau eu hunain
- dylunio allwedd
- penderfynu ar y raddfa i'w defnyddio.

Beth sydd angen ei ddysgu**Nod dysgu B: Archwilio sut i ddefnyddio cwmpawd****Testun B.1 Deall y cwmpawd**

Deall prif nodweddion gwahanol gwmpawdau, yn cynnwys:

- amgaead cwmpawd – cynhwysydd yn llawn olew neu alcohol y mae'r cwmpawd yn troi ynddo. Mae hefyd yn cael ei alw'n olwyn cwmpawd, gyda marc bob dwy radd yn cwmpasu 360 gradd, a N-S-E-W (Gogledd, De, Dwyrain, Gorllewin) – y 'pwyntiau prifol'
- nodwydd fagnetig – hanner gwyn a hanner coch; yr enw ar y pen coch yw'r pen canfod gogledd
- llinellau cyfeiriannu – llinellau paralel main wedi'u harysgrifio ar waelod amgaead y cwmpawd
- saeth cyfeiriannu – mae'r ddwy linell gyfeiriannu yn y canol yn cael eu huno i ffurfio saeth sy'n gosod y gogledd ar amgaead y cwmpawd
- plât gwaelod – fel arfer defnydd clir petryal yn cynnwys chwyddwydr gyda graddiant mesur ar hyd dwy ochr
- cardiau cyfeirio – gwahanol setiau o farciau graddfa ar hyd ochr a thop y plât gwaelod y gellir eu defnyddio i leoli'n fanwl safleoedd o fewn sgwâr grid drwy gyfeiriad grid chwe ffigur
- saeth cyfeiriad teithio – yn dangos cyfeiriad teithio wrth ddilyn cyfeiriant
- marciwr cyfeiriant – marc dynodi ar amgaead y cwmpawd a ddefnyddir i osod y cyfeiriant.

Mae hefyd yn golygu bod yn gyfrifol am ofalu am y cwmpawd wrth ei ddefnyddio ac ar ôl ei ddefnyddio, megis ei gadw'n lân ac yn sych, ac osgoi ei ysgwyd neu ei ysgytio i osgoi creu swigen aer.

Mae yna fathau gwahanol o gwmpawd i'w hystyried hefyd, yn cynnwys:

- cwmpawd plât gwaelod – cwmpawd fflat syml i gymryd cyfeiriant ar fap
- cwmpawd bawd – cwmpawd syml sy'n eistedd ar fawd ac yn cael ei ddefnyddio wrth gyfeiriannu
- cwmpawd lensatig – cwmpawd mwy manwl sy'n caniatáu i'r defnyddiwr gymryd darlenniadau llinell welediad
- cwmpawd prismatig – cwmpawd soffistigedig sy'n darparu darlenniadau mwy cywir.

Testun B.2 Defnyddio'r cwmpawd

Er mwyn defnyddio cwmpawd yn effeithiol bydd angen i chi ddeall nifer o bethau, yn cynnwys:

- pwyntiau prifol – Gogledd, De, Dwyrain, Gorllewin a'r pwyntiau yn y canol
- cymryd cyfeiriant o fap neu wrthrych
- cynnal ôl-doriad
- cyfeiriant magnetig ac amrywiad
- y gwahaniaeth rhwng miliau a graddau
- defnyddio'r cwmpawd yn y nos ac mewn gweledd isel.

Beth sydd angen ei ddysgu**Nod dysgu C: Gallu ymgymryd â thrywydd****Testun C.1 Cynllunio trywydd**

Y ffordd fwyaf effeithiol o gynllunio trywydd yw defnyddio cerdyn trywydd, ddylai gynnwys amrywiaeth o wybodaeth, yn cynnwys:

- manylion y trywydd
- maint a chyfansoddiad y grŵp
- diwrnod
- dyddiad
- amseroedd
- camau'r trywydd
- cyfeiriadau grid
- uchder
- pellter
- manau gorffwys
- amseru
- sylwadau
- ystyriaeth o fedrau'r grŵp
- gwybodaeth am y tywydd
- llwybrau dianc ar gyfer pob rhan o'r trywydd rhag ofn anafiadau neu dywydd gwael
- effeithiau graddiant
- mathau'r dirwedd.

Testun C.2 Ymgymryd â thrywydd

Mae ymgymryd â thrywydd yn gofyn am gynllunio gofalus, yn cynnwys:

- ystyried materion diogelwch
- cwblhau ffurflenni caniatâd
- cynnal asesiadau risg
- ystyried offer, yn cynnwys dillad ac esgidiau
- gwneud yn siŵr fod cerdyn y trywydd yn cael ei adael gyda rhywun cyfrifol cyn gadael
- cael caniatâd perchnogion tir os nad ydynt yn defnyddio llwybrau troed neu dir mynediad.

Yn ystod y trywydd mae nifer o bethau eraill i'w hystyried, yn cynnwys:

- pecyn cario
- sicrhau bod pob aelod yn gallu cadw i fyny gyda'r grŵp, yn cynnwys effeithiau blinder ac anghysur corfforol
- defnyddio gwaith tîm a chyfathrebu
- arwain rhan o'r trywydd
- gwneud penderfyniadau a datrys problemau wrth iddynt godi, megis newidiadau yn y tywydd, methu cadw at y trywydd neu anafiadau
- defnyddio llywio cywir
- dod o hyd i gyfeiriad gyda chwmpawd a heb un.

parhad

Beth sydd angen ei ddysgu

Mae yna faterion amgylcheddol y mae'n rhaid eu hystyried hefyd wrth fynd ar drywydd, yn cynnwys:

- cyfreithiau mynediad
- Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CRoW) 2000
- cod cefn gwlad
- sicrhau'r effaith isaf posibl ar yr amgylchedd.

Meini prawf asesu

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
Nod dysgu A: Archwilio mapiau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer llywio tir			
1A.1 Adnabod yr arwyddion confensiynol, y cyfuchliniau a'r cyfeiriadau grid sy'n cael eu defnyddio ar wahanol fathau o fap. #	2A.LI1 Disgrifio sut mae arwyddion confensiynol, cyfuchliniau a chyfeiriadau grid yn cael eu defnyddio i ddarllen gwahanol fathau o fap. #	2A.T1 Cymharu manteision ac anfanteision gwahanol fathau o fapiau a'u nodweddion. #*	2A.Rh1 Gwerthuso'r nodweddion ar fap a gynhyrchwyd i gefnogi'r defnydd cywir o'r map. #
1A.2 Adnabod y sgiliau angenrheidiol er mwyn darllen map penodol.	2A.LI2 Disgrifio sut i ddarllen map gan ddefnyddio sgiliau darllen map. #	2A.T2 Dadansoddi pwysigrwydd y sgiliau angenrheidiol i ddefnyddio map, yn cynnwys y defnydd o Reol Naismith. #*	
1A.3 Cynhyrchu map syml ar gyfer ardal benodedig i gwrdd ag amcanion a ddiffiniwyd. *	2A.LI3 Cynhyrchu map manwl ar gyfer ardal benodol, gan ddewis math perthnasol o fap i gwrdd ag amcanion wedi'u diffinio gydag allwedd cywir. #*	2A.T3 Cynhyrchu map manwl wrth raddfa ar gyfer ardal benodol, gan ddewis math perthnasol o fap i gwrdd ag amcanion wedi'u diffinio gydag allwedd gywir. #*	

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
Nod dysgu B: Archwilio sut i ddefnyddio cwmpawd			
1B.4 Adnabod prif nodweddion gwahanol fathau o gwmpawd. #	2B.LI4 Disgrifio sut mae prif nodweddion gwahanol fathau o gwmpawd yn cyfrannu tuag at eu defnydd. #	2B.T4 Cymharu'r defnydd o ddau wahanol fath o gwmpawd a ddewiswyd i ddod o hyd i leoliad drwy gymryd cyfeiriad gan ddefnyddio nodweddion allweddol. #*	2B.Rh2 Asesu manteision ac anfanteision dau wahanol fath o gwmpawd a ddewiswyd i ddod o hyd i leoliad gan gymryd cyfeiriad gan ddefnyddio nodweddion allweddol i argymhell y cwmpawd mwyaf addas. #
1B.5 Dangos sut i ddefnyddio dau gwmpawd a ddewiswyd i gwrdd ag amcanion wedi'i ddiffinio.	2B.LI5 Dangos sut i ddefnyddio dau gwmpawd a ddewiswyd i ganfod a dilyn cyfeiriad gan ddefnyddio pwyntiau prifol.		
Nod dysgu C: Gallu ymgymryd â thrywydd			
1C.6 Cynhyrchu cerdyn trywydd syml ar gyfer trywydd a gynlluniwyd. #*	2C.LI6 Cynhyrchu cerdyn trywydd manwl ar gyfer trywydd a gynlluniwyd. #*	2C.T5 Adolygu'r trywydd gafodd ei gymryd ar drywydd wedi'i gynllunio gan ddefnyddio'r cerdyn trywydd a logiau personol. #*	2C.Rh3 Gwerthuso'r cynnydd gafodd ei wneud ar drywydd wedi'i gynllunio gan ddefnyddio cerdyn trywydd a logiau personol i argymhell gwelliannau ar gyfer trywyddau gaiff eu cynllunio yn y dyfodol. #*
1C.7 Amlinellu'r materion amgylcheddol ac eraill sydd angen eu hystyried ar gyfer y trywydd. #	2C.LI7 Esbonio'r materion amgylcheddol ac eraill sydd angen eu hystyried ar gyfer y trywydd. #		
1C.8 Mynd ar drywydd syml wedi'i gynllunio, gan ddefnyddio map a chwmpawd, gyda cherdyn trywydd, gan gadw log personol o'ch cynnydd. *	2C.LI8 Mynd ar drywydd manwl wedi'i gynllunio, gan ddefnyddio map a chwmpawd, gyda cherdyn trywydd, gan gadw log personol o'ch cynnydd. *		

*Cyfle i asesu sgiliau mathemategol

#Cyfle i asesu sgiliau Cymraeg

Arweiniad i athrawon

Adnoddau

Yr adnoddau arbennig angenrheidiol ar gyfer yr uned hon yw gwahanol fathau o fapiau a chwmpawdau, fel sy'n cael eu dynodi yng nghynnwys yr uned. Gall mynediad i onglyddion a chardiau cyfeirio fod yn fuddiol yn ogystal â chardiau trywydd wedi eu dylunio'n barod os nad yw'r athro'n gyfarwydd â dylunio'i rai ei hun.

Gan ddibynnu ar lefel a hyd y trywydd i'w ddilyn, gall fod angen esgidiau a dillad addas ar ddysgwyr, yn ogystal â sanau sych a photeli dŵr, a gorchudd gwrth-ddŵr clir ar gyfer y map a'r cwmpawd.

Canllaw asesu

Mae'r uned hon yn cael ei hasesu'n fewnol gan y ganolfan a'i dilysu'n allanol gan Pearson. Darllenwch y canllaw hwn ochr yn ochr ag *Adran 8: Asesu mewnl*.

Nod dysgu A

Dylai dysgwyr gael mynediad i wahanol fathau o fapiau y dylent allu eu hystyried a'u trafod cyn dangos sut i'w defnyddio. Byddai'r nod dysgu yn benthyg ei hun i ddarn o waith ysgrifenedig neu i arddangosfa ymarferol. Gallai'r arddangosfa ymarferol fod ar ffurf ymarfer syml gan ddefnyddio cynllun o'r ysgol/coleg a'r buarth/caeau chwarae.

Ar gyfer **2A.LI1**: dylai dysgwyr gyflwyno gwybodaeth ar o leiaf ddau fath o'r gwahanol fathau o fapiau sydd ar gael ac yn benodol, dylent drafod yr arwyddion sy'n cael eu defnyddio yn yr allwedd ar bob map. Dylai dysgwyr allu disgrifio'r arwyddion a'u hystyron. Dylent hefyd ddisgrifio cyfuchliniau a beth maent yn ei ddangos.

Ar gyfer **2A.LI2**: dylai dysgwyr gyflwyno gwybodaeth ar y gwahanol sgiliau sy'n cael eu defnyddio wrth ddarllen map. Mae defnyddio map yn amlach yn haws unwaith y mae wedi cael ei gyfeiriannu â'r tir a dylai dysgwyr allu disgrifio sut i wneud hyn, yn ogystal â chysylltu'r tir gyda'r map drwy ddefnyddio tirnodau. Dylent hefyd ddisgrifio'r defnydd o raddfa a sut i gyfrifo amser a phellter wrth gynllunio trywydd.

Ar gyfer **2A.LI3**: dylai dysgwyr gael y cyfle i ymchwilio i ardal y gallant wedyn ei defnyddio i greu map manwl, sy'n dangos yr holl dirnodau allweddol a'r nodweddion angenrheidiol ar gyfer defnyddio'r map. Dylent hefyd allu adnabod defnydd ar gyfer y map ac felly benderfynu beth mae'n rhaid iddynt ei ddangos yn yr allwedd.

Ar gyfer **2A.T1**: dylai dysgwyr gymharu manteision ac anfanteision gwahanol fathau o fapiau a'u nodweddion. Dylai dysgwyr hefyd ystyried o leiaf ddau wahanol fath o fap ac ystyried yr amrywiaeth o nodweddion sydd i'w gweld ar y mapiau hynny. Dylent esbonio sut mae nodweddion pob map yn ei wneud yn addas at bwrpas penodol, o gymharu â gwahanol fath o fap ac ar gyfer beth allai hynny fod yn fwy addas.

Ar gyfer **2A.T2**: dylai dysgwyr ddadansoddi'r sgiliau y maent wedi bod yn eu trafod er mwyn iddynt ystyried sut mae'r sgiliau hyn yn cael eu defnyddio, yn ogystal â pham. Dylent allu cyfrifo pellter ac amser gan ddefnyddio Rheol Naismith, gan ddweud pam mae'n yn sgil pwysig.

Ar gyfer **2A.T3**: dylai dysgwyr greu map mwy manwl sy'n berthnasol i'w bwrpas gyda graddfa berthnasol. Byddai hyn yn elwa yn sgil y defnydd o ddelweddau sydd wedi eu cymryd gan ddysgwyr, fyddai'n help wrth bennu'r cynnwys a'r raddfa. Gallai dysgwyr hefyd gael budd o wneud ymchwil i greu mapiau modern.

Ar gyfer **2A.Rh1**: dylai dysgwyr werthuso'r holl bethau sydd wedi cael eu cynnwys ar y map y maent wedi'i greu, er mwyn defnyddio'r map yn gywir. Dylent drafod y cryfderau a'r gwendidau, neu fanteision ac anfanteision, deall nodweddion y mapiau, yn ogystal â'r sgiliau angenrheidiol i ddarllen map yn gywir i gyfeiriadau chwe ffigur. Gallai dysgwyr hefyd amlygu materion allai rwystro'r map rhag cael ei ddefnyddio'n gywir.

Ar gyfer **1A.1**: rhaid i ddysgwyr adnabod yr arwyddion confensiynol sy'n cael eu defnyddio ar rai o'r gwahanol fathau o fapiau. Dylent o leiaf wneud sylwadau ar yr arwyddion cyffredin ar o leiaf ddau wahanol fath o fap, a chyfeirio at beth yw cyfuchliniau a chyfeiriadau grid.

Ar gyfer **1A.2**: rhaid i ddysgwyr allu adnabod y dylai rhyw ffurf ar gyfeiriannu ddigwydd a thrafod sut y byddent yn defnyddio map i gynllunio trywydd.

Ar gyfer **1A.3**: rhaid i ddysgwyr allu creu map syml y mae modd ei adnabod a'i ddefnyddio at bwrpas sylfaenol.

Nod dysgu B

Bydd angen i ddysgwyr gael defnydd o gwmpawdau ar gyfer elfen ymarferol y nod dysgu hwn, ond gallent gychwyn drwy luniadu a labelu cyfres o ddiagramau er mwyn archwilio'r defnydd o gwmpawd.

Ar gyfer **2B.LI4**: rhaid i ddysgwyr ddisgrifio sut mae prif nodweddion gwahanol fathau o gwmpawd yn cyfrannu at eu defnydd. Gellid gwneud hyn drwy ddiagramau gyda nodiadau manwl yn disgrifio'r amrywiaeth o nodweddion sydd fel arfer i'w cael ar gwmpawd. Dylent hefyd ddisgrifio'r defnydd a'r gofal o gwmpawd i sicrhau bod y canlyniadau gorau'n dod wrth iddo gael ei ddefnyddio.

Ar gyfer **2B.LI5**: dylai dysgwyr allu dangos eu bod yn deall sut i ddefnyddio nodweddion allweddol dau wahanol gwmpawd a ddewiswyd. Dylai pob dysgwr allu enwi'r rhannau o'r cwmpawd ei hun a dangos i'r athro sut mae'r cwmpawd yn gweithio o ran dod o hyd i gyfeiriad yn seiliedig ar bwyntiau prifol. Dylai dysgwyr allu dilyn cyfarwyddiadau syml yn seiliedig ar bwyntiau prifol i gwblhau cwrs cyfeiriadol syml. Yn ddelfrydol, dylai hon fod yn dasg allanol ond gellid ei chynnal dan do os yw'n angenrheidiol.

Ar gyfer **2B.T4**: rhaid i ddysgwyr gymharu'r defnydd o ddau wahanol fath o gwmpawd a ddewiswyd i ddod o hyd i leoliad drwy gymryd cyfeiriant gan ddefnyddio nodweddion allweddol. Rhaid i ddysgwyr ddangos eu bod yn gallu dod o hyd i'w lleoliad ar fap drwy gymryd tri chyfeiriant o dirnodau – ôl-doriad. Rhaid iddynt gymryd amrywiad magnetig i ystyriaeth.

Ar gyfer **2B.Rh2**: rhaid i ddysgwyr asesu manteision ac anfanteision dau wahanol fath o gwmpawd a ddewiswyd i ddod o hyd i leoliad gan gymryd cyfeiriant gan ddefnyddio nodweddion i argymhell y cwmpawd mwyaf addas. Rhaid i ddysgwyr ddangos eu bod yn gallu dod o hyd i'w lleoliad ar fap drwy gymryd tri chyfeiriant o dirnodau – ôl-doriad. Rhaid iddynt gymryd amrywiad magnetig i ystyriaeth.

Ar gyfer **1B.4**: dylai dysgwyr adnabod prif nodweddion gwahanol fathau o gwmpawd. Dylent o leiaf allu gwneud sylwadau ar beth yw'r nodweddion hynny a beth maent yn ei wneud ar ddau wahanol fath o gwmpawd. Gellid gwneud hyn drwy'r defnydd o ddiagramau gyda phwyntiau allweddol yn cael eu hadnabod ar gyfer gwahanol fathau o gwmpawd, yn ogystal ag adroddiadau arsylwi.

Ar gyfer **1B.5**: Dylai dysgwyr ddangos eu bod yn gallu dod o hyd i gyfeiriad syml gan ddefnyddio pwyntiau prifol gan ddefnyddio dau gwmpawd a ddewiswyd.

Nod dysgu C

Dylai dysgwyr gynllunio trywydd yn defnyddio cerdyn trywydd, gan ystyried materion amgylcheddol a diogelwch y trywydd cyn mynd arno. Byddai'r nod dysgu hwn yn benthyg ei hun i waith ysgrifenedig wedi'i ddilyn gan weithgaredd corfforol y gall dysgwyr wedyn adrodd yn ôl arno.

Ar gyfer **2C.LI6**: dylai dysgwyr gynhyrchu cerdyn trywydd manwl yn cynnwys yr holl nodweddion allweddol fel sydd wedi eu hamlinellu yn y cynnwys. Gallai hyn naill ai fod wedi'i ddylunio'n barod neu'n weithgaredd dan arweiniad athro i ddylunio cerdyn trywydd penodol yn addas i'r grŵp ac i'r trywydd sydd i'w ddilyn.

Ar gyfer **2C.LI7**: rhaid i ddysgwyr esbonio'r materion amgylcheddol y mae'n rhaid eu hystyried wrth gynllunio trywydd, gan gymryd deddfwriaeth berthnasol i ystyriaeth. Dylent hefyd esbonio'r materion diogelwch y mae angen eu cymryd i ystyriaeth a sut y gellir defnyddio asesiadau risg i leihau effaith unrhyw risgiau.

Ar gyfer **2C.LI8**: dylai dysgwyr fynd ati i fynd ar y trywydd sydd wedi'i gynllunio'n fanwl gan ddefnyddio map, cwmpawd a cherdyn trywydd. Nid oes rhaid i hyn olygu teithio ymhell ond gallai gael ei gynnal mewn unrhyw ofod awyr agored megis y parc lleol. Dylai hwn yn ddelfrydol fod yn ofod awyr agored nad yw dysgwyr yn gyfarwydd ag ef. Os yw dysgwyr yn cael gweithio mewn grwpiau bach yna dylai'r athro arsylwi pob aelod o'r grŵp yn arwain rhan o'r trywydd er mwyn gallu asesu'r maen prawf hwn ar unigolion. Rhaid i bob dysgwr yn unigol gynhyrchu digon o dystiolaeth i gwrdd â'r maen prawf. Rhaid i athrawon gwblhau cofnodion arsylwi i gadarnhau cyflawniad dysgwyr unigol.

Dylai dysgwyr gadw log o'u cynnydd i bob pwynt ar y cerdyn trywydd, gan nodi pa mor hir roedd pob rhan wedi'i gymryd ac a fu iddynt ddod ar draws unrhyw broblemau yn dod o hyd i'r pwynt hwnnw.

Ar gyfer **2C.T5**: dylai dysgwyr adolygu'r log a wnaethant yn ystod y gweithgaredd a rhoi sylwadau ar yr hyn y byddent yn ei wneud yn wahanol pe byddent yn mynd ar y trywydd eto, a ph'un a oeddent wedi cael y cerdyn trywydd yn gywir o ran amseru, pellter a chyfeiriad. Dylent hefyd ystyried yr effeithiau y byddai blinder ac anghysur corfforol wedi'u cael ar y rhai sy'n cymryd rhan.

Ar gyfer **2C.Rh3**: dylai dysgwyr werthuso'r cynnydd sydd wedi'i wneud ar y trywydd y maent wedi'i gynllunio drwy edrych ar y cerdyn trywydd a'i gydrannau yn ogystal â'r effaith amgylcheddol y byddai'r daith wedi'i chael. Dylent ystyried y manteision a'r anfanteision y gwnaethant eu profi a beth fydden nhw'n ei newid neu'n ei argymhell i eraill pe byddai'r trywydd hwnnw'n cael ei ddilyn eto. Gallai hyn hefyd gynnwys dysgwyr yn rhoi rhesymau clir a rhesymegol pam eu bod wedi cynnwys yr holl gydrannau sydd ar eu cerdyn trywydd drwy gysylltu hyn â materion amgylcheddol a chynllunio ar gyfer trywydd diogel.

Ar gyfer **1C.6**: rhaid i ddysgwyr gynhyrchu cerdyn trywydd gydag o leiaf 10 o'r nodweddion allweddol wedi eu cynnwys arno. Gellir cyflawni hyn gyda chefnogaeth athro ac efallai na fydd hyn yn cynnwys amrediad llawn o fanylion.

Ar gyfer **1C.7**: rhaid i ddysgwyr amlinellu'r materion amgylcheddol ac eraill i'w hystyried wrth gynllunio trywydd. Fel isafswm, dylent fod yn ymwybodol fod yna ddeddfwriaeth berthnasol ac y bydd yna faterion diogelwch i'w cymryd i ystyriaeth.

Ar gyfer **1C.8**: dylai dysgwyr fynd ar y trywydd syml sydd wedi'i gynllunio gan ddefnyddio'r map, cwmpawd a cherdyn trywydd gan gadw log personol o'u cynnydd. Rhaid cadw logiau personol i gofnodi cynnydd dysgwyr.

Awgrymiadau ar gyfer aseiniadau

Mae'r tabl isod yn dangos rhaglen amlinelliadau aseiniadau posibl sy'n cwmpasu'r meini prawf asesu. Arweiniad yw hwn, ac awgrymir bod canolfannau naill ai'n ysgrifennu eu haseiniadau eu hunain neu'n addasu unrhyw aseiniadau y byddwn ni'n eu darparu i gwrdd ag anghenion ac adnoddau lleol.

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Senario	Tystiolaeth asesu
1A.1, 1A.2, 1A.3, 2A.LI1, 2A.LI2, 2A.LI3, 2A.T1, 2A.T2, 2A.T3, 2A.Rh1	<p>Rydych wedi cael cais i helpu grŵp pobl ifanc lleol drwy esbonio iddynt sut i ddefnyddio a chreu map. Bydd hyn yn cynnwys y canlynol.</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Cynhyrchu cyflwyniad ar y gwahanol fathau o fapiau sydd ar gael a'r arwyddion confensiynol sy'n cael eu defnyddio ar y mapiau gwahanol. Bydd angen i chi esbonio'r defnydd o gyfuchliniau a chyfeiriadau grid yn ogystal ag ystyried rhai o'r materion sy'n codi wrth ddefnyddio map, megis Rheol Naismith. Bydd rhaid i'ch cyflwyniad hefyd ddisgrifio a dadansoddi'r sgiliau angenrheidiol i ddefnyddio a chyfeiriannu map. 2. Yn dilyn y cyflwyniad bydd gofyn i chi ddefnyddio'r wybodaeth rydych wedi'i thrafod i gynhyrchu map manwl gyda graddfa ac allwedd berthnasol am bwrpas penodol. Bydd angen i chi werthuso'r nodweddion rydych wedi'u cynnwys a'u perthnasu i'r defnydd cywir o'r map hwn. 	<p>Cyflwyniad gyda nodiadau neu daflenni cysylltiedig i'r gynulleidfa a chofnodion arsylwi gan yr athro.</p> <p>Map wedi'i gwblhau.</p>

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Senario	Tystiolaeth asesu
1B.4, 1B.5, 2B.LI4, 2B.LI5, 2B.T4, 2B.Rh2	<p>Yn dilyn llwyddiant eich cyflwyniad ar ddefnyddio map, Rydych wedi cael cais i baratoi llyfryn aml-dudalen ar gyfer y grŵp pobl ifanc sy'n disgrifio prif nodweddion y gwahanol fathau o gwmpawd a sut mae'r nodweddion hynny'n cyfrannu tuag at eu defnydd. Gallech gychwyn drwy ddarparu diagramau o'r holl brif nodweddion ac yna fynd i fanylion am bob nodwedd a'i gyfraniad tuag at y cyfan. Dylech drafod yn glir fanteision ac anfanteision pob math o gwmpawd mewn perthynas â gwahanol ddefnyddiau.</p> <p>Byddwch yn dilyn y llyfryn gydag arddangosfa ymarferol ar ddefnyddio cwmpawd, gan gychwyn gyda defnydd syml o bwyntiau prifol, gan ddilyn gydag arddangosfa o sut i gymryd cyfeiriant gan ddefnyddio cwmpawd a dod o hyd i'ch lleoliad. Ar gyfer pob tasg dylech allu dewis yr offer cywir ac yna werthuso pam gwnaethoch y dewis hwnnw o ran y nodweddion sydd gan y cwmpawd mewn perthynas â'r defnydd gofynnol.</p>	Llyfryn aml-dudalen wedi'i gwblhau. Cofnodion arsylwi o'r arddangosfa ymarferol.

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Senario	Tystiolaeth asesu
1C.6, 1C.7, 1C.8, 2C.LI6, 2C.LI7, 2C.LI8, 2C.T5, 2C.Rh3	<p>Fel gwobr am eich gwaith gyda'r grŵp pobl ifanc mae'ch athro'n caniatáu i chi gynllunio taith fer. Bydd hyn yn golygu cynllunio a dilyn trywydd gan ddefnyddio map, cwmpawd a cherdyn trywydd.</p> <p>Ar ôl trafod lleoliadau realistig gyda'ch athro bydd angen i chi gynhyrchu cerdyn trywydd ar gyfer y trywydd a gynlluniwyd a chefnogi hyn gydag adroddiad manwl. Dylai'r adroddiad hwn esbonio a chyfiawnhau'r eitemau sydd wedi eu cynnwys ar y cerdyn trywydd ac esbonio'r holl faterion cynllunio eraill sydd wedi gorfod cael eu hystyried. Dylai hyn gynnwys materion diogelwch, effaith ar yr amgylchedd a deddfwriaeth berthnasol, yn ogystal â defnyddio asesiad risg i isafu risg.</p> <p>Yn dilyn y cynllunio dylech fynd ar y trywydd rydych wedi'i gynllunio gan gadw cofnod o'ch cynnydd.</p> <p>Ar ôl cwblhau eich trywydd bydd gofyn i chi gynhyrchu adroddiad sy'n adolygu ac yn gwerthuso'r daith, ystyried pa mor dda aeth y daith, beth oedd y problemau a beth allech chi fod yn eu newid i ddefnyddio'r un trywydd yn y dyfodol.</p>	<p>Cerdyn trywydd.</p> <p>Adroddiad ar gynllunio.</p> <p>Cofnodion arsylwi o'r gweithgaredd ymarferol.</p>

Uned 13: Gwirfoddoli ar gyfer y Gwasanaethau Cyhoeddus

Lefel: 1 a 2

Math o uned: **Dewisol arbenigol**

Oriau dysgu dan arweiniad: **60**

Dull asesu: **Mewnol**

Cyflwyniad i'r uned

Pam mae pobl yn cyfrannu eu hamser a'u hegni i wirfoddoli yn y gwasanaethau cyhoeddus? Beth yw rôl gwirfoddolwyr yn eich gwasanaethau cyhoeddus lleol a pha gyfleoedd sy'n bodoli ar gyfer gwirfoddoli? Beth yw manteision gwirfoddoli i'r gwasanaeth cyhoeddus ac i'r gwirfoddolwr?

Gall gweithio fel gwirfoddolwr i wasanaeth cyhoeddus fod yn werthfawr ac yn hwyl. Gall fod yn ffordd dda i chi gwrdd â phobl o wahanol oeddrannau, diwylliannau a chenedligrwydd sydd yn rhannu'r un math o ddiddordebau â chi. Mae hefyd yn ffordd dda i chi ddysgu sgiliau newydd a gwneud cyfraniad gwerthfawr i'ch cymuned leol.

Bydd yr uned hefyd yn eich helpu i ddeall pwysigrwydd gwirfoddoli yn y gwasanaethau cyhoeddus.

Byddwch yn archwilio amrywiaeth eang o gyfleoedd gwirfoddoli yn y gwasanaethau cyhoeddus, y sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus ynghlwm a'r rolau gwirfoddoli sydd ar gael.

Mae yna nifer o sgiliau y dylai gwirfoddolwyr ar gyfer sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus eu datblygu. Byddwch yn dysgu am y sgiliau hyn a'u pwysigrwydd a byddwch yn cael y cyfle i weld sut mae'r sgiliau hyn yn cael eu rhoi ar waith yn eich lleoliad gwirfoddoli.

Byddwch yn archwilio pwysigrwydd gwirfoddoli mewn gwasanaeth cyhoeddus a'r manteision i'r gwasanaeth cyhoeddus ac i'r gwirfoddolwr unigol.

Fel rhan o'r uned hon byddwch yn mynd ar leoliad gwirfoddoli mewn gwasanaeth cyhoeddus. Bydd eich lleoliad yn caniatáu i chi gwrdd â gofynion y meini prawf asesu ac argymhellir bod y lleoliad yn gyfnod o 20 awr o leiaf. Gellir crynhoi'r oriau dros gyfnod o un wythnos neu dros nifer o wythnosau. Bydd hyn yn eich galluogi i gymryd rhan lawn yn y lleoliad, i ddatblygu'r sgiliau a'r safonau angenrheidiol a dangos eich gallu i weithio mewn sefydliad gwasanaeth cyhoeddus.

Ar ddiwedd yr uned, byddwch yn adolygu eich lleoliad. Efallai y byddwch yn canfod fod gennych sgiliau all gael eu defnyddio mewn llawer o sefyllfaoedd. Bydd hyn help i roi syniad i chi o'r yrfa o fewn gwasanaethau cyhoeddus y gallech fod am ei dilyn, neu ba gwrs yr hoffech ei astudio nesaf.

Nodau dysgu

Yn yr uned hon byddwch yn:

- A deall sut mae gwirfoddoli'n cefnogi sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus
- B ymchwilio i gyfleoedd ar gyfer gwirfoddoli a'r sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus cysylltiedig
- C paratoi ar gyfer lleoliad gwirfoddoli mewn gwasanaeth cyhoeddus o'ch dewis ac ymgymryd ag ef
- D adlewyrchu ar eich perfformiad eich hun ar leoliad gwirfoddoli mewn gwasanaeth cyhoeddus o'ch dewis.

Nodau dysgu a chynnwys yr uned

Beth sydd angen ei ddysgu
<p>Nod dysgu A: Deall sut mae gwirfoddoli'n cefnogi sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus</p>
<p>Testun A.1 Buddion gwirfoddoli mewn gwasanaeth cyhoeddus i'r gwirfoddolwr</p> <p>Mae buddion i wirfoddolwyr yn cynnwys ennill sgiliau newydd, datblygu sgiliau sy'n bodoli eisoes ac ennill ymwybyddiaeth o amrywiaeth.</p> <p>Mae rhesymau pam mae pobl yn gwirfoddoli a buddion gwirfoddoli, yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • rhoi rhywbeth yn ôl i'w cymuned • ennill profiad o waith y gwasanaethau cyhoeddus a datblygu sgiliau cysylltiedig â gwasanaethau cyhoeddus • cefnogi achos neu ddiddordeb penodol • ehangu diddordeb mewn cyflogaeth mewn sefydliad gwasanaeth cyhoeddus penodol • cwrdd â phobl newydd a gwneud ffrindiau • cwrdd â gofynion cwrs/hyfforddiant • gwella ac ehangu eu CV. <p>Testun A.2 Pwysigrwydd defnyddio gwirfoddolwyr ar gyfer y gwasanaethau cyhoeddus</p> <p>Mae gwirfoddoli'n bwysig i'r gwasanaethau cyhoeddus gan ddarparu arbenigedd, amser, syniadau newydd, ymatebion mewn argyfwng, codi arian.</p> <p>Mae pwysigrwydd gwirfoddolwyr, a'r rheswm pam mae gwasanaethau cyhoeddus yn eu defnyddio yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • profiad a sgiliau gwirfoddolwyr • cynnwys y gymuned ehangach yng ngweithgaredd y gwasanaeth cyhoeddus • gosod esiampl ideolegol, e.e. sefydliadau sydd â'u holl staff yn wirfoddolwyr, neu sy'n dibynnu'n helaeth ar wirfoddolwyr • cadw arbenigedd unigolion pan fyddant yn ymddeol o gyflogaeth yn y gwasanaethau cyhoeddus, e.e. aelodau o gefnlu'r lluoedd arfog • gallu caniatáu hyblygrwydd ac ymateb cyflym mewn argyfwng drwy alw ar wirfoddolwyr am gefnogaeth • arbed ar gostau staffio • cwrdd â nodau ac amcanion y sefydliad gwasanaeth cyhoeddus. <p>Mae'r gwasanaethau cyhoeddus sy'n dibynnu'n helaeth ar wirfoddolwyr yn cynnwys Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub, Tîmoedd Achub Mynydd, Cwnstabiliaid Arbennig yr Heddlu, y Fyddin Diriogaethol, ynadon lleyg, llywodraethwyr ysgolion a cholegau, aelodau gwirfoddol o fyrddau rheoli gwasanaethau cyhoeddus.</p>

Beth sydd angen ei ddysgu**Nod dysgu B: Ymchwilio i gyfleoedd ar gyfer gwirfoddoli a'r sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus cysylltiedig****Testun B.1 Cyfleoedd gwirfoddoli a'r sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus sy'n gysylltiedig**

- Gwirfoddolwyr mewn gwasanaethau cyhoeddus: grwpiau cymunedol, gwasanaethau brys, lluoedd arfog, sector gwirfoddol, sefydliadau cadet (lluoedd arfog, gwasanaethau tân ac achub, yr heddlu, ambiwlans, Ambiwylans Sant Ioan).
- Rolau gwirfoddoli, e.e. rolau cefnogi, codi arian, rolau arbenigol.
- Pwrpas gweithgareddau sy'n cael eu gwneud gan wirfoddolwyr, e.e. codi arian, darparu gwasanaethau, cefnogi'r sefydliad a ddewiswyd, darparu cymorth mewn argyfwng, defnyddwyr gwasanaethau cefnogi, cefnogi personél gwasanaethau cyhoeddus, cefnogi gwirfoddolwyr eraill
- Pwysigrwydd rolau gwirfoddoli mewn perthynas ag amcanion sefydliadol.
- Rôl ysgolion/colegau mewn gwirfoddoli gyda gwasanaethau cyhoeddus, e.e. codi arian ar gyfer prosiectau penodol, mabwysiadu achos penodol, casglu eitemau i'w gwerthu mewn siop elusen, codi ymwybyddiaeth o achosion penodol.
- Gwahaniaeth rhwng rolau â thâl a rolau gwirfoddol, e.e. lefel cyfrifoldeb, ariannol, ariannol, anghenion a chyfleoedd hyfforddi
- Awdurdod personél cyflogedig o'i gymharu ag awdurdod y gwirfoddolwr.
- Sefyllfaoedd gwirfoddoli, e.e. prosiectau cadwraeth, llochesi ar gyfer pobl ddigartref, clybiau ieuencid, clybiau cinio, casgliadau stryd i godi arian, ymweld ag ysbytai a hosbisau, ymweld â'r henoed, helpu gyda chadetiadau (heddlu, tân, y fyddin, RAF, Ambiwylans Sant Ioan ac ati), digwyddiadau codi arian i elusennau, nawdd am weithgareddau gafodd eu gwneud, gwirfoddoli mewn siopau elusen, gwaith cymorth mewn argyfyngau megis helpu pobl sy'n cael eu heffeithio gan lifogydd, helpu mewn banciau bwyd, canolfannau ymwelwyr ysbytai neu garchardai, ynadon lleyg yn y gwasanaeth llys, gwirfoddolwyr mewn llywodraethiant gwasanaethau cyhoeddus, e.e. llywodraethwyr ysgol, ymddiriedolaethau prawf.
- Ffynonellau gwybodaeth ar gyfer cyfleoedd gwirfoddoli, e.e. rhyngwrwyd, hysbysebion ac ymgyrchoedd teledu a phapur newydd, taflenni wedi'u postio drwy ddrysau, hysbysfyrddau mewn manau cyhoeddus, e.e. llyfrgelloedd, canolfannau cymunedol, ar lafar, holi yn bersonol, cyfryngau cymdeithasol, e.e. grwpiau Facebook, Trydar
- Sefydliadau, e.e. Y Groes Goch, Ambiwylans Sant Ioan, Tîmoedd Achub Mynydd, VSO; cadetiadau, e.e. y fyddin, yr heddlu, Ambiwylans Sant Ioan, sefydliadau sy'n helpu'r henoed, y di-waith, y digartref.
- Ffyrdd o wneud cais am rolau gwirfoddoli, e.e. wyneb yn wyneb, cais ar y we, anfon CV neu lythyr cais, llenwi ffurflen gais ar bapur, ymuno fel aelod, e.e. cadetiadau, WRVS.
- Cynhyrchu CV a chwblhau ffurflen gais gyda strwythur a gosodiad addas, defnydd o iaith a thôn priodol, crynodeb o sgiliau perthnasol, esbonio diddordeb/symbyliad dros y cyfle gwirfoddoli a ddewiswyd.

Beth sydd angen ei ddysgu**Nod dysgu C: Paratoi ar gyfer lleoliad gwirfoddoli mewn gwasanaeth cyhoeddus o'ch dewis ac ymgymryd ag ef****Testun C.1 Sgiliau gwaith a safonau proffesiynol angenrheidiol wrth wirfoddoli yn y gwasanaethau cyhoeddus**

Mae'r rhain yn cynnwys:

- gwaith tîm (cofnodi ac adrodd gwybodaeth yn gywir, dilyn cyfarwyddiadau, disgyblaeth, rheoli amser, hunan-reolaeth, parchu amrywiaeth, diwylliant a chredoau, cynnal cyfrinachedd)
- adeiladu perthynas broffesiynol gyda phersonél gwasanaethau cyhoeddus a defnyddwyr gwasanaethau
- deall terfynau a ffiniau'r berthynas broffesiynol, e.e. peidio rhannu gwybodaeth gyfrinachol, peidio derbyn anrhegion a gwobrau am wasanaeth, dangos amhleidioldeb
- darparu triniaeth gyfartal i bob un sy'n defnyddio'r gwasanaeth
- cyfathrebu gyda chydweithwyr a defnyddwyr gwasanaethau: cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig (sgiliau llafar a dieiriau, gwranddo gweithredol)
- eu hymddygiad eu hunain: cadw amser, hylendid personol, cod gwisg, agwedd gadarnhaol, defnyddio sgiliau datrys problemau i fynd i'r afael â phroblemau a'u datrys
- dilyn arferion iechyd a diogelwch, e.e. cadw cyfrinachedd, cadw at Ddeddf Diogelu Data 1998.

Disgwyliadau'r lleoliad: cyfranogi gweithredol, gofyn am help ac arweiniad pan fo angen, dilyn polisiau a gweithdrefnau'r lleoliad yn cynnwys absenoldeb. oriau gwaith wedi'u cytuno, prydlondeb, ymddygiad o fewn cyfyngiadau'r rôl, e.e. peidio â defnyddio ffonau symudol, dangos parch tuag at ddefnyddwyr gwasanaethau, personél y gwasanaeth, defnyddio sgiliau datrys problemau i fynd i'r afael â phroblemau yn y sefydliadau gwirfoddol.

Testun C.2 Paratoi a mynd ar lleoliad gwirfoddoli

- Nodau ac amcanion personol – gosod targedau CAMPUS priodol (cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol, synhwyrol) e.e. ar gyfer y lleoliad gwirfoddoli.
- Log/dyddiadur adlewyrchol o'ch perfformiad yn ystod y lleoliad.
- Dilyn arferion iechyd a diogelwch perthnasol i'r lleoliad.
- Defnyddio sgiliau i gwblhau tasgau: sgiliau trosglwyddadwy, e.e. cyfathrebu, gwaith tîm; sgiliau penodol i wasanaethau cyhoeddus, e.e. disgyblaeth, rheoli eich hunan.

Beth sydd angen ei ddysgu**Nod dysgu D: Adlewyrchu ar eich perfformiad eich hun ar leoliad gwirfoddoli mewn gwasanaeth cyhoeddus o'ch dewis****Testun D.1 Adolygu eich rôl fel gwirfoddolwr**

- Casglu adborth gan gydweithwyr, arolygwyr ac athrawon, er enghraifft:
 - adborth llafar ac ysgrifenedig, defnydd o gardiau sylwadau, holiaduron, dyddiaduron fideo
 - eich nodiadau dyddiadur adlewyrchol gafodd eu cadw yn ystod y lleoliad gwirfoddoli
 - adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth.
- Adolygu eich perfformiad eich hun drwy gwrdd â nodau ac amcanion personol, cwrdd â therfynau amser, adnabod sgiliau gafodd eu dysgu a'u defnyddio, cryfderau a meysydd ar gyfer gwella, adnabod beth rydych wedi'i ddysgu o'ch gweithgaredd gwirfoddoli, pa mor effeithiol yr oeddech mewn rôl wirfoddoli (beth rydych wedi'i ddysgu, beth wnaethoch chi'n dda, cyflawni nodau ac amcanion personol, sgiliau gafodd eu defnyddio).
- Meysydd ar gyfer gwella, e.e. y pethau oedd yn heriol i chi, lle nad oedd canlyniadau'n cwrdd â'r amcanion gafodd eu cynllunio.
- Ystyried buddion gwirioneddol eich cyfraniad i'r sefydliad.
- Adnabod y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i fod yn llwyddiannus yn y rôl.
- Argymhellion ar gyfer hyfforddiant a datblygiad yn y dyfodol i gyflawni nodau ac amcanion personol gwirfoddoli yn y gwasanaethau cyhoeddus, e.e. anghenion hyfforddi, defnydd o wahanol offer hunanasesu megis SWOT, cynllunio datblygiad personol.
- Cyrsiau/gweithgareddau hyfforddi neu strategaethau, heriau newydd a chyfleoedd gwirfoddoli yn gysylltiedig â datblygiad personol.

Meini prawf asesu

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
Nod dysgu A: Deall sut mae gwirfoddoli'n cefnogi sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus			
1A.1 Adnabod buddion gwirfoddoli mewn gwasanaeth cyhoeddus i'r gwirfoddolwr mewn dau sefydliad gwasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol.	2A.LI1 Disgrifio, gan ddefnyddio enghreifftiau, fuddion gwirfoddoli mewn gwasanaeth cyhoeddus i'r gwirfoddolwr mewn dau sefydliad gwasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol.	2A.T1 Asesu pwysigrwydd a buddion gwirfoddoli ar gyfer y gwasanaethau cyhoeddus i'r gwirfoddolwr a dau sefydliad gwasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol.	2A.Rh1 Gwerthuso, gan ddefnyddio enghreifftiau perthnasol, cyfraniad dau sefydliad gwasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol.
1A.2 Amlinellu pwysigrwydd gwirfoddoli i sefydliad gwasanaeth cyhoeddus a ddewiswyd.	2A.LI2 Disgrifio, gan ddefnyddio enghreifftiau, bwysigrwydd gwirfoddoli mewn dau wasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol.		
Nod dysgu B: Ymchwilio i gyfleoedd ar gyfer gwirfoddoli a'r sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus cysylltiedig			
1B.3 Amlinellu rolau y gall gwirfoddolwyr eu gwneud mewn dau wasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol.	2B.LI3 Esbonio'r cyfleoedd gwirfoddoli sydd ar gael mewn dau wasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol a ddewiswyd. #	2B.T2 Cymharu cyfleoedd gwirfoddoli mewn dau wasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol a pham gallai'r rhain fod yn addas ar gyfer eich gwirfoddoli eich hun mewn gwasanaethau cyhoeddus.	2B.Rh2 Asesu eich addasrwydd eich hun ar gyfer gwahanol gyfleoedd gwirfoddoli mewn dau wasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol.

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
Nod dysgu C: Paratoi ar gyfer lleoliad gwirfoddoli mewn gwasanaeth cyhoeddus o'ch dewis ac ymgymryd ag ef			
IC.4 Gosod targedau syml gyda chyflogwr cyn ymgymryd â lleoliad gwirfoddoli. #	2C.LI4 Gosod targedau CAMPUS gyda chyflogwr cyn ymgymryd â lleoliad gwirfoddoli. #	2C.T3 Trafod targedau CAMPUS gyda chyflogwr cyn ymgymryd â lleoliad gwirfoddoli. #	2C.Rh3 Asesu'r risgiau potensial mewn perthynas â chyflawni nodau ac amcanion yn y lleoliad gwirfoddoli, gan argymhell ffyrdd o isafu risg i gyflawni'r nodau a'r amcanion.
1C.5 Adnabod sgiliau a safonau angenrheidiol i wirfoddoli mewn sefydliad gwasanaeth cyhoeddus a ddewiswyd.	2C.LI5 Disgrifio, gan ddefnyddio enghreifftiau perthnasol, sgiliau a safonau angenrheidiol i wirfoddoli mewn sefydliad gwasanaeth cyhoeddus a ddewiswyd.	2C.T4 Dadansoddi'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer lleoliad gwirfoddoli mewn gwasanaeth cyhoeddus a sut y byddant yn galluogi cwrdd â'r nodau ac amcanion gafodd eu datgan.	
1C.6 Adnabod gofynion iechyd a diogelwch i sicrhau diogelwch personol yn ystod y lleoliad gwirfoddoli.	2C.LI6 Disgrifio'r mesurau iechyd a diogelwch sy'n sicrhau eich diogelwch eich hun ac eraill yn ystod y lleoliad gwirfoddoli.		
1C.7 Arddangos sgiliau gwaith cyffredinol wrth ymgymryd â lleoliad gwirfoddoli mewn gwasanaeth cyhoeddus yn erbyn y nodau a'r amcanion a osodwyd.	2C.LI7 Dewis a defnyddio sgiliau gwaith cyffredinol i ddatrys problemau wrth ymgymryd â lleoliad gwirfoddoli mewn gwasanaeth cyhoeddus.		

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
Nod dysgu D: Adlewyrchu ar eich perfformiad eich hun ar leoliad gwirfoddoli mewn gwasanaeth cyhoeddus o'ch dewis			
1D.8 Adnabod cryfderau a meysydd llwyddiant a meysydd i'w gwella mewn perthynas â'ch perfformiad eich hun ar gyfer gwirfoddoli.	2D.LI8 Adolygu effeithiolrwydd eich perfformiad eich hun mewn perthynas â'r amrywiaeth o sgiliau gafodd eu defnyddio a'r gwelliant mewn gwybodaeth sy'n ymwneud â'r sector.	2D.T5 Dadansoddi llwyddiant gwirfoddoli mewn perthynas â'r nodau a'r amcanion a gynlluniwyd ar gyfer eich perfformiad eich hun.	2D.Rh4Gwerthuso llwyddiant gwirfoddoli mewn perthynas â'r nodau a'r amcanion a gynlluniwyd, gan gynnig ffyrdd i wella eich perfformiad eich hun.

*Cyfle i asesu sgiliau mathemategol

#Cyfle i asesu sgiliau Cymraeg

Arweiniad i athrawon

Adnoddau

Mae yna nifer fawr o sefydliadau ac asiantaethau y gallai canolfannau gysylltu â nhw am gyngor ac arweiniad ar gyfleoedd gwirfoddoli o fewn gwasanaethau cyhoeddus.

Mae'r wefan hon yn fan cyfeirio da: <https://www.gov.uk/volunteering>

Bydd rhai rolau gwirfoddol yn y gwasanaethau cyhoeddus yn gofyn i ddysgwyr gael gwiriadau perthnasol gan y Gwasanaeth Datgeliadau a Rhwystro (DBS) cyn iddynt allu cychwyn ar leoliad gwirfoddoli gyda'r gwasanaethau cyhoeddus. Byddai hyn yn berthnasol lle gallai'r dysgwr ddod i gysylltiad â phlant neu oedolion hawdd eu niweidio yn ystod eu lleoliad, er enghraifft lleoliad mewn ysgol neu gydag elusen sy'n delio gyda phobl ifanc neu'r henoed, ysbyty neu hosbis. Gall fod yn bosibl cael gwiriad gwirfoddolwr DBS yn hytrach na DBS llawn.

Canllaw asesu

Mae'r uned hon yn cael ei hasesu'n fewnol gan y ganolfan a'i dilysu'n allanol gan Pearson. Darllenwch y canllaw hwn ochr yn ochr ag *Adran 8: Asesu mewnl*.

Mae'r pwyslais yn yr uned hon ar alluogi dysgwyr i ganfod a gwneud gwaith gwirfoddoli mewn gwasanaeth cyhoeddus sy'n cyfateb i'w set sgiliau a diddordebau. Bydd dysgwyr yn gweithio tuag at adolygu sut y gall eu gwaith gwirfoddol gyfrannu tuag at eu cynlluniau personol a'u cynlluniau gyrfa.

Argymhellir bod athrawon yn creu un aseiniad holistig (yn cynnwys dwy dasg) i asesu'r holl feini prawf ar gyfer yr uned hon.

Gallai tystiolaeth asesu gael ei chyflwyno ar ffurf portffolio o dystiolaeth, yn cynnwys:

- ymchwil gychwynol gan y dysgwyr i fuddion gwirfoddoli mewn gwasanaethau cyhoeddus a pham mae pobl yn gwirfoddoli
- log/nodiadau dyddiadur adlewyrchol
- ffotograffau anodedig o wneud y lleoliad gwaith gwirfoddol
- myfyrdod y dysgwr ar ei brofiad yn gwirfoddoli.

Nod dysgu A

Ar gyfer **2A.LI1**: rhaid i ddysgwyr ddisgrifio, gan ddefnyddio enghreifftiau, fuddion gwirfoddoli mewn gwasanaeth cyhoeddus i'r gwirfoddolwr mewn dau sefydliad gwasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol. Dylai'r ffocws fod ar y buddion y bydd y gwirfoddolwr unigol yn gallu eu hadnabod ar gyfer eu datblygiad eu hunain ar sail cyfranogiad posibl yng ngwaith y ddau sefydliad gwasanaeth cyhoeddus a ddewiswyd.

Ar gyfer **2A.LI2**: rhaid i ddysgwyr ddisgrifio, gan ddefnyddio enghreifftiau, bwysigrwydd gwirfoddoli mewn dau wasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol. Dylai'r ffocws fod ar y buddion sefydliadol fydd yn codi a sut mae cysyniad gwirfoddoli'n cefnogi gwaith y gwasanaethau cyhoeddus a chymdeithas.

Ar gyfer **2A.T1**: bydd dysgwyr yn asesu pwysigrwydd a buddion gwirfoddoli i'r gwirfoddolwr, ac i'w dau sefydliad gwasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol. Dylai hyn fod yn gysylltiedig â'u dewisiadau posibl eu hunain o gyfleoedd gwirfoddoli.

Ar gyfer **2A.Rh1**: bydd dysgwyr yn gwerthuso, gan ddefnyddio enghreifftiau perthnasol, gyfraniad gwirfoddoli i wasanaethau cyhoeddus. Dylai dysgwyr adolygu dau wasanaeth cyhoeddus sy'n defnyddio gwirfoddolwyr mewn ffyrdd gwahanol (o'r rhai sy'n defnyddio gwirfoddolwyr ar gyfer cyfranogiad y gymuned, i'r rhai sy'n dibynnu'n helaeth ar eu gweithlu gwirfoddol, i'r rhai sy'n defnyddio gwirfoddolwyr i gadw arbenigedd cyflogaion sydd wedi ymddeol neu'r rhai sy'n defnyddio gwirfoddolwyr i ganiatáu am ymateb hyblyg a chyflym) a chymharu'r cyfraniad sy'n cael ei wneud i'r ddau wasanaeth cyhoeddus a ddewiswyd gan eu gweithlu gwirfoddol.

Dylai dysgwyr adolygu'r wybodaeth y maent wedi ei chasglu ac yna ddod â'r cyfan at ei gilydd i ffurfio casgliad, gan roi tystiolaeth dros eu barn neu eu datganiadau.

Ar gyfer **1A.1**: bydd dysgwyr yn adnabod buddion gwirfoddoli i'r gwirfoddolwr gan gysylltu hyn â'u dewis o sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus wrth ddefnyddio gwirfoddolwyr (**1A.2**).

Nod dysgu B

Ar gyfer nod dysgu B, Bydd dysgwyr yn ymchwilio i gyfleoedd ar gyfer gwirfoddoli yn y gwasanaethau cyhoeddus a'r sefydliadau sy'n gysylltiedig. Mae angen i ddysgwyr archwilio i'r amrywiaeth o gyfleoedd gwirfoddoli sy'n bodoli mewn o leiaf ddau wasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol a chymhwyso hyn i'w sefyllfa eu hunain er mwyn iddynt allu adnabod pa gyfleoedd fyddai'n berthnasol yn eu hamgylchiadau hwy.

Ar gyfer **2B.LI3**: bydd dysgwyr yn esbonio'r cyfleoedd gwirfoddoli sydd ar gael mewn dau wasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol a pham y gallai'r cyfleoedd hyn fod yn addas, neu'n anaddas, ar gyfer eu gwirfoddoli eu hunain yn y gwasanaethau cyhoeddus. Er enghraifft, efallai na fydd rhai cyfleoedd yn addas oherwydd oedran y dysgwr, neu'r set sgiliau angenrheidiol.

Ar gyfer **2B.T2**: bydd dysgwyr yn cymharu dau wasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol yn llwyddiannus, gan esbonio'r tebygrwydd a gwahaniaethau rhyngddynt, a chymhwyso hyn i'w gyfleoedd gwirfoddoli potensial eu hunain.

Ar gyfer **2B.Rh2**: mae angen i ddysgwyr asesu eu haddasrwydd eu hunain ar gyfer gwahanol rolau gwirfoddoli mewn dau sefydliad gwasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol, gan adolygu'r wybodaeth ac yna ddod â'r cyfan at ei gilydd i ffurfio casgliad. Bydd dysgwyr yn darparu tystiolaeth i gefnogi eu barn a'u casgliad.

Ar gyfer **1B.3**: bydd dysgwyr yn amlinellu'r rolau mae gwirfoddolwyr yn eu gwneud mewn dau sefydliad gwasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol.

Nod dysgu C

Ar gyfer nod dysgu C, bydd dysgwyr yn mynd ar leoliad gwirfoddoli.

Ar gyfer agweddau ymarferol paratoi am leoliad gwirfoddoli, rhaid i athrawon sicrhau bod cofnodion arsylwi priodol yn cael eu cwblhau a chadw cofnodion gweledol y gall dysgwyr helpu i'w gwneud. (Gall camerâu digidol, dictaffonau a sgriniau print i gyd gael eu defnyddio fel/ar gyfer tystiolaeth.)

Ar gyfer **2C.LI4**: rhaid i ddysgwyr osod targedau CAMPUS gyda chyflogwr cyn ymgymryd â lleoliad gwirfoddoli. Dylai'r targedau gynnwys beth yw disgwyliadau'r cyflogwr o'r lleoliad gwirfoddoli.

Ar gyfer **2C.LI5**: mae angen i ddysgwyr ddisgrifio, gan ddefnyddio enghreifftiau perthnasol, sgiliau a safonau angenrheidiol i wirfoddoli mewn sefydliad gwasanaeth cyhoeddus a ddewiswyd. Dylai dysgwyr gysylltu'r sgiliau a'r safonau disgwyliedig gyda'r rôl gwirfoddoli a ddewiswyd.

Ar gyfer **2C.LI6**: mae angen i ddysgwyr ddisgrifio mesurau iechyd a diogelwch sy'n sicrhau eu diogelwch eu hunain ac eraill yn ystod y lleoliad gwirfoddoli. Gall hyn gynnwys canllawiau sefydliadol a gweithdrefnau i gyflogeion sicrhau eu bod yn gweithio'n ddiogel o fewn yr amgylchedd gwaith.

Ar gyfer **2C.LI7**: rhaid i ddysgwyr ddewis a defnyddio sgiliau gwaith cyffredinol i ddatrys problemau wrth wneud lleoliad gwirfoddoli mewn gwasanaeth cyhoeddus. Mae hyn yn golygu y bydd dysgwyr yn defnyddio'r sgil a/neu'r wybodaeth angenrheidiol yn briodol i wneud eu lleoliad yn effeithiol. Yn ogystal â chadw log/dyddiadur adlewyrchol o'u perfformiad eu hunain yn ystod eu lleoliad a chofnodi'r sgiliau y maent wedi eu defnyddio/dangos, mae angen i ddysgwyr gasglu adborth perthnasol gan eu cydweithwyr, eu harolygw(y)r a'u hathro. Rhaid i ddatganiadau tystion/cofnodion arsylwi gael eu cwblhau i gefnogi penderfyniadau asesu. Bydd hyn yn galluogi dysgwyr i gymryd rhan lawn yn y lleoliad gwirfoddoli, i ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol a dangos eu gallu i weithio yn y gwasanaethau cyhoeddus.

Mae disgwyl y bydd dysgwyr yn cael eu monitro a'u hadolygu gan yr athro drwy gydol y lleoliad gwirfoddoli, er y byddai arolygu o ddydd i ddydd yn cael ei ddarparu gan sefydliad y lleoliad. Nid yw tystiolaeth neu ran-dystiolaeth sy'n dod o efelychiad yn dderbyniol.

Dylai tystiolaeth o waith ymarferol gael ei chofnodi mewn dyddiadur adlewyrchol gan y dysgwr wedi'i gwblhau drwy gydol y lleoliad gwirfoddoli, wedi'i ddilysu gan sylwebaeth rheolwr llinell/arolygwr, datganiadau tystion, cofnodion arsylwi a recordiadau fideo/sain anodedig. Gallai dysgwyr ddefnyddio delweddau neu glipiau fideo anodedig fel tystiolaeth, gyda chytundeb priodol gan y gwasanaeth cyhoeddus a'i bersonél a'i ddefnyddwyr.

Canolfannau sydd â'r cyfrifoldeb terfynol dros ddilysu tystiolaeth a dylent fod yn hyderus fod y rhai sy'n llofnodi datganiadau tystion a chofnodion arsylwi ar gyfer lleoliad gwirfoddoli mewn gwasanaeth cyhoeddus yn ddigon cymwys i wneud hynny.

Dylai cofnodion arsylwi ddangos yn glir gyflawniad dysgwr yn erbyn y meini prawf asesu targed. Dylai datganiadau tystion wedi'u llofnodi a thystiolaeth gefnogol dysgwyr gael eu cadw gan y ganolfan at bwrpas sicrhau ansawdd.

Ar gyfer **2C.T3**: rhaid i ddysgwyr drafod targedau CAMPUS gyda chyflogwr cyn ymgymryd â lleoliad gwirfoddoli. Bydd y dysgwr yn trafod gyda'r cyflogwr beth mae am ei gyflawni a chytuno ar sut y gall amcanion personol a rhai'r cyflogwr gael eu cynnwys yn nhargedau'r dysgwr ar gyfer y lleoliad gwirfoddoli.

Ar gyfer **2C.T4**: rhaid i ddysgwyr ddadansoddi'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer lleoliad gwirfoddoli mewn gwasanaeth cyhoeddus a sut y byddant yn galluogi cwrdd â'r nodau ac amcanion gafodd eu datgan. Mae hyn yn seiliedig ar y dewis o leoliad gwirfoddoli mewn gwasanaeth cyhoeddus y mae'r dysgwyr wedi penderfynu ei ddewis.

Ar gyfer **2C.Rh3**: rhaid i ddysgwyr asesu'r risgiau potensial wrth gyflawni nodau ac amcanion y lleoliad gwirfoddoli, gan argymhell ffyrdd o isafu'r risgiau hyn. Mae hyn yn seiliedig ar y dewis o leoliad gwirfoddoli mewn gwasanaeth cyhoeddus y mae'r dysgwyr wedi penderfynu ei ddewis.

Ar gyfer **1C.4**: rhaid i ddysgwyr osod targedau syml gyda chyflogwr cyn ymgymryd â lleoliad gwirfoddoli. Dylai'r targedau gynnwys beth yw disgwyliadau'r cyflogwr ynghylch y lleoliad gwirfoddoli.

Ar gyfer **1C.5**: nid oes angen i ddysgwyr ond adnabod y sgiliau a'r safonau angenrheidiol ar gyfer rôl wirfoddoli o'u dewis. Dylai dysgwyr gysylltu'r sgiliau a'r safonau disgwyliedig i'r rôl wirfoddoli a ddewiswyd.

Ar gyfer **1C.6**: nid oes angen i ddysgwyr ond adnabod gofynion iechyd a diogelwch i sicrhau diogelwch personol yn ystod y lleoliad gwirfoddoli. Gall hyn gynnwys canllawiau a gweithdrefnau sefydliadol i gyflogeion er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio'n ddiogel yn yr amgylchedd gwaith.

Ar gyfer **1C.7**: rhaid i ddysgwyr arddangos sgiliau gwaith cyffredinol wrth wneud lleoliad gwirfoddoli mewn gwasanaeth cyhoeddus yn erbyn y nodau a'r amcanion a osodwyd. Dylai lleoliadau addas ganiatáu i ddysgwyr gwrdd â gofynion y meini prawf asesu. Fel canllaw rydym yn argymhell isafswm o 20 awr. Gellir crynhoi'r oriau dros gyfnod o un wythnos neu dros nifer o wythnosau. Ar lefel 1, mae disgwyl y bydd angen monitro ac adolygu mwy rheolaidd gan yr athro drwy gydol y lleoliad.

Nod dysgu D

Dylai dysgwyr gadw dyddiadur neu log yn ystod eu lleoliad gwirfoddoli, gan ddogfennu'r gweithgareddau sy'n cael eu gwneud. Dylai dysgwyr ddefnyddio tystiolaeth o'u dyddiadur neu log, ynghyd ag adborth a gasglwyd gan gyfranogwyr eraill a gan arolygwyr er mwyn helpu i adolygu eu perfformiad eu hunain wrth baratoi ar gyfer y lleoliad gwirfoddoli.

Ar gyfer **2D.LI8**: bydd dysgwyr yn adolygu effeithiolrwydd eu perfformiad eu hunain mewn perthynas â'r amrywiaeth o sgiliau gafodd eu defnyddio a'r gwelliant mewn gwybodaeth sy'n ymwneud â'r sector. Dylai dysgwyr ddefnyddio logiau personol i gefnogi eu hadolygiadau.

Ar gyfer **2D.T5**: rhaid i ddysgwyr ddadansoddi llwyddiant gwirfoddoli mewn perthynas â'r nodau a'r amcanion a gynlluniwyd ar gyfer eu perfformiad eu hunain. Dylai dysgwyr ddefnyddio logiau personol i gefnogi eu hadolygiadau.

Ar gyfer **2D.Rh4**: rhaid i ddysgwyr werthuso llwyddiant gwirfoddoli mewn perthynas â'r nodau a'r amcanion a gynlluniwyd, gan gynnig ffyrdd i wella eu perfformiad eu hunain. Dylai dysgwyr ddefnyddio logiau personol i gefnogi eu hadolygiadau.

Ar gyfer **1D.8**: rhaid i ddysgwyr adnabod cryfderau a meysydd llwyddiant a meysydd i'w gwella mewn perthynas â'u perfformiad eu hunain ar gyfer gwirfoddoli. Dylai dysgwyr ddefnyddio logiau personol i gefnogi eu hadolygiadau.

Awgrymiadau ar gyfer aseiniadau

Mae'r tabl isod yn dangos rhaglen o amlinelliadau aseiniadau posibl sy'n cwmpasu'r meini prawf asesu. Arweiniad yw hwn, ac awgrymir bod canolfannau naill ai'n ysgrifennu eu haseiniadau eu hunain neu'n addasu unrhyw aseiniadau y byddwn ni'n eu darparu i gwrdd ag anghenion ac adnoddau lleol.

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Senario	Tystiolaeth asesu
<p>1A.1, 1A.2, 2A.LI1, 2A.LI2, 2A.T1, 2A.Rh1</p> <p>1B.3, 2B.LI3, 2B.T2, 2B.Rh2</p>	<p>Tasg 1: Cyfleoedd Gwirfoddoli yn y Gwasanaethau Cyhoeddus</p> <p>Dylech wneud ymchwil i bwysigrwydd a manteision gwirfoddoli yn y gwasanaethau cyhoeddus a dysgu am y cyfleoedd sydd ar gael. Dylech gynnwys sylwadau am ba mor addas yw'r cyfleoedd gwirfoddoli ar eich cyfer chi.</p>	<p>Portffolio o dystiolaeth yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • buddion gwirfoddoli i'r unigolyn • pwysigrwydd gwirfoddoli i'r gwasanaeth cyhoeddus • eich addasrwydd eich hun ar gyfer rolau gwirfoddoli gwahanol mewn dau wasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol.
<p>1C.4, 1C.5, 1C.6, 1C.7, 2C.LI4, 2C.LI5, 2C.LI6, 2C.LI7, 2C.T3, 2C.T4, 2C.Rh3</p> <p>1D.8, 2D.LI8, 2D.T5, 2D.Rh4</p>	<p>Tasg 2: Bod yn Wirfoddolwr Gwasanaethau Cyhoeddus</p> <p>Rydych wedi cael eich derbyn i fod yn wirfoddolwr yn y gwasanaeth cyhoeddus o'ch dewis ac mae angen i chi ystyried eich nodau a'ch amcanion ar gyfer y lleoliad gwirfoddoli, yr ystyriaethau iechyd a diogelwch y dylech wybod amdanynt a'r sgiliau a'r safonau angenrheidiol ar gyfer eich rôl gwirfoddoli.</p> <p>Byddwch wedyn yn arddangos sgiliau a safonau priodol yn gymwys.</p> <p>Ar ôl gorffen eich lleoliad gwirfoddoli mewn gwasanaeth cyhoeddus byddwch yn myfyrio ar beth rydych wedi'i ddysgu am eich hun a'r cyfraniad rydych wedi'i wneud i'r gwasanaeth cyhoeddus.</p> <p>Byddwch yn awgrymu hyfforddiant priodol i'r dyfodol er mwyn datblygu eich cynlluniau gyrfa.</p>	<p>Portffolio o dystiolaeth yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • nodau ac amcanion personol • adroddiad ar gyfer gofynion iechyd a diogelwch, safonau a sgiliau • log/dyddiadur adlewyrchol • datganiadau tystion/cofnodion arsylwi • ffotograffau anodedig o weithgareddau sydd wedi eu cwblhau • cyflwyniad neu adolygiad ysgrifenedig gyda nodiadau cefnogi.

Uned 14: Profiad Alldaith Aml-ddydd

(Mae hwn yn gyfuniad sydd wedi'i wahardd gydag *Uned 10: Gweithgareddau Anturus yn y Gwasanaethau Cyhoeddus*.)

Lefel: **1 a 2**

Math o uned: **Dewisol arbenigol**

Oriau dysgu dan arweiniad: **60**

Dull asesu: **Mewnol**

Cyflwyniad i'r uned

Mae'n hanfodol bwysig eich bod yn deall beth sydd ynghlwm wrth gynllunio a mynd ar alldaith. Mae angen lefel uchel o gyfrifoldeb er mwyn sicrhau bod y gweithgareddau'n cael eu cynnal yn ddiogel ac yn llwyddiannus. Ond peidiwch â gadael i hyn eich digalonni – gall y math hwn o weithgaredd fod yn hynod werthfawr a symbylol.

Mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn gwerthfawrogi'r profiad y mae eu cyflogeion yn ei gael drwy gymryd rhan mewn alldeithiau. Mae hyn oherwydd ei fod yn galluogi cyflogwyr i hyfforddi staff i weithredu'n effeithiol y tu allan i'w cylch cyswllt arferol. Y sgiliau neilltuol sy'n cael eu datblygu yw'r gallu i aros yn dawel ac yn broffesiynol, arweinyddiaeth, cyfathrebu a dylunio. Mae'r holl sgiliau hyn yn hanfodol i gyflogeion gwasanaethau cyhoeddus.

Yn yr uned hon, byddwch yn datblygu'r sgiliau a'r technegau angenrheidiol i gymryd rhan mewn alldaith aml-ddydd yn ddiogel ac yn effeithiol. Defnyddir y term 'aml-ddydd' i ddiffinio alldaith sydd yn ddau ddiwrnod o leiaf gydag un arhosiad dros nos.

Byddwch yn edrych ar y ffactorau fydd yn sicrhau diogelwch pawb sy'n cymryd rhan yn ystod yr alldaith, yn cynnwys y canllawiau a'r ddeddfwriaeth y mae'n rhaid cadw atynt.

Byddwch yn ffocysu ar y cynllunio a'r paratoi sy'n angenrheidiol ar gyfer alldaith aml-ddydd a byddwch yn cael y cyfle i wneud y tasgau hyn ac adolygu eich perfformiad eich hun.

Byddwch yn gallu cymryd rhan mewn alldaith aml-ddydd er mwyn i chi allu rhoi'r hyn rydych wedi'i ddysgu ar waith. Gall alldaith fod ar dir neu ar ddŵr, a gall fod ar droed neu'n defnyddio cludiant.

Ar ôl cwblhau'r alldaith, byddwch yn adolygu eich perfformiad, gan edrych ar eich cryfderau ac ar feysydd lle gallech chi wella. Mae'n bwysig eich bod yn myfyrio ar eich perfformiad - beth aeth yn dda, neu ddim cystal - felly gallwch ddysgu o'r profiad a datblygu eich gwybodaeth, sgiliau a thechnegau. Byddwch hefyd yn cael eich annog i ddarparu argymhellion ar gyfer eich datblygiad yn y dyfodol.

Nodau dysgu

Yn yr uned hon byddwch yn:

- A gwybod am ystyriaethau diogelwch ac amgylcheddol ar gyfer cymryd rhan mewn alldaith aml-ddydd
- B cynllunio a pharatoi ar gyfer alldaith aml-ddydd
- C mynd ar alldaith aml-ddydd
- D adolygu cyfranogiad mewn alldaith aml-ddydd.

Nodau dysgu a chynnwys yr uned

Beth sydd angen ei ddysgu
Nod dysgu A: Gwybod am ystyriaethau diogelwch ac amgylcheddol ar gyfer cymryd rhan mewn alldaith aml-ddydd
<p>Testun A.1 Ystyriaethau diogelwch ar gyfer alldaith aml-ddydd</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhagofalon (rhagweld peryglon a gweithredu i leihau risgiau): <ul style="list-style-type: none"> ○ asesu risgiau ○ gwirio rhagolygon y tywydd ○ rhannu gwybodaeth (sichrau eich bod yn rhoi gwybod i rywun ble rydych chi'n mynd a phryd yr ydych yn rhagweld y byddwch yn ôl) ○ cario offer priodol, e.e. dillad, lloches, offer cymorth cyntaf, bwyd a dŵr, offer cyfathrebu megis VHF, ffôn symudol, fflerau neu chwiban a dull o gario'r offer hwn. • Gweithdrefnau mewn argyfwng, e.e. cysylltu â'r gwasanaethau brys, cymorth cyntaf, cynlluniau llwybrau dianc, ystyried mynediad, egwyddorion goroesiad sylfaenol (gwarchod rhag yr elfennau drwy greu lloches os oes angen, trefnu cymorth, rheoli cyflenwadau.) • Dilyn canllawiau gan gyrff llywodraethu a'ch canolfan eich hun, yn cynnwys cyfrannau hyfforddwr i gyfranogwr y Corff Llywodraethu Cenedlaethol. • Dilyn deddfwriaeth: <ul style="list-style-type: none"> ○ mewn perthynas â phlant, e.e. canllawiau'r Awdurdod Trwyddedu Gweithgareddau Anturus, sichrau bod arweinwyr wedi eu gwirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ○ mewn perthynas â iechyd a diogelwch, e.e. cynhyrchu asesiadau risg fel y bo'n briodol, cario offer cefnogi priodol. <p>Testun A.2 Ystyriaethau amgylcheddol ar gyfer alldaith aml-ddydd</p> <ul style="list-style-type: none"> • Isafu ôl-troed amgylcheddol, e.e. lleihau erydu, isafu amharu ar fywyd gwylt, parchu planhigion ac atal difrod iddynt. • Arwyddocâd ardaloedd wedi'u dynodi, yn cynnwys Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Parciau Cenedlaethol, hawliau tramwy, tir comin. • Dilyn canllawiau fel y rhai sydd wedi eu rhestru gan y Cod Cefn Gwlad a chyrrff llywodraethu cenedlaethol.

Beth sydd angen ei ddysgu**Nod dysgu B: Cynllunio a pharatoi ar gyfer alldaith aml-ddydd****Testun B.1 Cynllunio alldaith aml-ddydd**

- Alldaith aml-ddydd: alldaith yn para o leiaf ddau ddiwrnod gydag un arhosiad dros nos.
- Nodau ac amcanion yr alldaith.
- Cynllunio trywydd gan ddefnyddio cerdyn trywydd, disgrifiad o'r trywydd gan ystyried pellter, tirwedd, fframiau amser, llwybrau dianc.
- Amodau a thywydd: ymchwilio, cynllunio, cynlluniau wrth gefn.
- Mae iechyd a ffitrwydd personol yn briodol i'r alldaith.
- Logisteg, e.e. llety, cludiant, offer, bwyd a dŵr.
- Ceisio caniatâd:
 - gan rieni a gwarcheidwaid i bobl ifanc gael cymryd rhan
 - ar gyfer mynediad.
- Casglu manylion cyswllt rhag ofn argyfwng.
- Cwblhau asesiad risg cyn ymgymryd ag alldaith aml-ddydd: manylion y risg (e.e. naturiol, dynol, cysylltiedig ag offer), pwy allai gael ei effeithio, tebygrwydd bod hyn yn digwydd, difrifoldeb, graddfa risg.
- Cynllunio wrth gefn.

Testun B.2 Paratoi ar gyfer alldaith aml-ddydd

- Edrych ar ragolygon y tywydd (gan ymateb yn briodol).
- Edrych ar wybodaeth leol (gan ymateb yn briodol).
- Manylion cyswllt a gweithdrefnau mewn argyfwng.
- Offer, yn cynnwys offer personol, offer grŵp ac offer diogelwch:
 - dewis offer priodol
 - gwirio a chynnal a chadw offer
 - dosbarthu ar draws tîm
 - pacio a chario offer.
- Paratoi yn gymwys: bod a'r sgiliau a/neu'r wybodaeth angenrheidiol i baratoi'n ddigonol er mwyn cymryd rhan yn effeithiol ac yn ddiogel a sicrhau diogelwch personol a diogelwch grŵp ar alldaith aml-ddydd.
- Paratoadau sylfaenol: paratoi ar gyfer alldaith aml-ddydd diogel, sicrhau bod gwiriadau wedi cael eu gwneud ynghylch y tywydd a gwybodaeth leol. Sicrhau bod offer wedi ei ddewis er mwyn diogelwch personol.

Beth sydd angen ei ddysgu**Nod dysgu C: Mynd ar alldaith aml-ddydd****Testun C.1 Y defnydd o offer perthnasol**

- Offer angenrheidiol ar gyfer ymgymryd ag alldaith:
 - offer gwarchod personol
 - pebyll ac offer cysylltiedig
 - offer coginio
 - offer llywio, e.e. map, cwmpawdau, GPS
 - offer cyfathrebu, e.e. ffonau symudol, setiau radio VHF
 - offer argyfwng, e.e. cymorth cyntaf, bagiau bifi.
- Defnydd o offer (rhaid i'r offer perthnasol gael ei ddefnyddio'n ddiogel, yn effeithiol ac yn effeithlon yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr).

Testun C.2 Sgiliau a thechnegau

- Sgiliau uwch, e.e., dangos sgiliau cymhelliant yn annibynnol, clustnodi rolau, sicrhau a gwirio diogelwch y grŵp, gwneud penderfyniadau grŵp, trefniadaeth grŵp, gosod targedau, cymryd cyfrifoldeb grŵp, camu, amseru, defnyddio Rheol Naismith, gwahaniaethu'n gywir rhwng nodweddion uchel ac isel eu dibynadwyedd, cadw cyflymder a rhythm, croesi tir anodd, osgoi peryglon, defnyddio tirwedd ar gyfer lloches, dewis lle i wersylla.
- Sgiliau sylfaenol, e.e. arddangos ymddygiad diogel a phriodol, gwaith tîm, cyfathrebu, trefn bersonol (cit personol megis dillad rhag glaw, siwmpwr sbâr, pad ysgrifennu, pensil), llywio gan ddefnyddio offer llywio (map a chwmpawd), cymryd cyfrifoldeb personol, cwblhau asesiad risg dynamig (cymhwysiad yr asesiad risg a gynlluniwyd i'r alldaith ei hun), paratoi bwyd, cael gwared ar wastraff, cynnal hylendid personol.
- Sgiliau corfforol, cydbwysedd, dygnwch, cydsymudiad, stamina meddyliol, cynilo ynni.

Nod dysgu D: Adolygu cyfranogiad mewn alldaith aml-ddydd**Testun D.1 Adolygu eich perfformiad eich hun yn ymgymryd ag alldaith aml-ddydd**

- Cadw dyddiadur neu log o'ch cyfranogiad eich hun yn ymgymryd ag alldaith aml-ddydd.
- Casglu adborth:
 - gan gyfranogwyr ac arolygwr/wyr
 - er enghraifft, llafar, defnydd o gardiau sylwadau, holiaduron, dyddiaduron fideo.
- Ystyried llwyddiant cymharol yn erbyn amcanion yr alldaith, e.e. cynyddu symbyliad, adeiladu sgiliau gwaith tîm, gwerthfawrogi'r awyr agored, dysgu sgiliau newydd.
- Cryfderau eich perfformiad eich hun, e.e. lle mae nodau ac amcanion wedi cael eu cyflawni, sgiliau a thechnegau penodol.
- Meysydd ar gyfer gwella, e.e. lle nad yw canlyniadau'n cwrdd ag amcanion a gynlluniwyd, yn gysylltiedig â sgiliau a thechnegau penodol.
- Gwneud argymhellion i wella perfformiad, e.e. amcanion tymor byr a thymor hir, mynd ar gyrsiau, rhaglenni hyfforddi, lle i chwilio am gyngor a chymorth.

Meini prawf asesu

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
Nod dysgu A: Gwybod am ystyriaethau diogelwch ac amgylcheddol ar gyfer cymryd rhan mewn alldaith aml-ddydd			
1A.1 Nodi ystyriaethau diogelwch ar gyfer alldaith aml-ddydd.	2A.LI1 Disgrifio ystyriaethau diogelwch ar gyfer alldaith aml-ddydd.	2A.T1 Esbonio ystyriaethau diogelwch ac amgylcheddol ar gyfer alldaith aml-ddydd. #	2A.Rh1 Cyfiawnhau'r ystyriaethau diogelwch ac amgylcheddol ar gyfer alldaith aml-ddydd.
1A.2 Nodi ystyriaethau amgylcheddol ar gyfer alldaith aml-ddydd.	2A.LI2 Disgrifio ystyriaethau amgylcheddol ar gyfer alldaith aml-ddydd.		
Nod dysgu B: Cynllunio a pharatoi ar gyfer alldaith aml-ddydd			
1B.3 Cynhyrchu cynllun amlinellol ar gyfer alldaith aml-ddydd.	2B.LI3 Cynhyrchu cynllun manwl ar gyfer alldaith aml-ddydd.	2B.T2 Esbonio sut y bydd cynllun yr alldaith aml-ddydd yn galluogi cyflawni'r nodau a'r amcanion gafodd eu datgan ac effaith y cyfyngiadau potensial. #	2B.Rh2 Asesu cynllun yr alldaith aml-ddydd ac argymhell ffyrdd o isafu risg o ran cyflawni'r nodau a'r amcanion.
1B.4 Paratodau sylfaenol ar gyfer alldaith aml-ddydd i gwrdd â nodau ac amcanion.	2B.LI4 Paratodau cymwys ar gyfer alldaith aml-ddydd i gwrdd â nodau ac amcanion.		

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
Nod dysgu C: Mynd ar alldaith aml-ddydd			
1C.5 Dangos y defnydd diogel o offer perthnasol yn ystod alldaith aml-ddydd.	2C.LI5 Dangos y defnydd diogel ac effeithiol o offer perthnasol yn ystod alldaith aml-ddydd.	2C.T3 Cymryd rhan mewn alldaith aml-ddydd gan ddefnyddio sgiliau a thechnegau uwch i gwrdd ag amcanion a osodwyd.	2C.Rh3 Cymryd rhan mewn alldaith aml-ddydd gan ddefnyddio sgiliau a thechnegau uwch i gwrdd ag amcanion a osodwyd gan ddangos ymwybyddiaeth o risgiau a mesurau lliniaru potensial yn ystod yr alldaith.
1C.6 Cymryd rhan mewn alldaith aml-ddydd gan ddefnyddio sgiliau a thechnegau sylfaenol perthnasol.	2C.LI6 Cymryd rhan mewn alldaith aml-ddydd gan ddefnyddio sgiliau a thechnegau sylfaenol perthnasol i gwrdd ag amcanion a osodwyd.		

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
Nod dysgu D: Adolygu cyfranogiad mewn alldaith aml-ddydd			
1D.7 Adolygu eich perfformiad eich hun yn ymgymryd ag alldaith aml-ddydd, gan adnabod cryfderau.	2D.LI7 Adolygu eich perfformiad eich hun yn ymgymryd ag alldaith aml-ddydd, gan ddisgrifio cryfderau a meysydd ar gyfer gwella.	2D.T4 Esbonio cryfderau a meysydd ar gyfer gwella personol wrth ymgymryd ag alldaith aml-ddydd, gan awgrymu argymhellion ar gyfer gwella perfformiad. #	2D.Rh4Cyfiawnhau argymhellion i wella perfformiad personol wrth ymgymryd ag alldaith aml-ddydd.
1D.8 Adolygu perfformiad grŵp yn ymgymryd ag alldaith aml-ddydd, gan adnabod cryfderau.	2D.LI8 Adolygu perfformiad grŵp yn ymgymryd ag alldaith aml-ddydd, gan ddisgrifio cryfderau a meysydd ar gyfer gwella.		

*Cyfle i asesu sgiliau mathemategol

#Cyfle i asesu sgiliau Cymraeg

Arweiniad i athrawon

Adnoddau

Yr adnoddau arbennig angenrheidiol ar gyfer yr uned hon yw:

- mynediad i leoliad diogel ac addas i gynnal alldaith
- adnoddau alldaith, o bosibl yn cynnwys pebyll, offer coginio, offer cyfathrebu
- staff â chymwysterau addas i oruchwyllo'r alldaith.

Canllaw asesu

Mae'r uned hon yn cael ei hasesu'n fewnol gan y ganolfan a'i dilysu'n allanol gan Pearson. Darllenwch y canllaw hwn ochr yn ochr ag *Adran 8: Asesu mewnlol*.

Mae'r uned hon yn ffocysu ar ddatblygu'r cynllunio, y paratoi a'r sgiliau a thechnegau ymarferol angenrheidiol ar gyfer ymgymryd ag alldaith aml-ddydd yn ddiogel yn yr awyr agored.

Bydd dysgwyr yn cael budd o ymweld ag amrywiaeth o wahanol ardaloedd cefn gwlad agored, gweundir a mynydd i ddatblygu eu sgiliau a'u technegau. Dylai hyn gael ei wneud gam wrth gam. Efallai y bydd canolfannau am gyflwyno'r uned drwy fynd ar ymweliad preswyl i ganolfan awyr agored.

Defnyddir y term 'aml-ddydd' i ddiffinio alldaith sy'n o leiaf ddau ddiwrnod gydag un arhosiad dros nos. Mae angen i ddysgwyr gymryd rhan mewn alldaith aml-ddydd a rhaid i ganolfannau gymryd hyn i ystyriaeth wrth ddewis yr uned hon.

Dylai dulliau asesu sbarduno a symbylu dysgwyr a dylai adlewyrchu ymarfer go iawn, lle mae hynny'n bosibl, i helpu dysgwyr i weld sut mae'r hyn y maent wedi'i ddysgu yn gweithio mewn amgylchedd gwaith go iawn.

Anogir canolfannau i gysylltu gyda gwasanaethau cyhoeddus a sefydliadau gweithgareddau anturus ac awyr agored lleol i roi profiad go iawn i ddysgwyr o weithio yn y sector hwn ac i gynnwys darparwyr alldeithiau go iawn cymaint â phosibl yn y broses asesu. Gallai hyn gynnwys cymryd rhan mewn digwyddiadau wedi eu trefnu gan y gwasanaethau cyhoeddus, megis y digwyddiad Ten Tors blynyddol, neu ymweliadau â sefydliadau lleol a/neu ddefnyddio siaradwyr gwadd o wasanaethau cyhoeddus sy'n cymryd rhan mewn trefnu ac arwain alldeithiau ar hyn o bryd, fyddai'n ddefnyddiol ar gyfer pob agwedd o'r uned hon. Caiff dysgwyr hefyd eu hannog i ddilyn alldeithiau gwasanaethau cyhoeddus mawr ar-lein, er mwyn dod i ddeall ehangder a dyfnder profiad yr alldaith.

Gallai dysgwyr baratoi rhestr o gwestiynau i'w holi ar ymweliadau neu i ofyn i siaradwyr gwadd. Gallai dysgwyr ysgrifennu unrhyw nodiadau y maent wedi'i wneud, yn cynnwys yr atebion i'w cwestiynau. Gallai gweithgareddau fel hyn gael eu defnyddio i gael tystiolaeth asesu tuag at gwrdd â'r meini prawf ar gyfer nod dysgu A.

Nod dysgu A

Ar gyfer Nod dysgu A, dylai dysgwyr wybod yr ystyriaethau amgylcheddol a diogelwch sy'n berthnasol i gymryd rhan mewn alldeithiau. Dylai senario astudiaeth achos gefnogi'r amcan hwn.

Ar gyfer **2A.LI1**: bydd dysgwyr yn disgrifio ystyriaethau diogelwch ar gyfer alldaith aml-ddydd gan gynnwys rhagofalon, gweithdrefnau mewn argyfwng, a dilyn canllawiau a deddfwriaeth berthnasol.

Ar gyfer **2A.LI2**: bydd dysgwyr yn disgrifio ystyriaethau amgylcheddol ar gyfer alldaith aml-ddydd gan gynnwys isafu'r ôl-troed amgylcheddol, arwyddocâd ardaloedd dynodedig a dilyn canllawiau perthnasol fel sy'n cael eu rhestru gan y Cod Cefn Gwlad a chyrrff llywodraethu cenedlaethol.

Ar gyfer **2A.T1**: bydd dysgwyr yn esbonio ystyriaethau amgylcheddol a diogelwch ar gyfer alldaith aml-ddydd, gan roi rhesymau a/neu dystiolaeth i gefnogi eu hesboniad.

Ar gyfer **2A.Rh1**: bydd dysgwyr yn cyfiawnhau'r ystyriaethau amgylcheddol a diogelwch ar gyfer alldaith aml-ddydd, gan roi rhesymau a/neu dystiolaeth i gefnogi pam mae'r ystyriaethau amgylcheddol a diogelwch a nodwyd ganddynt yn bwysig ar gyfer y senario a roddwyd.

Gallai dysgwyr gynhyrchu posteri neu daflenni wedi eu dylunio i ddangos ystyriaethau amgylcheddol a diogelwch, gan sicrhau bod digon o dystiolaeth wedi'i ddarparu i gwmpasu cynnwys yr uned. Gallent weithio mewn grwpiau bach ac yna cyflwyno eu deunydd i'r grŵp cyfan. Os bydd dysgwyr yn gweithio mewn grwpiau, rhaid i bob dysgwr yn unigol gynhyrchu digon o dystiolaeth i gwrdd â'r meini prawf targed. Rhaid i athrawon gwblhau cofnodion arsylwi i gadarnhau cyflawniad dysgwyr unigol.

Ar gyfer **1A.1** ac **1A.2**: bydd dysgwyr yn darparu amlinelliad cryno yn unig o'r ystyriaethau amgylcheddol a diogelwch ar gyfer alldaith aml-ddydd, gan restru'r prif ystyriaethau.

Nod dysgu B

Ar gyfer nod dysgu B, gallai dysgwyr gynhyrchu portffolio i dystiolaeth yn rhoi manylion am sut y bu iddynt gynllunio a pharatoi ar gyfer yr alldaith aml-ddydd. Dylai'r portffolio gynnwys ymdriniaeth o gynnwys yr uned a nodwyd dan Bwnc B.1 a Phwnc B.2: nodau ac amcanion yr alldaith, cardiau trywydd, bwydlenni ar gyfer yr alldaith gyda manylion calorïau, rhagolygon y tywydd a chynlluniau wrth gefn, logisteg (cludiant, llety a chyfarwyddiadau), pob caniatâd, rhifau cyswllt mewn argyfwng, asesiadau risg, gwiriadau tywydd, gwiriadau gwybodaeth leol, gweithdrefnau argyfwng a rhestr wirio offer.

Ar Lefel 2, bydd dysgwyr yn cynhyrchu cynllun manwl sy'n dangos yr holl weithgareddau sy'n cael eu nodi yn yr adran 'Beth sydd angen ei ddysgu' (**2B.LI3**) a dangos paratodau cymwys ar gyfer alldaith aml-ddydd (**2B.LI4**). Mae hyn yn golygu y byddant yn dangos y sgiliau a/neu'r wybodaeth angenrheidiol i baratoi'n ddigonol i gymryd rhan yn effeithiol ac yn ddiogel mewn alldaith aml-ddydd.

Ar gyfer **2B.T2**: bydd dysgwyr yn esbonio sut y bydd cynllun yr alldaith aml-ddydd yn galluogi cyflawni'r nodau a'r amcanion a nodwyd ac effaith cyfyngiadau potensial. Bydd dysgwyr yn darparu rhesymau a/neu dystiolaeth i gefnogi eu hesboniad.

Ar gyfer **2B.Rh2**: bydd dysgwyr yn asesu'r cynllun alldaith aml-ddydd ac yn argymhell ffyrdd o isafu risgiau rhag cyflawni'r nodau a'r amcanion. Rhaid i ddysgwyr ystyried beth oedd cryfderau a gwendidau'r cynllun. Dylai dysgwyr allu argymhell sut y gallai'r cynllun gael ei wella drwy isafu risg. Dylent hefyd ystyried pa mor dda y gwnaethant gwrdd â'r nodau a'r amcanion a osodwyd.

Ar gyfer **1B.3**: rhaid i ddysgwyr gynhyrchu amlinelliad o gynllun ar gyfer alldaith aml-ddydd. Bydd gan y cynllun hwn gyfeiriadau byr at ffactorau a nodwyd yn yr adran 'Beth sydd angen ei ddysgu'.

Ar gyfer **1B.4**: rhaid i ddysgwyr sicrhau paratoad sylfaenol ar gyfer alldaith aml-ddydd i gwrdd â'r nodau a'r amcanion.

Ar gyfer agweddau ymarferol cynllunio a pharatoi ar gyfer alldaith, rhaid i athrawon sicrhau bod cofnodion arsylwi priodol yn cael eu cwblhau a chadw cofnodion gweledol y gall dysgwyr helpu i'w gwneud. (Gall camerâu digidol, dictaffonau a sgriniau print i gyd gael eu defnyddio fel/ar gyfer tystiolaeth.)

Dylai dysgwyr gadw dyddiadur neu log yn ystod eu gwaith cynllunio a pharatoi ar gyfer yr alldaith, gan ddogfennu'r gweithgareddau a gyflawnwyd. Dylai dysgwyr ddefnyddio tystiolaeth o'u dyddiadur neu log, ynghyd ag adborth a gasglwyd gan gyfranogwyr eraill a gan arolygwyr er mwyn helpu i adolygu eu perfformiad eu hunain wrth baratoi ar gyfer yr alldaith aml-ddydd.

Nod dysgu C

Mae recordio sesiynau'n weledol yn golygu bod modd i'r asesiad ddigwydd ar ôl yr alldaith aml-ddydd hefyd, a gall dysgwyr ddefnyddio'r recordiadau wrth adolygu eu perfformiad eu hunain. Rhaid i gofnodion arsylwi wedi'u cwblhau gynnwys manylion clir o'r hyn a wnaeth y dysgwr yn ystod yr alldaith aml-ddydd, sut y bu iddynt berfformio a pha feini prawf asesu a gyflawnwyd. Wrth weithio mewn grwpiau, rhaid i bob dysgwr yn unigol gynhyrchu digon o dystiolaeth i gwrdd â'r meini prawf targed.

Ar gyfer nod dysgu C, bydd dysgwyr yn cymryd rhan mewn alldaith aml-ddydd gan ddefnyddio sgiliau a thechnegau sylfaenol perthnasol yn ystod yr alldaith i gwrdd â nodau ac amcanion a osodwyd (**2C.LI6**), yn cynnwys dangos defnydd diogel ac effeithiol o offer perthnasol (**2C.LI5**). Dylai dysgwyr sicrhau fod yr offer yn briodol ar gyfer y defnydd arfaethedig ac yn cael ei ddefnyddio'n ddiogel i gwrdd ag amcanion a gynlluniwyd. Rhaid i ddysgwyr sicrhau bod y sgiliau a thechnegau priodol yn cael eu dewis a'u defnyddio i gwrdd â'r amcanion arfaethedig.

Dylai dysgwyr gadw dyddiadur neu log wrth gymryd rhan yn yr alldaith aml-ddydd, gan ddogfennu eu cryfderau a'u meysydd ar gyfer gwella (er enghraifft wrth gwrdd â nodau ac amcanion, ac wrth ddangos sgiliau a thechnegau perthnasol).

Rhaid i athrawon sicrhau eu bod yn cwblhau cofnodion arsylwi priodol ac yn cofnodi'n ddigidol dysgwyr yn ymgymryd â'r alldaith aml-ddydd.

Ar gyfer **2C.T3**: rhaid i ddysgwyr gymryd rhan mewn alldaith aml-ddydd gan ddefnyddio sgiliau a thechnegau uwch i gwrdd ag amcanion a osodwyd. Mae'r sgiliau wedi eu rhestru yn yr adran 'Beth sydd angen ei ddysgu'. Dylai'r sgiliau a'r technegau a berfformiwyd gael eu defnyddio'n briodol i'r alldaith.

Ar gyfer **2C.Rh3**: rhaid i ddysgwyr gymryd rhan mewn alldaith aml-ddydd gan ddefnyddio sgiliau a thechnegau uwch i gwrdd ag amcanion a osodwyd a dangos mesurau gafodd eu cymryd i liniaru risg yn ystod yr alldaith. Mae'r sgiliau uwch wedi eu rhestru yn yr adran 'Beth sydd angen ei ddysgu'. Dylai'r sgiliau a'r technegau a berfformiwyd gael eu defnyddio'n briodol i'r alldaith. Os bydd dysgwyr yn gweithio mewn grwpiau, rhaid i bob dysgwr yn unigol gynhyrchu digon o dystiolaeth i gwrdd â'r meini prawf targed. Rhaid i athrawon gwblhau cofnodion arsylwi i gadarnhau cyflawniad dysgwyr unigol.

Ar gyfer **1C.5**: bydd dysgwyr yn dangos y defnydd diogel o offer i gwrdd â'r amcanion a gynlluniwyd.

Ar gyfer **1C.6**: bydd dysgwyr yn dewis sgiliau a thechnegau priodol i'w defnyddio yn ystod yr alldaith aml-ddydd.

Nod dysgu D

Ar gyfer **2D.LI7**: bydd dysgwyr yn adolygu eu perfformiad yn gwneud yr alldaith aml-ddydd, gan ddisgrifio'r cryfderau a'r meysydd ar gyfer gwella. Mae'r adolygiad yn fwyaf tebygol o fod ar ffurf ysgrifenedig, ond gallai fod yn gyflwyniad i weddill y dosbarth, gyda chefnogaeth cofnod arsylwi athro yn cadarnhau cyflawniad y dysgwr yn erbyn y meini prawf targed.

Ar gyfer **2D.LI8**: bydd dysgwyr yn adolygu perfformiad y grŵp wrth fynd ar yr alldaith aml-ddydd, gan ddisgrifio cryfderau a meysydd ar gyfer gwella. Mae'r adolygiad yn fwyaf tebygol o fod ar ffurf ysgrifenedig, ond gallai fod yn gyflwyniad i weddill y dosbarth, gyda chefnogaeth cofnod arsylwi athro yn cadarnhau cyflawniad y dysgwr yn erbyn y meini prawf targed.

Ar gyfer **2D.T4**: bydd dysgwyr yn esbonio eu cryfderau a'u meysydd ar gyfer gwella wrth wneud yr alldaith aml-ddydd, gan roi rhesymau a/neu dystiolaeth i gefnogi eu hesboniad yn glir. Byddant hefyd yn gwneud argymhellion ar gyfer gwella eu perfformiad.

Ar gyfer **2D.Rh4**: bydd dysgwyr yn cyfiawnhau'r argymhellion y maent wedi eu hawgrymu ar gyfer 2D.T4, gan roi rhesymau neu dystiolaeth i gefnogi sut y daethant i'r casgliadau hyn.

Ar gyfer **1D.7**: bydd dysgwyr yn adolygu'r perfformiad grŵp, gan adnabod cryfderau'n unig.

Ar gyfer **1D.8**: bydd dysgwyr yn adolygu'r perfformiad grŵp, gan adnabod cryfderau'n unig.

Awgrymiadau ar gyfer aseiniadau

Mae'r tabl isod yn dangos rhaglen o amlinelliadau aseiniadau posibl sy'n cwmpasu'r meini prawf asesu. Arweiniad yw hwn, ac awgrymir bod canolfannau naill ai'n ysgrifennu eu haseiniadau eu hunain neu'n addasu unrhyw aseiniadau y byddwn ni'n darparu i gwrdd ag anghenion ac adnoddau lleol.

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Senario	Tystiolaeth asesu
1A.1, 1A.2, 2A.LI1, 2A.LI2, 2A.T1, 2A.Rh1	<p>Ystyriaethau Amgylcheddol a Diogelwch mewn Perthynas ag Alldeithiau</p> <p>Rydych yn derbyn senario lle rydych chi'n gweithio fel Arweinydd Mynydd y Fyddin (ML) ac wedi derbyn cais i friffio rhengoedd iau llai profiadol ar ystyriaethau amgylcheddol a diogelwch wrth gynllunio a chymryd rhan mewn alldeithiau.</p>	<p>Cyflwyniad a nodiadau cefnogi.</p> <p>Fideo hyfforddi.</p> <p>Poster neu daflenni.</p> <p>Cofnodion arsylwadau.</p> <p>Dyddiadur fideo.</p>
1B.3, 1B.4, 2B.LI3, 2B.LI4, 2B.T2, 2B.Rh2	<p>Cynllunio, Paratoi ac Adolygu Alldaith</p> <p>Byddwch yn cymryd rhan mewn alldaith aml-ddydd cyn bo hir, a rhaid i chi gynllunio a pharatoi ar gyfer y daith yn briodol. Yn eich cynllun dylech gynnwys nodau ac amcanion yr alldaith, y tywydd ac amodau eraill, offer angenrheidiol a chynlluniau wrth gefn.</p> <p>Ar ôl gorffen eich cynllunio a'ch paratoi, dylech fyfyrio ar eich perfformiad eich hun.</p> <p>Adolygu eich cynllunio a'ch paratoi, gan drafod eich cryfderau a'r meysydd ar gyfer gwella.</p>	<p>Portffolio o dystiolaeth, yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cynllun alldaith • cardiau trywydd • cwblhau asesiad risg • dyddiadur neu lyfr log • recordio digidol/logio fideo • adborth a gasglwyd • cofnodion arsylwadau • bwydlen (gyda manylion calorïau) • cipio sgrin (prisiau llety).

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Senario	Tystiolaeth asesu
1C.5, 1C.6, 2C.LI5, 2C.LI6, 2C.T3, 2C.Rh3	<p>Cymryd rhan mewn Alldaith</p> <p>Ar ôl i chi wneud y gwaith cynllunio a pharatoi angenrheidiol, gallwch gymryd rhan yn eich alldaith aml-ddydd.</p> <p>Rhaid i chi ddangos y sgiliau a'r technegau angenrheidiol i sicrhau bod yr alldaith yn llwyddiannus, yn cynnwys y defnydd o offer perthnasol.</p>	<p>Asesiad risg dynamig wedi'i gwblhau.</p> <p>Recordio digidol/logio fideo.</p> <p>Cofnodion arsylwadau.</p> <p>Dyddiadur neu lyfr log.</p>
1D.7, 1D.8, 2D.LI7, 2D.LI8, 2D.T4, 2D.Rh4	<p>Adolygu Alldaith</p> <p>Ar ôl cwblhau'r alldaith mae'n bwysig myfyrio ar beth rydych wedi'i wneud a'i ddysgu o'ch profiadau. Adolygwch eich profiad o alldaith aml-ddydd, gan ystyried eich cryfderau a'ch meysydd ar gyfer gwella.</p> <p>Dylech hefyd archwilio sut y gwnaethoch berfformio fel tîm, gan ystyried eich cryfderau a'ch gwendidau.</p>	<p>Cyflwyniad a nodiadau cefnogi.</p> <p>Adborth a gasglwyd.</p> <p>Cofnodion arsylwadau.</p> <p>Recordio digidol/logio fideo.</p> <p>Cynllun datblygu.</p> <p>Dyddiadur neu lyfr log.</p>

Uned 15: Iechyd a Diogelwch yn y Gwasanaethau Cyhoeddus

Lefel: 1 a 2

Math o uned: **Dewisol arbenigol**

Oriau dysgu dan arweiniad: **30**

Dull asesu: **Mewnol**

Cyflwyniad i'r uned

Ydych chi erioed wedi meddwl pam mae'r heddlu'n gwisgo festiau trywanu neu pam rydyn ni'n cynnal asesiadau risg? Pwy sy'n penderfynu pryd mae angen i ymladdwr tân fynd i mewn i adeilad sydd ar dân, neu pam y byddai cyflwr fel asthma'n eich rhwystro rhag ymuno â gwasanaeth argyfwng neu'r lluoedd arfog?

Beth yw PPE ac a all unrhyw gyflogai gael un? Oes angen swyddogion cymorth cyntaf arnom ni a pham dylai cyflogwyr fonitro iechyd cyflogeion?

Yn yr uned hon, byddwch yn archwilio'r ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch sydd nid yn unig yn effeithio ar y gwasanaethau cyhoeddus, ond hefyd arnoch chi a'ch cyd-ddisgyblion; yn cynnwys rôl cyflogwyr a chyflogeion yn cynnal amgylchedd gwaith diogel. Byddwch yn cynnal asesiadau risg ar gyfer tasgau sy'n cael eu cyflawni gan gyflogeion gwasanaethau cyhoeddus ac yn archwilio pam mae gweithdrefnau'n bodoli ar gyfer yr holl dasgau sy'n cael eu cyflawni.

Byddwch hefyd yn ystyried Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974 a rôl yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

Nodau dysgu

Yn yr uned hon byddwch yn:

- A deall sut mae cyflogwyr y gwasanaethau cyhoeddus yn amddiffyn eu cyflogeion
- B deall rôl cyflogai yn cynnal amgylchedd gwaith diogel
- C ymgymryd ag asesiad risg ar gyfer senario a roddwyd.

Nodau dysgu a chynnwys yr uned

Beth sydd angen ei ddysgu

Nod dysgu A: Deall sut mae cyflogwyr y gwasanaethau cyhoeddus yn amddiffyn eu cyflogeion

Testun A.1 Rheoleiddio'r gweithle

Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) yw'r corff gwarchod cenedlaethol, annibynnol ar gyfer iechyd a diogelwch a salwch cysylltiedig â gwaith. Cafodd ei greu gan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974 a'i noddi gan yr Adran Waith a Phensiynau, ac mae'n rheoleiddiwr annibynnol sy'n gweithredu er lles y cyhoedd i leihau marwolaethau ac anafiadau difrifol cysylltiedig â gwaith ar draws gweithleoedd Prydain. Mae'r HSE'n gyfrifol am orfodi iechyd a diogelwch yn y gweithle ac mae'n darparu arweiniad ar gyfer yr holl wasanaethau cyhoeddus ynghylch sut y gallant weithredu'n ddiogel a chynnal iechyd eu cyflogeion. Mae hefyd yn cefnogi adroddiad yr Arglwydd Young i'r Prif Weinidog 'Common Sense Common Safety', sy'n edrych ar ddiwylliant heddiw mewn perthynas â iechyd a diogelwch.

Testun A.2 Cyfrifoldebau cyflogwyr dros iechyd a diogelwch cyflogeion

Mae gan gyflogwyr ddyletswydd gofal dros bawb y maent yn eu cyflogi a phawb sy'n dod i mewn i'w gweithle. Gweithle yw unrhyw le lle mae disgwyl i chi weithio dan delerau eich contract. Mae gweithle'n golygu unrhyw adeilad, neu ran o adeilad, sy'n cael ei wneud ar gael i unrhyw berson fel lleoliad gwaith. Nid yw'n cynnwys adeilad domestig. Nid yw'n berthnasol i weithgareddau y tu allan i'r DU, felly ni fydd yn berthnasol i weithrediadau milwrol dramor neu i safleoedd y DU yn Gibraltar, Cyprus neu'r Almaen, er enghraifft. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn wedi datgan y bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn defnyddio safonau'r DU dramor lle mae hynny'n ymarferol bosibl, ac yn ogystal, y bydd yn cydymffurfio â safonau'r wlad letya. Mae'r ddeddfwriaeth a'r rheoliadau allweddol y mae'n rhaid i wasanaethau cyhoeddus eu dilyn i warchod eu cyflogeion yn cynnwys:

- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974 (HASAWA) – adrannau 1 i 3 a 7 i 8.
- Deddf yr Heddlu (Iechyd a Diogelwch) 1997.
- Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle 1999 – adran 3.

Ar wahân i Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974 ei hun, mae angen trosolwg o'r hyn y mae'r rheoliadau canlynol yn eu cwmpasu a'r ffyrdd allweddol y mae cyflogwyr gwasanaethau cyhoeddus yn cydymffurfio â'r rheoliadau hyn.

- Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999: yn galw ar gyflogwyr i gynnal asesiadau risg, gwneud trefniadau i roi ar waith y mesurau angenrheidiol, penodi pobl gymwys a threfnu ar gyfer darparu gwybodaeth a hyfforddiant priodol.
- Rheoliadau'r Gweithle (Iechyd, Diogelwch a Lles) 1992: yn trafod amrywiaeth eang o faterion iechyd, diogelwch a lles sylfaenol megis awyru, goleuo, gweithfannau, cadeiriau a chyfleusterau lles.
- Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Offer Sgriniau Arddangos) 1992: yn gosod allan y gofynion ar gyfer gweithio gydag unedau arddangos gweledol (VDUau).
- Rheoliadau Offer Gwarchod Personol yn y Gwaith 1992: yn galw ar gyflogwyr i ddarparu dillad ac offer gwarchod priodol ar gyfer eu cyflogeion.
- Rheoliadau Darparu a Defnyddio Offer Gwaith 1998: yn gofyn bod yr offer sy'n cael ei ddarparu ar gyfer ei ddefnyddio yn y gwaith, yn cynnwys peiriannau, yn ddiogel.
- Rheoliadau Trin â Llaw 1992: yn trafod symud pethau gyda dwylo neu rym corfforol.

parhad

Beth sydd angen ei ddysgu

- Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cymorth Cyntaf) 1981: yn trafod gofynion ar gyfer cymorth cyntaf.
- Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus 2013 (RIDDOR): yn galw ar gyflogwyr i adrodd am rai anafiadau, clefydau a digwyddiadau peryglus galwedigaethol.
- Rheoliadau Sŵn yn y Gwaith 1989: yn galw ar gyflogwyr i weithredu i amddiffyn cyflogeion rhag niwed i'w clyw.
- Rheoliadau Rheoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd (COSHH): yn galw ar gyflogwyr i asesu'r risgiau gan sylweddau peryglus a chymryd rhagofalon priodol.

Testun A.3 Y gwahanol ffyrdd y mae cyflogwyr yn y gwasanaethau cyhoeddus yn amddiffyn eu cyflogeion

Rhaid i bob cyflogwr, yn cynnwys cyflogwyr y gwasanaethau cyhoeddus, amddiffyn iechyd a diogelwch eu cyflogeion. Bydd hyn yn siapiro sut y maent yn rheoli eu sefydliad a'r gwaith y maent yn ei wneud. Mae'r prif ffyrdd y mae cyflogwyr y gwasanaethau cyhoeddus yn amddiffyn eu cyflogeion yn cynnwys:

- darparu hyfforddiant; gosod polisiau a gweithdrefnau a chyfrifoldebau clir sy'n cwmpasu iechyd a diogelwch eu cyflogeion ac sy'n sicrhau bod cyflogeion yn gwybod beth yw eu cyfrifoldebau eu hunain a rhai pobl eraill; darparu amgylcheddau mewnol ac allanol diogel gan ddefnyddio asesiadau risg
- darparu gwybodaeth i'r cyflogeion ar y risgiau, a'u hyfforddi mewn gweithdrefnau gweithio diogel ac argyfwng; sicrhau bod gweithwyr yn gwybod sut i adrodd am amodau anniogel ac am ddamweiniau
- sicrhau bod trefniadau ar gyfer cynnal a chadw offer gwaith yn ddigonol
- ymgynghori â chyflogeion am faterion iechyd a diogelwch, yn cynnwys newidiadau i bolisiau, gweithdrefnau gwaith ac offer
- cymryd camau ar unwaith i ymchwilio i ddamweiniau, digwyddiadau cael a chael a phroblemau gafodd eu hadrodd
- archwilio'r gweithle'n rheolaidd, a gwirio bod cyflogeion yn dilyn gweithdrefnau gwaith diogel
- cael system ar gyfer adolygu polisi iechyd a diogelwch a gweithdrefnau gwaith
- darparu amddiffyniad rhag camdriniaeth gorfforol, camdriniaeth lafar neu anaf, e.e. gweithdrefnau ar gyfer cyflogeion sy'n wynebu sefyllfaoedd o wrthdaro, plecsiglas, botymau panig a gardiau diogelwch ar gyfer canolfannau gwaith a swyddfeydd budd-daliadau, gwasanaeth tân ac achub yn cael eu hyfforddi i'w gwarchod eu hunain rhag anafiadau mewn tân, dim goddefgarwch o gamdriniaeth gorfforol a llafar tuag at gyflogeion
- darparu unrhyw offer gwarchod personol angenrheidiol i gyflogeion ar gyfer risgiau nad oes modd eu hosgoi drwy unrhyw ddulliau eraill a'u hyfforddi ar sut i ddefnyddio'r offer
- darparu hyfforddiant corfforol i gyflawni'r rôl lle mae hynny'n briodol, e.e. rhaid i swyddog o'r heddlu allu caethiwo rhywun heb ei anafu ei hun na'r person sy'n cael ei gaethiwo; rhaid i swyddog carchar allu delio gyda thynnu troseddwr treisgar allan o gell tra'n rhwystro anafiadau iddo'i hun ac i'r troseddwr
- darparu mecanweithiau i drafod amgylcheddau gelyniaethus, e.e. hyfforddiant ar gyfer rheoli gwrthdaro, efelychiadau, adrodd yn ôl yn dilyn sefyllfaoedd o wrthdaro, gofal meddygol a seicolegol

parhad

Beth sydd angen ei ddysgu

- adnabod y prif risgiau i iechyd a diogelwch a'r camau gafodd eu cymryd i gael gwared arnynt i'w lleihau er mwyn darparu amgylchedd gwaith diogel, e.e. gweithwyr ffordd i weithio'n ddiogel ar y ffyrdd heb gael eu rhoi mewn perygl drwy weithdrefnau gwaith diogel; mae angen i gyflogeion sy'n ymweld â chwsmeriaid yn eu cartrefi gynnal asesiadau risg; darparu gweithle diogel gyda diogeledd os bydd angen
- darparu gwasanaethau i gefnogi iechyd a lles cyflogeion, e.e. mynediad i rwydweithiau cefnogi iechyd, tâl salwch, mentrau iechyd megis ffreutur yn y gweithle, aelodaeth campfa ostyngol, cynlluniau prynu beic ar gyfer staff, brechiadau ffliw blynyddol yn y gwaith.

Mae gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch uned yr Heddlu, Tân a Charchardai (PFP) o fewn y gwasanaeth sector cyhoeddus, sydd wedi cael ei sefydlu'n benodol i ddelio gyda materion iechyd a diogelwch o fewn y gwasanaethau hynny.

Beth sydd angen ei ddysgu**Nod dysgu B: Deall rôl cyflogai yn cynnal amgylchedd gwaith diogel****Testun B1 Rôl cyflogeion yn cynnal iechyd a diogelwch**

Mae cyflogeion yn chwarae rhan bwysig mewn sicrhau bod iechyd a diogelwch yn cael ei gynnal yn y gweithle i gwrdd â gofynion deddfwriaeth ac i sicrhau diogelwch personol.

Rôl allweddol cyflogeion wrth gynnal iechyd a diogelwch yn y gweithle yw:

- derbyn hyfforddiant ar iechyd a diogelwch sy'n cael ei ddarparu gan gyflogwyr
- bod yn gyfredol gyda'u hyfforddiant ar iechyd a diogelwch
- cymhwyso hyfforddiant iechyd a diogelwch yn y gweithle:
 - cymhwyso Adran 2 Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974 i wasanaethau cyhoeddus: cynnal asesiad risg, deall a defnyddio gweithdrefnau a phrosesau cyflogwyr
 - cymhwyso Adran 7 Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974 i wasanaethau cyhoeddus: yn gosod dyletswydd ar gyflogeion i ddeall eu cyfrifoldebau eu hunain drostynt eu hunain, e.e. deall sut a phryd i ddefnyddio PPE; os oes materion yn y gweithle i wybod sut, pryd ac i bwy i adrodd materion, ac i ddeall iechyd a diogelwch mewn perthynas â gweithdrefnau gwaith y cyflogai
 - cynnal amgylchedd gwaith diogel, e.e. defnyddio offer yn briodol, cymhwyso hyfforddiant a roddwyd ar ddiogelwch, gwybod ble mae'r allanfeydd tân a'u defnyddio'n briodol, gwybod trefniadau gwagio'r adeilad, bod â chymbwysedd rhwng gwaith a bywyd, defnyddio gweithio hyblyg lle mae hynny'n briodol ac ati.

Mae iechyd a diogelwch pobl eraill hefyd yn ofyniad allweddol y mae'n rhaid i gyflogwyr gwrdd ag ef, megis ar gyfer cwsmeriaid y gwasanaeth cyhoeddus a'i gyflogeion. Mae cyfrifoldeb cyflogeion dros bobl eraill yn cynnwys:

- Adran 3 Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974
- Adran 7 Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974.

Mewn perthynas â'r gwasanaethau cyhoeddus a iechyd a diogelwch, dylai'r dogfennau canlynol gael eu harchwilio:

- Cael cydbwysedd rhwng dyletswyddau gweithredol ac iechyd a diogelwch yn y Gwasanaeth Heddlu: Nodyn esboniadol
- Cael cydbwysedd rhwng dyletswyddau gweithredol ac iechyd a diogelwch yn y Gwasanaeth Tân ac Achub
- Mae Cytundeb Cyffredinol rhwng yr HSE a'r MOD yn nodi sut mae'r HSE, fel rheoleiddiwr, yn gweithio gyda'r MOD.

Mae Awdurdod Diogelwch ac Amgylchedd y Weinyddiaeth Amddiffyn (DSEA) wedi cael ei greu i reoleiddio'r Weinyddiaeth Amddiffyn.

Beth sydd angen ei ddysgu**Nod dysgu C: Ymgymryd ag asesiad risg ar gyfer senario a roddwyd****Testun C1 Asesiad risg**

Mae'r termau allweddol mewn perthynas ag asesu risg wedi'u hamlinellu isod.

- Gall perygl fod yn unrhyw beth, e.e. defnyddiau gwaith, offer, dulliau neu arferion gwaith sydd â'r potensial i achosi niwed.
- Mae risgiau'n golygu y gall fod siawns, uchel neu isel, bod rhywun yn cael ei niweidio gan y perygl.
- Asesu risgiau yw'r broses o werthuso'r risgiau i iechyd a diogelwch cyflogeion oddi wrth beryglon yn y gweithle.

Mae asesu risg yn archwiliad systematig o bob agwedd o waith sy'n ystyried:

- beth allai achosi anaf neu niwed
- oes modd cael gwared ar y perygl neu beidio, ac os nad oes,
- pa fesurau ataliol neu warchodol sydd yn eu lle i reoli'r risgiau, neu a ddylai fod yn eu lle.

Mae amlinelliad o bum cam asesiad risg isod.

- Adnabod y peryglon.
- Penderfynu pwy allai gael ei niweidio a sut.
- Gwerthuso'r risgiau a phenderfynu ar ragofalon.
- Cofnodi eich canfyddiadau a'u rhoi ar waith.
- Adolygu eich asesiad a diweddarau yn ôl yr angen.

Testun C2 Risgiau yn y gweithle

Mae'r Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 yn galw ar gyflogwyr i asesu a rheoli risgiau i amddiffyn eu cyflogeion.

Mae'r prif fathau o risg yn y gweithle, gan ddibynnu ar y math o weithle, yn cynnwys:

- offer gwaith, e.e. cynnal a chadw gwael, anafiadau potensial gan offer megis teclynnau, e.e. drylliau sy'n cael eu defnyddio gan yr heddlu, peryglon trydanol
- y gweithle ei hun, e.e. rhestr o drefn neu lendid
- cludiant y gweithle, e.e. gallai cynnal a chadw gwael ar injans tân ac ambiwlansys fod yn beryglus i gyflogeion ac i'r cyhoedd
- o'r gweithlu, e.e. gallai diffyg gwybodaeth, cyfarwyddyd, hyfforddiant, arolygaeth ac addysg arwain at gamsyniadau yn y gweithle
- gweithio ar uchder, e.e. gallai ymladdwyr tân sy'n dringo ysgolion syrthio, mae gwylwyr y glannau yn achub sifiliaid wedi eu hanafu ar y môr yn gofyn bod cyflogeion wedi eu gwarchod rhag niwed iddynt eu hunain yn ystod yr achub
- llosgiadau
- tanau a ffrwydradau
- sylweddau peryglus
- ffactorau seicolegol, e.e. gall straen arwain at ddamweiniau.

Atal risgiau, yn cynnwys:

- trwsio neu gael gwared ar risg a pherygl, e.e. cael gwared ar beryglon baglu
- gwell gweithdrefnau a phrotocolau
- darparu hyfforddiant.

Meini prawf asesu

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
Nod dysgu A: Deall sut mae cyflogwyr y gwasanaethau cyhoeddus yn amddiffyn eu cyflogeion			
1A.1 Adnabod deddfwriaeth iechyd a diogelwch allweddol y mae'n rhaid i ddau wasanaeth cyhoeddus gwahanol gadw ati.	2A.LI1 Disgrifio deddfwriaeth iechyd a diogelwch allweddol y mae'n rhaid i ddau wasanaeth cyhoeddus gwahanol gadw ati.	2A.T1 Cymharu, gan ddefnyddio enghreifftiau o ddau wasanaeth cyhoeddus gwahanol, sut y maent wedi defnyddio deddfwriaeth i amddiffyn cyflogeion a sut y gall hyn effeithio ar y ffordd y maent yn darparu gwasanaeth.	2A.Rh1 Gwerthuso effaith defnyddio deddfwriaeth i amddiffyn cyflogeion gan ddau gyflogwr gwasanaeth cyhoeddus.
1A.2 Adnabod y gwahanol ffyrdd y mae cyflogwyr penodol yn y gwasanaethau cyhoeddus yn amddiffyn eu cyflogeion.	2A.LI2 Disgrifio sut mae dau wasanaeth cyhoeddus gwahanol wedi defnyddio deddfwriaeth i amddiffyn eu cyflogeion.		
Nod dysgu B: Deall rôl cyflogai yn cynnal amgylchedd gwaith diogel			
1B.3 Adnabod rôl cyflogeion yn aros yn ddiogel yn y gwaith mewn dau wasanaeth cyhoeddus gwahanol.	2B.LI3 Disgrifio sut mae cyflogeion yn cynnal eu diogelwch eu hunain mewn amgylchedd gwaith mewn dau wasanaeth cyhoeddus gwahanol.	2B.T2 Cymharu, gan ddefnyddio enghreifftiau, rôl cyflogeion yn cynnal eu hiechyd a'u diogelwch eu hunain ac eraill yn y gweithle mewn dau wasanaeth cyhoeddus gwahanol. #	2B.Rh2 Dadansoddi rôl cyflogeion yn cynnal amgylchedd gwaith iach a diogel ar eu cyfer eu hunain ac ar gyfer eraill.
1B.4 Adnabod cyfrifoldebau cyflogeion yn cynnal iechyd a diogelwch pobl eraill mewn dau wasanaeth cyhoeddus gwahanol.	2B.LI4 Disgrifio cyfrifoldebau cyflogeion yn cynnal iechyd a diogelwch pobl eraill mewn dau wasanaeth cyhoeddus gwahanol.		

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
Nod dysgu C: Ymgymryd ag asesiad risg ar gyfer senario a roddwyd			
1C.5 Datblygu ffurflen asesu risg syml i gwrdd â gofynion asesiad risg.	2C.LI5 Datblygu ffurflen asesu risg manwl i gwrdd â gofynion asesiad risg.	2C.T3 Arddangos asesiad risg ar gyfer senario a roddwyd sy'n lleihau peryglon potensial ac effeithiau ar unigolion.	2C.Rh3 Arddangos sut i gael lleihad yn y peryglon a'r risgiau potensial, wedi eu tynnu o asesiad risg ar gyfer senario a roddwyd, gan argymhell gwelliannau i'r dyfodol. #
1C.6 Arddangos asesiad risg ar gyfer senario a roddwyd gyda pheryglon ac effeithiau potensial ar unigolion.	2C.LI6 Arddangos asesiad risg ar gyfer senario a roddwyd, gan esbonio'r risgiau a'r effaith i benderfynu ar ragofalon.		

*Cyfle i asesu sgiliau mathemategol

#Cyfle i asesu sgiliau Cymraeg

Arweiniad i athrawon

Adnoddau

Nid oes angen unrhyw adnoddau arbennig ar gyfer yr uned hon.

Canllaw asesu

Dylech nodi bod angen i ddysgwyr feddu ar drosolwg o'r ddeddfwriaeth, felly nid oes angen gwybodaeth fanwl.

Mae'r uned hon yn cael ei hasesu'n fewnol gan y ganolfan a'i dilysu'n allanol gan Pearson. Darllenwch y canllaw hwn ochr yn ochr ag *Adran 8: Asesu mewnlol*.

Nod dysgu A

Ar gyfer **2A.LI1**: rhaid i ddysgwyr ddisgrifio deddfwriaeth iechyd a diogelwch allweddol y mae'n rhaid i ddau wasanaeth cyhoeddus gwahanol gadw ati. Gellir cyflawni hyn wrth i ddysgwyr edrych ar ddau wasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol a disgrifio'r ddeddfwriaeth y credant eu bod yn bwysig i'r gwasanaeth dan sylw. Mae'r ddeddfwriaeth wedi'i rhestru yn y nod dysgu a dylai dysgwyr ddewis o leiaf dri darn allweddol i'w defnyddio ar gyfer pob un o'r ddau wasanaeth. Gall un darn o ddeddfwriaeth gwmpasu'r ddau wasanaeth cyhoeddus.

Ar gyfer **2A.LI2**: rhaid i ddysgwyr ddisgrifio sut mae dau wasanaeth cyhoeddus gwahanol wedi defnyddio deddfwriaeth i amddiffyn eu cyflogeion. Gyda'u dewis o ddeddfwriaeth dylent ddisgrifio sut mae pob un o'r gwasanaethau cyhoeddus yn cymhwyso'r ddeddfwriaeth honno i rolau swydd dyddiol eu cyflogeion. Mae disgwyl i ddysgwyr ddisgrifio o leiaf chwe chymhwysiad o'r ddeddfwriaeth a dweud, er enghraifft, dan Reoliadau Offer Gwarchod Personol yn y Gwaith 1992, pa ddiplad ac offer sy'n cael eu darparu ac at ba bwrpas.

Ar gyfer **2A.T1**: rhaid i ddysgwyr gymharu, gan ddefnyddio enghreifftiau o ddau wasanaeth cyhoeddus gwahanol, sut y maent wedi defnyddio deddfwriaeth i amddiffyn cyflogeion a sut y gall hyn effeithio ar y ffordd y maent yn darparu gwasanaeth. Ar gyfer y gymhariaeth dylai dysgwyr ddangos sut mae'r ddeddfwriaeth wedi newid yr arferion gwaith ar gyfer y cadarnhaol a'r negyddol yn y ddau wasanaeth cyhoeddus. Dylai dysgwyr ddangos ei fod wedi newid, er enghraifft, sut mae'r heddlu'n ymateb i ddigwyddiad fyddai'n arwain at erlid mewn car a'r mecanweithiau sydd yn eu lle i gadw hyn yn ddiogel.

Ar gyfer **2A.Rh1**: rhaid i ddysgwyr werthuso effaith defnyddio deddfwriaeth i amddiffyn cyflogeion gan ddau gyflogwr gwasanaeth cyhoeddus. Dylent werthuso'r gwahanol ffyrdd mae cyflogwyr dau wasanaeth cyhoeddus gwahanol yn cymhwyso deddfwriaeth i amddiffyn eu cyflogwyr o fewn amgylchedd gwaith a sut y gallai hyn effeithio ar sut y maent yn darparu gwasanaeth, yn cynnwys canlyniadau peidio â gwneud hynny.

Ar gyfer **1A.1**: rhaid i ddysgwyr adnabod deddfwriaeth iechyd a diogelwch allweddol y mae'n rhaid i ddau wasanaeth cyhoeddus gwahanol gadw ati. Mae disgwyl i ddysgwyr roi rhestr bwled.

Ar gyfer **1A.2**: rhaid i ddysgwyr adnabod y gwahanol ffyrdd y mae cyflogwyr penodol yn y gwasanaethau cyhoeddus yn amddiffyn eu cyflogeion. Mae disgwyl i ddysgwyr roi rhestr bwled gyda brawddeg i adnabod y gwahanol ffyrdd.

Nod dysgu B

Ar gyfer **2B.LI3**: rhaid i ddysgwyr ddisgrifio sut mae cyflogeion yn cynnal eu diogelwch eu hunain mewn amgylchedd gwaith mewn dau wasanaeth cyhoeddus gwahanol. Mae disgwyl i ddysgwyr ddangos eu bod yn deall y gwahanol ddeddfwriaeth sy'n effeithio ar ddau wasanaeth cyhoeddus gwahanol er mwyn iddynt allu crynhoi'r wybodaeth i gynnwys y prif bwyntiau.

Ar gyfer **2B.LI4**: rhaid i ddysgwyr ddisgrifio cyfrifoldebau cyflogeion wrth gynnal iechyd a diogelwch pobl eraill mewn dau wasanaeth cyhoeddus gwahanol. Gan ddefnyddio deddfwriaeth sydd wedi'i rhestru, mae disgwyl i ddysgwyr ei chrynhoi a'i chymhwyso i ddangos sut mae'n cael ei defnyddio gan ddau wasanaeth cyhoeddus gwahanol yn y ffordd y maent yn amddiffyn pobl eraill y byddant yn dod i gysylltiad â nhw.

Ar gyfer **2B.T2**: rhaid i ddysgwyr gymharu, gan ddefnyddio enghreifftiau, rôl cyflogeion yn cynnal eu hiechyd a'u diogelwch eu hunain a phobl eraill yn y gweithle mewn dau wasanaeth cyhoeddus gwahanol. Byddai hyn yn estyniad o 2B.LI3 a 2B.LI4 lle byddai'r dysgwr yn dweud sut y gallai'r un darn o ddeddfwriaeth, er enghraifft, gael ei gymhwyso mewn gwahanol ffyrdd i amddiffyn y cyflogai a phobl eraill. Gallai tabl helpu fel man cychwyn ar gyfer y gymhariaeth.

Ar gyfer **2B.Rh2**: rhaid i ddysgwyr ddadansoddi rôl cyflogeion yn cynnal amgylchedd gwaith iach a diogel ar eu cyfer eu hunain a phobl eraill. Dylai dysgwyr archwilio sut mae deddfwriaeth yn effeithio ar rôl y cyflogai. Dylent ddangos pam mae hi'n bwysig i'r cyflogeion sicrhau eu hiechyd a'u ddiogelwch eu hunain ac iechyd a diogelwch pobl eraill. Dylent hefyd archwilio sut mae rôl cyflogeion yn cynnal iechyd a diogelwch yn effeithio ar y cyflogwr.

Ar gyfer **1B.3**: rhaid i ddysgwyr adnabod rôl cyflogeion yn aros yn ddiogel yn y gwaith mewn dau wasanaeth cyhoeddus gwahanol. Er mwyn gwneud hyn, dylent restru o leiaf dair swydd wahanol gyda brawddeg fer i ddangos sut mae gwahanol ddeddfwriaeth yn helpu i amddiffyn cyflogeion.

Ar gyfer **1B.4**: rhaid i ddysgwyr adnabod cyfrifoldebau cyflogeion yn cynnal iechyd a diogelwch pobl eraill mewn dau wasanaeth cyhoeddus gwahanol. Dylai hyn fod yn rhestr o dri gwahanol gyfrifoldeb o leiaf gyda brawddeg i ddangos sut mae gwahanol ddeddfwriaeth yn helpu cyflogeion i amddiffyn pobl eraill.

Nod dysgu C

Ar gyfer **2D.LI5**: rhaid i ddysgwyr ddatblygu ffurflen asesu risg manwl i gwrdd â gofynion asesiad risg. Mae disgwyl i ddysgwyr gynhyrchu templed asesu risg fyddai'n cwmpasu'r canlynol: Beth yw'r peryglon, Pwy allai gael ei niweidio a sut? Beth sydd yn ei le? Oes angen i chi wneud unrhyw beth arall i reoli'r risg hwn? A allai defnyddio polisiau sydd wedi eu canfod yn lleol helpu wrth gynllunio.

Ar gyfer **2C.LI6**: rhaid i ddysgwyr arddangos asesiad risg ar gyfer senario a roddwyd, gan esbonio'r risgiau a'r effaith i benderfynu ar ragofalon. Mae disgwyl i ddysgwyr gynnal nifer o asesiadau risg sy'n rhai ffug ac sydd wedi cael eu trefnu i ddangos eu bod yn deall beth yw risgiau. Mae disgwyl iddynt esbonio eu canfyddiadau mewn cyflwyniad neu drwy gyfrwng adroddiad.

Ar gyfer **2C.T3**: rhaid i ddysgwyr arddangos asesiad risg ar gyfer senario a roddwyd sy'n lleihau peryglon potensial a'r effaith ar unigolion. Byddai disgwyl i ddysgwyr gynhyrchu templed sy'n cynnwys tebygrwydd potensial bod digwyddiadau'n digwydd a'r tebygrwydd o leihau'r risg drwy roi pethau yn eu lle.

Ar gyfer **2C.Rh3**: rhaid i ddysgwyr ddangos sut i gael lleihad yn y peryglon a'r risgiau potensial, wedi eu tynnu o asesiad risg ar gyfer senario a roddwyd, gan argymhell gwelliannau i'r dyfodol. Byddai disgwyl i ddysgwyr gynhyrchu adroddiad manwl yn esbonio eu canfyddiadau a rhestr fanwl o argymhellion i leihau'r risgiau. Rhaid i'w canfyddiadau fod yn rhai manwl er mwyn esbonio eu rhesymau dros gyflwyno newidiadau i leihau'r risg.

Ar gyfer **1C.5**: rhaid i ddysgwyr ddatblygu ffurflen asesu risg syml i gwrdd â gofynion asesiad risg. Y disgwyl yw ffurflen syml allai gofnodi canfyddiadau peryglon a phwy sydd mewn perygl.

Ar gyfer **1C.6**: rhaid i ddysgwyr arddangos asesiad risg ar gyfer senario a roddwyd gyda pheryglon potensial ac effaith ar unigolion. Mae disgwyl i ddysgwyr gwblhau asesiad risg ar gyfer senario sydd wedi'i drefnu.

Awgrymiadau ar gyfer aseiniadau

Mae'r tabl isod yn dangos rhaglen o amlinelliadau aseiniadau posibl sy'n cwmpasu'r meini prawf asesu. Arweiniad yw hwn, ac awgrymir bod canolfannau naill ai'n ysgrifennu eu haseiniadau eu hunain neu'n addasu unrhyw aseiniadau y byddwn ni'n eu darparu i gwrdd ag anghenion ac adnoddau lleol.

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Senario	Tystiolaeth asesu
1A.1, 1A.2, 2A.LI1, 2A.LI2, 2A.T1, 2A.Rh1	Rydych chi'n gweithio mewn adran iechyd a diogelwch ac mae angen i chi ddarparu cyflwyniad i gyflogeion newydd i'r ddeddfwriaeth sy'n caniatáu iddynt wneud eu swyddi.	Cyflwyniad PowerPoint® gyda sgript neu adroddiad ysgrifenedig sy'n trafod y meini prawf gofynnol.
1B.3, 1B.4, 2B.LI3, 2B.LI4, 2B.T2, 2B.Rh2	Chi yw'r arweinydd tîm ac mae disgwyl i chi allu cynhyrchu llyfryn i'w roi i'ch tîm yn eu hatgoffa o sut i weithio ac aros yn ddiogel.	Gall dysgwyr gynhyrchu llyfryn sy'n cynnwys y meini prawf yn y nod dysgu.
1C.5, 1C.6, 2C.LI5, 2C.LI6, 2C.T3, 2C.Rh3	Mae disgwyl i ddysgwyr gynhyrchu asesiad risg ar gyfer senario, er enghraifft peryglon yn yr ardal ddysgu, sydd wedi cael ei threfnu gan yr aseswr.	Mae angen i ddysgwyr gynhyrchu asesiad risg sydd wedi cael ei nodi a'r peryglon sydd wedi cael eu creu.

Uned 16: Sgiliau Cyflogadwyedd yn y Gwasanaethau Cyhoeddus

Lefel: **1 a 2**

Math o uned: **Gorfodol/Dewisol arbenigol**

Oriau dysgu dan arweiniad: **30**

Dull asesu: **Mewnol**

Cyflwyniad i'r uned

Ydych chi erioed wedi meddwl beth mae cyflogwyr yn y gwasanaethau cyhoeddus yn chwilio amdano pan fyddant yn recriwtio? Mewn llawer o achosion mae llawer o bwysigrwydd yn cael ei osod ar y sgiliau cyflogadwyedd y mae ymgeisydd yn eu harddangos. Ond beth yw ystyr hyn mewn gwirionedd?

Gall sgiliau cyflogadwyedd gael eu disgrifio fel y sgiliau sydd eu hangen ar bron pawb i wneud unrhyw swydd bron. Fodd bynnag, nid dim ond sgiliau yw'r rhain, maent hefyd yn cynnwys y medrau a'r cymwyseddau megis tueddfryd, agwedd ac ymddygiad. Nid dim ond gwybodaeth am bwnc neu brofiad yw hyn.

Yn yr uned hon byddwch yn archwilio'r sgiliau a'r nodweddion y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt, yn ymarferol ac yn bersonol, ac yn adeiladu ar hyn i ddatblygu cynllun i wella'r sgiliau hyn.

Byddwch yn archwilio sut mae'r sgiliau trosglwyddadwy sydd eu hangen arnoch yn angenrheidiol ar gyfer llawer o swyddi ar draws y gwasanaethau cyhoeddus, rhai mewn iwnifform a rhai heb iwnifform. Byddwch hefyd yn ymchwilio i sut mae sgiliau cyflogadwyedd yn cael eu hasesu gan gyflogwyr, a sut mae cyflogwyr yn gwneud penderfyniadau ynghylch pwy i'w ddewis i fynd drwy'r broses recriwtio.

Unwaith y byddwch wedi cwblhau'r uned hon, dylech allu eich cyflwyno eich hun yn dda mewn unrhyw gais am swydd, gan ddangos fod gennych ddealltwriaeth dda o sgiliau cyflogadwyedd y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt, a sut i'w dangos yn ystod y broses recriwtio, boed hynny o fewn gwasanaeth cyhoeddus neu rywle arall ym myd gwaith.

Nodau dysgu

Yn yr uned hon byddwch yn:

- A deall y sgiliau cyflogadwyedd y mae cyflogwyr y gwasanaethau cyhoeddus yn chwilio amdanynt
- B archwilio sut mae sgiliau cyflogadwyedd yn cael eu hasesu yn ystod y broses recriwtio
- C cynhyrchu cynllun datblygu gyrfa personol.

Nodau dysgu a chynnwys yr uned

Beth sydd angen ei ddysgu

Nod dysgu A: Deall y sgiliau cyflogadwyedd y mae cyflogwyr y gwasanaethau cyhoeddus yn chwilio amdanynt

Testun A.1 Sgiliau cyflogadwyedd

Mae Sgiliau cyflogadwyedd y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt mewn cais i wasanaeth cyhoeddus yn cynnwys:

- sgiliau personol, e.e. edrych yn dda, gonestrwydd ac unplygrwydd, dibynadwyedd, cadw amser a threfn personol da, gweithio mewn tîm, cydweithio a chydweithredu, hyblygrwydd, agwedd gadarnhaol, parodrwydd i ddysgu, pryder dros eraill
- sgiliau eraill, e.e. sgiliau llafar, cyfathrebu ysgrifenedig, rhifedd, sgiliau TG, datrys problemau, y gallu i gymhwyso hyfforddiant i dasg, sgiliau rhyngpersonol yn cynnwys iaith y corff, ystumiau, mynegiant wyneb a chyswllt llygaid.

Testun A.2 Pwysigrwydd sgiliau cyflogadwyedd i gyflogwr gwasanaethau cyhoeddus

Mae sgiliau cyflogadwyedd yn bwysig i gyflogwr am amryw o resymau, ac mae'r rhain yn cysylltu â'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y gwasanaethau cyhoeddus.

- Effaith gadarnhaol sgiliau cyflogadwyedd e.e.:
 - bydd gweithio mewn tîm yn dda yn arwain at well cyflawniad o effeithiolrwydd gweithredol
 - bydd cyflogeion sy'n edrych yn dda yn arwain at well canfyddiad o'r gwasanaeth gan y cyhoedd, yn enwedig mewn gwasanaethau cyhoeddus heb iwniform
 - bydd trefniadaeth dda'n arwain at ddefnydd effeithiol o adnoddau
 - bydd hyblygrwydd yn darparu ar gyfer darpariaeth barhaus o'r gwasanaeth pan fydd adnoddau'n cael eu hystemyn
 - bydd agwedd gadarnhaol tuag at waith yn gwella morâl pawb sy'n gweithio gyda'r gwasanaeth cyhoeddus
 - bydd llofaedd da'n caniatáu i staff rheng flaen y gwasanaethau cyhoeddus ryngweithio'n effeithiol gyda defnyddwyr gwasanaethau
 - bydd cyfathrebu ysgrifenedig da'n darparu gwasanaeth proffesiynol, a bydd yn sicrhau bod y defnyddwyr gwasanaethau'n glir ynghylch unrhyw gyfathrebu gyda'r gwasanaeth cyhoeddus
 - bydd defnydd effeithiol o sgiliau rhyngpersonol yn sicrhau bod cyflogeion yn rhyngweithio'n briodol gyda defnyddwyr gwasanaethau a chydweithwyr.
- Effaith o beidio cael sgiliau cyflogadwyedd, e.e.:
 - gall sgiliau gwael gweithio mewn tîm atal tasg rhag cael ei chyflawni, gan arwain at gynnydd yn y gost ariannol (o ran adnoddau) ac weithiau mewn anafiadau i bobl
 - gall prydlondeb gwael olygu nad yw darpariaeth gwasanaeth cyhoeddus ar gael, e.e. efallai na fydd injan dân ar gael i ymateb i ddigwyddiad os bydd aelod o'r criw'n hwyr
 - gall anonestrwydd neu ddiffyg unplygrwydd danseilio canfyddiad y cyhoedd o'r sector cyhoeddus
 - gall cyfathrebu aneffeithiol arwain at wybodaeth anghywir yn cael ei rhoi i gydweithwyr neu aelodau o'r cyhoedd, gan arwain at fod tasg yn peidio â chael ei chwblhau.

Beth sydd angen ei ddysgu**Nod dysgu B: Archwilio sut mae sgiliau cyflogadwyedd yn cael eu hasesu yn ystod y broses recriwtio****Testun B.1 Sut mae sgiliau cyflogadwyedd yn cael eu hasesu**

Drwy gydol y broses recriwtio a dethol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, mae cyflogwyr yn asesu sgiliau cyflogadwyedd ymgeiswyr ochr yn ochr â gwybodaeth gysylltiedig â'r swydd:

- ffurflenni cais, CVau a datganiadau personol yn asesu cyfathrebu ysgrifenedig a sgiliau cyflwyno
- cyfweliadau i asesu prydlondeb, ymddangosiad personol, trefn bersonol, agwedd gadarnhaol, paroddrwydd i ddysgu, dibynadwyedd, gonestrwydd ac unplygrwydd a sgiliau rhyngbersonol
- dyddiau asesu i asesu hyblygrwydd, gweithio mewn tîm, cydweithio a chydweithredu, sgiliau rhyngbersonol, rheoli amser a'r gallu i gymhwyso gwybodaeth i dasg.

Testun B.2 Sut y gall sgiliau cyflogadwyedd gael eu harddangos yn ystod y recriwtio

Mae'n bwysig bod unrhyw gais yn dangos sgiliau cyflogadwyedd yr ymgeisydd yn effeithiol ar bob un o'r camau a amlinellir isod.

- Ffurflen gais, CV a datganiad personol ddylai:
 - fod yn glir, yn gryno ac yn gywir mewn perthynas â sillafu, atalnodi a gramadeg
 - amlygu'r cryfderau personol a'r sgiliau trosglwyddadwy, e.e. rhoi sylw i fanylion, defnyddio eich menter, hyblygrwydd, cydweithrediad a pharoddrwydd i ddysgu
 - defnyddio profiad blaenorol i ddarlunio sgiliau cyflogadwyedd, e.e. 'Yn ystod cyfnod preswyl gyda'r coleg fe drefnais y rota glanhau ar gyfer y grŵp' - mae hyn yn dangos y gallu i gyfathrebu gydag eraill ac i gymryd cyfrifoldeb.
- Cyfweliad
 - Bod yn brydlon bob amser i ddangos eich bod yn dda am gadw amser a chael trefn bersonol.
 - Gwisgo'n briodol a sicrhau eich bod yn edrych ar eich gorau; bydd bod yn lân ac yn daclus yn dangos golwg bersonol a threfn bersonol dda.
 - Mae cadw cyswllt llygaid a bod yn frwdfrydig a chadarnhaol yn arddangos sgiliau rhyngbersonol da ac agwedd gadarnhaol tuag at waith.
 - Mae mynegi diddordeb mewn datblygu eich sgiliau a'ch gwybodaeth mewn meysydd lle gallech fod yn brin o brofiad yn arddangos paroddrwydd i ddysgu.
 - Bydd siarad am eich cyflawniadau gan ddefnyddio enghreifftiau o'ch bywyd, y coleg, gweithgareddau hamdden a chyflogaeth arall yn arddangos eich dibynadwyedd, eich gonestrwydd a'ch unplygrwydd, eich hyblygrwydd a'ch gwaith mewn tîm.
- Dyddiau asesu
 - Bydd bod yn brydlon a dod â chit neu offer rydych wedi cael cyfarwyddyd i ddod ag e gyda chi yn dangos rheolaeth dda dros amser a threfn bersonol.
 - Bydd gwrandao ar gyfarwyddiadau'n dangos sgiliau rhyngbersonol da a'r gallu i gymhwyso gwybodaeth i dasg.
 - Bydd gweithio gyda phobl eraill yn ystod gweithgareddau tîm yn dangos gweithio mewn tîm effeithiol, cydweithio a chydweithredu, sgiliau rhyngbersonol a hyblygrwydd.

Beth sydd angen ei ddysgu**Nod dysgu C: Cynhyrchu cynllun datblygu gyrfa personol****Testun C.1 Datblygu cynllun datblygu gyrfa**

Wrth baratoi i wneud cais am gyflogaeth mae'n bwysig bod cynllun datblygu gyrfa'n mapio yn erbyn gofynion y swydd darged, ac yn gweithio tuag at hyn.

- Gwnewch archwiliad sgiliau i adnabod cryfderau personol a meysydd ar gyfer datblygu mewn perthynas â'r sgiliau cyflogadwyedd a nodwyd.
- Datblygu map sgiliau sy'n mapio sgiliau cyflogadwyedd sydd wedi eu hadnabod gyda rôl swydd a ddewiswyd.
- Adnabod dulliau i ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd, yn cynnwys:
 - addysg a hyfforddiant, naill ai'n ffurfiol drwy gyrsiau addysg bellach neu'n anffurfiol fel rhan o waith rhan-amser
 - sgiliau rhyngpersonol, drwy ryngweithio cymdeithasol gyda grwpiau amrywiol, naill ai drwy waith rhan-amser neu weithgareddau gwirfoddol, hamdden neu chwaraeon.
- Datblygu cynllun datblygu gyrfa, yn cynnwys:
 - nodi targedau gan ddefnyddio targedau CAMPUS (cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol, synhwyrol)
 - nodi camau gweithredu a thasgau gosod
 - meini prawf llwyddiant a graddfeydd amser ar gyfer adolygu.

Meini prawf asesu

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
Nod dysgu A: Deall y sgiliau cyflogadwyedd y mae cyflogwyr y gwasanaethau cyhoeddus yn chwilio amdanynt			
1A.1 Adnabod sgiliau personol a sgiliau cyflogadwyedd eraill sy'n angenrheidiol ar gyfer rôl yn y gwasanaethau cyhoeddus.	2A.LI1 Disgrifio, gan ddefnyddio enghreifftiau perthnasol, amrywiaeth o sgiliau personol a sgiliau cyflogadwyedd eraill angenrheidiol ar gyfer dwy rôl gwasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol.	2A.T1 Esbonio manteision sgiliau cyflogadwyedd effeithiol mewn dwy rôl gwasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol. #	2A.Rh1 Dadansoddi effaith sgiliau cyflogadwyedd ar ddwy rôl gwasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol.
1A.2 Amlinellu'r defnydd o sgiliau cyflogadwyedd mewn rôl gwasanaethau cyhoeddus.	2A.LI2 Disgrifio pwysigrwydd sgiliau cyflogadwyedd i gyflogwr o'r gwasanaethau cyhoeddus.		

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
Nod dysgu B: Archwilio sut mae sgiliau cyflogadwyedd yn cael eu hasesu yn ystod y broses recriwtio			
1B.3 Disgrifio dulliau a ddefnyddir gan un cyflogwr o'r gwasanaethau cyhoeddus i asesu sgiliau cyflogadwyedd.	2B.LI3 Esbonio'r dulliau a ddefnyddir gan ddau gyflogwr gwasanaethau cyhoeddus gwrthgyferbyniol i asesu sgiliau cyflogadwyedd. #	2B.T2 Dadansoddi'r dulliau a ddefnyddir i asesu sgiliau cyflogadwyedd yn ystod y broses recriwtio ar gyfer gwasanaeth cyhoeddus.	2B.Rh2 Cyfiawnhau'r dulliau gafodd eu defnyddio i arddangos ac asesu sgiliau cyflogadwyedd wrth recriwtio ar gyfer gwasanaeth cyhoeddus.
1B.4 Amlinellu dulliau all gael eu defnyddio i arddangos sgiliau cyflogadwyedd wrth recriwtio ar gyfer gwasanaeth cyhoeddus.	2B.LI4 Disgrifio sut gall sgiliau cyflogadwyedd gael eu harddangos yn ystod proses recriwtio ar gyfer gwasanaeth cyhoeddus.	2B.T3 Esbonio pwysigrwydd ddefnyddio dulliau priodol i arddangos sgiliau cyflogadwyedd effeithiol yn ystod y broses recriwtio ar gyfer gwasanaeth cyhoeddus.	

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
Nod dysgu C: Cynhyrchu cynllun datblygu gyrfa personol			
1C.5 Adnabod canlyniadau archwiliad sgiliau personol.	2C.LI5 Disgrifio canlyniadau archwiliad sgiliau personol.	2C.T4 Esbonio canlyniadau archwiliad sgiliau personol mewn perthynas â chryfderau a meysydd ar gyfer gwella a nodwyd. #	2C.Rh3 Gwerthuso cynllun datblygu gyrfa personol mewn perthynas â chryfderau a meysydd ar gyfer gwella a nodwyd.
1C.6 Adnabod y sgiliau cyflogadwyedd i'w datblygu mewn perthynas â rôl mewn gwasanaethau cyhoeddus.	2C.LI6 Disgrifio sut y gall sgiliau cyflogadwyedd gael eu datblygu mewn perthynas â rôl mewn gwasanaethau cyhoeddus.	2C.T5 Dadansoddi'r dulliau all gael eu defnyddio i ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd mewn perthynas â rôl mewn gwasanaethau cyhoeddus.	2C.Rh4 Gwerthuso effeithiolrwydd y set o dargedau campus wrth ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd. #
1C.7 Cynhyrchu cynllun datblygu gyrfa personol sylfaenol ar gyfer rôl yn y gwasanaethau cyhoeddus.	2C.LI7 Cynhyrchu cynllun datblygu gyrfa personol ar gyfer rôl yn y gwasanaethau cyhoeddus, sy'n cynnwys targedau CAMPUS.		

*Cyfle i asesu sgiliau mathemategol

#Cyfle i asesu sgiliau Cymraeg

Arweiniad i athrawon

Adnoddau

Nid oes angen unrhyw adnoddau arbennig ar gyfer yr uned hon.

Canllaw asesu

Mae'r uned hon yn cael ei hasesu'n fewnol gan y ganolfan a'i dilysu'n allanol gan Pearson. Darllenwch y canllaw hwn ochr yn ochr ag *Adran 8: Asesu mewanol*.

Nod dysgu A

Mae'r nod dysgu hwn yn bwriadu datblygu gwybodaeth dysgwyr am sgiliau cyflogadwyedd yn gyffredinol cyn eu cymhwyso'n benodol i rôl yn y gwasanaethau cyhoeddus. Mae'n bwysig bod dysgwyr yn deall nad yw'r sgiliau hyn yn benodol i'r gwasanaethau cyhoeddus ac y gallant gael eu trosglwyddo i unrhyw gyfle cyflogaeth. Bydd dysgwyr wedyn yn symud ymlaen i gymhwyso'r sgiliau i gyflogaeth yn y gwasanaethau cyhoeddus gan edrych ar yr effeithiau cadarnhaol a hefyd ar ganlyniadau bod cyflogeion heb y sgiliau hyn.

Ar gyfer **2A.LI1**: dylai dysgwyr ddisgrifio'r sgiliau cyflogadwyedd angenrheidiol ar gyfer swydd mewn gwasanaeth cyhoeddus. Dylai'r disgrifiad gael ei gefnogi gan enghreifftiau perthnasol o'r sgiliau a nodwyd yn yr adran 'Beth mae angen i chi ei ddysgu'. Mae'n bwysig bod dysgwyr yn trafod amrywiaeth eang o'r sgiliau cyflogadwyedd ac yn cynnwys sgiliau personol a rhai eraill, ac yna cysylltu'r rhain gyda dwy rôl wrthgyferbyniol mewn gwasanaethau cyhoeddus. Gall poster neu gyflwyniad fod yn ddull asesu priodol ar gyfer y dasg hon.

Ar gyfer **2A.LI2**: dylai dysgwyr ddisgrifio pwysigrwydd sgiliau cyflogadwyedd i gyflogwr o'r gwasanaethau cyhoeddus. Ar gyfer y maen prawf hwn, dylai'r dystiolaeth ddangos fod dysgwyr wedi gallu cymhwyso'r wybodaeth a gafwyd yn 2A.LI1 i sefyllfa gwasanaeth cyhoeddus. Dylent ddewis cyflogwr o'r gwasanaethau cyhoeddus ac yna ddefnyddio enghreifftiau o hyn i gefnogi eu tystiolaeth, yn hytrach na newid o gyflogwr i gyflogwr ar gyfer pob sgil. Bydd hyn yn caniatáu iddynt arddangos eu dealltwriaeth yn llawn. Er mwyn cyflawni'r maen prawf, dylai dysgwyr nid yn unig ddweud sut mae sgiliau cyflogadwyedd yn cael eu defnyddio yn y gwasanaeth cyhoeddus, ond hefyd pam maen nhw'n bwysig.

Ar gyfer **2A.T1**: rhaid i ddysgwyr esbonio manteision cyflogi pobl sydd â sgiliau cyflogadwyedd effeithiol mewn dwy rôl yn y gwasanaethau cyhoeddus. Mae'n bwysig bod dysgwyr yn dewis rolau priodol yn y gwasanaethau cyhoeddus, a gall y term 'gwrthgyferbyniol' gael ei gymryd i olygu y dylai tystiolaeth gael ei chynhyrchu drwy edrych ar yr ystod o wasanaethau cyhoeddus, yn cynnwys lluoedd arfog, gwasanaethau brys (gwasanaethau golau glas), awdurdodau lleol a llywodraeth ganolog. Dylai dysgwyr hefyd fod yn glir ynghylch sut y gall effeithiolrwydd sgiliau cyflogadwyedd fod o fudd i'r rhai sy'n gweithio ym mhob un o'r rolau yn y gwasanaethau cyhoeddus. Er enghraifft, gall prydlondeb da mewn swyddfa dai leol sicrhau bod digon o gynorthwywyr gwasanaeth cwsmeriaid ar gael i ddarparu cyngor ac arweiniad i'r cyhoedd sy'n mynychu'r swyddfa.

Ar gyfer **2A.Rh1**: dylai dysgwyr ddadansoddi'r effaith y mae sgiliau cyflogadwyedd yn eu cael ar rolau gwasanaethau cyhoeddus. Ar gyfer y maen prawf hwn, dylai dysgwyr ystyried y dystiolaeth gafodd ei chynhyrchu ar gyfer y nod dysgu, a darparu dadansoddiad cytbwys o hyn. Dylai'r dadansoddiad edrych ar bob agwedd a dangos sut y maent yn effeithio ar y gwasanaethau cyhoeddus, drwy ddefnyddio enghreifftiau o ar draws amrediad o wasanaethau cyhoeddus. Gall yr enghreifftiau

hyn gynnwys gallu'r recriwtiaid i gyfathrebu'n fwy effeithiol gyda chydweithwyr a defnyddwyr gwasanaethau, neu'r gallu i drefnu, a sut y byddai'n arwain at gyflogeion potensial yn gallu defnyddio adnoddau yn effeithiol drwy flaenoriaethu eu llwyth gwaith. Dylai'r dadansoddiad hefyd ystyried yr effaith ar y gwasanaethau cyhoeddus o beidio cael sgiliau cyflogadwyedd effeithiol. Gallai enghreifftiau o hyn fod yn ymladdwr tân sydd ddim yn brydlon sy'n golygu nad yw ei dîm yn gallu mynychu digwyddiad a gallai hyn arwain at ddifrod i eiddo neu hyd yn oed at rywun yn marw, neu os yw aelod o dîm tai'r cyngor lleol yn methu cyfathrebu'n effeithiol, efallai na fydd yn darparu gwybodaeth gywir i gwsmeriaid mewn perthynas â cheisiadau am dai, gan arwain at anfodlonrwydd am y gwasanaeth ymysg cwsmeriaid.

Ar gyfer **1A.1**: dylai dysgwyr nodi'r sgiliau cyflogadwyedd personol ac eraill sy'n angenrheidiol ar gyfer rôl yn y gwasanaethau cyhoeddus, fel sy'n cael ei nodi yn yr adran 'Beth sydd angen i chi ei ddysgu'. Efallai mai prin fydd y cymhwysio enghreifftiau o fewn y dystiolaeth.

Ar gyfer **1A.2**: dylai dysgwyr amlinellu'r defnydd o sgiliau cyflogadwyedd mewn rôl gwasanaethau cyhoeddus er efallai mai prin fydd y dystiolaeth. O fewn y dystiolaeth gallai fod llai o fanylion am bwysigrwydd y sgiliau cyflogadwyedd hyn i'r cyflogwr gwasanaethau cyhoeddus.

Nod dysgu B

Dylai dysgwyr gael y cyfle i archwilio rhai ffurflenni cais enghreifftiol wedi eu cwblhau, a rhai CVau a datganiadau personol, fyddai'n caniatáu iddynt ddatblygu eu dealltwriaeth o sut y gall sgiliau cyflogadwyedd gael eu hasesu o ddogfennau ysgrifenedig. Hefyd, gallai swyddogion gyrfaedd a thimoedd recriwtio o ar draws y gwasanaethau cyhoeddus gael eu gwahodd i'r ganolfan i siarad gyda dysgwyr am sut y maen nhw'n asesu sgiliau cyflogadwyedd yn ystod y broses recriwtio a dethol. Fodd bynnag, dylid dweud wrth y siaradwyr gwadd nad cyfle i recriwtio yw hyn ond mai'r pwrpas yw helpu dysgwyr i baratoi ar gyfer cyflogaeth.

Ar gyfer **2B.LI3**: dylai dysgwyr ddarparu tystiolaeth sy'n esbonio sut mae sgiliau cyflogadwyedd yn cael eu hasesu gan ddau gyflogwr o wasanaethau cyhoeddus gwrthgyferbyniol. Dylai'r esboniad ddefnyddio enghreifftiau o'r gwahanol gamau o'r broses recriwtio a dethol, yn dangos pa sgiliau sy'n cael eu hasesu, a'r dulliau sy'n cael eu defnyddio i'w hasesu ar bob cam, a sut y maen nhw'n cael eu hasesu. Gallai astudiaeth achos neu chwarae rôl gyda gweithgaredd dilynol fod yn ddull addas i asesu hyn. Ar gyfer y maen prawf hwn, mae'n bwysig bod dygwyr yn deall fod y dystiolaeth yn ymwneud â sgiliau cyflogadwyedd o safbwynt cyflogwr.

Ar gyfer **2B.LI4**: dylai dysgwyr gynhyrchu tystiolaeth sy'n dangos sut gall ymgeisydd arddangos sgiliau cyflogadwyedd effeithiol drwy gydol y broses recriwtio a dethol. Unwaith eto, dylai'r dystiolaeth gynnwys enghreifftiau o wahanol gamau'r broses, gan ddangos pa sgiliau y gallai'r ymgeisydd eu harddangos ar bob cam. Ar gyfer y maen prawf hwn, mae'n bwysig bod dysgwyr yn deall bod y dystiolaeth yn ymwneud â sgiliau cyflogadwyedd sy'n cael eu harddangos gan yr ymgeisydd.

Ar gyfer **2B.T2**: rhaid i ddysgwyr ddadansoddi'r dulliau sy'n cael eu defnyddio i asesu sgiliau cyflogadwyedd yn ystod y broses recriwtio a dethol ar gyfer gwasanaeth cyhoeddus. Dylai'r dystiolaeth ystyried y dulliau sy'n cael eu defnyddio gan y gwasanaethau cyhoeddus a pha mor effeithiol ydyn nhw yn adnabod sgiliau cyflogadwyedd. Dylai dysgwyr ddefnyddio enghreifftiau o wasanaeth cyhoeddus o'u dewis i gefnogi eu tystiolaeth a dylai'r wybodaeth gael ei dwyn ynghyd i ffurfio casgliad cytbwys. Rhaid i'r dystiolaeth fod yn gysylltiedig â'r dulliau sy'n cael eu defnyddio gan gyflogwyr i asesu sgiliau cyflogadwyedd.

Ar gyfer **2B.T3**: rhaid i ddysgwyr esbonio pwysigrwydd bod yr ymgeisydd yn arddangos sgiliau cyflogadwyedd effeithiol yn ystod y broses. Dylai'r dystiolaeth ystyried y dulliau y gall yr ymgeisydd eu defnyddio wrth fynd drwy'r broses i arddangos eu sgiliau cyflogadwyedd, a defnyddio enghreifftiau perthnasol i arddangos eu gwybodaeth. Unwaith eto, dylai'r dystiolaeth fod yn ymchwiliad mwy manwl a gyda mwy o ffocws i'r dulliau y gall ymgeiswyr eu defnyddio i arddangos eu sgiliau yn effeithiol.

Ar gyfer **2B.Rh2**: mae angen i ddysgwyr gynhyrchu tystiolaeth sy'n gwerthuso'r wybodaeth a gynhyrchwyd ar gyfer y nod dysgu hwn. Dylai'r dystiolaeth ddangos manteision ac anfanteision y dulliau a ddefnyddir i asesu sgiliau cyflogadwyedd yn ystod y broses recriwtio a dethol a dylai hyn gael ei gefnogi gydag enghreifftiau a dylid dod â'r cyfan at ei gilydd i ffurfio casgliad cytbwys.

Ar gyfer **1B.3** : dylai dysgwyr ddisgrifio dulliau a ddefnyddir gan un cyflogwr o'r gwasanaethau cyhoeddus i asesu sgiliau cyflogadwyedd. Gall y dystiolaeth gynnwys enghreifftiau.

Ar gyfer **1B.4**: dylai dysgwyr amlinellu manylion cryno o sut gall sgiliau cyflogadwyedd gael eu harddangos. Fel arall, gall y dystiolaeth fod â chymhwysiad cyfyngedig i'r broses recriwtio a dethol i'r gwasanaethau cyhoeddus.

Nod dysgu C

Ar gyfer **2C.LI5**: rhaid i ddysgwyr wneud archwiliad sgiliau personol ac yna ddarparu disgrifiad o'r canlyniadau. Dylai'r disgrifiad ddangos eu bod wedi ystyried y cryfderau y mae'r archwiliad wedi eu hamlygu yn ogystal â'r meysydd ar gyfer datblygu. Dylid nodi nad oes gofyniad i gysylltu hyn â rôl yn y gwasanaethau cyhoeddus er mwyn cyflawni'r maen prawf.

Ar gyfer **2C.LI6**: dylai dysgwyr ddisgrifio sut gall unigolyn ddatblygu ei sgiliau cyflogadwyedd mewn perthynas â rôl yn y gwasanaethau cyhoeddus, Dylai'r dystiolaeth ystyried amrywiaeth o ddulliau all gael eu defnyddio, fel sy'n cael ei nodi yn adran 'Beth sydd angen ei ddysgu' yn yr uned hon. Unwaith eto, dylai'r pwyslais fod ar yr amrywiaeth o ddulliau sydd ar gael, nid y dulliau y byddai'r dysgwr yn dewis eu defnyddio.

Ar gyfer **2C.LI7**: dylai dysgwyr ddwyn ynghyd ganlyniadau'r archwiliad sgiliau personol gafodd ei wneud, gan ystyried yr amrywiaeth o ddulliau all gael eu defnyddio i ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd ac yna gynhyrchu cynllun datblygu gyrfa personol sydd â thystiolaeth o dargedau CAMPUS.

Ar gyfer **2C.T4**: dylai dysgwyr fapio canlyniadau eu harchwiliad sgiliau personol yn erbyn y sgiliau sy'n angenrheidiol ar gyfer rôl yn y gwasanaethau cyhoeddus. Dylent ddangos sut y bydd y cryfderau y maent wedi eu hadnabod yn apelio at gyflogwr o'r gwasanaethau cyhoeddus, a pham mae angen iddynt ddatblygu'r meysydd sydd wedi cael eu dangos i fod yn wannach. Rhaid iddi fod yn glir o fewn y dystiolaeth pa rolau mae'r dysgwyr yn eu hystyried.

Ar gyfer **2C.T5**: dylai dysgwyr ddadansoddi'r wybodaeth gafodd ei chynhyrchu ar gyfer 2C.LI6 a 2C.LI7, gan gysylltu hyn â'r dewis rôl yn y gwasanaethau cyhoeddus. Dylai'r dystiolaeth gynnwys enghreifftiau o ddulliau sy'n cael eu defnyddio i ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd mewn recriwtiaid i'r gwasanaethau cyhoeddus a pham maen nhw'n effeithiol.

Ar gyfer **2C.Rh3**: dylai dysgwyr werthuso eu cynllun datblygu gyrfa, gan gysylltu'r gwerthuso â'r cryfderau a'r meysydd ar gyfer datblygu a nodwyd. Gall dysgwyr fod wedi cwblhau rhannau o'r cynllun ac felly mewn sefyllfa i fyfyrion ar y camau gafodd eu cymryd. Dylai'r gwerthuso fod yn gytbwys ac wedi'i gyfiawnhau, a dylai ddangos sut y gallai cynlluniau datblygu gyrfa gael eu gwella.

Ar gyfer **2C.Rh4** : dylai dysgwyr werthuso effeithiolrwydd y targedau CAMPUS y maent wedi eu gosod. Dylai'r gwerthusiad ystyried pa mor gyraeddadwy yw'r targedau, a pha mor effeithiol maen nhw wedi bod, neu y byddan nhw, wrth ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd yr unigolyn.

Ar gyfer **1C.5**: dylai dysgwyr gynnal archwiliad sgiliau personol a nodi'r canlyniadau.

Ar gyfer **1C.6**: dylai dysgwyr nodi'r sgiliau cyflogadwyedd sydd angen eu datblygu mewn perthynas â rôl yn y gwasanaethau cyhoeddus. Bydd hyn yn gofyn iddynt adeiladu ar y dystiolaeth gafodd ei chynhyrchu ar gyfer 1C.5 gan nodi'r sgiliau sydd angen eu datblygu ar gyfer dewis o rôl mewn gwasanaeth cyhoeddus.

Ar gyfer **1C.7**: dylai dysgwyr gynhyrchu cynllun datblygu gyrfa sylfaenol ar gyfer rôl benodol mewn gwasanaeth cyhoeddus. Dylid cael ymdrechion i bersonoli'r cynllun i gyd-fynd â chanlyniadau eu harchwiliad sgiliau a chymhwyso hyn o rôl yn y gwasanaethau cyhoeddus.

Awgrymiadau ar gyfer aseiniadau

Mae'r tabl isod yn dangos rhaglen o amlinelliadau aseiniadau posibl sy'n cwmpasu'r meini prawf asesu. Arweiniad yw hwn, ac awgrymir bod canolfannau naill ai'n ysgrifennu eu haseiniadau eu hunain neu'n addasu unrhyw aseiniadau y byddwn ni'n eu darparu i gwrdd ag anghenion ac adnoddau lleol.

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Senario	Tystiolaeth asesu
1A.1, 1A.2, 2A.LI1, 2A.LI2, 2A.T1, 2A.Rh1	<p>Rydych wedi cychwyn lleoliad profiad gwaith gydag adran adnoddau dynol eich awdurdod lleol. Fel rhan o'r secondiad rydych wedi cael cyfarwyddyd i edrych ar sgiliau cyflogadwyedd a pham eu bod yn bwysig i gyflogwyr. Maen nhw wedi gofyn i chi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • baratoi poster sy'n disgrifio sgiliau personol a rhai cyflogadwyedd eraill (gwnewch yn siŵr fod y poster yn cynnwys enghreifftiau) • cynhyrchu taflen sy'n disgrifio pam mae sgiliau cyflogadwyedd yn bwysig i gyflogwr yn y gwasanaethau cyhoeddus • paratoi cyflwyniad amlgyfrwng sy'n esbonio manteision sgiliau cyflogadwyedd effeithiol mewn dwy rôl wrthgyferbyniol yn y gwasanaethau cyhoeddus, a dadansoddi'r effaith y mae'r sgiliau'n eu cael ar y rolau. 	<p>Poster sy'n cynnwys amrywiaeth o sgiliau personol a rhai cyflogadwyedd yn cynnwys enghreifftiau o'r sgiliau hyn.</p> <p>Taflen yn dangos pam mae sgiliau cyflogadwyedd yn bwysig i gyflogwr gwasanaethau cyhoeddus.</p> <p>Cyflwyniad amlgyfrwng sy'n esbonio ac yn dadansoddi manteision ac effaith sgiliau cyflogadwyedd, yn cynnwys sleidiau a nodiadau'r cyflwyniad.</p> <p>Cofnod arsylwi wedi'i gwblhau, ei lofnodi a'i ddyddio gan yr aseswr yn dangos sut mae'r cyflwyniad wedi cwrdd â gofynion y meini prawf asesu.</p>

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Senario	Tystiolaeth asesu
1B.3, 1B.4, 2B.LI3, 2B.LI4, 2B.T2, 2B.T3, 2B.Rh2	<p>Yn dilyn ymlaen o'r dasg flaenorol, mae'ch darparydd lleoliad profiad gwaith wedi gofyn i chi baratoi deunyddiau all gael eu rhoi i ddarpar gyflogeion ar ffurf:</p> <ul style="list-style-type: none"> • llyfryn gwybodaeth sy'n cynnwys yr adrannau canlynol: <ul style="list-style-type: none"> ○ adran 1 – esbonio'r dulliau sy'n cael eu defnyddio gan eich cyflogwr a gwasanaeth cyhoeddus gwrthgyferbyniol i asesu sgiliau cyflogadwyedd ○ adran 2 – enghreifftiau o sut mae'r cyflogwyr yn asesu'r rhain fel rhan o'r broses recriwtio a dethol ○ adran 3 – sut gall darpar recriwtiaid ddangos sgiliau cyflogadwyedd yn ystod y broses recriwtio a dethol a pham mae hi'n bwysig eu bod yn gwneud hyn. 	<p>Llyfryn gwybodaeth gyda'r tair adran a nodwyd.</p> <p>Dylai tystiolaeth ddangos amrywiaeth o ddulliau y mae cyflogwyr y gwasanaethau cyhoeddus yn eu defnyddio yn ystod y broses recriwtio a dethol i asesu sgiliau cyflogadwyedd, yn cynnwys dadansoddiad o'r dulliau hyn.</p> <p>Adran sy'n mynd drwy'r broses recriwtio a dethol yn dangos sut y gall recriwt arddangos sgiliau cyflogadwyedd, gan esbonio pwysigrwydd defnyddio'r dulliau priodol.</p> <p>Cyfiawnhad o'r dulliau gafodd eu defnyddio gan y cyflogwr a'r darpar recriwt.</p>

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Senario	Tystiolaeth asesu
<p>1C.5, 1C.6, 1C.7, 2C.LI5, 2C.LI6, 2C.LI7, 2C.T4, 2C.T5, 2C.Rh3, 2C.Rh4</p>	<p>Fel tasg olaf cyn i chi gwblhau'r lleoliad profiad gwaith, rydych wedi cael cais i roi tro ar becyn newydd sy'n caniatáu i ddarpar recriwtiaid baratoi ar gyfer eu cais. Er mwyn cwblhau hyn, mae angen i chi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gynnal archwiliad sgiliau personol ac yna gymryd rhan mewn trafodaeth gyda'ch arolygwr i ddisgrifio'r canlyniadau. (Bydd eich athro'n cymryd rôl yr arolygwr). Dylech fapio'r sgiliau hyn yn erbyn y rhai angenrheidiol ar gyfer rôl yn y gwasanaethau cyhoeddus • paratoi cyflwyniad amlgyfrwng sy'n disgrifio'r dulliau all gael eu defnyddio i ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd. Dylech ddadansoddi'r rhain mewn perthynas â rôl yn y gwasanaethau cyhoeddus • cynhyrchu cynllun datblygu gyrfa personol sy'n ystyried y cryfderau a'r gwendidau a nodwyd yn yr archwiliad sgiliau, a hefyd y dulliau all gael eu defnyddio i ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd. Dylai hyn gynnwys targedau CAMPUS • llunio adroddiad sy'n gwerthuso cynllun datblygu gyrfa personol mewn perthynas â chanlyniadau'r archwiliad sgiliau, a hefyd effeithiolrwydd y targedau CAMPUS. 	<p>Nodiadau trafodaethau mewn perthynas â chanlyniad yr archwiliad sgiliau personol.</p> <p>Cofnod arsylwi a recordiad o'r gweithgaredd trafod.</p> <p>Cyflwyniad a nodiadau amlgyfrwng, gyda'r record arsylwi, yn dangos sut mae'r dulliau all gael eu defnyddio i ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd yn cysylltu â rôl yn y gwasanaethau cyhoeddus.</p> <p>Cynllun datblygu gyrfa personol wedi'i gwblhau, yn cynnwys targedau CAMPUS.</p> <p>Adroddiad sy'n gwerthuso'r dystiolaeth gafodd ei chynhyrchu ar gyfer y dasg mewn perthynas â'r cynllun datblygu gyrfa ac effeithiolrwydd y targedau CAMPUS.</p>

Uned 17: Paratoi i Ymateb i Ddigwyddiadau Brys

Lefel: 1 a 2

Math o uned: **Dewisol arbenigol**

Oriau dysgu dan arweiniad: **60**

Dull asesu: **Mewnol**

Cyflwyniad i'r uned

Sawl gwaith ydych chi wedi gweld gwasanaethau brys yn ymateb i ddigwyddiadau? Efallai y byddwch yn clywed y seiren neu'n gweld y goleuadau, ond ydych chi erioed wedi meddwl sut mae'r timau'n paratoi i ymateb i ddigwyddiadau? Ydych chi'n ymwybodol bod llawer o'r rhai sydd ynghlwm wrth hyn heb fod yn wasanaethau golau glas?

Mae llawer o wasanaethau cyhoeddus yn delio gydag achosion brys yn rheolaidd fel rhan o'u rôl. Bydd yr uned hon yn edrych ar rôl y gwasanaeth tân ac achub, yr heddlu, y gwasanaeth ambiwlans a gwasanaethau statudol ac anstatudol eraill yn paratoi i ymateb i ddigwyddiadau brys.

Yn yr uned hon byddwch yn archwilio cysyniad digwyddiadau brys, sy'n cynnwys damweiniau, eu hachosion, sut y gallant gael eu hatal a sut mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn delio â nhw. Byddwch yn ymchwilio i amrywiaeth o ddigwyddiadau, yn cynnwys tanau.

Byddwch hefyd yn edrych ar gamau cyntaf ymatebion brys, yn cynnwys ymchwilio i sut mae staff mewn canolfannau galw gwasanaethau cyhoeddus neu ystafelloedd rheoli yn delio gyda sefyllfaoedd brys. Byddwch yn adolygu sut y mae digwyddiadau'n cael eu dosbarthu a'u prosesu.

Mae digwyddiadau brys yn niferus ac yn anodd eu categorio, ac fel rhan o'r uned hon byddwch yn edrych ar sut mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn gwneud hyn, a sut maen nhw'n sicrhau eu bod mor barod â phosibl i ddelio gyda'r amrywiaeth eang o ddigwyddiadau all godi.

Yn olaf, byddwch yn cael y cyfle i gymhwyso eich gwybodaeth drwy ymchwilio i sut mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio yn ystod digwyddiadau brys.

Nodau dysgu

Yn yr uned hon byddwch yn:

- A archwilio achosion digwyddiadau brys
- B deall sut mae digwyddiadau brys yn cael eu categorio
- C deall sut mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn paratoi ar gyfer digwyddiadau brys, yn ymateb iddynt ac yn eu hatal.

Nodau dysgu a chynnwys yr uned

Beth sydd angen ei ddysgu

Nod dysgu A: Archwilio achosion digwyddiadau brys

Testun A.1 Mathau o ddigwyddiadau brys

Mae digwyddiadau'n amrywiol o ran eu natur. Rhaid i wasanaeth cyhoeddus ddelio gydag amrywiaeth o'r rhain yn cynnwys:

- digwyddiadau ar raddfa fawr, yn cynnwys:
 - ymosodiadau terfysgol, e.e. bygythiadau bomiau
 - llifogydd a stormydd, e.e. stormydd Rhagfyr 2013 yn y DU
 - tanau diwydiannol, e.e. tân purfa olew Buncefield
 - digwyddiadau mawr ar y ffyrdd, e.e. damwain yr M5 ym mis Tachwedd 2011
- digwyddiadau ar raddfa lai, yn cynnwys:
 - tanau domestig, e.e. tanau mewn tai, tanau mewn gerddi
 - digwyddiadau domestig, e.e. llithro neu gwympo, llosgi neu sgaldio, torri esgyrn
 - damweiniau hamdden, e.e. anafiadau chwaraeon, gwrthdrawiadau a digwyddiadau wrth yrru.

Testun A.2 Effaith digwyddiadau brys

Gall digwyddiadau ar raddfa fawr a rhai ar raddfa fach effeithio ar y rhai sy'n rhan ohonynt, rhai sy'n dystion iddynt, y gymuned leol a'r amgylchedd ehangach. Mae effeithiau'n cynnwys:

- digwyddiadau ar raddfa fawr:
 - anafedigion o ganlyniad uniongyrchol i'r digwyddiad
 - amharu ar drafnidiaeth, e.e. tagfeydd traffig, cludiant cyhoeddus yn cael ei atal, cynnydd mewn camau diogelwch oherwydd bygythiad sy'n achosi oedi
 - gall mynediad i adnoddau arbenigol achosi oedi yn yr ymateb, gan achosi aflonyddwch i'r gymuned ehangach
 - gall cemegion peryglus achosi aflonyddwch a llygredd
 - effeithiau tymor hir, e.e. perygl o lifogydd pellach, difrod i'r isadeiledd trafnidiaeth
- digwyddiadau ar raddfa fach:
 - anafiadau personol neu farwolaeth
 - trawma a straen wedi trawma
 - effaith ar deulu a ffrindiau
 - effaith ariannol, e.e. cynnydd mewn costau yswiriant, colli enillion,

Testun A.3 Achosion damweiniau a digwyddiadau

Mae gan ddamweiniau a digwyddiadau lawer o achosion gwahanol, a gellir eu categoreiddio mewn pedwar prif faes yn cynnwys:

- achosion naturiol, e.e. daeargrynfeydd, echdoriadau llosgfynyddoedd, llifogydd
- digwyddiadau gelyniaethus, e.e. terfysgaeth, rhyfeloedd cartref
- technolegol, e.e. damweiniau awyren, allyriadau ymbelydredd
- yn gysylltiedig â iechyd ac epidemigau/pandemigau, e.e. ffliw adar, ffliw moch.

Mae beth dylech chi wybod am danau'n cynnwys:

- cemeg hyllogi
- triongl dadansoddi tanau.

Beth sydd angen ei ddysgu**Nod dysgu B: Deall sut mae digwyddiadau bryg yn cael eu categoreiddio****Testun B.1 Sut mae'r gwasanaethau bryg yn categoreiddio digwyddiadau**

Mae gan y tri phrif wasanaeth bryg isod (golau glas) ddulliau wedi'u sefydlu i gategoreiddio digwyddiadau bryg gydag amseroedd ymateb penodol ar gyfer pob categori:

- gwasanaeth bryg yr heddlu
- gwasanaeth tân ac achub
- gwasanaeth ambiwlans.

Mae rôl canolfan alwadau'r gwasanaeth bryg yn dynodi categori ymateb i ddigwyddiadau bryg yn cynnwys:

- rôl y person sy'n trafod yr alwad, e.e.
 - cyfarwyddo'r gwasanaethau bryg i ddelio gyda'r digwyddiad
 - galwadau uniongyrchol, heb fod yn rhai bryg, i'r asiantaeth neu'r rhif priodol
 - monitro cynnydd drwy gadw cysylltiad gyda'r tîm
 - sicrhau defnydd effeithiol o adnoddau
 - sicrhau bod safonau amser ymateb yn cael eu cwrdd
 - sicrhau cyfathrebu rheolaidd gyda gwasanaethau drwy gyfrwng ffôn, radio neu gyfrifiadur
 - sicrhau bod adnoddau eraill ar gael ar gyfer digwyddiadau eraill
- rôl y rheolwr digwyddiadau, e.e.:
 - cysylltu gyda gwasanaethau eraill
 - cysylltu gyda'r awdurdod lleol
 - cysylltu gyda chwmnïau gwasanaethau
 - cysylltu gyda chlydiant lleol
 - cysylltu gydag asiantaethau gwirfoddol
 - cysylltu gydag Asiantaeth yr Amgylchedd
 - darparu ymateb effeithiol ac effeithlon i'r digwyddiad
- ymagweddau/cytundebau rhyngasiantaethol, e.e.:
 - terminoleg gyffredin
 - defnydd cyson o symbolau rhwng gwasanaethau ac asiantaethau
 - arwyddion galw i adnabod adnoddau perthnasol
 - rhychwantau rheolaeth clir
 - adnabod bod pob gwasanaeth yn cadw awdurdod a rheolaeth dros ei bersonél.

Beth sydd angen ei ddysgu**Nod dysgu C: Deall sut mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn paratoi ar gyfer digwyddiadau brys, yn ymateb iddynt ac yn eu hatal****Testun C.1 Gwasanaethau sydd ynghlwm wrth baratoi i ymateb i ddigwyddiadau brys**

Mae llawer o sefydliadau ynghlwm wrth gynllunio a pharatoi ar gyfer digwyddiadau brys, gan ddibynnu ar y math o ddigwyddiadau y mae angen paratoadau ar eu cyfer.

Mae'r dyletswyddau hyn yn cael eu rhannu'n ymatebwyr categori 1 a chategori 2.

Mae sefydliadau categori 1 yn greiddiol i'r ymateb i'r rhan fwyaf o ddigwyddiadau brys (y gwasanaethau brys, awdurdodau lleol, cyrff y GIG). Mae gofyn i ymatebwyr categori 1:

- asesu'r risg bod digwyddiadau brys yn digwydd a defnyddio hyn i hysbysu cynllunio wrth gefn
- rhoi cynlluniau brys yn eu lle
- rhoi trefniadau rheoli dilyniant busnes yn eu lle
- bod â gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd am faterion gwarchod sifil
- rhannu gwybodaeth gydag ymatebwyr eraill
- cydweithio gydag ymatebwyr lleol eraill
- darparu cyngor a chymorth i fusnesau a sefydliadau gwirfoddol.

Mae sefydliadau categori 2 (e.e. yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a Chwmnïau Cludiant a Gwasanaethau) yn 'gyrff sy'n cydweithredu'.

Maen nhw'n llai tebygol o fod yn cymryd rhan mewn paratoi i ymateb, ond byddant yn cymryd rhan mewn digwyddiadau sy'n effeithio ar eu sector eu hunain.

Mae gofyn i ymatebwyr categori 2:

- gydweithio a rhannu gwybodaeth berthnasol gydag ymatebwyr eraill categori 1 a 2.

Daw sefydliadau categori 1 a 2 at ei gilydd i ffurfio 'fforymau gwydnwch lleol', fydd yn helpu cydlyniant a chydweithrediad rhwng ymatebwyr ar y lefel lleol.

Mae gan bob un o'r gwasanaethau brys rolau wedi'u diffinio sy'n cynnwys:

- yr heddlu:
 - amddiffyn bywyd ac eiddo
 - cydlynu'r ymateb amlasiantaethol
 - amddiffyn a gwarchod y lleoliad ac ymchwilio i'r digwyddiad.
 - atal troseddau ac anhrefn
 - coladu a lledaenu gwybodaeth am anafedigion
- gwasanaeth tân ac achub:
 - achub bywydau
 - gwarchod eiddo
 - gwarchod yr amgylchedd
 - darparu cymorth i gefnogi cymunedau lleol
- ambiwlans:
 - achub bywydau ac atal dioddef pellach
 - hwyluso brysbennu cleifion
 - darparu triniaeth i anafedigion a chludiant i'r cyfleuster mwyaf priodol
 - cydlynu'r holl adnoddau iechyd sy'n cefnogi'r digwyddiad

parhad

Beth sydd angen ei ddysgu

- asiantaethau statudol eraill, e.e.:
 - awdurdodau lleol, e.e. darparu llety brys, cynnal darpariaeth gwasanaethau
 - GIG, e.e. delio gydag anafedigion, darparu gofal iechyd
 - Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, e.e. isafu effaith amgylcheddol drwy ddarparu gwybodaeth ac adnoddau
 - lluoedd arfog, e.e. darparu cymorth milwrol i'r gymuned sifil megis llenwi bagiau tywod rhag llifogydd
- asiantaethau eraill sydd ynghlwm, e.e.:
 - y Groes Goch (cefnogaeth cymorth cyntaf i'r GIG)
 - Cymorth i Ddiodefwyr (yn darparu cefnogaeth emosiynol ac ymarferol i ddiodefwyr)
 - Rhwydwaith Frys Amaturiaid Radio (RAYNET) (cynnal cyfathrebiadau radio mewn achosion o golli pŵer)
 - crwner (adnabod rhai wedi marw)
 - Byddin yr Iachawdwriaeth (darparu cefnogaeth foesol ac ymarferol, bwyd a llety)
 - timoedd achub mynydd ac ogofeydd (chwilio ac achub)
 - gwasanaethau (cynnal darpariaeth gwasanaethau sylfaenol megis dŵr, nwy a thrydan)
 - grwpiau rhyng-ffydd (darparu cefnogaeth foesol).

Testun C.2 Dulliau sy'n cael eu defnyddio i atal digwyddiadau brys

Mae llawer o asiantaethau'n cymryd rhan yn yr ymdrech i leihau'r nifer o ddigwyddiadau, yn cynnwys:

- yr heddlu, e.e. tawelu traffig, gwiriadau cyflymder ochr y ffordd, gwiriadau cerbydau
- awdurdod lleol, e.e. cynnal a chadw ffyrdd, addysg gymunedol
- gwasanaethau tân ac achub, e.e. asesiadau risg tân yn y cartref, gosod canfodyddion mwg
- ymgyrchoedd y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau, e.e. diogelwch llinynnau bleindiau, gatiâu trydan, nosweithiau goleuach, gyrwyr ifanc.

Mae amrediad o ddeddfwriaeth yn ei le i atal digwyddiadau a damweiniau, e.e.:

- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974
- Deddf Rhagofalon Tân (1971)
- Rheoliadau Rhagofalon Tân (y Gweithle) 1997, diwygiwyd 1999.

Mae dulliau eraill all gael eu defnyddio i atal damweiniau a digwyddiadau yn cynnwys:

- piben godi gwlyb a sych
- diffoddwyr
- canfodyddion mwg ac ysgeintellau
- systemau cemegol
- deialwyr sain.

parhad

Beth sydd angen ei ddysgu**Testun C.3 Dulliau sy'n cael eu defnyddio wrth baratoi i ymateb i ddigwyddiadau brys**

Wrth baratoi i ymateb i ddigwyddiadau, bydd gwasanaethau cyhoeddus yn defnyddio amrywiaeth o dulliau, yn cynnwys:

- senarios top bwrdd, e.e. gollyngiad cemegion/tanwydd, damwain awyren/trên, tân mewn adeilad
- ystyriaethau wrth baratoi i ymateb i senarios, e.e. achos y digwyddiad, asiantaethau sy'n debygol o ymateb, adnoddau all fod eu hangen, cyfrifoldebau penodol i asiantaethau
- adnabod cyfrifoldebau ar ôl digwyddiadau, e.e. adrodd yn ôl gan bob asiantaeth, adolygu gweithdrefnau ymateb, ôl-ofal dioddefwyr, clirio a gwerthuso amgylcheddol
- cymryd rhan mewn fforymau gwydnwch lleol, e.e.
 - crynhoi proffiliau risg
 - ymatebion wedi'u cynllunio gan ymatebwyr categori 1
 - cynlluniau amlasiantaethol.

Meini prawf asesu

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
Nod dysgu A: Archwilio achosion digwyddiadau brys			
1A.1 Amlinellu, gydag enghreifftiau, gwahanol fathau o ddigwyddiadau. #	2A.LI1 Disgrifio un digwyddiad brys ar raddfa fawr ac un ar raddfa fach. #	2A.T1 Cymharu effaith dau ddigwyddiad brys gwrthgyferbyniol. #	2A.Rh1 Dadansoddi achos ac effaith dau ddigwyddiad brys gwrthgyferbyniol ar y gymuned, yr amgylchedd a'r rhai oedd yn rhan o'r digwyddiadau. #
1A.2 Amlinellu, gan ddefnyddio enghreifftiau, achos y gwahanol fathau o ddigwyddiadau.	2A.LI2 Esbonio achos un digwyddiad brys ar raddfa fawr ac un ar raddfa fach. #		
Nod dysgu B: Deall sut mae digwyddiadau brys yn cael eu categorio			
1B.3 Disgrifio sut mae gwasanaethau brys yn categorio un digwyddiad ar raddfa fawr ac un ar raddfa fach. #	2B.LI3 Esbonio sut mae dau wasanaeth brys yn categorio un digwyddiad ar raddfa fawr ac un ar raddfa fach. #	2B.T2 Cymharu'r dulliau sy'n cael eu defnyddio gan ddau wasanaeth brys i categorio digwyddiadau. #	2B.Rh2 Gwerthuso'r dulliau a'r ymagweddau y mae gwasanaethau brys yn eu defnyddio i categorio digwyddiadau brys. #
1B.4 Amlinellu rôl y rhai sy'n trafod y galwadau wrth gymryd galwad frys.	2B.LI4 Disgrifio rôl y rhai sy'n trafod y galwadau mewn un digwyddiad brys ar raddfa fawr ac un ar raddfa fach.	2B.T3 Esbonio'r ymagweddau rhyngasiantaeth sy'n cael eu defnyddio gan y rhai sy'n trafod galwadau.	

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
Nod dysgu C: Deall sut mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn paratoi ar gyfer digwyddiadau brys, yn ymateb iddynt ac yn eu hatal			
1C.5 Adnabod rôl y gwasanaethau sydd ynghlwm wrth ymateb i ddigwyddiad brys.	2C.LI5 Esbonio rôl y gwasanaethau sydd ynghlwm wrth ymateb i ddigwyddiad brys.	2C.T4 Dadansoddi'r ddeddfwriaeth a'r dulliau sy'n cael eu defnyddio gan y gwasanaethau cyhoeddus i atal digwyddiadau. #	2C.Rh3 Gwerthuso rôl y gwasanaethau cyhoeddus yn atal digwyddiadau.
1C.6 Amlinellu'r dulliau sy'n cael eu defnyddio gan ddau wasanaeth cyhoeddus i atal digwyddiadau.	2C.LI6 Disgrifio'r ddeddfwriaeth a'r dulliau sy'n cael eu defnyddio gan y gwasanaethau cyhoeddus i atal digwyddiadau.		
1C.7 Adnabod sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn paratoi i ymateb i un digwyddiad brys ar raddfa fawr ac un ar raddfa fach.	2C.LI7 Disgrifio sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn paratoi i ymateb i un digwyddiad brys ar raddfa fawr ac un ar raddfa fach.	2C.T5 Esbonio sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd i ymateb i un digwyddiad brys ar raddfa fawr ac un ar raddfa fach.	2C.Rh4 Gwerthuso manteision ac anfanteision defnyddio senarios wrth baratoi ymatebion gwasanaethau cyhoeddus i ddigwyddiadau.

*Cyfle i asesu sgiliau mathemategol

#Cyfle i asesu sgiliau Cymraeg

Arweiniad i athrawon

Adnoddau

Nid oes angen unrhyw adnoddau arbennig ar gyfer yr uned hon.

Canllaw asesu

Mae'r uned hon yn cael ei hasesu'n fewnol gan y ganolfan a'i dilysu'n allanol gan Pearson. Darllenwch y canllaw hwn ochr yn ochr ag *Adran 8: Asesu mewnlol*.

Nod dysgu A

Dylai dysgwyr gael y cyfle i archwilio amrywiaeth o ddamweiniau neu ddigwyddiadau er mwyn dewis digwyddiadau priodol i'w defnyddio at ddibenion asesu. Mae'n bwysig bod dysgwyr yn cael eu harwain i ddewis digwyddiadau priodol fydd yn darparu digon o fanylion iddynt ddarparu tystiolaeth ar gyfer pob maen prawf asesu yn y nod dysgu.

Ar gyfer **2A.LI1**: Dylai dysgwyr ddewis dau ddigwyddiad brys gwrthgyferbyniol i'w defnyddio at ddibenion asesu. O fewn y maen prawf hwn, dylai'r term 'gwrthgyferbyniol' gael ei gymryd i feddwl un digwyddiad penodol ar raddfa fawr ac un digwyddiad penodol ar raddfa fach. Bydd hyn yn galluogi dysgwyr i arddangos eu dealltwriaeth yn llawn. Dylai'r dystiolaeth ddisgrifio'r digwyddiadau, yn cynnwys nodi'r gwasanaethau cyhoeddus sydd ynghlwm, amcan o nifer yr anafedigion ac unrhyw effeithiau ar yr ardal o gwmpas y digwyddiad.

Ar gyfer **2A.LI2**: gall dysgwyr gysylltu eu tystiolaeth i'r hyn a gynhyrchwyd ar gyfer 2A.LI1, gan esbonio achos y ddwy ddamwain neu ddigwyddiad a ddisgrifiwyd. Dylai dysgwyr ddewis y categori priodol ar gyfer achos y digwyddiad fel sy'n cael ei nodi yn yr adran 'Beth mae angen i chi ddysgu', ac yna datblygu hyn ymhellach drwy ddefnyddio enghreifftiau wedi'u cymryd o wybodaeth y gwnaethpwyd ymchwil iddi am y digwyddiad i gefnogi eu hesboniad. Dylai dysgwyr wedyn ddangos sut y gwnaeth y ffactorau achosi'r digwyddiad.

Ar gyfer **2A.T1**: mae angen i ddysgwyr gymharu effaith y ddau ddigwyddiad gafodd eu defnyddio ar gyfer 2A.LI1 a 2A.LI2. Dylai dysgwyr ganfod y tebygrwydd a'r gwahaniaethau yn yr effeithiau, gan ddefnyddio enghreifftiau i gefnogi eu canfyddiadau.

Ar gyfer **2A.Rh1**: mae angen i ddysgwyr ddadansoddi'r ddau ddigwyddiad, gan ddangos eu bod wedi ystyried yr holl ffactorau cyfrannol mewn perthynas ag achos y digwyddiad, a hefyd yr effeithiau yn yr ystyr ehangach, yn cynnwys ar y rhai sy'n rhan o'r digwyddiad, y gymuned a'r amgylchedd, lle mae hynny'n briodol.

Ar gyfer **1A.1**: dylai dysgwyr amlinellu'r gwahanol fathau o ddigwyddiad. Dylai dysgwyr gynhyrchu tystiolaeth sy'n dangos gwybodaeth o beth yw digwyddiadau ar raddfa fawr a rhai ar raddfa fach.

Ar gyfer **1A.2**: dylai dysgwyr amlinellu achosion gwahanol fathau o ddigwyddiad. Dylai'r dystiolaeth gysylltu gyda'r hyn gafodd ei chynhyrchu ar gyfer 1A.1 gyda dysgwyr yn rhoi disgrifiad sylfaenol o achosion y digwyddiadau.

Nod dysgu B

Mae'r nod dysgu hwn yn gofyn i ddysgwyr ystyried categoreiddiad digwyddiadau. Mae'n bwysig bod dysgwyr yn cael y cyfle i edrych ar sut mae amrywiaeth o wasanaethau'n gwneud hyn, a gall y dystiolaeth gael ei chefnogi gan y defnydd o

ymweliadau neu siaradwyr gwadd i ddarparu manylion all wedyn gael eu defnyddio mewn briff asesu. Os caiff hyn ei ddefnyddio, mae'n bwysig bod unrhyw dystiolaeth gaiff ei chynhyrchu'n cael ei chefnogi gan dystiolaeth tyst neu gofnodion arsylwi.

Ar gyfer **2B.LI3**: mae angen i ddysgwyr esbonio sut mae dau wasanaeth brys yn categoreiddio un digwyddiad brys ar raddfa fawr ac un ar raddfa fach. Gallai'r dystiolaeth gysylltu â'r digwyddiadau gafodd eu defnyddio yn nod dysgu A, ond nid yw hynny'n ofynnol. Dylai dysgwyr gefnogi eu tystiolaeth gydag enghreifftiau o ddigwyddiadau y mae'r gwasanaeth brys yn eu categoreiddio. Felly, er enghraifft, os ydyn nhw'n cwmpasu'r pum risg sy'n cael eu categoreiddio gan y gwasanaeth tân ac achub, ynghyd â'r dystiolaeth i ddangos sut y maen nhw'n cael eu categoreiddio, byddai dysgwyr yn rhoi enghraifft o ddigwyddiad sy'n dod o fewn y categori hwnnw. Dylai'r dystiolaeth hefyd gynnwys yr amseroedd ymateb ar gyfer pob categori.

Ar gyfer **2B.LI4**: dylai dysgwyr ddisgrifio rôl y personél sy'n trafod yr alwad frys ar gyfer un digwyddiad brys ar raddfa fawr ac un ar raddfa fach. Dylai'r dystiolaeth ddangos beth mae'r person sy'n trafod galwadau'n ei wneud fel sy'n cael ei nodi yn yr adran 'Beth sydd angen ei ddysgu'. Dylent hefyd ddisgrifio sut mae rheolwr y digwyddiad yn arolygu'r person sy'n trafod yr alwad, ac ar ba gam y gallai fod yn gyfrifol am y cydgysylltu ar gyfer y digwyddiad.

Ar gyfer **2B.T2**: mae angen i ddysgwyr gymharu'r dulliau sy'n cael eu defnyddio gan ddau wasanaeth cyhoeddus i gatedoreiddio digwyddiadau. Dylent ystyried y gwahaniaethau mewn ymagwedd, er enghraifft mae'r gwasanaeth tân ac achub yn cymryd ymagwedd seiliedig ar risg i gatedoreiddio, sy'n wahanol i'r ymagwedd sy'n cael ei chymryd gan yr heddlu. Dylai'r gymhariaeth gael ei chefnogi gan enghreifftiau.

Ar gyfer **2B.T3**: dylai dysgwyr gynhyrchu tystiolaeth sy'n esbonio sut mae personél sy'n trafod galwadau yn gweithio gydag asiantaethau eraill i ddarparu ymateb effeithiol i ddigwyddiadau brys. Mae'n bwysig bod dysgwyr yn cael eu harwain i ddewis digwyddiadau priodol i'w galluogi i ddangos y lefel o ddealltwriaeth sy'n angenrheidiol, gan fod y maen prawf hwn yn galw ar ddysgwyr i gymhwyso eu gwybodaeth i ddigwyddiad ar raddfa fawr sy'n gofyn am ymateb amlasiantaethol, gan ganiatáu iddynt felly esbonio sut mae rheolwr y digwyddiad yn cydgysylltu â'r asiantaethau eraill. Dylai dysgwyr ei gwneud hi'n glir yn eu tystiolaeth fod y person sy'n trafod yr alwad wedi gwneud y penderfyniad ynghylch pa gatedoreiddio i'w ddewis, a beth yw'r ffactorau sy'n dylanwadu mewn perthynas â phob digwyddiad.

Ar gyfer **2B.Rh2**: mae angen i ddysgwyr werthuso'r dulliau a'r ymagweddau mae'r gwasanaethau brys yn eu defnyddio i gatedoreiddio digwyddiadau brys. Dylai'r dystiolaeth ystyried y systemau sy'n cael eu defnyddio gan y prif wasanaethau brys (golau glas), ac yna ddarparu gwerthusiad cytbwys o'r rhain, yn dangos y cryfderau a'r meysydd allai gael eu datblygu. Er enghraifft, gallai dysgwyr nodi'r ffaith bod y person sy'n trafod yr alwad yn gwneud y penderfyniad drwy wybodaeth a gasglwyd gan y person sy'n ffonio a sut y gall hyn ddylanwadu ar y gatedoreiddio ac felly ar yr amser ymateb i'r digwyddiad. Dylai'r dystiolaeth sy'n cael ei chynhyrchu fod wedi'i chyfiawnhau a'i chefnogi drwy ddefnyddio enghreifftiau, a dylai gael ei dwyn at ei gilydd i ffurfio casgliad. Dylai dysgwyr ystyried cryfderau a gwendidau'r dulliau a'r ymagweddau y maent wedi gwneud ymchwil iddynt, a defnyddio eu canfyddiadau i benderfynu pa mor dda y mae'r dulliau a'r ymagweddau'n categoreiddio'r digwyddiadau brys.

Ar gyfer **1B.3** : dylai dysgwyr ddisgrifio sut mae gwasanaethau brys yn categoreiddio digwyddiadau, gydag enghreifftiau cyfyngedig yn unig. Efallai mai dim ond gwybodaeth gyfyngedig fydd wedi cael ei ddarparu gan y dysgwr ynghylch sut mae gwahanol wasanaethau'n categoreiddio digwyddiadau.

Ar gyfer **1B.4**: mae dysgwyr yn amlinellu rôl y personél sy'n trafod galwadau, gan gymhwyso hyn i ddelio â galwad frys. Gall fod cymhwyso cyfyngedig, ac efallai y byddant wedi ffocysu ar un rôl, er enghraifft, rhywun sy'n trafod galwadau ac nid y rheolwr digwyddiadau.

Nod dysgu C

Mae'r nod dysgu hwn yn galw ar ddysgwyr y gymhwyso'r wybodaeth a gafwyd yn nodau dysgu A a B i ddigwyddiadau brys. Dylai dysgwyr gael y cyfle, cyn ymgymryd â'r gweithgareddau asesu, i ddatblygu eu dealltwriaeth drwy archwilio astudiaethau achos, a'r defnydd o siaradwyr gwadd ac ymweliadau â gwasanaethau cyhoeddus i weld sut maen nhw'n paratoi i ymateb i ddamweiniau a digwyddiadau.

Ar gyfer **2C.LI5**: dylai dysgwyr gynhyrchu tystiolaeth sy'n esbonio rôl y gwasanaethau sydd ynghlwm wrth ymateb i ddigwyddiadau brys. Dylai'r dystiolaeth ddangos yr amrywiaeth o wasanaethau yn cynnwys y gwasanaethau brys (golau glas), y gwasanaethau eraill a hefyd y gwasanaethau gwirfoddol/trydydd sector sy'n cael eu cynnwys yn yr ymatebion. Dylai'r dystiolaeth roi enghreifftiau o ddigwyddiadau sy'n cynnwys y gwahanol wasanaethau cyhoeddus.

Ar gyfer **2C.LI6**: mae angen i ddysgwyr ddisgrifio'r dulliau sy'n cael eu defnyddio i atal digwyddiadau. Rhaid i ddysgwyr gwmpasu amrywiaeth o dulliau sy'n cael eu defnyddio gan y gwasanaethau i hyrwyddo diogelwch ac felly atal digwyddiadau. Dylent hefyd ystyried y ddeddfwriaeth gyfredol sydd yn ei lle i gefnogi atal digwyddiadau. Mae'r ddeddfwriaeth a nodir yn 'Beth sydd angen ei ddysgu' yn ddangosol, a thbyr y bydd unrhyw ddeddfwriaeth ddilynol neu ymarfer wedi'i ddiweddarau yn cael eu haddysgu.

Ar gyfer **2C.LI7**: dylai dysgwyr gynhyrchu tystiolaeth sy'n disgrifio sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn paratoi i ymateb i un digwyddiad brys ar raddfa fawr ac un ar raddfa fach. Gallai tystiolaeth ar gyfer hyn ddangos sut y byddai'r gwasanaethau'n ymateb i senario dychmygol. Os caiff y dull hwn ei ddefnyddio mae'n bwysig bod dysgwyr yn cael digon o fanylion i ganiatáu iddynt dargedu pob un o'r meini prawf cysylltiedig. Dylai tystiolaeth ystyried y gwahanol dulliau sy'n cael eu defnyddio, fel sy'n cael eu nodi yn 'Beth mae angen i chi ddysgu' gan ddangos sut mae pob dull yn cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau cyhoeddus i baratoi ar gyfer ymateb, er enghraifft gallai senarios pen bwrdd gael eu defnyddio ar gyfer ymatebion gwasanaethau unigol a gallai senarios chwarae rôl gael eu defnyddio ar gyfer ymatebion amlasiantaethol.

Ar gyfer **2C.T4**: dylai dysgwyr ddadansoddi'r dulliau a'r ddeddfwriaeth i ddangos effeithiolrwydd neu ddiffyg effeithiolrwydd y dulliau. Dylai dysgwyr ddangos sut mae'r dull wedi arwain, neu beidio, at leihad yn nifer y digwyddiadau gafodd eu targedu, a dylai'r dystiolaeth a gynhyrchwyd gynnwys digon o enghreifftiau a thystiolaeth ystadegol lle mae hynny'n briodol. Dylai'r dadansoddiad gynnwys casgliad i grynhoi'r canfyddiadau.

Ar gyfer **2C.T5**: dylai dysgwyr esbonio sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd i ymateb i un digwyddiad brys ar raddfa fawr ac un ar raddfa fach. Dylai dysgwyr dynnu ynghyd y dysgu sydd wedi digwydd drwy gydol y nod dysgu hwn a'i gymhwyso i'r astudiaeth achos, gan ddangos rolau'r gwasanaethau sy'n mynychu drwy gymhwyso hyn i'r ddau ddigwyddiad. Mae'n bwysig bod digon o fanylion yn cael eu darparu yn yr astudiaeth achos i ganiatáu i ddysgwyr gwrdd â gofynion y maen prawf.

Ar gyfer **2C.Rh3**: mae angen i ddysgwyr werthuso rôl gwasanaethau cyhoeddus wrth atal damweiniau a digwyddiadau. Dylai tystiolaeth ar gyfer hyn ymestyn yr hyn a gynhyrchwyd ar gyfer 2C.T4, gyda dysgwyr yn ystyried pob dull, yn dangos y cryfderau a'r gwendidau mewn perthynas ag effeithiolrwydd a sut y gallent gael eu gwella. Dylai'r gwerthusiad cyffredinol fod yn gytbwys, wedi'i gefnogi gan dystiolaeth gan ddiweddu gyda chrynodeb wedi'i gyfiawnhau.

Ar gyfer **2C.Rh4**: dylai dysgwyr gynhyrchu tystiolaeth sy'n gwerthuso manteision ac anfanteision defnyddio senarios wrth baratoi ymatebion gwasanaethau cyhoeddus i ddigwyddiadau. Dylent ystyried y dystiolaeth gafodd ei chynhyrchu ar gyfer 2C.LI7 a 2C.T5 a gwerthuso rôl y senarios wrth baratoi i ymateb i ddigwyddiadau. Dylai dysgwyr ystyried yr effeithiolrwydd fel yr esboniwyd yn 2C.T5 a dangos manteision ac anfanteision defnyddio senarios i gynllunio ymateb. Dylai'r dystiolaeth fod yn gynhwysfawr gan ffocysu ar sut mae senarios yn cael eu defnyddio gan y gwasanaethau cyhoeddus.

Ar gyfer **1C.5**: Dylai dysgwyr adnabod y gwasanaethau sydd ynghlwm wrth ymateb i ddigwyddiad brys. Fel arall, efallai mai dim ond gwybodaeth gryno y bydd dysgwyr wedi ei darparu mewn perthynas â phob math o wasanaeth sy'n ymateb (brys, arall a gwirfoddol).

Ar gyfer **1C.6**: dylai dysgwyr amlinellu dulliau sy'n cael eu defnyddio gan ddau wasanaeth cyhoeddus i atal digwyddiadau. Efallai mai dim ond yn gryno y bydd dysgwyr wedi disgrifio'r dulliau sy'n cael eu defnyddio ac efallai mai prin fydd yr enghreifftiau.

Ar gyfer **1C.7**: dylai dysgwyr adnabod sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn paratoi i ymateb i un digwyddiad brys ar raddfa fawr ac un ar raddfa fach. Efallai mai cryno fydd yr wybodaeth a ddarperir ac mai prin fydd y trafod ar ddigwyddiadau.

Awgrymiadau ar gyfer aseiniadau

Mae'r tabl isod yn dangos rhaglen o amlinelliadau aseiniadau posibl sy'n cwmpasu'r meini prawf asesu. Arweiniad yw hwn, ac awgrymir bod canolfannau naill ai'n ysgrifennu eu haseiniadau eu hunain neu'n addasu unrhyw aseiniadau y byddwn ni'n darparu i gwrdd ag anghenion ac adnoddau lleol.

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Senario	Tystiolaeth asesu
1A.1, 1A.2, 2A.LI1, 2A.LI2, 2A.T1, 2A.Rh1	<p>Rydych yn gweithio gyda'r awdurdod lleol yn trefnu sioe deithiol fydd yn mynd o gwmpas yr ysgolion uwchradd lleol i ddangos sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn ymateb i ddigwyddiadau brys. Y dasg gyntaf mae arweinydd y tîm wedi'i rhoi i chi yw paratoi cyflwyniad amlgyfrwng all gael ei ddefnyddio i ddangos y mathau o ddigwyddiadau yr ymatebir iddyn nhw. Er mwyn cwblhau hyn rhaid i chi gynnwys deunydd sy'n dangos:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. disgrifiad o un digwyddiad ar raddfa fawr ac un ar raddfa fach, yn cynnwys y gwasanaethau sy'n mynychu ac effaith y digwyddiad ar y rhai sy'n rhan ohono, a'r gymuned o'i gwmpas 2. esboniad o achos pob un o'r digwyddiadau 2. cymhariaeth a dadansoddiad o achos ac effaith y ddau ddigwyddiad. 	<ul style="list-style-type: none"> • cyflwyniad amlgyfrwng sy'n dangos: <ul style="list-style-type: none"> ○ disgrifiad o un digwyddiad ar raddfa fawr ac un ar raddfa fach ○ tystiolaeth yn esbonio achos y ddau ddigwyddiad ○ cymariaethau a gwerthusiad o achos ac effaith y ddau ddigwyddiad. • Nodiadau cefnogi'r cyflwyniad. • Cofnod arsylwi wedi'i gwblhau gan yr aseswr.

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Senario	Tystiolaeth asesu
<p>1B.3, 1B.4, 2B.LI3, 2B.LI4, 2B.T2, 2B.T3, 2B.Rh2</p>	<p>Yn dilyn ymlaen o'ch cyflwyniad, rydych wedi cael y dasg o gwblhau llyfryn gwybodaeth sy'n dangos sut mae gwasanaethau brys yn categoreiddio digwyddiadau. Rhaid i'ch llyfryn gynnwys yr adrannau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> ● adran 1 – esboniad o sut mae dau wasanaeth brys yn categoreiddio digwyddiadau, gydag enghraifft o ddigwyddiad ym mhob categori, gan gymharu'r dulliau sy'n cael eu defnyddio gan y ddau wasanaeth ● adran 2 – disgrifiad o rôl y rhai sy'n trafod y galwadau a rheolwyr digwyddiadau, gan esbonio'r ymagweddau amlasiantaeth sy'n cael eu defnyddio mewn digwyddiadau ar raddfa fawr ● adran 3 – gwerthusiad o sut mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn categoreiddio digwyddiadau neu ddamweiniau. 	<p>Llyfryn gwybodaeth yn cynnwys y tair adran fel sy'n cael ei osod allan yn y dasg:</p> <ul style="list-style-type: none"> ● adran 1 – esboniad o sut mae dau wasanaeth brys yn categoreiddio digwyddiadau, gydag enghraifft o ddigwyddiad ym mhob categori, gan gymharu'r dulliau sy'n cael eu defnyddio gan y ddau wasanaeth ● adran 2 – disgrifiad o rôl y rhai sy'n trafod y galwadau a rheolwyr digwyddiadau, gan esbonio'r ymagweddau amlasiantaeth sy'n cael eu defnyddio mewn digwyddiadau ar raddfa fawr ● adran 3 – gwerthusiad o sut mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn categoreiddio digwyddiadau neu ddamweiniau.

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Senario	Tystiolaeth asesu
1C.5, 1C.6, 1C.7, 2C.LI5, 2C.LI6, 2C.LI7, 2C.T4, 2C.T5, 2C.Rh3, 2C.Rh4	<p>Eich tasg olaf fel rhan o'r tîm datblygu yw rhoi cyfres o adnoddau at ei gilydd fydd yn gallu dangos sut mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn paratoi i ymateb i ddigwyddiadau. Mae'r adnoddau'n cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • poster yn esbonio'r gwasanaethau sy'n cymryd rhan mewn ymateb i ddigwyddiadau • taflen yn disgrifio'r dulliau a'r ddeddfwriaeth sy'n bodoli i atal damweiniau a digwyddiadau, sy'n cynnwys dadansoddiad o ba mor effeithiol yw'r rhain • podlediad o ymarferiad chwarae rôl lle rydych yn arddangos sut mae gwasanaethau'n paratoi i ymateb drwy ddefnyddio senarios o ddigwyddiadau, esbonio sut mae'r senarios yn cael eu defnyddio gan y gwasanaethau cyhoeddus • adroddiad sy'n gwerthuso'r rôl mae gwasanaethau cyhoeddus yn ei chwarae yn atal damweiniau a digwyddiadau, a hefyd rôl y senarios yn paratoi ymatebion i ddigwyddiadau. 	<p>Adnoddau sioe deithiol yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • poster yn esbonio'r gwasanaethau sy'n cymryd rhan • taflen yn disgrifio dulliau a deddfwriaeth atal • podlediad o ymarferiad chwarae rôl • cofnod arsylwi wedi'i gwblhau gan yr aseswr yn ystod yr ymarferiad podledu • adroddiad gwerthuso.

Uned 18: Gweithdrefnau Diogelwch yn y Gwasanaethau Cyhoeddus

Lefel: **1 a 2**

Math o uned: **Dewisol arbenigol**

Oriau dysgu dan arweiniad: **60**

Dull asesu : **Mewnol**

Cyflwyniad i'r uned

Ydych chi erioed wedi meddwl pa mor ddiogel ydych chi? Pa fygythiadau i ddiogelwch sydd o'ch cwmpas y mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn delio â nhw yn ddyddiol? Neu ydych chi erioed wedi ystyried pa fath o fygythiadau allai'r rhain fod a pha strategaethau mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn eu defnyddio i'w lleihau.

Yn Uned 4: Gwasanaethau Cyhoeddus a Gwarchod y Gymuned fe welsom fod tua chwarter yr holl bobl sy'n gweithio yn y DU yn gweithio yn y gwasanaethau cyhoeddus. Mae hyn yn golygu y gallech chi fod yn rhan o'r gweithdrefnau diogelwch sy'n cael eu defnyddio gan y gwasanaethau cyhoeddus. Bydd gwybod beth ydyn nhw a sut i ddelio â nhw felly yn eich rhoi un cam ar y blaen.

Yn yr uned hon byddwch yn archwilio amrywiaeth o fygythiadau diogelwch ac yn edrych ar y canlyniadau y gallent eu cael ar bobl, eiddo ac adeiladau. Byddwch yn datblygu dealltwriaeth o brif swyddogaethau'r rhai sy'n cymryd rhan mewn dyletswyddau diogelwch y gwasanaethau cyhoeddus. Byddwch hefyd yn edrych ar y prif fathau o atal troseddu sefyllfaol a sut y mae hyn yn cael ei ddefnyddio i gynnal diogelwch pobl, eiddo ac adeiladau.

Bydd yr uned hon yn rhoi cyfle i chi gynnal chwiliad person yn ogystal â sicrhau eich bod yn cynnal eich chwiliad mewn modd trylwyr, systematig, diogel a chyfreithiol gan ystyried cynllunio chwiliadau ymlaen llaw a'r canlyniadau.

Nodau dysgu

Yn yr uned hon byddwch yn:

- A deall rôl y gwasanaethau cyhoeddus a'u personél i gynnal diogelwch pobl, eiddo ac adeiladau
- B gwybod am y mathau o fesurau diogelwch sy'n helpu dulliau atal troseddu, i gynnal diogelwch ffisegol pobl, eiddo ac adeiladau.
- C cynnal efelychiadau o chwiliadau diogelwch ar bobl, eiddo ac adeiladau mewn ffordd drylwyr, systematig, diogel a chyfreithiol.

Nodau dysgu a chynnwys yr uned

Beth sydd angen ei ddysgu

Nod dysgu A: Deall rôl y gwasanaethau cyhoeddus a'u personél i gynnal diogelwch pobl, eiddo ac adeiladau

Testun A.1 Bygythiadau a risgiau o ran diogelwch i bobl, eiddo ac adeiladau

Mae gwasanaethau cyhoeddus yn ymateb i amrywiaeth o fygythiadau a risgiau i ddiogelwch er mwyn lleihau effaith y rhain ar bobl, eiddo ac adeiladau. Mae'r gwahanol fathau o fygythiadau i ddiogelwch yn cynnwys:

- terfysgaeth
- troseddau yn erbyn eiddo megis byrgleriaeth, dwyn, cynnau tân yn fwriadol a difrod troseddol
- difrod masnachol
- twyll
- troseddau yn erbyn pobl megis ymosod, ymddygiad bygythiol, dwyn oddi ar berson a lladrad.

Testun A.2 Pwrpas gwasanaethau cyhoeddus a gweithwyr gwasanaethau cyhoeddus

Mae gwaith diogelwch o fewn y gwasanaethau cyhoeddus yn cael ei wneud gan bersonél o bob adran o'r gwasanaethau cyhoeddus a drafodwyd yn flaenorol (e.e. gwasanaethau brys (golau glas), lluoedd arfog, awdurdodau lleol, llywodraeth ganolog, sector gwirfoddol/trydydd sector, gyda'r bwriad o:

- gwarchod bywyd
- gwarchod eiddo ac adeiladau
- atal colled a gwastraff
- atal a chanfod trosedd.

Testun A.3 Canlyniadau methiant mewn diogelwch

Un o brif gyfrifoldebau/rolau'r gwasanaethau cyhoeddus yw lleihau'r nifer o fygythiadau a risgiau i ddiogelwch, a chyfyngu ar yr effaith pan fydd diogelwch yn methu bod yn effeithiol. Mae canlyniadau methiant mewn diogelwch yn cynnwys:

- colli bywyd
- anaf i berson
- difrod i eiddo ac adeiladau
- colli'r defnydd o gyfleusterau ac amwynderau oherwydd dwyn neu ddifrod
- colli hyder cwsmeriaid yn y sefydliad
- colli incwm i weithgareddau masnachol.

Testun A.4 Y math o nodweddion a sgiliau personol sy'n ofynnol ar gyfer pobl sy'n gweithio mewn diogelwch yn y gwasanaethau cyhoeddus

Mae personél diogelwch yn aml yn delio gyda chwsmertiaid mewn amgylchiadau anodd, felly mae gofyn i'r rhai sy'n cael eu cyflogi mewn rolau diogelwch feddu ar nodweddion personol priodol megis:

- cwrteisi a moesgarwch
- bod yn gyfrifol ac yn effro
- tact a doethineb
- cydweithrediad a gonestrwydd
- bod yn hawdd mynd atynt ac yn ddibynadwy.

parhad

Beth sydd angen ei ddysgu**Testun A.5 Sut mae diogelwch yn cael ei gynnal gan bersonél diogelwch drwy eu rolau a'u cyfrifoldebau**

Mae cynnal diogelwch gan bersonél diogelwch yn cael ei gyflawni mewn amryw o ffyrdd, yn cynnwys:

- patrolio adeiladau, e.e. patrôl symudol ar droed, amllder, hyd, patrwm y patrôl (diogelwch nos, diogelwch dydd, patrôl perimedr, patrôl mewnol)
- terfyn cyfrifoldeb
- gwirio pobl
- cydymffurfio â rheoliadau iechyd a diogelwch
- gweithdrefnau, e.e. cadw cofnodion, gweithio CCTV, cloi adeiladau.

Testun A.6 Rôl gwasanaethau cyhoeddus yn cynnal diogelwch

Mae cynnal diogelwch yn rôl allweddol o fewn cyd-destun ehangach y gwasanaeth cyhoeddus. Cafodd llawer o hyn ei drafod yn *Uned 1: Rôl a Gwaith y Gwasanaethau Cyhoeddus* ond yn fwy penodol:

- gwasanaethau amddiffyn, e.e. amddiffyn ein gwlad, gwarchod yn erbyn bygythiadau i ddiogelwch
- gwarchodaeth gymunedol, e.e. gwarchod cymunedau yn erbyn bygythiadau i ddiogelwch
- asiantaethau cyfiawnder a ffiniau, e.e. cadw carcharorion yn ddiogel, monitro ymfudo.

Beth sydd angen ei ddysgu**Nod dysgu B: Gwybod am y mathau o fesurau diogelwch sy'n helpu dulliau atal troseddu, i gynnal diogelwch ffisegol pobl, eiddo ac adeiladau****Testun B.1 Mathau o fesurau diogelwch**

Mae mesurau diogelwch yn hanfodol wrth gynnal diogelwch ffisegol pobl, eiddo ac adeiladau. Mae yna wahanol fathau o fesurau diogelwch sefyllfaol, yn cynnwys:

- ffensio ar hyd y terfyn
- goleuadau
- cloeon ar ddrysau a ffenestri
- gweithdrefnau rheoli allweddol
- patrolio adeiladau yn gorfforol
- gwyliadwriaeth CCTV.

Testun B.2 Mesurau rheoli mynd i mewn a dod allan

Mae'r defnydd o weithdrefnau rheoli mynd i mewn a dod allan yn elfen allweddol o ddiogelwch sefyllfaol wrth gynnal diogelwch ffisegol pobl, eiddo ac adeiladau. Y prif ffyrdd y mae hyn yn cael ei wneud yw drwy edrych ar:

- y rhesymau dros gael system rheoli mynediad, e.e. sicrhau mynediad am resymau cyfreithlon
- cadw cofnodion mynd i mewn a dod allan, e.e. personél, ymwelwyr, contractwyr
- i'w defnyddio mewn argyfwng
- prif fathau o systemau adnabod (ID) electronig, e.e. cardiau a bysellbadiau electronig, systemau sganio (iris, cledr llaw ac olion bysedd)
- prif fathau o systemau adnabod heb fod yn electronig e.e. pasys llun, llofnodion, systemau rheoli ac adrodd a'r ddogfennaeth sy'n cael ei defnyddio, e.e. cofnodion mynd i mewn a dod allan amser real, cwblhau llyfrau ymwelwyr, hysbysiadau o apwyntiadau ymwelwyr
- systemau rheoli, e.e. adrodd am gardiau adnabod ar goll, gwirio niferoedd y personél mewn adeiladau, cyhoeddi pasys, dychwelyd pasys, datgelu troseddau.

Testun B.3 Sut mae diogelwch ffisegol pobl, eiddo ac adeiladau'n cael ei gynnal

Mae'r strategaethau sy'n cael eu trafod ym Mhwnc B.1 a Phwnc B.2 i gyd wedi eu dylunio i gynnal diogelwch. Mae'r prif ffyrdd y caiff y rhain eu cyflawni wedi eu hamlinellu isod.

- Mae cael amrywiaeth o fesurau diogelwch yn atal troseddu posibl, e.e. ffensys i ddringo drostynt, goleuadau sy'n gwneud hi'n fwy anodd i ymyrwyr beidio â chael eu gweld, cloeon sy'n ei gwneud hi'n fwy anodd agor ac nad oes modd eu hagar yn gyflym, patrolau rheolaidd sy'n golygu bod terfyn ar yr amser pryd y gallai trosedd ddigwydd, CCTV sy'n golygu y byddai modd adnabod troseddwr.
- Mae defnyddio amrywiaeth o fesurau rheoli mynd i mewn a dod allan yn rhwystro troseddu posibl drwy wneud mynediad i eiddo ac adeiladau'n fwy anodd, e.e. herio rhywun heb gerdyn adnabod, methu mynd i mewn i ardaloedd oherwydd y mesurau rheoli, defnyddio llyfrau ymwelwyr er mwyn gallu rhoi cyfrif am bob ymwelydd.

Beth sydd angen ei ddysgu**Nod dysgu C: Cynnal efelychiadau o chwiliadau diogelwch ar bobl, eiddo ac adeiladau mewn ffordd drylwyr, systematig, diogel a chyfreithiol****Testun C.1 Rhesymau dros gynnal chwiliadau ar bobl, eiddo ac adeiladau**

Mae chwiliadau'n cael eu cynnal gan amrywiaeth o bersonél y gwasanaethau cyhoeddus ar bobl, eiddo ac adeiladau fel teclyn i gynnal diogelwch, i gasglu tystiolaeth ac i rwystro troseddau. Y prif resymau yw:

- dod o hyd i eitemau gwaharddedig
- dod o hyd i eiddo sydd wedi'i ddwyn
- gwarchod pobl, eu heiddo a'u hadeiladau
- rhwystro gweithgarwch anghyfreithlon.

Testun C.2 Gweithdrefnau ar gyfer chwilio pobl, eiddo ac adeiladau

Rhaid i weithdrefnau chwilio gael eu cwblhau'n gywir i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â hawliau cyfreithiol a dynol. Felly mae'r gweithdrefnau canlynol yn allweddol i wneud chwiliadau:

- paratoi a chynllunio
- deialog gyda'r person, e.e. cael caniatâd i chwilio
- cyfyngiadau cyfreithiol chwilio
- defnyddio tystion
- dogfennaeth a ddefnyddir i gofnodi'r chwiliad
- ymddygiad y person sy'n chwilio
- dulliau chwilio, e.e. offer
- ymateb i ddod o hyd i rywbeth
- gofynion cyfrinachedd
- iechyd a diogelwch.

Testun C.3 Cyfyngiadau ar chwilio

- Wrth gwblhau chwiliadau, mae angen cymryd amrywiaeth o gyfyngiadau i ystyriaeth er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn cael ei gwblhau'n gywir, yn cynnwys:
- moeseg, e.e. anghenion unigolion a chymunedau
- parch at hil
- parch at anghenion diwylliannol
- ystyriaethau dros bobl ag anableddau meddyliol a chorfforol
- hawliau dynol
- parch at eiddo pobl eraill
- cyfyngiadau unrhyw ddogfennaeth gyfreithiol (h.y. gwarant chwilio) wrth gwblhau'r chwiliad.

Meini prawf asesu

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
Nod dysgu A: Deall rôl y gwasanaethau cyhoeddus a'u personél i gynnal diogelwch pobl, eiddo ac adeiladau			
1A.1 Nodi enghreifftiau o wahanol fathau o fygythiadau i ddiogelwch mewn perthynas â diogelwch pobl, eiddo ac adeiladau. #	2A.LI1 Disgrifio enghreifftiau o wahanol fathau o fygythiadau i ddiogelwch a chanlyniadau'r rhain i bobl, eiddo ac adeiladau. #	2A.T1 Trafod, gydag enghreifftiau, y gwahanol fathau o fygythiadau i ddiogelwch a chanlyniadau'r bygythiadau hyn i ddiogelwch pobl, eiddo ac adeiladau. #	2A.Rh1 Gwerthuso sut mae cyflogeion o ddau wasanaeth cyhoeddus gwahanol yn cwrdd â'u rôl yn cynnal ac amddiffyn diogelwch pobl, eiddo ac adeiladau.
1A.2 Nodi pwrpas dau wasanaeth cyhoeddus gwahanol yn cynnal diogelwch pobl, eiddo ac adeiladau.	2A.LI2 Esbonio pwrpas dau wasanaeth cyhoeddus gwahanol yn cynnal diogelwch pobl, eiddo ac adeiladau. #	2A.T2 Cymharu sut mae pwrpas, nodweddion, rolau a chyfrifoldebau dau weithiwr diogelwch gwahanol yn cefnogi'r gwasanaethau cyhoeddus i gwrdd â'u rôl. #	
1A.3 Amlinellu nodweddion, rolau a chyfrifoldebau dau weithiwr diogelwch yn y gwasanaethau cyhoeddus. #	2A.LI3 Disgrifio nodweddion, rolau a chyfrifoldebau dau weithiwr diogelwch gwahanol yn y gwasanaethau cyhoeddus.		

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
Nod dysgu B: Gwybod am y mathau o fesurau diogelwch sy'n helpu dulliau atal troseddu, i gynnal diogelwch ffisegol pobl, eiddo ac adeiladau			
1B.4 Nodi sut mae gwahanol fathau o ddulliau atal troseddu a mesurau rheoli mynd i mewn ac allan yn cael eu defnyddio mewn dau senario a roddwyd i gynnal diogelwch pobl, eiddo ac adeiladau. #	2B.LI4 Disgrifio sut mae gwahanol fathau o ddulliau atal troseddu a mesurau rheoli mynd i mewn ac allan yn cael eu defnyddio i gynnal diogelwch pobl, eiddo ac adeiladau mewn dau senario a roddwyd. #	2B.T3 Cymharu dulliau atal troseddu, mesurau rheoli mynd i mewn ac allan a'u cyfraniad tuag at gynnal diogelwch pobl, eiddo ac adeiladau mewn dau senario a roddwyd. #	2B.Rh2 Cyfiawnhau sut mae dulliau atal troseddu, mesurau rheoli mynd i mewn ac allan yn cyfrannu tuag at effeithiolrwydd cyffredinol cynnal diogelwch pobl, eiddo ac adeiladau mewn dau senario a roddwyd. #

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
Nod dysgu C: Cynnal efelychiadau o chwiliadau diogelwch ar bobl, eiddo ac adeiladau mewn ffordd drylwyr, systematig, diogel a chyfreithiol			
1C.5 Amlinellu chwiliadau diogelwch sy'n cael eu defnyddio gan weithwyr diogelwch yn y gwasanaethau cyhoeddus.	2C.LI5 Esbonio pam mae chwiliadau diogelwch yn cael eu defnyddio gan weithwyr diogelwch yn y gwasanaethau cyhoeddus. #	2C.T4 Trafod y gweithdrefnau a'r dulliau chwilio sy'n cael eu defnyddio ar gyfer y chwiliadau diogelwch gafodd eu cynnal, ac unrhyw gyfyngiadau all fod yn berthnasol. #	2C.Rh3 Cyfiawnhau'r defnydd o weithdrefnau chwilio ar gyfer chwilio pobl, eiddo ac adeiladau gan gymryd i ystyriaeth ddiogelwch, y gyfraith a chyfyngiadau eraill. #
1C.6 Amlinellu'r cyfyngiadau all fod yn berthnasol i chwiliad diogelwch penodol.	2C.LI6 Disgrifio'r defnydd o gyfyngiadau all fod yn berthnasol i chwiliad diogelwch penodol.		
1C.7 Arddangos chwiliad person gan ddilyn gweithdrefnau set, gan ddefnyddio dull sy'n ddiogel ac yn gyfreithlon.	2C.LI7 Arddangos chwiliad person yn gywir gan ddilyn gweithdrefnau set, gan ddefnyddio dull sy'n drylwyr, yn systematig, yn ddiogel ac yn gyfreithlon.		
1C.8 Arddangos chwiliad eiddo neu adeilad gan ddilyn gweithdrefnau set, gan ddefnyddio dull sy'n ddiogel ac yn gyfreithlon.	2C.LI8 Arddangos chwiliad eiddo neu adeilad gan ddilyn gweithdrefnau penodol yn gywir, gan ddefnyddio dull sy'n drylwyr, yn systematig, yn ddiogel ac yn gyfreithlon.		

*Cyfle i asesu sgiliau mathemategol

#Cyfle i asesu sgiliau Cymraeg

Arweiniad i athrawon

Adnoddau

Nid oes angen unrhyw adnoddau arbennig ar gyfer yr uned hon.

Canllaw asesu

Mae'r uned hon yn cael ei hasesu'n fewnol gan y ganolfan a'i dilysu'n allanol gan Pearson. Darllenwch y canllaw hwn ochr yn ochr ag *Adran 8: Asesu mewnl*.

Rhaid i offerynnau asesu a ddyluniwyd gynhyrchu tystiolaeth sy'n ddilys ac yn unigol. Rhaid i'r offerynnau hyn fod yn addas i'r pwrpas fel teclyn i fesur dysgu yn erbyn y cynnwys a ddiffiniwyd a'r meini prawf asesu. Lle mae gwaith grŵp wedi digwydd, rhaid nodi cyfraniad yr unigolyn yn cynnwys nodiadau i ddangos gwaith paratoi unigol a gwaith i gwrdd â'r meini prawf asesu.

Wrth gyfeirio at y sector gwasanaethau cyhoeddus, mae hyn yn cynnwys yr holl sefydliadau o fewn gwasanaethau cyhoeddus, ond yn benodol i'r rhai a nodwyd yn *Uned 1: Rôl a Gwaith y Gwasanaethau Cyhoeddus*.

Wrth ddarparu tystiolaeth ar gyfer yr uned hon, rhaid i ddysgwyr ddangos fod ganddynt ddealltwriaeth o pam mae gwasanaethau cyhoeddus yn ceisio cynnal diogelwch a sut mae hyn yn cael ei gyflawni gan ddefnyddio personél gyda sgiliau priodol, mesurau atal troseddu sefyllfaol a chwiliadau person priodol.

Nod dysgu A

Ar gyfer **2A.LI1**: mae angen i ddysgwyr ddisgrifio enghreifftiau o wahanol fathau o fygythiadau i ddiogelwch a chanlyniadau'r rhain i bobl, eiddo ac adeiladau. Gallai dysgwyr gyfweid amrywiaeth o bersonél gwasanaethau cyhoeddus fyddai'n gallu dweud wrthynt am y bygythiadau i ddiogelwch sy'n eu hwynebu yn eu rôl a'r canlyniadau pan fydd diogelwch yn methu. Gallai enghreifftiau gael eu darparu ar gyfer pob un o'r mathau o fygythiadau i ddiogelwch a nodwyd yn y cynnwys.

Ar gyfer **2A.LI2**: mae angen i ddysgwyr esbonio pwrpas dau wasanaeth cyhoeddus gwahanol yn cynnal diogelwch pobl, eiddo ac adeiladau. Mae hyn yn edrych ar gyddestun ehangach y gwasanaethau cyhoeddus a gallai tystiolaeth gael ei chasglu drwy gyfrwng trafodaethau gyda phersonél gwasanaethau cyhoeddus neu'r defnydd o astudiaethau achos i ganiatáu i ddysgwyr ennill gwybodaeth fanwl ynghylch sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn cynnal diogelwch pobl, eiddo ac adeiladau.

Ar gyfer **2A.LI3**: mae angen i ddysgwyr ddisgrifio nodweddion, rolau a chyfrifoldebau dau weithiwr diogelwch gwahanol yn y gwasanaethau cyhoeddus. Dylent sicrhau bod yr esboniad wedi'i gefnogi gan enghreifftiau perthnasol. Dylai tystiolaeth ddangos trosolwg cyffredinol o nodweddion, rolau a chyfrifoldebau'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y gwasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol. Gall tystiolaeth ar gyfer y maen prawf hwn ddod o ddadansoddi astudiaeth achos, neu yn dilyn ymweliad gan siaradwr gwadd neu ymweliad â gwasanaeth cyhoeddus.

Ar gyfer **2A.T1**: rhaid i ddysgwyr drafod, gydag enghreifftiau, y gwahanol fathau o fygythiadau i ddiogelwch a chanlyniadau'r bygythiadau hyn i ddiogelwch pobl, eiddo ac adeiladau. Gallai dysgwyr edrych ar nifer o astudiaethau achos i'w helpu i gael dealltwriaeth ddyfnach o ganlyniadau methiannau mewn diogelwch ac esbonio'r rhain o fewn eu gwaith. Rhaid i ddysgwyr drafod o leiaf dri bygythiad i ddiogelwch.

Ar gyfer **2A.T2**: rhaid i ddysgwyr gymharu sut mae pwrpas, nodweddion, rolau a chyfrifoldebau dau weithiwr diogelwch gwahanol yn cefnogi'r gwasanaethau cyhoeddus i gwrdd â'u rôl. Bydd angen i ddysgwyr gwblhau ymchwiliadau i sut mae gwaith gweithwyr diogelwch yn cyd-fynd â chyd-destun ehangach y gwasanaethau cyhoeddus a sut mae hyn yn cyfrannu tuag at eu rôl gyffredinol. Bydd dysgwyr yn gallu tynnu ar eu gwybodaeth am rôl gwasanaethau cyhoeddus a gafwyd yn ystod *Uned 1: Rôl a Gwaith y Gwasanaethau Cyhoeddus*.

Ar gyfer **2A.Rh1**: rhaid i ddysgwyr werthuso sut mae cyflog o ddau wasanaeth cyhoeddus gwahanol yn cwrdd â'u rôl yn cynnal ac amddiffyn diogelwch pobl, eiddo ac adeiladau, gydag enghreifftiau. Gall astudiaethau achos gael eu defnyddio a gallai dysgwyr hefyd gwblhau peth ymchwil annibynnol. Mae yna hefyd bosibilrwydd o gael cefnogaeth gan y gwasanaeth heddlu lleol, all fod yn gallu helpu gyda diwrnod hyfforddi seiliedig ar senario er mwyn hwyluso dysgu.

Ar gyfer **1A.1**: mae angen i ddysgwyr nodi enghreifftiau o wahanol fathau o fygythiadau i ddiogelwch yn erbyn pobl, eiddo ac adeiladau ar gyfer pob un o'r bygythiadau i ddiogelwch sydd wedi eu rhestru yn y cynnwys.

Ar gyfer **1A.2**: mae angen i ddysgwyr nodi pwrpas dau wasanaeth cyhoeddus gwahanol yn cynnal diogelwch pobl, eiddo ac adeiladau. Gallent gyflwyno'r wybodaeth hon, er enghraifft, ar ffurf poster.

Ar gyfer **1A.3**: mae angen i ddysgwyr amlinellu nodweddion, rolau a chyfrifoldebau dau weithiwr diogelwch gwahanol yn y gwasanaethau cyhoeddus. Gallent gyflwyno'r wybodaeth hon, er enghraifft, ar ffurf poster.

Nod dysgu B

Ar gyfer **2B.LI4**: rhaid i ddysgwyr ddisgrifio sut mae gwahanol fathau o ddulliau atal troseddu a mesurau rheoli mynd i mewn ac allan o safle yn cael eu defnyddio mewn dau senario a roddwyd i gynnal diogelwch pobl, eiddo ac adeiladau. Rhaid i ddysgwyr gasglu gwybodaeth am y mathau o fesurau diogelwch sy'n cael eu cynnwys o fewn mesurau atal troseddu a rheolau mynd i mewn a dod allan. Dylai tystiolaeth ddangos trosolwg eang o'r mesurau diogelwch a gallai ddod drwy ddadansoddi astudiaethau achos, ac yn dilyn ymweliad gan siaradwr gwadd neu ymweliad â gwasanaeth cyhoeddus.

Ar gyfer **2B.T3**: rhaid i ddysgwyr gymharu dulliau atal troseddu, mesurau rheoli mynd i mewn ac allan a'u cyfraniad tuag at gynnal diogelwch pobl, eiddo ac adeiladau mewn dau senario a roddwyd. Bydd hyn yn caniatáu iddynt weld sut mae pob un yn cyfrannu tuag at gynnal diogelwch pobl, eiddo ac adeiladau. Mae angen i'r dystiolaeth roi cyfle i ddysgwyr arddangos dyfnder eu gwybodaeth a gallai hyn gael ei wneud drwy ddefnyddio dadansoddiadau astudiaethau achos pellach ac ymchwil annibynnol.

Ar gyfer **2B.Rh2**: rhaid i ddysgwyr gyfiawnhau sut mae dulliau atal troseddu, mesurau rheoli mynd i mewn ac allan yn cyfrannu tuag at effeithiolrwydd cyffredinol cynnal diogelwch pobl, eiddo ac adeiladau mewn dau senario a roddwyd. Mae angen i ddysgwyr roi rhesymau pam mae pob math o fesur diogelwch yn briodol a sut mae'n cyfrannu tuag at effeithiolrwydd cyffredinol cynnal diogelwch pobl, eiddo ac adeiladau.

Ar gyfer **1B.4**: rhaid i ddysgwyr nodi sut mae gwahanol fathau o ddulliau atal troseddu a mesurau rheoli mynd i mewn ac allan yn cael eu defnyddio mewn dau senario a roddwyd i gynnal diogelwch pobl, eiddo ac adeiladau. Rhaid i ddysgwyr gasglu gwybodaeth am y mathau o fesurau diogelwch sy'n cael eu cynnwys o fewn mesurau atal troseddu a rheolau mynd i mewn a dod allan. Dylai tystiolaeth ddangos gwybodaeth gyfyngedig o'r mesurau diogelwch a gallai gael ei chynhyrchu fel taflen.

Nod dysgu C

Ar gyfer **2C.LI5**: rhaid i ddysgwyr esbonio pam mae gweithwyr diogelwch yn y gwasanaethau cyhoeddus yn defnyddio chwiliadau diogelwch. Mae'n bwysig bod dysgwyr yn cael eu hannog i ymchwilio i'r rhesymau pam mae gweithwyr diogelwch yn 'chwilio person'. Gallai hyn fod yn asesiad ymarferol lle mae dysgwr yn cymryd rhan mewn trafodaethau grŵp. Byddai hyn yn rhoi'r cyfle i ddysgwyr ddangos dyfnder eu gwybodaeth yn ogystal â'u gallu i gyflwyno tystiolaeth lafar i gefnogi eu canfyddiadau.

Ar gyfer **2C.LI6**: bydd dysgwyr yn disgrifio'r defnydd o gyfyngiadau all fod yn berthnasol i chwiliad diogelwch penodol. Dylai hyn gynnwys amrywiaeth o wahanol fathau o gyfyngiadau y gallai gweithiwr diogelwch eu hwynebu wrth wneud chwiliad diogelwch. Gallai hyn gael ei ymgorffori yn rhan o'r asesiad ymarferol a drafodwyd uchod.

Os bydd y math hwn o asesu'n cael ei ddefnyddio ar gyfer 2C.LI5 a 2C.LI6, dylai tystiolaeth fideo a/neu gofnodion tystion neu arsylwi gael eu defnyddio i gefnogi dyfarnu'r maen prawf hwn. Mae hefyd yn bwysig sicrhau bod cyfraniadau unigol yn cael eu cofnodi.

Ar gyfer **2C.LI7**: rhaid i ddysgwyr arddangos chwiliad person yn gywir gan ddilyn gweithdrefnau set, gan ddefnyddio dull sy'n drylwyr, yn systematig, yn ddiogel ac yn gyfreithlon. Dylai hwn fod yn asesiad ymarferol gan roi cyfle i'r dysgwr arddangos techneg chwilio. Mae manylion techneg chwilio briodol i'w dilyn ar gael ar: www.justice.gov.uk.

Ar gyfer **2C.LI8**: rhaid i ddysgwyr arddangos chwiliad eiddo (h.y. eitem personol fel bag llaw) neu chwiliad adeilad (h.y. ystafell ddosbarth) gan ddefnyddio dull sy'n drylwyr, yn systematig, yn ddiogel ac yn gyfreithlon. Dylai hwn fod yn asesiad ymarferol gan roi cyfle i'r dysgwr arddangos techneg chwilio.

Ar gyfer **2C.LI7** a **2C.LI8**, mae'n bwysig iawn bod yr athro'n cael caniatâd gan y rhai sydd ynghlwm wrth y chwilio. Yn ogystal, dylai cofnod arsylwi o'r gweithgaredd hwn gael ei gwblhau gan sicrhau bod y chwiliad yn cynnwys holl elfennau gofynnol y maen prawf. Awgrymir cael tystiolaeth ychwanegol megis tystiolaeth fideo neu ffotograffig.

Ar gyfer **2C.T4**: rhaid i ddysgwyr drafod y gweithdrefnau a'r dulliau chwilio sy'n cael eu defnyddio ar gyfer y chwiliadau diogelwch gafodd eu cynnal, ac unrhyw gyfyngiadau all fod yn berthnasol. Mae angen i'r dystiolaeth roi cyfle i ddysgwyr arddangos dyfnder eu gwybodaeth a gellid gwneud hyn drwy ddefnyddio dadansoddiadau astudiaethau achos ac ymchwil annibynnol.

Ar gyfer **2C.Rh3**: rhaid i ddysgwyr gyfiawnhau'r defnydd o weithdrefnau chwilio ar gyfer chwilio pobl, eiddo ac adeiladau gan gymryd i ystyriaeth ddiogelwch, y gyfraith a chyfyngiadau eraill. Gellid cyflawni hwn fel estyniad i 2C.T4 gyda dysgwyr yn defnyddio amrywiaeth o astudiaethau achos i gyfiawnhau pam mae chwiliadau'n cael eu gwneud gan weithwyr diogelwch a phwysigrwydd sicrhau bod y chwiliadau hyn yn gyfreithlon. Gallai siaradwyr gwadd hefyd hwyluso'r dysgu yma i roi enghreifftiau go iawn o bryd mae chwilio wedi bod yn effeithiol.

Ar gyfer **1C.5**: rhaid i ddysgwyr amlinellu chwiliadau diogelwch sy'n cael eu defnyddio gan weithwyr diogelwch yn y gwasanaethau cyhoeddus. Gallai hyn fod yn asesiad ymarferol lle mae dysgwyr yn cymryd rhan mewn trafodaeth grŵp. Byddai hyn yn rhoi'r cyfle i ddysgwyr ddangos dyfnder eu gwybodaeth yn ogystal â'u gallu i gyflwyno tystiolaeth lafar i gefnogi eu canfyddiadau.

Os caiff yr arddull asesu hwn ei ddefnyddio, dylai tystiolaeth fideo a/neu dystion a chofnodion arsylwi gael eu defnyddio i gefnogi dyfarnu'r maen prawf. Mae hefyd yn bwysig sicrhau bod cyfraniadau unigol yn cael eu cofnodi.

Ar gyfer **1C.6**: rhaid i ddysgwyr amlinellu'r cyfyngiadau all fod yn berthnasol i chwiliad diogelwch penodol. Dylai hyn gynnwys o leiaf dri math gwahanol o gyfyngiadau y gallai gweithiwr diogelwch ei wynebu wrth berfformio chwiliad diogelwch.

Ar gyfer **1C.7**: rhaid i ddysgwyr arddangos chwiliad person gan ddilyn gweithdrefnau penodol, gan ddefnyddio dull sy'n ddiogel ac yn gyfreithlon. Dylai hwn fod yn asesiad ymarferol sy'n dangos fod dysgwyr yn gallu cwblhau'r chwiliad gan ddilyn gweithdrefnau a chanllawiau penodol sy'n cael eu rhoi gan yr athro.

Ar gyfer **1C.8**: rhaid i ddysgwyr arddangos chwiliad eiddo (h.y. eitem bersonol megis bag llaw) neu chwiliad adeilad (h.y. ystafell ddosbarth) gan ddefnyddio dull sy'n ddiogel ac yn gyfreithlon. Dylai hwn fod yn asesiad ymarferol sy'n dangos fod dysgwyr yn gallu cwblhau'r chwiliad gan ddilyn gweithdrefnau a chanllawiau penodol sy'n cael eu rhoi gan yr athro.

Ar gyfer **1C.7** ac **1C.8**, fel yr uchod, mae'n bwysig iawn bod yr athro'n cael caniatâd gan y rhai sydd ynghlwm wrth y chwilio. Dylai cofnod arsylwi o'r gweithgaredd hwn gael ei gwblhau gan sicrhau bod y chwiliad yn cynnwys pob elfen sy'n ofynnol yn y maen prawf. Awgrymir cael tystiolaeth ychwanegol megis tystiolaeth fideo neu ffotograffig.

Awgrymiadau ar gyfer aseiniadau

Mae'r tabl isod yn dangos rhaglen o amlinelliadau aseiniadau posibl sy'n cwmpasu'r meini prawf asesu. Arweiniad yw hwn, ac awgrymir bod canolfannau naill ai'n ysgrifennu eu haseiniadau eu hunain neu'n addasu unrhyw aseiniadau y byddwn ni'n eu darparu i gwrdd ag anghenion ac adnoddau lleol.

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Senario	Tystiolaeth asesu
1A.1, 1A.2, 1A.3, 2A.LI1, 2A.LI2, 2A.LI3, 2A.T1, 2A.T2, 2A.Rh1	<p>Mae swyddfa heddlu lleol yn cynnal ymgyrch ymwybyddiaeth diogelwch ac wedi gofyn i chi ddylunio cyflwyniad i'w ddangos yn ystod y digwyddiad. Dylai'r cyflwyniad ddangos:</p> <ul style="list-style-type: none"> • pwrpas dau wasanaeth cyhoeddus gwahanol a sut y maen nhw'n gyfrifol am gynnal diogelwch pobl, eiddo ac adeiladau • sut mae gweithwyr diogelwch mewn dau wasanaeth cyhoeddus gwahanol yn cymharu, gan gyfeirio at eu hamcanion, eu nodweddion, eu rolau a'u cyfrifoldebau • sut mae rôl gweithwyr diogelwch yn cyfrannu tuag at amcan sefydliadol pob gwasanaeth cyhoeddus i gynnal diogelwch pobl, eiddo ac adeiladau • sut mae gwahanol fygythiadau i ddiogelwch yn bygwth diogelwch pobl, eiddo ac adeiladau. 	<p>Cyflwyniad sy'n edrych yn fanwl ar amrywiaeth o fygythiadau i ddiogelwch sy'n wynebu'r gwasanaethau cyhoeddus a chanlyniadau'r rhain i bobl, eiddo ac adeiladau.</p> <p>Taflen sy'n edrych yn fanwl ar amcanion, nodweddion, rolau a chyfrifoldebau gweithwyr diogelwch yn y gwasanaethau cyhoeddus.</p>
1B.4, 2B.LI4, 2B.T3, 2B.Rh2	<p>Mae'r swyddfa heddlu leol wedi ymestyn ei hymgyrch ymwybyddiaeth o ddiogelwch ac mae am roi cyngor ychwanegol i bobl leol ar ddiogelwch y cartref.</p> <p>Maen nhw wedi gofyn i chi gyfrannu drwy ysgrifennu taflen sy'n rhoi syniadau i bobl ynghylch y ffordd orau o'u hamddiffyn eu hunain, eu heiddo a'u hadeiladau gan ddefnyddio dulliau atal troseddau sefyllfaol.</p>	<p>Taflen sy'n edrych yn fanwl ar wahanol dulliau atal troseddau, mesurau rheoli mynediad a mynd allan a sut maen nhw'n gweithio gyda'i gilydd i gynnal diogelwch ffisegol pobl, eiddo ac adeiladau.</p>

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Senario	Tystiolaeth asesu
<p>1C.5, 1C.6, 1C.7, 1C.8, 2C.LI5, 2C.LI6, 2C.LI7, 2C.LI8, 2C.T4, 2C.Rh3</p>	<p>Wrth i'r ymgyrch ymwybyddiaeth o ddiogelwch ddod i ben rydych wedi cael cyfle i gymryd rhan mewn hyfforddiant gyda phobl ifanc eraill sydd wedi helpu i wneud yr ymgyrch yn llwyddiant.</p> <p>Byddwch yn gweithio gyda'r heddlu lleol yn trafod y rheswm pam mae chwilio pobl ac eiddo neu adeiladau'n swyddogaeth allweddol i weithiwr diogelwch, yn ogystal â chael y cyfle i arddangos amrywiaeth o chwiliadau ymarferol.</p>	<p>Dylai'r asesiad ar gyfer y dasg hon fod mewn dwy ran:</p> <ul style="list-style-type: none"> • trafodaeth grŵp gyda chefnogaeth dogfennaeth yn dangos fod dysgwyr yn gallu nodi'r rhesymau pam mae chwilio pobl yn cael ei ddefnyddio gan weithwyr diogelwch yn y gwasanaethau cyhoeddus, yn ogystal â dangos ymwybyddiaeth o amrywiaeth o gyfyngiadau all fod yn berthnasol i chwiliadau diogelwch • arddangosiad ymarferol o chwilio person chwiliad o eiddo neu adeiladau, gan ddefnyddio dull priodol sy'n drylwyr, yn systematig, yn ddiogel a chyfreithlon. Dylai adroddiadau arsylwi a thystiolaeth tystion gael eu defnyddio fel tystiolaeth ar gyfer y meini prawf hyn.

Uned 19: Gwneud Prosiect ar Wasanaethau Cyhoeddus

Lefel: **1 a 2**

Math o uned: **Craidd**

Oriau dysgu dan arweiniad: **60**

Dull asesu: **Mewnol**

Cyflwyniad i'r uned

Mae gallu archwilio syniadau, cynllunio gweithgareddau, casglu data a dod i gasgliadau yn sgiliau pwysig ar gyfer astudio ac ar gyfer bywyd. Mae'r uned hon yn rhoi'r cyfle i chi ddefnyddio eich gwybodaeth a'ch sgiliau i ddysgu mwy am bynciau cysylltiedig â gwasanaethau cyhoeddus sydd o ddiddordeb i chi. Gall ymchwil yn y gwasanaethau cyhoeddus gael ei defnyddio i adnabod anghenion, er enghraifft yr angen am ysgolion cynradd mewn lleoliad penodol; amlygu bylchau mewn darpariaeth, er enghraifft, yr angen am ragor o wasanaethau i'r henoed wrth i'r boblogaeth heneiddio; cynllunio darpariaeth, er enghraifft mewn ardal lle mae stad o dai newydd wedi cael ei chodi; hysbysu neu wella polisi a darpariaeth gwasanaethau; monitro cynnydd, er enghraifft effaith newid mewn deddfwriaeth; neu archwilio pynciau o bwysigrwydd cyfoes, er enghraifft effaith ymddygiad gwrthgymdeithasol ar gymunedau.

Yn yr uned hon, byddwch yn defnyddio eich gwybodaeth a'ch sgiliau gwasanaethau cyhoeddus i ddysgu mwy am eich diddordebau. Byddwch yn dysgu mwy am y maes yr ydych eisiau arbenigo ynddo, neu archwilio pwnc newydd sydd o ddiddordeb i chi, tra'n datblygu eich sgiliau prosiect.

Mae gwasanaethau cyhoeddus yn defnyddio technegau a dulliau ymchwil i archwilio syniadau ac i ddatrys problemau. Mae yna wahanol fathau o brosiect, er enghraifft ymchwiliad ysgrifenedig gwasanaeth cyhoeddus, neu astudiaeth yn seiliedig ar ymchwil. Gallwch ddewis y math o brosiect rydych am ei wneud.

Byddwch yn ymchwilio ac yn archwilio ffactorau sy'n cyfrannu at brosiect gwasanaethau cyhoeddus llwyddiannus ac yna'n cymhwyso'r hyn rydych wedi'i ddysgu i'ch prosiect eich hun.

Byddwch yn dewis ac yn cynllunio prosiect cysylltiedig â gwasanaethau cyhoeddus, gan feddwl am beth allai fod yn nodau ac amcanion y prosiect. Byddwch hefyd yn archwilio ac ystyried sut y gallai cyfyngiadau effeithio ar gynllun eich prosiect.

Byddwch wedyn yn gwneud y prosiect, gan ddefnyddio sgiliau rheoli prosiect penodol i'r gwasanaethau cyhoeddus, gan gymhwyso'r hyn rydych wedi'i ddysgu o unedau eraill. Byddwch yn adolygu canlyniadau eich prosiect a'r llwyddiant cyffredinol.

Ar ôl cwblhau eich prosiect, byddwch yn adolygu canlyniadau'r prosiect a'ch perfformiad eich hun. Drwy gynllunio, cynnal ac adolygu prosiect cysylltiedig â gwasanaethau cyhoeddus, byddwch yn ennill hyder a sgiliau astudio pwysig all gael eu defnyddio mewn manau eraill. Dylai'r sgiliau hyn eich helpu gyda'ch cynlluniau am addysg a chyflogaeth yn y dyfodol.

Nodau dysgu

Yn yr uned hon byddwch yn:

- A deall dulliau all gael eu defnyddio i wneud ymchwil ar gyfer prosiectau gwasanaethau cyhoeddus
- B cynllunio prosiect cysylltiedig â gwasanaethau cyhoeddus
- C gwneud prosiect cysylltiedig â gwasanaethau cyhoeddus
- D myfyrio ar eich perfformiad eich hun a llwyddiant prosiect cysylltiedig â gwasanaethau cyhoeddus.

Nodau dysgu a chynnwys yr uned

Beth sydd angen ei ddysgu
Nod dysgu A: Deall dulliau all gael eu defnyddio i wneud ymchwil ar gyfer prosiectau gwasanaethau cyhoeddus
<p>Testun A.1 Dulliau ymchwil cynradd</p> <ul style="list-style-type: none"> • Arsyllwadau ffurfiol ac anffurfiol (cudd ac amlwg) • Cyfweiliadau strwythuredig • Grwpiau ffocws • Holiaduron • Y defnydd o gwestiynau penagored a chaeedig <p>Testun A.2 Dulliau ymchwil eilaidd</p> <ul style="list-style-type: none"> • Chwiliadau llenyddiaeth, e.e. gwerslyfrau, cylchgronau proffesiynol, ystadegau wedi'u cyhoeddi • Chwiliadau ar y rhynggrwyd, e.e. cyfnodolion ar-lein, fersiynau ar-lein o gylchgronau proffesiynol, gwefannau gwasanaethau cyhoeddus

Beth sydd angen ei ddysgu**Nod dysgu B: Cynllunio prosiect cysylltiedig â gwasanaethau cyhoeddus****Testun B.1 Dewis pwnc prosiect**

- Dewis pwnc
- Rhesymau dros y dewis, e.e. maes diddordeb presennol neu ddyfodol, ategu'r brif raglen ddysgu, cefnogi datblygu, perthnasedd i wasanaethau cyhoeddus.
- Dewis teitl gwaith ar gyfer pwnc y prosiect.
- Gosod amcanion clir, e.e. targedau CAMPUS (cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol, synhwyrol).
- Ffocws: nodi cwestiwn, problem i'w datrys, tasg neu friff, e.e. effaith ymddygiad gwrthgymdeithasol ar gymuned benodol; ymgyrchoedd diogelwch y ffyrdd, e.e. peidio â defnyddio ffonau symudol wrth yrru, lleihau cyflymder.
- Nodi nod(au) ac amcan(ion) y prosiect.
- Adolygu priodoldeb:
 - nod(au) prosiect o ran bod yn gyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol, synhwyrol, anturus, gyda chofnodion (CAMPUSACH)
 - nod(au) prosiect, yn cynnwys perthnasedd sector, CAMPUSACH, adnoddau sydd ar gael, defnyddioldeb prosiect, pwysigrwydd prosiect, dylanwad ymchwil flaenorol.

Testun B.2 Cynllun prosiect cysylltiedig â gwasanaethau cyhoeddus

- Cynllun ar gyfer gwneud y prosiect:
 - datganiad o'r broblem/y mater neu'r syniad i'w archwilio
 - teitl y prosiect
 - nod(au) ac amcan(ion) y prosiect
 - dyluniad y prosiect yn cynnwys dull/gweithgareddau, cyfrifoldebau unigol (os yw'n brosiect grŵp)
 - amserlen, e.e. cerrig milltir, creu llinellau amser, logio cynnydd, cwrdd â therfynau amser, gosod terfyn amser ar gyfer cwblhau, trefn rhestru prif amcanion y prosiect
 - ystyriaethau moesegol
 - dulliau a dyluniad y prosiect, e.e. holiaduron, cwestiynau penagored a chaeddig, cwestiynau strwythuredig ac anstrwythuredig, defnydd o wefannau, dyddlyfrau, adnoddau a gyhoeddwyd, mynediad i wybodaeth, a'i hargaeledd, i gefnogi ymchwil y prosiect
 - nodi'r prif adnoddau sydd ar gael ar gyfer y prosiect, h.y. cynradd, eilaidd (e.e. y rhyngwyd, cyfnodolion), gafael ar destunau, argaeledd gwybodaeth ar y pwnc
 - dylanwadau mewnol, e.e. capasiti llwyth gwaith, dyluniad y prosiect
 - nodi cyfyngiadau, yn cynnwys adnoddau (pobl ac offer), costau, terfynau amser, nod(au) prosiect
 - risgiau posibl i'r prosiect, e.e. materion moesegol, mynediad i ddefnyddwyr gwasanaethau a chyfrinachedd a'r defnydd o wybodaeth a gasglwyd, holiaduron heb gael eu dychwelyd, diffyg adnoddau, terfynau amser amhriodol
 - ffyrdd o leihau risgiau, e.e. diwygio'r prosiect yn unol â'r adnoddau sydd ar gael, cynnal pilot o'r holiaduron gyda nifer fechan o destunau, casglu â llaw yr holiaduron wedi'u cwblhau.
- Cwblhau cynllun y prosiect, adolygu, gwneud newidiadau lle bo angen.

Beth sydd angen ei ddysgu**Nod dysgu C: Gwneud prosiect cysylltiedig â gwasanaethau cyhoeddus****Testun C.1 Defnyddio sgiliau i wneud prosiect cysylltiedig â gwasanaethau cyhoeddus**

- Rheoli amser, yn cynnwys cwrdd â therfyn amser prosiect.
- Rheoli prosiect, yn cynnwys monitro cynnydd, diwygio'r cynllun lle bo angen, datrys problemau, ymchwilio annibynnol.
- Dilyn arferion iechyd a diogelwch perthnasol.
- Sgiliau personol, e.e. sgiliau cyfathrebu, gwaith tîm, trefn bersonol, arddangos ymddygiad priodol.
- Sgiliau technegol perthnasol, e.e. defnydd o dechnoleg, meddwl yn greadigol, sgiliau rhifedd, sicrhau y bydd holiaduron a dulliau ymchwil eraill gaiff eu defnyddio'n cael yr wybodaeth angenrheidiol.
- Sgiliau rheoli prosiect, yn cynnwys monitro cynnydd, diwygio'r cynllun lle bo angen, datrys problemau, ymchwilio annibynnol, cymhwyso sgiliau perthnasol.
- Dehongli a chyflwyno canfyddiadau prosiect, e.e. cynrychioli a chyflwyno data.
- Gwerthuso canfyddiadau, e.e. dod i gasgliadau, cymharu nodau, cyfyngiadau ymchwil, cryfderau a gwendidau prosiect.

Testun C.2 Cyflwyno'r prosiect

- Cyflwyniad cydlynol a strwythuredig i'r prosiect yn dilyn fformat safonol:
 - tudalen flaen
 - tudalen gynnwys
 - diolchiadau
 - cyflwyniad, yn cynnwys nod(au) ac amcan(ion), datganiad o'r broblem/y mater neu'r syniad i'w archwilio, gwybodaeth am berthnasedd y prosiect/yr angen am y prosiect/y defnydd o ganlyniadau'r prosiect, ac adolygiad o'r llenyddiaeth
 - dull, yn cynnwys manylion cyfranogwyr/pwnc
 - casglu data gan ddefnyddio dull(iau) a thechneg(au) priodol
 - dehongli canlyniadau gan ddefnyddio dull(iau) priodol, e.e. arddangos data mewn graffiau neu dablau gan ddefnyddio TGCh
 - canlyniadau prosiect mewn perthynas â nodau ac amcanion gwreiddiol
 - casgliad(au) prosiect
 - cyfeiriadau a ffynonellau gwybodaeth
 - atodiadau (os yn briodol)

Beth sydd angen ei ddysgu**Nod dysgu D: Myfyrio ar eich perfformiad eich hun a llwyddiant prosiect cysylltiedig â gwasanaethau cyhoeddus****Testun D.1 Adolygu canlyniadau prosiect cysylltiedig â gwasanaethau cyhoeddus**

- Canlyniadau a phrif ddeilliannau prosiect.
- Cryfderau: meysydd y prosiect lle mae nodau ac amcanion wedi cael eu cyflawni.
- Meysydd ar gyfer gwella: lle nad yw deilliannau prosiect yn cwrdd â nodau ac amcanion a gynlluniwyd.
- Ffyrdd o wella'r prosiect, e.e. defnyddio sampl mwy, cynnal peilot o'r holiaduron gyntaf, gwneud ymchwil i argaeledd ffynonellau eilaidd cyn cychwyn y prosiect, llinell amser mwy realistig, defnyddio targedau CAMPUSACH.

Testun D.2 Adolygu eich perfformiad eich hun

- Cwrdd â nodau ac amcanion prosiect.
- Cwrdd â therfynau amser prosiect.
- Sgiliau gafodd eu dysgu a'u defnyddio.
- Cryfderau a meysydd ar gyfer gwella.
- Ffyrdd o wella perfformiad, e.e. cynllunio, defnydd o sgiliau a thechnegau, ymarfer pellach, cyflwyniad y prosiect, ymddygiad personol.
- Pwyso a mesur cryfderau a meysydd ar gyfer gwella.
- Dangosyddion graddau llwyddiant, e.e. adborth, data a gynhyrchwyd.
- Beth mae dysgwyr wedi'i ddysgu o'u prosiect.

Meini prawf asesu

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
Nod dysgu A: Deall dulliau all gael eu defnyddio i wneud ymchwil ar gyfer prosiectau gwasanaethau cyhoeddus			
1A.1 Nodi dulliau o ymchwil cynradd sy'n cael eu defnyddio mewn gwasanaethau cyhoeddus. *	2A.LI1 Disgrifio dulliau o ymchwil cynradd sy'n cael eu defnyddio mewn gwasanaethau cyhoeddus. *	2A.T1 Cymharu dau dull o ymchwil cynradd a ddefnyddir mewn gwasanaethau cyhoeddus a'u buddion ar gyfer casglu data. *	2A.Rh1 Dadansoddi effaith defnyddio un dull o ymchwil cynradd, gan roi ystyriaeth i gasglu data ar gyfer prosiect gwasanaethau cyhoeddus. *
1A.2 Nodi dulliau o ymchwil eilaidd sy'n cael eu defnyddio mewn gwasanaethau cyhoeddus.	2A.LI2 Disgrifio dulliau o ymchwil eilaidd sy'n cael eu defnyddio mewn gwasanaethau cyhoeddus.		
Nod dysgu B: Cynllunio prosiect cysylltiedig â gwasanaethau cyhoeddus			
1B.3 Nodi rhesymau dros wneud y prosiect gwasanaethau cyhoeddus a ddewiswyd.	2B.LI3 Disgrifio'r prosiect cysylltiedig â gwasanaethau cyhoeddus yn nhermau'r rhesymau dros y dewis a'r nodau a'r amcanion.	2B.T2 Esbonio sut y bydd cynllun y prosiect cysylltiedig â gwasanaethau cyhoeddus yn galluogi cyflawni'r nodau a'r amcanion a nodwyd. #	2B.Rh2 Asesu cynllun y prosiect cysylltiedig â gwasanaethau cyhoeddus ac argymhell ffyrdd i isafu'r risgiau rhag cyflawni nodau ac amcanion.
1B.4 Datblygu cynllun ar gyfer prosiect cysylltiedig â gwasanaethau cyhoeddus, gan ddiffinio gweithgareddau a cherrig milltir perthnasol. #	2B.LI4 Datblygu cynllun prosiect cysylltiedig â gwasanaethau cyhoeddus gan egluro cerrig milltir, gweithgareddau a dull a dyluniad y prosiect. #		

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
Nod dysgu C: Gwneud prosiect cysylltiedig â gwasanaethau cyhoeddus			
1C.5 Defnyddio sgiliau ac adnoddau personol priodol wrth wneud prosiect cysylltiedig â gwasanaethau cyhoeddus. #*	2C.LI5 Defnyddio sgiliau ac adnoddau personol a thechnegol priodol i wneud a chwblhau prosiect cysylltiedig â gwasanaethau cyhoeddus. #*	2C.T3 Defnyddio sgiliau rheoli prosiect priodol ac adnoddau perthnasol i gwblhau prosiect cysylltiedig â gwasanaethau cyhoeddus. #*	2C.Rh3 Defnyddio sgiliau rheoli prosiect i ddelio â phroblemau potensial wrth gwblhau'r prosiect cysylltiedig â gwasanaethau cyhoeddus, gan gyfiawnhau atebion. #*
1C.6 Cyflwyno'r prosiect cysylltiedig â gwasanaethau cyhoeddus, gan amlinellu'r prif gasgliadau.*	2C.LI6 Cyflwyno'r prosiect cysylltiedig â gwasanaethau cyhoeddus gan ddilyn fformat safonol a disgrifio casgliadau. *		

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
Nod dysgu D: Myfrio ar eich perfformiad eich hun a llwyddiant prosiect cysylltiedig â gwasanaethau cyhoeddus.			
1D.7 Nodi meysydd llwyddiant a meysydd ar gyfer gwella wrth gwrdd â'r canlyniadau a nodwyd ar gyfer y prosiect cysylltiedig â gwasanaethau cyhoeddus.	2D.LI7 Adolygu llwyddiant y prosiect cysylltiedig â gwasanaethau cyhoeddus yn erbyn cynllun, nodau ac amcanion y prosiect.	2D.T4 Esbonio llwyddiant y prosiect cysylltiedig â gwasanaethau cyhoeddus mewn perthynas â'r canlyniadau a gynlluniwyd a'ch perfformiad eich hun. #	2D.Rh4 Gwerthuso'r prosiect cysylltiedig â gwasanaethau cyhoeddus mewn perthynas â'r canlyniadau a gynlluniwyd, gan gynnig ffyrdd i wella canlyniadau'r prosiect a'ch perfformiad eich hun.
1D.8 Nodi cryfderau a meysydd ar gyfer gwella mewn perthynas â'ch perfformiad eich hun wrth gynhyrchu'r prosiect cysylltiedig â gwasanaethau cyhoeddus.	2D.LI8 Adolygu effeithiolrwydd eich perfformiad eich hun mewn perthynas â'r amrywiaeth o sgiliau gafodd eu defnyddio a'r gwelliant mewn gwybodaeth sy'n ymwneud â'r sector.		

* Cyfle i asesu sgiliau mathemategol

Cyfle i asesu sgiliau Cymraeg

Arweiniad i athrawon

Adnoddau

Nid oes angen unrhyw adnoddau arbennig ar gyfer cwblhau'r uned hon.

Mae'r uned hon yn rhoi cyfle i ddysgwyr gynnal prosiect cysylltiedig â gwasanaethau cyhoeddus ar unrhyw bwnc perthnasol, cysylltiedig. Felly bydd yr adnoddau angenrheidiol ar gyfer yr uned hon yn dibynnu ar ddewis a fformat y dewis brosiect cysylltiedig â gwasanaethau cyhoeddus y mae'r dysgwyr yn ei wneud. Wrth gynllunio eu prosiectau, mae angen i ddysgwyr gymryd i ystyriaeth yr adnoddau sydd ar gael iddynt.

Canllaw asesu

Mae'r uned hon yn cael ei hasesu'n fewnol gan y ganolfan a'i dilysu'n allanol gan Pearson. Darllenwch y canllaw hwn ochr yn ochr ag *Adran 8: Asesu mewnlol*.

Dylai'r uned hon gael ei chyflwyno tua diwedd y rhaglen. Mae hyn yn galluogi dysgwyr i ddwyn ynghyd themâu a sgiliau, wedi eu casglu o unedau blaenorol, mewn prosiect terfynol synoptig cysylltiedig â gwasanaethau cyhoeddus. Er mwyn cwblhau'r uned hon yn llwyddiannus, bydd angen i'r dysgwyr dynnu ar wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth a gafwyd drwy'r uned hon ac unedau eraill, a throsglwyddo'r rhain i gyd-destun prosiect ymarferol.

Gallai tystiolaeth asesu gael ei choladu mewn portffolio dysgwr dan yr is-benawdau canlynol:

- dulliau all gael eu defnyddio i wneud ymchwil mewn prosiectau cysylltiedig â gwasanaethau cyhoeddus (Testun A.1)
- cynllun prosiect (Testunau B.1 a B.2)
- gwneud fy mhrosiect (Testun C.1)
- canlyniadau a deilliannau fy mhrosiect (Testun C.2)
- adolygiad o berfformiad a thargedau ar gyfer eu datblygiad eu hunain (Testunau D.1 a D.2).

Gallai amrywiaeth o ddulliau asesu gael eu defnyddio, yn cynnwys cyflwyniadau gan ddysgwyr, adroddiadau a thrafodaethau grŵp. Pan fydd dysgwyr yn ymgymryd â gweithgareddau neu dasgau ymarferol, rhaid i athrawon sicrhau bod cofnodion arsylwi/datganiadau tystion priodol yn cael eu cwblhau i gefnogi cyflawniad. Yn ogystal, dylai dysgwyr gael eu hannog i gasglu a choladu eu tystiolaeth asesu eu hunain wrth ymgymryd â gweithgareddau neu dasgau ymarferol drwy ddefnyddio, er enghraifft, recordiadau digidol, dyddiaduron, blogiau, llyfrau log.

Mae'r uned hon yn rhoi cyfle i ddysgwyr gwblhau prosiect cysylltiedig â gwasanaethau cyhoeddus all gael ei weld fel pen draw eu rhaglen astudio. Mae'n caniatáu iddynt wneud cysylltiadau synoptig rhwng yr unedau gafodd eu hastudio, dewis pwnc cysylltiedig â gwasanaethau cyhoeddus o ddiddordeb iddynt a gwneud eu prosiect. Felly dylai'r uned hon gael ei chyflwyno ar ôl i ddysgwyr gael digon o gyfle i ddatblygu amrywiaeth o ddiddordebau a'u gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth o fewn amrywiaeth o gyd-destunau gwasanaethau cyhoeddus.

Mae'n bwysig bod pwnc y prosiect o ddiddordeb personol i'r dysgwyr a bod gan y dysgwr, neu fod y dysgwr yn datblygu, wybodaeth a dealltwriaeth ddofn o gwmpas y pwnc a meysydd cysylltiedig. Dylai dysgwyr ddatblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau drwy gyfuniad o ymchwil annibynnol, gweithdai prosiect (er enghraifft, casglu a dadansoddi data) a thrafodaethau grŵp.

Dylai athrawon bwysleisio bod y sgiliau sy'n cael eu datblygu drwy gwblhau prosiect, er enghraifft cyfathrebu, ymchwilio, trefnu, cynllunio, rheoli amser, casglu a dadansoddi data, TGCh ac ymarfer myfyriol, yn sgiliau trosglwyddadwy i gyd-destunau eraill, yn cynnwys addysg uwch a'r gweithle.

Er bod rhan fawr o'r uned hon yn ffocysu ar ddysgwyr yn gwneud eu prosiect cysylltiedig â gwasanaethau cyhoeddus yn ymarferol, rhaid i'r uned gael ei chefnogi gan fewnbnw theorï gan athrawon. Rhaid i ddysgwyr ddeall cysyniadau sy'n gysylltiedig â chynllun a dyluniad y prosiect, yn ogystal â sgiliau, technegau a methodolegau ymchwil, cyn iddynt allu ystyried, archwilio a chynhyrchu cynllun prosiect dilys.

Rhaid i gynllun y prosiect alluogi dysgwyr i gasglu a dadansoddi data, gan sicrhau talu sylw dyledus i'w diogelwch a'u lles eu hunain a rhai sy'n cymryd rhan yn y prosiect, gan gynnwys ystyriaeth foesol berthnasol. Fel rhan o'u 'dysgu drwy wneud', dylai dysgwyr gael y cyfle i gasglu data gan ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau. Dylid talu sylw arbennig i addasrwydd dulliau casglu data ar gyfer gwahanol sefyllfaoedd. Bydd y profiad hwn yn helpu dysgwyr i ddatblygu eu gallu i ddewis technegau casglu data priodol ar gyfer gwahanol gyd-destunau prosiect a sefyllfaoedd cysylltiedig â gwasanaethau cyhoeddus.

Cyn cychwyn ar eu prosiect cysylltiedig â gwasanaethau cyhoeddus, rhaid cytuno ar gynllun y prosiect gydag athrawon i sicrhau ei fod yn ddilys, yn ddiogel ac yn gyraeddadwy.

Dylai dysgwyr hefyd ystyried pam maen nhw wedi dewis y maes prosiect penodol hwnnw, pam bydd hi'n ddefnyddiol gwneud y prosiect, a phwy fydd yn elwa yn sgil canlyniadau'r prosiect. Bydd canlyniadau'r prosiect cysylltiedig â gwasanaethau cyhoeddus yn dibynnu ar y dewis o bwnc a gallai fod yn:

- dros dro – er enghraifft digwyddiad unwaith ac am byth (megis gweithgaredd ailgylchu wedi'i anelu at hybu ymwybyddiaeth amgylcheddol mewn ysgol neu goleg); fodd bynnag, byddai tystiolaeth yn dal yn angenrheidiol, ysgrifenedig yn bennaf, er enghraifft adroddiad yn cyflwyno ymchwil ar astudiaethau achos mewn gwasanaethau cyhoeddus.
- dylunio – er enghraifft pro fforma (megis proffil perfformiad, rhestr wirio arsylwi neu raglen/cynllun ymarfer corff)
- ysgrifenedig – er enghraifft adroddiad ymchwil yn cyflwyno canlyniadau (megis astudiaeth achos cysylltiedig â gwasanaethau cyhoeddus neu ymchwiliad ymchwil).

Wrth ddewis a chynllunio eu prosiect (nod dysgu B) rhaid i ddysgwyr Lefel 2 adolygu llenyddiaeth sy'n gysylltiedig â dewis faes y prosiect er mwyn ystyried perthnasedd a'r defnydd o ymchwil flaenorol sydd wedi ei gwneud. Bydd gwybodaeth a gafwyd drwy adolygu llenyddiaeth yn helpu dysgwyr gyda'u dyluniad prosiect cyffredinol a'u dewis o ddull, efallai drwy eu galluogi i ddilyn dyluniad prosiect ymchwil 'sy'n gweithio' sydd wedi ei brofi'n flaenorol, neu drwy ddiwygio dyluniad presennol i leihau neu i wrthwneud camgymeriadau neu faterion a gododd yn flaenorol.

Rhaid cael tystiolaeth i arsylwadau ymarferol drwy ddatganiadau tystion wedi'u llofnodi a/neu gofnodion arsylwi sy'n dangos yn glir gyflawniad dysgwyr yn erbyn y meini prawf targed. Gellir cefnogi hyn gyda thystiolaeth ychwanegol, er enghraifft tystiolaeth ddigidol a ffotograffau anodedig lle mae hynny'n briodol. Rhaid i ddysgwyr gynnwys rhestr o adnoddau gafodd eu defnyddio yn eu tystiolaeth. Rhaid i ddysgwyr fod yn ofalus i sicrhau cyfrinachedd gwybodaeth lle mae hynny'n briodol.

Rhaid i dystiolaeth lafar, er enghraifft cyflwyniadau neu sesiynau holi ac ateb, fod â thystiolaeth ar ffurf datganiad tyst wedi'i llofnodi, gydag adysgrif ysgrifenedig yn cofnodi beth gafodd ei wneud. Mae angen cadw cofnodion arsylwi athrawon wedi eu llofnodi a thystiolaeth dysgwyr at bwrrpas sicrhau ansawdd.

Nod dysgu A

Ar gyfer **2A.LI1**: rhaid i ddysgwyr ddisgrifio'r dulliau ymchwil cynradd sy'n cael eu defnyddio mewn gwasanaethau cyhoeddus sydd i'w gweld yng nghynnwys yr uned ac ar gyfer **2A.LI2**, rhaid i ddysgwyr ddisgrifio dulliau ymchwil eilaidd.

Ar gyfer **2A.T1**: rhaid i ddysgwyr ddewis dau ddull o ymchwil cynradd sy'n cael eu defnyddio mewn gwasanaethau cyhoeddus o'r rhai a ddisgrifiwyd, a'u cymharu mewn perthynas â buddion casglu data.

Ar gyfer **2A.Rh1**: rhaid i ddysgwyr ddadansoddi effaith defnyddio un dull o ymchwil cynradd, gan roi ystyriaeth i gasglu data ar gyfer prosiect gwasanaethau cyhoeddus.

Gallai'r gwaith ar gyfer y nod dysgu hwn gael ei gyflwyno fel llyfryn i hysbysu ymchwilwyr potensial am y dulliau sydd ar gael.

Ar gyfer **1A.1**: rhaid i ddysgwyr nodi dulliau o ymchwil cynradd sy'n cael eu defnyddio mewn gwasanaethau cyhoeddus. Rhaid i ddysgwyr ystyried y mathau o ymchwil y mae'r gwasanaeth cyhoeddus a ddewiswyd yn eu cynnal, er enghraifft efallai y bydd y cyngor lleol am wybod pa drigolion sydd angen biniau ailgylchu sy'n dal mwy pan fydd y cynllun ailgylchu'n cael ei lansio mewn ardal a sut mae'n casglu ymchwil cynradd, er enghraifft gallai holiaduron o ddrws i ddrws fod yn un dull gaiff ei ddefnyddio yn ystod yr ymchwil.

Ar gyfer **1A.2**: rhaid i ddysgwyr nodi dulliau o ymchwil eilaidd sy'n cael eu defnyddio mewn gwasanaethau cyhoeddus. Rhaid i ddysgwyr ystyried y mathau o ymchwil mae'r gwasanaeth cyhoeddus a ddewiswyd yn eu cynnal a pha fath o ymchwil eilaidd y gallai ei defnyddio i gefnogi'r ymchwil hwn.

Nod dysgu B

Ar gyfer **2B.LI3**: rhaid i ddysgwyr ddisgrifio'r prosiect cysylltiedig â gwasanaethau cyhoeddus yn nhermau rhesymau dros ddewis a nodau ac amcanion. Yn ogystal, dylai rhesymau'r dysgwr dros eu dewis bwnc fod yn rhesymegol, gan ddilyn trefn glir. Rhaid i ddysgwyr hefyd gynnwys disgrifiad llawn o nodau ac amcanion eu prosiect eu hunain, ddylai fod yn gyflymol, a'u gosod yn glir ar Lefel 2. Gallai'r dystiolaeth gael ei chyflwyno ar ffurf adroddiad.

Ar gyfer **2B.LI4**: rhaid i ddysgwyr ddatblygu cynllun prosiect cysylltiedig â gwasanaethau cyhoeddus gan egluro cerrig milltir, gweithgareddau a dull a dyluniad y prosiect. Dylid rhoi ystyriaeth i'r adnoddau gofynnol a'r math o ymchwil sy'n angenrheidiol.

Ar gyfer **2B.T2**: rhaid i ddysgwyr esbonio sut y bydd cynllun y prosiect cysylltiedig â gwasanaeth cyhoeddus yn galluogi cyflawni'r nodau a'r amcanion a nodwyd. Gallai dystiolaeth fod ar ffurf sylwadau ysgrifenedig, wedi'u hatodi i'r cynllun. Rhaid i ddysgwyr esbonio sut bydd y cynllun yn eu galluogi i gyflawni nodau ac amcanion y prosiect.

Ar gyfer **2B.Rh2**: rhaid i ddysgwyr ymestyn eu sylwadau i asesu eu cynllun, gan drafod y risgiau potensial rhag cwrdd â nodau ac amcanion eu prosiect gan ddarparu argymhellion ar sut y gall pob un o'r risgiau rhag llwyddiant gael eu hisafu, gan gyfeirio at gynnwys yr uned.

Ar gyfer **1B.3**: rhaid i ddysgwyr nodi rhesymau dros wneud eu dewis brosiect, gan gyfeirio at gynnwys perthnasol yr uned, ac ar gyfer **1B.4**, rhaid i ddysgwyr ddatblygu cynllun ar gyfer prosiect cysylltiedig â gwasanaethau cyhoeddus, gan ddiffinio gweithgareddau a cherrig milltir perthnasol. Gallai gwaith ar gyfer y ddau faen prawf asesu hyn gael ei gyfuno a'i gyflwyno fel taflen.

Nod dysgu C

Ar gyfer **2C.LI5**: mae gofyn i ddysgwyr wneud prosiect cysylltiedig â gwasanaethau cyhoeddus perthnasol a phriodol, gan ddefnyddio sgiliau ac adnoddau personol a thechnegol. Awgrymir (er nad yw'n rhan o'r asesiad terfynol), bod dysgwyr yn cael eu hannog i gadw log o'u gweithgareddau, sy'n cyfateb yn agos i gynllun eu prosiect ac sy'n caniatáu adolygu cynnydd yn rheolaidd yn erbyn cerrig milltir a nodau ac amcanion.

Rhagwelir y bydd prosiectau ysgrifenedig yn cynnwys amrywiaeth o fformatau, er enghraifft testun ysgrifenedig, graffiau a thablau, i arddangos sgiliau dysgu.

Ar gyfer **2C.LI6**: bydd dysgwyr yn cyflwyno eu prosiect cysylltiedig â gwasanaethau cyhoeddus yn dilyn y fformat safonol fel sydd wedi ei nodi dan Bwnc C.2, gan ddisgrifio canlyniadau a'r prif gasgliadau.

Ar gyfer **2C.T3**: rhaid i ddysgwyr arddangos o fewn y prosiect eu bod wedi defnyddio eu sgiliau i reoli adnoddau a chwblhau prosiect cysylltiedig â gwasanaethau cyhoeddus. Er mwyn cyflawni'r meini prawf teilyngdod rhaid i ddysgwyr arddangos ehangder o sgiliau, gan ddangos eu bod wedi cadw at derfynau amser a cherrig milltir (neu wedi eu haddasu'n fedrus), a chyflwyno eu prosiect wedi'i gwblhau ac yn brydlon.

Ar gyfer **2C.Rh3**: rhaid i ddysgwyr ddangos eu bod wedi defnyddio eu sgiliau rheoli prosiect i ddelio gyda phroblemau potensial, a chofnodi sut y gwnaethant ddelio â'r rhain er mwyn cyflwyno prosiect wedi'i gwblhau ar amser.

Ar gyfer **1C.5**: rhaid i ddysgwyr ddefnyddio sgiliau ac adnoddau personol priodol wrth wneud prosiect cysylltiedig â gwasanaethau cyhoeddus. Dylai dysgwyr gael eu hannog i gadw log prosiect er mwyn arddangos cynnydd, ac fel canllaw.

Ar gyfer **1C.6**: bydd dysgwyr yn cyflwyno'r prosiect; fodd bynnag, bydd yr wybodaeth y byddant yn ei chofnodi yn eu galluogi i roi disgrifiad o brif gasgliadau'r prosiect.

Nod dysgu D

Rhaid cyflawni **2D.LI7** a **2D.LI8** yn dilyn cwblhau'r prosiect cysylltiedig â gwasanaethau cyhoeddus. Rhaid i ddysgwyr gynhyrchu tystiolaeth bellach yn adolygu llwyddiant y prosiect yn cwrdd â chynllun, nodau ac amcanion y prosiect a hefyd adolygiad o'u heffeithiolrwydd eu hunain mewn perthynas ag amrywiaeth o sgiliau gafodd eu defnyddio ganddynt i gynhyrchu'r prosiect.

Er mwyn cyflawni'r meini prawf asesu uwch rhaid i ddysgwyr ymestyn eu hadolygiad i esbonio llwyddiant eu prosiect yn erbyn canlyniadau a gynlluniwyd a hefyd eu perfformiad eu hunain (**2D.T4**), a gwerthuso'r prosiect, yn cynnig ffyrdd o wella canlyniadau'r prosiect a'u perfformiad eu hunain (**2D.Rh4**). Rhaid i gynigion fod yn rhesymegol, realistig a chyraeddadwy.

Ar gyfer **1D.7** ac **1D.8**: gallai tystiolaeth dysgwyr ddod ar ffurf naill ai poster neu daflen sy'n nodi meysydd llwyddiant a meysydd ar gyfer gwella mewn perthynas â'r prosiect terfynol (**1D.7**), a chryfderau a meysydd ar gyfer gwella mewn perthynas â'u perfformiad eu hunain (**1D.8**).

Awgrymiadau ar gyfer aseiniadau

Mae'r tabl isod yn dangos rhaglen o amlinelliadau aseiniadau posibl sy'n cwmpasu'r meini prawf asesu. Arweiniad yw hwn, ac awgrymir bod canolfannau naill ai'n ysgrifennu eu haseiniadau eu hunain neu'n addasu unrhyw aseiniadau y byddwn ni'n eu darparu i gwrdd ag anghenion ac adnoddau lleol.

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Senario	Tystiolaeth asesu
1A.1, 1A.2, 2A.LI1, 2A.LI2, 2A.T1, 2A.Rh1	Paratoi llyfryn ar gyfer ymchwilwyr newydd ar y gwahanol fathau o ddulliau ymchwil cynradd ac eilaidd, all gael ei ddefnyddio i gaffael gwybodaeth.	Llyfryn.
1B.3, 1B.4, 2B.LI3, 2B.LI4, 2B.T2, 2B.Rh2	Dewis a chynllunio prosiect cysylltiedig â gwasanaethau cyhoeddus. Cynnwys esboniad yn disgrifio pam y bu i chi ddewis pwnc eich prosiect.	Adolygiad o lenyddiaeth. Cynllun prosiect ysgrifenedig. Cyflwyniad gweledol gyda nodiadau cefnogi. Cofnodion arsylwadau.

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Tasg/Senario	Tystiolaeth asesu
1C.5, 1C.6, 2C.LI5, 2C.LI6, 2C.T3, 2C.Rh3	<p>Rydych yn penderfynu gwneud prosiect i ymchwilio i fater gwasanaethau cyhoeddus sydd o ddi-ddordeb i chi. Ymchwilio a gwneud eich prosiect cysylltiedig â gwasanaethau cyhoeddus, gan ddefnyddio sgiliau ac adnoddau priodol.</p> <p>Adolygu canlyniadau a llwyddiant eich prosiect cysylltiedig â gwasanaethau cyhoeddus yn erbyn y nodau a'r amcanion gwreiddiol.</p>	<p>Portffolio prosiect yn dilyn fformat safonol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • tudalen flaen • tudalen gynnwys • diolchiadau • cyflwyniad • dull • casglu data • canlyniadau • dilysrwydd, dibynadwyedd, materion ymarferoldeb • canlyniadau prosiect • casgliadau prosiect • cyfeiriadaeth • atodiadau (os yn briodol) <p>Datganiadau tystion wedi'u llofnodi a neu gofnodion arsylwi o ddysgwyr yn gwneud eu prosiect cysylltiedig â gwasanaethau cyhoeddus.</p> <p>Tystiolaeth portffolio atodol, e.e. ffotograffau anodedig, tystiolaeth ddigidol, dyddiaduron, llyfrau log.</p>
1D.7, 1D.8, 2D.LI7, 2D.LI8, 2D.T4, 2D.Rh4	<p>Ar ôl cwblhau eich prosiect cysylltiedig â gwasanaethau cyhoeddus, mae'n bwysig myfyrio ar eich perfformiad eich hun a dysgu o'ch profiadau.</p> <p>Adolygu eich perfformiad eich hun wrth wneud prosiect cysylltiedig â gwasanaethau cyhoeddus yn edrych ar eich cryfderau, eich meysydd ar gyfer gwella a'r targedau ar gyfer eich datblygiad yn y dyfodol.</p>	<p>SWOT personol (cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau).</p> <p>Cyflwyniad gweledol.</p> <p>Nodiadau/cardiau i gefnogi'r cyflwyniad.</p> <p>Recordiad digidol.</p> <p>Cofnodion arsylwadau.</p>

Uned 20: Y Gyfraith a'i Heffaith ar yr Unigolyn

Lefel: **1 a 2**

Math o uned: **Dewisol arbenigol**

Oriau dysgu dan arweiniad: **60**

Dull Asesu: **Mewnol**

Cyflwyniad i'r uned

Beth yw'r 'gyfraith'? Rydym yn clywed o hyd bod rhaid i ni 'gadw at y gyfraith' - ond beth yw ystyr hynny?

Efallai y byddech yn dweud mai peidio mynd i drafferth gyda'r heddlu yw hyn, neu wneud y peth iawn a dilyn y rheolau. Byddech yn gywir wrth gwrs, ond mae'r gyfraith yn llawer mwy na hyn gan ei bod yn cynnwys sefyllfaoedd megis pobl yn gwneud gwaith i chi, eich hawliau yn y gwaith, rheolau am briodi a theuluoedd a hyd yn oed sut rydyn ni'n byw gyda'n gilydd fel cymdogion.

Ond beth os bydd pethau'n mynd o le? Beth yw ystyr 'mynd i'r llys'? Pa lys? Dydyn nhw ddim i gyd yr un fath. Wel, nac ydyn - dydyn nhw ddim i gyd yr un fath. Gall i ba lys y byddwch yn mynd ddibynnu ar nifer o bethau, yn cynnwys pa fath o gyfraith sy'n cael ei thrafod, a bydd pobl wahanol ynghlwm wrth yr achos gan ddibynnu pa fath o achos ydyw.

Yn yr uned hon byddwch yn cael y cyfle i archwilio beth yw cyfraith yn y wlad hon a sut y mae wedi datblygu i ffurfio'r system rydym yn ei hadnabod a'i defnyddio heddiw. Byddwch hefyd yn ystyried y gwahanol lysoedd o fewn y system gyfreithiol a rolau personél cyfreithiol o fewn y system honno.

Bydd rhan olaf yr uned yn eich helpu i ddeall sut mae'r llysoedd yn gweithio a sut mae achosion yn cael eu trafod. Byddwn yn ystyried beth sydd ei angen gan yr heddlu ar gyfer erlyniad llwyddiannus a sut mae hyn yn cael ei gefnogi gan Wasanaeth Erlyn y Goron (CPS) yng Nghymru a Lloegr a'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus yng Ngogledd Iwerddon, yn ogystal â sut y gallech chi eich hun gymryd achos sifil yn erbyn rhywun. Bydd y cosbau am wneud rhywbeth o'i le ar ddiwedd yr uned hon.

Nodau dysgu

Yn yr uned hon byddwch yn:

- A deall gwreiddiau cyfraith gyffredin a sut mae cyfraith droseddol a sifil wedi esblygu
- B deall strwythur y system gyfreithiol a'r rolau oddi mewn iddi
- C deall y camau sydd ynghlwm wrth achos cyfreithiol a'r canlyniadau sydd ar gael.

Nodau dysgu a chynnwys yr uned

Beth sydd angen ei ddysgu
Nod dysgu A: Deall gwreiddiau cyfraith gyffredin a sut mae cyfraith droseddol a sifil wedi esblygu
<p>Testun A.1 Ffynonellau cyfraith</p> <p>Datblygodd arferion a thraddodiadau cymunedau cynnar drwy'r system ffiwdal ac Ecwiti'r Brenin i ddarparu system ddaeth i gael ei hadnabod fel 'y gyfraith'. O gyfnod Rhyfel Cartref Lloegr, daeth goruchafiaeth y Senedd yn rhan allweddol o'r system gyfreithiol. Wrth i'r gyfraith ddechrau cael ei hysgrifennu ar bapur a'i defnyddio'n gyffredinol fe ddatblygodd nes bod yn gyfraith sy'n gyfarwydd i ni heddiw.</p> <p>Wrth i'r system gyfreithiol ddatblygu, fe ddatblygodd ffynonellau cyfraith hefyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cyfraith gyffredin <ul style="list-style-type: none"> ○ arferion a safonau ymddygiad ddaeth yn normau oedd yn cael eu derbyn • deddfwriaeth <ul style="list-style-type: none"> ○ statudau neu Ddeddfau Seneddol a drosglwyddodd y gyfraith i ffurf ysgrifenedig a ddaeth yn safonol ar draws y wlad • cyfraith achos <ul style="list-style-type: none"> ○ gall sut mae achosion yn cael eu penderfynu gan y llysoedd ddod yn gyfraith ynddynt eu hunain a'r goblygiadau sydd ganddynt ar gyfer achosion yn y dyfodol (Athrawiaeth Cynsail) ○ yr angen am adrodd achosion yn gywir er mwyn i'r athrawiaeth weithio. <p>Testun A.2 Cyfraith droseddol a sifil</p> <p>Wrth i'r gyfraith ddatblygu fe rannodd yn ddau faes gwahanol gydag amryw o gategoriâu o fewn y meysydd hynny:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cyfraith droseddol – troseddau yn erbyn y Goron, lle mae'r heddlu'n gysylltiedig ac sy'n aml yn cael eu herlyn, megis dwyn, ymosod, difrod troseddol a llofruddiaeth. Mae gan bob trosedd achosion adnabyddus neu ddrwg-enwog all gael eu defnyddio i ddarlunio'r drosedd ei hun, e.e. llofruddiaeth Jamie Bulger (Regina v Venables a Thompson (1993)) • cyfraith sifil – camau sy'n cael eu cymryd rhwng unigolion nad ydynt fel arfer yn cynnwys yr heddlu ac sy'n mynd i'r llys yn gyffredin fel achos cyfreithiol sifil (siwio rhywun), megis torri contract, cyfraith cyflogaeth a chyfraith teulu, a chamweddau megis esgeulustod. Mae gan bob cangen o'r gyfraith o fewn y maes hwn hefyd rai enghreifftiau eithaf enwog y gellir eu defnyddio i ddarlunio'r gwahaniaeth rhwng y ddau gategori, e.e. Donoghue v Stevenson (Donoghue (neu McAlister) v Stevenson, [1932]).

Beth sydd angen ei ddysgu**Nod dysgu B: Deall strwythur y system gyfreithiol a'r rolau oddi mewn iddi****Testun B.1 Y system llysoedd**

Y prif sefydliadau o fewn pob adran o'r system a'r mathau o achosion sy'n cael eu gwrandio gan bob un yn cynnwys:

- llysoedd troseddol
 - llys ynadon
 - Llys y Goron
 - Llys Apêl - Adran Droseddol
 - Goruchaf Lys
- tribiwnlysoedd
- llysoedd sifil
 - Llys Sirol yn cynnwys Llys Mân Ddyledion
 - Yr Uchel Lys
 - Llys Apêl - Adran Sifil
 - Goruchaf Lys.

Testun B.2 Personél cyfreithiol

Mae amrywiaeth eang o rolau a phersonél o fewn y system gyfreithiol ac mae gan bob un ran bwysig i'w chwarae.

Mae personél proffesiynol yn cynnwys:

- cyfreithwyr
- bargyfreithwyr
- gweithredwr cyfreithiol
- Gwasanaeth Erllyn y Goron
- barnwyr
- lleygwyr
- rheithgor
- ynadon.

Beth sydd angen ei ddysgu**Nod dysgu C: Deall y camau sydd ynghlwm wrth achos cyfreithiol a'r canlyniadau sydd ar gael****Testun C.1 Camau mewn achos llys**

Mae gan y systemau gwahanol ddulliau gwahanol sy'n cael eu dilyn o fewn y llysoedd y maent yn ymddangos ynddynt.

- Achosion troseddol:
 - yr heddlu'n casglu tystiolaeth er mwyn cwrdd â gofynion Gwasanaeth Erlyn y Goron (h.y. rhaid i'r dystiolaeth gwrdd â safonau penodol er mwyn cefnogi erlyniad llwyddiannus)
 - penderfyniadau mechnïaeth – p'un a ddylai'r diffynnydd gael ei gadw mewn cadwraeth cyn treial neu gael ei ollwng ar fechnïaeth amodol neu ddiamod
 - dull y treial – gwrandawriad cychwynnol o flaen ynadon i benderfynu ble dylai'r achos gael ei glywed, yn cynnwys yr hawl i gael treial o flaen rheithgor
 - ple sy'n cael ei gyflwyno gan y diffynnydd
 - treial troseddol gan gynnwys datgeliad ymlaen llaw hyd at achosion yr erlyniad a'r amddiffyn nes dod i reithfarn.
- Achosion sifil:
 - cyflafareddu neu gyfryngu pan nad yw'r partion (y bobl sy'n rhan o'r achos) yn gallu datrys mater eu hunain
 - yr hawliwr yn cyflwyno cais pleidiad neu ymateb gan yr ymatebydd
 - dyfarniad ar gyfer cyd-destun cyfreithiol.

Testun C.2 Canlyniadau achosion cyfreithiol

Mewn achos troseddol gall y diffynnydd gael ei ganfod yn euog (euogfarnu) neu'n ddiuog (rhyddfarnu). Mewn achos sifil gall y ddedfryd fod yn un o atebolrwydd – atebol neu heb fod yn atebol. Unwaith eto, mae gan y systemau gwahanol lawer o fathau o gosb all gael eu gosod yn dilyn euogfarn neu ganfyddiad o atebolrwydd, yn cynnwys:

- gall euogfarn yn dilyn achos troseddol arwain at amrywiaeth o gosbau megis:
 - dirwy
 - rhyddhad - amodol neu ddiamod
 - adsefydlu cymunedol
 - cosb gymunedol
 - dedfryd o garchar all fod wedi'i gohirio
- gall dedfryd o atebolrwydd yn dilyn achos sifil arwain at amrywiaeth o ganlyniadau megis:
 - iawndal neu wneud iawn
 - gwaharddeb
 - gorchymyn mater penodol
 - diddymu priodas
 - cystodaeth plant.

parhad

Beth sydd angen ei ddysgu

Gall canlyniadau achosion cyfreithiol fod yn amrywiol a gall y canlyniadau fod yn gadarnhaol ac yn negyddol.

- Gall y teimlad fod cyfiawnder wedi ei wneud a'r gwerth fel ataliad fod yn gadarnhaol.
- Fodd bynnag, gallai dirwy drom arwain at anawsterau ariannol, tra gallai dedfryd o garchar olygu fod y person yn cael trafferth dod o hyd i waith - gan arwain unwaith eto at broblemau ariannol.
- Mewn achosion sifil, gallai cael datrys anghydfod mewn llys ddarparu ateb annibynnol ond gallai hefyd achosi drwgdeimlad pellach rhwng y partïon gan mai dim ond un ohonyn nhw fydd fel arfer yn cael y canlyniad yr oedd yn ei geisio.

Testun C.3 Canlyniadau a dedfrydau ar gyfer troseddwr ifanc

Mae'r system ar gyfer delio gyda throseddwr ifanc yn wahanol i'r system ar gyfer oedolion.

- Mae troseddwr ifanc rhwng 10 ac 17 oed ac yn cael eu trafod gan y llysoedd ieuencid. Gall llysoedd ieuencid osod:
 - gorchmynion hyfforddi a chadw
 - dedfrydau cymunedol yn cynnwys gorchmynion cyfeirio, gorchmynion gwneud iawn, Gorchmynion Adsefydlu Ieuencid (YRO).
- Nid yw pob troseddwr yn mynd i'r llys. Mae troseddau rhai pobl yn cael eu trafod mewn ffyrdd eraill gan y system cyfiawnder troseddol, yn cynnwys:
 - rhybuddion a cheryddon
 - hysbysiad cosb am anhrefn
 - cyfiawnder adferol.

Meini prawf asesu

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
Nod dysgu A: Deall gwreiddiau cyfraith gyffredin a sut mae cyfraith droseddol a sifil wedi esblygu			
1A.1 Amlinellu datblygiadau allweddol cyfraith yn y system gyfreithiol. #	2A.LI1 Esbonio datblygiadau allweddol cyfraith yn y system gyfreithiol. #	2A.T1 Cymharu cyfraith statud a chyfraith achos a'i heffaith ar sut mae'r gyfraith yn cael ei chymhwyso ar hyn o bryd.	2A.Rh1 Asesu'r berthynas rhwng cyfraith statud a chyfraith achos. #
1A.2 Amlinellu prif ffynonellau cyfraith. #	2A.LI2 Disgrifio prif ffynonellau cyfraith. #		
1A.3 Disgrifio cyfraith droseddol a chyfraith sifil. #	2A.LI3 Esbonio, gydag enghreifftiau, cyfraith droseddol a chyfraith sifil. #	2A.T2 Cymharu cyfraith droseddol a chyfraith sifil. #	
Nod dysgu B: Deall strwythur y system gyfreithiol a'r rolau oddi mewn iddi			
1B.4 Amlinellu'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y gwahanol lysoedd yn y system gyfreithiol. #	2B.LI4 Esbonio'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y gwahanol lysoedd yn y system gyfreithiol. #	2B.T3 Cymharu'r system cyfiawnder troseddol a'r system cyfiawnder sifil. #	2B.Rh2 Dadansoddi rolau'r gwahanol bersonél yn y gwaith sy'n cael ei wneud gan wahanol lysoedd. #
1B.5 Amlinellu rolau'r gwahanol bersonél o fewn y system gyfreithiol. #	2B.LI5 Disgrifio rolau'r gwahanol bersonél o fewn y system gyfreithiol. #	2B.T4 Cymharu rôl personél llewg gyda rôl pobl broffesiynol o fewn system gyfreithiol Lloegr, gan ddefnyddio dwy enghraifft o bob un. #	

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
Nod dysgu C: Deall y camau sydd ynghlwm wrth achos cyfreithiol a'r canlyniadau sydd ar gael			
1C.6 Amlinellu'r camau ar gyfer achos troseddol. #	2C.LI6 Esbonio'r camau ar gyfer achos troseddol, gan ddefnyddio enghraifft berthnasol. #	2C.T5 Cymharu'r camau ar gyfer achos troseddol gyda'r camau ar gyfer achos sifil. #	
1C.7 Amlinellu'r camau ar gyfer achos sifil. #	2C.LI7 Esbonio'r camau ar gyfer achos sifil, gan ddefnyddio enghraifft berthnasol. #		
1C.8 Disgrifio'r canlyniadau all gael eu gosod yn dilyn achos llys. #	2C.LI8 Esbonio'r canlyniadau all gael eu gosod yn dilyn achos llys. #	2C.T6 Dadansoddi effaith y canlyniadau all gael eu gosod dan y gyfraith. #	2C.Rh3 Gwerthuso effaith bod yn rhan o achos cyfreithiol. #

*Cyfle i asesu sgiliau mathemategol

#Cyfle i asesu sgiliau Cymraeg

Arweiniad i athrawon

Adnoddau

Nid oes angen unrhyw adnoddau arbennig ar gyfer yr uned hon.

Canllaw asesu

Mae'r uned hon yn cael ei hasesu'n fewnol gan y ganolfan a'i dilysu'n allanol gan Pearson. Darllenwch y canllaw hwn ochr yn ochr ag *Adran 8: Asesu mewnlol*.

Dylech fod yn ymwybodol o natur sensitif rhai pynciau o fewn cynnwys yr uned hon.

Nod dysgu A

Ar gyfer **2A.LI1**: gallai dysgwyr ystyried llinell amser o ddatblygiadau o fewn y system gyfreithiol. Dylent ddefnyddio hyn i ddisgrifio ac esbonio sut mae cyfraith wedi datblygu o'r system ffiwdal i fod yn gyfraith gyffredin ac yna yn gyfraith statud yn unol â chysyniad Goruchafiaeth y Senedd, a chyfraith achos yn cael ei benderfynu gan farnwyr mewn llys.

Ar gyfer **2A.LI2**: dylai dysgwyr ddisgrifio'n glir gyfraith gyffredin, cyfraith statud a chyfraith achos. Dylent allu disgrifio sut mae pob ffynhonnell yn codi ac yn cael ei defnyddio o fewn y system, gydag enghreifftiau perthnasol. Dylai dysgwyr gael eu hannog i gynnwys deddfwriaeth berthnasol ac achosion gan ddefnyddio'r dyfyniad cywir.

Ar gyfer **2A.LI3**: dylai dysgwyr ddisgrifio cyfraith droseddol a chyfraith sifil yn y system gyfreithiol a'r mathau o gyfraith o fewn y ddau ddsbarthiad. Dylai enghreifftiau perthnasol, yn cynnwys achosion, gael eu trafod ar gyfer pob math o gyfraith sy'n cael ei gynnwys.

Ar gyfer **2A.T1**: dylai dysgwyr gymharu cyfraith statud a chyfraith achos drwy edrych ar y tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhyngddynt. Gallent ystyried sut mae pob un yn codi a sut maen nhw'n cael eu defnyddio o fewn y system a'r effaith y gallant ei chael.

Ar gyfer **2A.T2**: dylai dysgwyr gymharu cyfraith droseddol a chyfraith sifil drwy edrych ar y tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhyngddynt. Dylent ystyried y derminoleg, y bobl sydd ynghlwm a'r mathau o achosion.

Ar gyfer **2A.Rh1**: dylai dysgwyr ystyried sut mae cyfraith statud a chyfraith achos yn cael eu defnyddio o fewn y system gyfreithiol a sut y maent yn gweithio gyda'i gilydd i ymdrin â'r amrywiaeth eang o faterion cyfreithiol all godi o fewn cymdeithas. Gallai dysgwyr ystyried a yw'r ddwy ffynhonnell yn cyflenwi'r naill a'r llall neu a ydyn nhw'n gwrthdaro a beth sy'n digwydd os ydyn nhw'n gwrthdaro.

Ar gyfer **1A.1**: dylai dysgwyr amlinellu'r datblygiadau allweddol o fewn y system gyfreithiol. Gallai hyn gael ei wneud ar ffurf llinell amser yn dangos pwyntiau allweddol gyda sylw byr ar gyfer pob un.

Ar gyfer **1A.2**: dylai dysgwyr nodi'r prif ffynonellau cyfraith o fewn y system gyfreithiol. Ar gyfer pob un o'r tair prif ffynhonnell dylai dysgwyr ddarparu sylw am bob ffynhonnell ac enghraifft berthnasol o agwedd o gyfraith o bob ffynhonnell.

Ar gyfer **1A.3**: dylai dysgwyr allu disgrifio'r meysydd cyfraith droseddol a chyfraith sifil o fewn y gyfraith. Ar gyfer pob maes dylent allu datgan y mathau o gyfreithiau sy'n cael eu cwmpasu, gyda rhai enghreifftiau.

Nod dysgu B

Ar gyfer **2B.LI4**: dylai dysgwyr esbonio'r math o waith sy'n cael ei wneud gan yr holl lysoedd o fewn y system gyfreithiol yn ogystal â dangos y strwythur sydd yn ei le. Dylai enghreifftiau perthnasol gael eu darparu drwy'r cyfan i ddarlunio'r esboniad hwn.

Ar gyfer **2B.LI5**: dylai dysgwyr ddisgrifio'r gwahanol bersonél sy'n gweithio o fewn y system gyfreithiol a'r rolau y maen nhw'n eu cyflawni. Gallai cymwysterau a hyfforddiant gael eu hystyried yn ogystal â'r llwybrau gyrfa y mae modd eu dilyn. Gallai'r gwaith gwahanol sy'n cael ei wneud gael ei gysylltu â'r gwahanol ddsobarthiad cyfraith a'r gwahanol lysoedd.

Ar gyfer **2B.T3**: dylai dysgwyr gymharu'r system cyfiawnder troseddol gyda'r system cyfiawnder sifil gan edrych ar y tebygrwydd a'r gwahaniaethau sy'n bodoli. Gallent ystyried y mathau o achosion, y gwahanol lysoedd a'r gwahanol bersonél i wneud y cymariaethau hyn.

Ar gyfer **2B.T4**: dylai dysgwyr gymharu rôl lleygwyr sy'n gweithio o fewn y system gyfreithiol gyda rôl personél proffesiynol, gan edrych ar debygrwydd a gwahaniaethau. Dylent ystyried y gwahaniaethau yn yr hyfforddiant a'r gwaith gafodd ei wneud. Dylai dysgwyr ddefnyddio dwy enghraifft o bob math o bersonél i ddarparu'r sylfaen ar gyfer cymariaethau.

Ar gyfer **2B.Rh2**: dylai dysgwyr ystyried pam mae'r gwahanol bersonél yn cael eu neilltuo i wahanol lysoedd a pham maen nhw'n ymgymryd â gwahanol fathau o waith. Bydd hyn yn arwain dysgwyr i ystyried pam mae ynadon yn clywed achosion llai, gyda barnwyr yn delio gydag achosion mwy cymhleth neu ddifrifol. Dylent ystyried manteision ac anfanteision cael y system wedi ei threfnu fel hyn. Gallent hefyd ystyried a yw achosion yn cael eu trafod mewn modd cyflym ac effeithiol drwy ddefnyddio'r system hon o ddsobarthu achosion.

Ar gyfer **1B.4**: dylai dysgwyr amlinellu'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y llysoedd gwahanol y maen nhw'n eu nodi mewn diagram yn dangos strwythur y system gyfreithiol. Dylent ddangos yr holl lysoedd allweddol yn eu diagram a darparu sylw cryno yn nodi beth mae pob un yn ei wneud.

Ar gyfer **1B.5**: dylai dysgwyr nodi'r personél allweddol o fewn y system gyfreithiol a rhoi amlinelliad cryno o'r gwaith y maen nhw'n ei wneud.

Nod dysgu C

Ar gyfer **2C.LI6**: dylai dysgwyr esbonio'r broses ar gyfer achos troseddol. Dylent gychwyn gydag ystyriaethau mewn perthynas â mechnïaeth a mynd ymlaen drwy'r gwahanol gamau yn arwain at achos troseddol. Dylai bod esboniad o'r treial ei hun mewn perthynas ag achosion yr erlyniad a'r amddiffyn hyd at y dyfarniad ei hun. Dylai enghraifft droseddol berthnasol gael ei defnyddio i ddarlunio sut y byddai achos yn symud drwy'r gwahanol gamau.

Ar gyfer **2C.LI7**: dylai dysgwyr esbonio'r broses ar gyfer achos sifil. Dylent gychwyn gyda'r mater sydd wedi arwain at gyhoeddi hawliad a symud ymlaen drwy gamau achos sifil yn arwain at y penderfyniad terfynol. Dylai enghraifft sifil berthnasol gael ei defnyddio i ddarlunio sut y byddai achos yn symud drwy'r gwahanol gamau.

Ar gyfer **2C.LI8**: dylai dysgwyr esbonio'r canlyniadau sy'n gallu deillio o'r llysoedd yn y wlad hon. Dylai hyn gynnwys y cosbau sifil a throseddol all gael eu defnyddio a dylai olygu bod y dysgwr yn darparu disgrifiad cryno o bob un y mae'n ei ystyried ac ar gyfer beth allai pob un gael ei ddefnyddio.

Ar gyfer **2C.T5**: dylai dysgwyr gymharu'r broses ar gyfer achos troseddol gyda'r broses ar gyfer achos sifil gan edrych ar y tebygrwydd a'r gwahaniaethau sy'n bodoli rhyngddynt. Gall hyn gynnwys edrych ar leoliad a phersonél yn ogystal â'r camau sy'n digwydd.

Ar gyfer **2C.T6**: dylai dysgwyr ddadansoddi effaith canlyniadau sy'n gallu deillio o achosion llys. Bydd hyn yn galw am ystyried yr effaith y bydd y gosb yn ei chael ar y person dan sylw a'r pwyntiau da a drwg all fod yn gysylltiedig â hyn.

Ar gyfer **2C.Rh3**: dylai dysgwyr asesu effaith y canlyniadau all ddeillio dan y gyfraith. Bydd hyn yn golygu ystyried a yw'r cosbau'n ddigon i fod yn rym ataliol a ph'un a ydyn nhw'n cwrdd ag anghenion cymdeithas mewn perthynas â rheoli trosedd. Oes yna unrhyw fanteision neu anfanteision sy'n gysylltiedig â phob un o'r canlyniadau? Ydyn nhw'n cael yr effaith a ddymunir ar bobl sydd wedi troseddu? Ydy aelodau eraill y gymdeithas yn eu gweld yn ddigonol? Dylai dysgwyr hefyd ystyried effaith ehangach y gall achosion cyfreithiol ei chael, megis yr effaith ar y teuluoedd sydd ynghlwm wrthynt.

Ar gyfer **1C.6**: dylai dysgwyr amlinellu camau achos troseddol. Dylent roi manylion cryno o beth sy'n digwydd ar bob cam a gallant gynnwys enghraifft berthnasol.

Ar gyfer **1C.7**: dylai dysgwyr amlinellu camau achos sifil. Dylent roi manylion cryno o beth sy'n digwydd ar bob cam a gallant gynnwys enghraifft berthnasol.

Ar gyfer **1C.8**: dylai dysgwyr amlinellu'r prif ganlyniadau sy'n gallu cael eu trefnu gan y llysoedd gyda sylw cryno ar gyfer pob un ohonynt.

Awgrymiadau ar gyfer aseiniadau

Mae'r tabl isod yn dangos rhaglen amlinelliadau aseiniadau posibl sy'n cwmpasu'r meini prawf asesu. Arweiniad yw hwn, ac awgrymir bod canolfannau naill ai'n ysgrifennu eu haseiniadau eu hunain neu'n addasu unrhyw aseiniadau y byddwn ni'n eu darparu i gwrdd ag anghenion ac adnoddau lleol.

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Senario	Tystiolaeth asesu
1A.1, 1A.2, 1A.3, 2A.LI1, 2A.LI2, 2A.LI3, 2A.T1, 2A.T2, 2A.Rh1	<p>Mae system gyfreithiol Lloegr yn wahanol i'r systemau sy'n cael eu defnyddio mewn gwledydd eraill. Mae'ch dosbarth wedi cael cais i gynhyrchu gwybodaeth fydd yn rhoi gwybodaeth i fyfyrwyr cyfnewid am ein system ni.</p> <p>Byddwch yn gyntaf yn cynhyrchu arddangosfa wal yn dangos llinell amser o ddatblygiad system gyfreithiol Lloegr. Byddwch hefyd yn cynhyrchu llyfryn gwybodaeth yn disgrifio o ble mae cyfraith yn dod yn y wlad hon, gan gymharu'r ffynonellau hyn ac asesu sut maent yn cysylltu â'i gilydd. Bydd eich llyfryn hefyd yn cynnwys disgrifiad o gyfraith droseddol a sifil o fewn cyfraith Lloegr sy'n cymharu'r gwahanol feysydd, gydag enghreifftiau'n cael eu defnyddio i ddarlunio'r drafodaeth.</p>	<p>Poster/arddangosfa wal llinell amser.</p> <p>Llyfryn gwybodaeth.</p>

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Senario	Tystiolaeth asesu
<p>1B.4, 1B.5, 2B.LI4, 2B.LI5, 2B.T3, 2B.T4, 2B.Rh2</p>	<p>Yn dilyn llwyddiant eich arddangosfa wal a'ch llyfryn gwybodaeth rydych wedi cael cais i baratoi cyflwyniad ar gyfer y myfyrwyr cyfnewid fydd yn ystyried strwythur y system gyfreithiol a'r rolau oddi mewn iddi.</p> <p>Dylech sicrhau fod eich cyflwyniad yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • disgrifiad o system gyfreithiol Lloegr gyda diagram i gyd-fynd • trafodaeth am y gwahanol fathau o waith sy'n cael ei wneud ym mhob sefydliad, gyda chymariaethau'n cael eu gwneud rhwng y gwahanol lysoedd ac asesiad manwl o ba mor dda mae'r system yn gweithio i ddelio gyda materion cyfreithiol • disgrifiad o'r gwahanol bersonél cyfreithiol o fewn ein system a chymhariaeth o'r rolau y maent yn eu cyflawni a'r gwaith y maent yn ei wneud. 	<p>Cyflwyniad.</p> <p>Sgript.</p> <p>Taflen o'r sleidiau i'w dosbarthu.</p>

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Senario	Tystiolaeth asesu
1C.6, 1C.7, 1C.8, 2C.LI6, 2C.LI7, 2C.LI8, 2C.T5, 2C.T6, 2C.Rh3	<p>Eich darn olaf o wybodaeth ar gyfer y myfyrwyr cyfnewid fydd darn o waith ysgrifenedig sy'n disgrifio'n glir y camau sydd ynghlwm wrth achosion cyfreithiol a'r canlyniadau all ddilyn.</p> <p>Rhaid i'ch gwaith gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • disgrifiadau a chymariaethau achosion sifil a throreddol • disgrifiadau o'r canlyniadau all gael eu defnyddio ynghyd â dadansoddiad o'u heffeithiau ac asesiad o ba mor dda y maent yn gweithio ac a ydynt yn addas i'r pwrpas y'u bwriadwyd. 	Gwaith ysgrifenedig - traethawd neu adroddiad.

